View metadata, citation and similar papers at core.ac.uk
brought to you by CORE
provided by Aberystwyth Research Portal

# Rhyddfrydiaeth ac Adferiad Iaith

**Dafydd Huw Lewis**

Traethawd Ymchwil PhD

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Prifysgol Aberystwyth

Ionawr 2009

# Datganiadau

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn yn flaenorol ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r traethawd hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae gwasanaethau cywiro wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn.

Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Yr wyf drwy hyn yn rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd â'i gilydd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

**Arwyddwyd:** ___________________________________________

**Dyddiad:** ______________________________________________

# Crynodeb

Amcan y traethawd hwn yw ystyried sut gall egwyddorion rhyddfrydol gyfrannu at oleuo ein dealltwriaeth o foesoldeb y broses o adfer ieithoedd lleiafrifol. Eir ati i ystyried y mater hwn trwy osod dau gwestiwn ymchwil penodol. Yn gyntaf, gofynnir sut dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith? Yn ail, ystyrir i ba raddau y mae rhai o'r camau ymarferol a gymerir wrth geisio gwireddu nod o'r fath yn arwain at dramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol. Rhennir y traethawd yn ddwy ran, ac fe drafodir y cyntaf o'r cwestiynau hyn yn ystod y rhan gyntaf, a'r ail gwestiwn yn ystod yr ail ran.

Yn achos y cwestiwn cyntaf, dangosir nad oes dim byd annerbyniol, o safbwynt rhyddfrydol, ynglŷn ag adferiad iaith. Ond, ar yr un pryd, gwelir na all rhyddfrydwyr gysyniadoli'r dasg fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder, gan y byddai hynny'n arwain at broblemau moesol sylweddol. O ganlyniad, cesglir taw fel gweithred dderbyniol y dylid cysyniadoli adferiad iaith; un o'r amrediad eang o bethau sy'n gwbl briodol i lywodraethau rhyddfrydol-democrataidd geisio'u cyflawni pan fo hynny'n adlewyrchu casgliadau a ddaethpwyd iddynt ar sail trafodaethau democrataidd agored a theg, ond eto nid rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder.

Yn achos yr ail gwestiwn, cydnabyddir fod rhai polisïau adferol yn camu dros drothwy'r hyn a ystyrir yn dderbyniol gan ryddfrydwyr. Fodd bynnag, dadleuir mai eithriadau'n unig yw'r rhain, a bod y mwyafrif helaeth o'r polisïau a weithredwyd

wrth geisio adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol yn tueddu i gydorwedd yn gwbl gyfforddus gydag egwyddorion rhyddfrydol.

# Cynnwys


*Rhagair* vi

1. Cyflwyniad: Rhyddfrydiaeth ac Adferiad Iaith 1

**Rhan I: Statws Moesol Adferiad Iaith**

2. Adferiad Iaith: Gweithred Hanfodol ym Mhob Sefyllfa? 41

3. Adferiad Iaith: Dim Mwy na Gweithred Dderbyniol? 73

**Rhan II: Camau Ymarferol a Chyfyngiadau Normadol**

4. *Le Français, une langue pour tous le monde*: Sefydlu'r Ffrangeg fel iaith gyhoeddus gyffredin Quebec 110

5. *Iaith Pawb*: Adfer y Gymraeg yng Nghymru 186

6. Casgliadau 256

*Llyfryddiaeth* 274

# Rhagair

Pe bai'n rhaid i mi nodi pryd yn union y cychwynnodd y broses o lunio'r traethawd hwn, yna mae'n bosib iawn mai cyfeirio a wnawn at un o seminarau'r cwrs Cenedlaetholdeb a Hunaniaeth Genedlaethol, a ddilynais yn ystod Gwanwyn 2002, wrth astudio ar gyfer gradd meistr yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Pwnc y seminar arbennig honno oedd Rhyddfrydiaeth, Amlddiwylliannedd a Chenedlaetholdeb, a'r bwriad oedd ein cyflwyno i drafodaeth bwysig ym maes athroniaeth wleidyddol gyfoes.

A siarad yn gyffredinol, roedd y drafodaeth honno'n ymwneud â'r graddau y gallai rhyddfrydwyr ymateb mewn modd priodol a theg i alwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol am gydnabyddiaeth o'u nodweddion unigryw. Am gyfnod go helaeth, tybiwyd nad oedd rhyddfrydiaeth yn meddu ar yr adnoddau deallusol i ymdrin yn foddhaol â phwnc 'cymunedol' o'r fath, yn sgil pwyslais traddodiadol (ac yn nhyb rhai, amhriodol) y syniadaeth ar yr unigolyn. Fodd bynnag, fel y dysgais yn ystod y seminar, nid pawb oedd yn rhannu'r dybiaeth hon. Deuthum i weld fod to newydd o athronwyr rhyddfrydol wedi codi yn ystod y 1990au, a bod y garfan hon – carfan y cyfeirir atynt weithiau fel y Rhyddfrydwyr Diwylliannol – wedi mynd ati i amddiffyn y syniadaeth. Un a chwaraeodd ran flaenllaw yn y symudiad hwn oedd yr athronydd o Ganada, Will Kymlicka. Mewn gweithiau pwysig megis *Liberalism, Community and Culture* (1989) a *Multicultural Citizenship* (1995) dangosodd Kymlicka ei bod hi'n gwbl bosib asio'r pwyslais rhyddfrydol traddodiadol ar ryddid unigol, gyda pharch at ymlyniadau cymunedol a diwylliannol.

Creodd y syniadau newydd hyn gryn argraff arnaf. Ar y pryd, roeddwn yn weithgar yn rhengoedd Cymdeithas yr Iaith, ac felly'n ymddiddori gryn dipyn yn y drafodaeth ynglŷn â dyfodol y Gymraeg. Fel y gwŷr unrhyw un sydd wedi dilyn y drafodaeth honno dros y blynyddoedd, un o'i nodweddion amlycaf yw'r pwyslais a roddir ar rôl y gymuned leol. A siarad yn gyffredinol, tybir bod sicrhau parhad i fywyd cymunedol yn rhan hanfodol o'r broses o sicrhau parhad i'r iaith. Yn sicr, nid yw'r dadleuon hyn heb eu sail. Fodd bynnag, un o'r pethau a'm tarodd dros y blynyddoedd yw'r modd y mae'r pwyslais hwn ar y gymuned wedi arwain rhai i fabwysiadu safbwyntiau gwleidyddol sy'n cynnwys amheuaeth gref o rinweddau unigolyddiaeth, ac yn sgil hynny ryddfrydiaeth. Credir na all gwerthoedd o'r fath fod yn gyfrwng i ddiogelu ffenomen gymdeithasol fel iaith.

Trwy ddysgu am syniadau'r rhyddfrydwyr diwylliannol, deuthum i weld bod modd codi amheuon sylweddol ynglŷn â chywirdeb tybiaethau tebyg i'r uchod. Eto i gyd, gan nad oedd yr athronwyr hyn wedi edrych yn benodol ar y broses o adfer iaith, ni ellid bod yn gwbl sicr. Er mwyn dod i benderfyniad terfynol roedd angen ymchwilio ymhellach; roedd angen llunio prosiect ymchwil a fyddai'n ymdrin yn systematig â'r broses o adfer iaith, a hynny o bersbectif syniadau rhyddfrydol. Ymgais i wneud hynny yw'r traethawd hwn, ac mae'r casgliadau, ar y cyfan, yn cadarnhau fy amheuon gwreiddiol. Y gwir amdani yw bod rhyddfrydiaeth yn syniadaeth sy'n meddu ar yr adnoddau deallusol i ddilysu sawl agwedd o'r broses o adfer iaith. O ganlyniad, cam gwag fyddai ymwrthod â rhyddfrydiaeth, gan guddio tu ôl i sloganau gwag ynglŷn ag unigolyddiaeth. Yn hytrach, dylai'r sawl sy'n pryderu ynglŷn â

dyfodol gwahanol ieithoedd lleiafrifol dreulio amser yn ystyried rhinweddau'r syniadaeth, gan fod ganddi'r gallu i'w harfogi ar gyfer dadleuon y dyfodol.

* * * * * * * * * * * * * *

Ni fyddai llunio'r gwaith hwn wedi bod yn bosib heb gymorth nifer fawr o bobl. O ganlyniad, hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad iddynt yma. Dechreuaf gyda'r pellaf oddi cartref. Rwyf yn ddyledus dros ben i'r Athro Will Kymlicka o Adran Athroniaeth Prifysgol Queens, Kingston, Ontario am ei gyngor a'i gymorth parod. Ac yntau'n ysgolhaig mor flaenllaw, sylweddolaf fod y galw am ei amser yn sylweddol. Yn sgil hynny, roeddwn yn werthfawrogol tu hwnt o'r amser a neilltuodd i gael ei gyfweld a hefyd i drafod gwahanol agweddau o'r prosiect. Yn ogystal, hoffwn ddiolch i aelodau eraill yr adran am eu croeso cynnes yn ystod fy nghyfnod yno fel ysgolhaig gwadd ym mis Ionawr a mis Chwefror 2007.

Ar ôl gadael Kingston, treuliais gyfnod dymunol yn ninas Montreal yn casglu gwybodaeth ynglŷn â pholisïau iaith Quebec. Hwyluswyd y broses honno'n sylweddol gan gymorth Claire Martin a Chantale Robinson o'r *Office Québécoise de la Langue Français.* Yn ogystal hoffwn ddiolch i'r Athro Daniel Weinstock a'r Athro Michel Seymour o Adran Athroniaeth yr *Université de Montréal* am fod mor barod i'm goleuo ynglŷn â sawl agwedd o gymdeithas a gwleidyddiaeth Quebec.

Yn ôl yma yng Nghymru, bu'r Dr Jeremy Evas, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn ffynhonnell gyson o wybodaeth a chyngor. Ar ben hynny, bûm yn ffodus i dderbyn

cyngor mewn perthynas â gwahanol agweddau o'r gwaith gan Cynog Dafis, Steve Eaves a Patrick Carlin. Diolch hefyd i aelodau'r 'Grŵp Trafod Ieithyddol' am eu sylwadau adeiladol ar rai rhannau o'r traethawd.

Mae'n siŵr fod fy ngoruchwylwyr, Yr Athro Richard Wyn Jones a'r Dr Anwen Elias, bellach wedi hen syrffedu ar fy nghlywed yn rhygnu 'mlaen ynglŷn â rhyddfrydiaeth neu'n paldaruo ynglŷn â rhyw agwedd ar bolisi iaith. Fodd bynnag, bu eu parodrwydd cyson i wrando, darllen, pryfocio a thrafod yn gymorth amhrisiadwy wrth i mi geisio rhoi trefn ar fy syniadau.

A minnau wedi dechrau gyda'r pellaf oddi cartref, mae'n briodol felly i orffen ar y stepen ddrws: diolch i Mam a Dad am eu cefnogaeth ddi-ball; diolch i Rhys am ei ddiffyg diddordeb; ac yn bennaf oll, diolch i Ffion am ei chariad ac am ei hamynedd!

# 1. Cyflwyniad: Rhyddfrydiaeth ac Adferiad Iaith

## 1. Adferiad Iaith

Pwnc trafod y traethawd hwn yw polisi iaith, ac yn benodol, y polisïau ieithyddol hynny sy'n ymdrechu i adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol. Fel arfer, bydd yr ieithoedd sy'n sail i raglenni polisi o'r fath yn arddangos nodweddion o'r broses a adnabyddir gan gymdeithasegwyr iaith fel 'shifft' ieithyddol (Fishman 1991). A siarad yn gyffredinol, dyma'r broses a welir ar waith pan fo'r prosesau cymdeithasol sy'n cyfrannu at gynnal unrhyw gymuned ieithyddol yn dechrau datgymalu. Yn aml, bydd yn cychwyn wrth i un iaith gref (fel arfer iaith oruchafol y wladwriaeth) ddisodli iaith arall wannach fel yr iaith a ddefnyddir mewn amrediad o beuoedd cymdeithasol pwysig, megis y drefn addysg, swyddfeydd y llywodraeth a'r economi. Bydd newid o'r fath yn ergyd sylweddol i ragolygon unrhyw iaith. I ddechrau, bydd yn cyfyngu'n sylweddol ar y cyfleoedd sydd ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, gall hefyd arwain at danseilio'r broses o gynhyrchu siaradwyr. Deillia hyn o'r ffaith y bydd y dirywiad mewn statws cyhoeddus yn effeithio ar agweddau pobl tuag at yr iaith, gan danseilio'r cymhelliad i'w dysgu, ei defnyddio a hefyd i'w throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall.

Gellir diffinio polisïau sydd â'r nod o adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol fel rhai sy'n ymdrechu i wrth-droi'r broses hon o 'shifft' ieithyddol. Golyga hyn fod camau pendant yn cael eu cymryd i gefnogi'r iaith wan. Gall hyn gynnwys cynlluniau sy'n anelu i greu mwy o siaradwyr, er enghraifft trwy gyfrwng y drefn addysg. Yn ogystal, gall gynnwys polisïau sy'n estyn yr iaith i beuoedd cymdeithasol

newydd, gan ehangu ar y defnydd a wneir ohoni, a'i normaleiddio fel cyfrwng cyfathrebu byw. At ei gilydd, y gobaith yw y bydd camau o'r fath yn arwain at atal dirywiad yr iaith ac yn adfer ei hyfywedd. Fel y noda Christina Paulston *et al*, 'Revitalization refers to situations where a subordinate language experiences new energy and strength through expanded use' (Paulston *et al* 1993: 284). Ychwanegir at hyn gan Joaquim Torres, sy'n disgrifio adferiad iaith fel 'a process during which a language gradually recovers the formal functions it [has] lost and at the same time works its way into those social sectors within its own territory, where it was not spoken before' (Torres 1984: 59 – 60).

Tan yn ddiweddar, ychydig iawn o sylw a roddwyd i'r syniad yma o geisio adfer sefyllfa ieithoedd lleiafrifol. Drwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hefyd am ran sylweddol o'r ugeinfed ganrif, y 'synnwyr cyffredin' oedd bod dirywiad ieithoedd o'r fath yn rhywbeth y dylid ei groesawu, neu hyd yn oed ei annog. Deilliai hyn o'r ffaith fod ieithoedd lleiafrifol yn tueddu i gael eu dehongli fel creadigaethau cyntefig a oedd yn gwbl anghyson â thueddiadau modernaidd neu Ddarwinaidd yr oes (G. H. Jenkins 1999; Jenkins a Williams 2000). Datblygiad a chynnydd oedd y flaenoriaeth, a dim ond trwy gyfrwng rhai ieithoedd mawr y gellid cyflawni hynny. O ganlyniad, gweithred cwbl hurt ac afresymol fyddai ceisio ffrwyno a gwrthdroi dirywiad unrhyw beth a oedd yn debygol o arafu'r broses o gyflawni amcanion o'r fath (Nelde *et al* 1996; Williams a Morris 2000).

Fodd bynnag, yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, aethpwyd ati i herio'r rhesymeg hon, a daeth lles gwahanol ieithoedd lleiafrifol i gael ei ystyried yn bwnc na

ellid ei ddiystyru. Nid oedd y newid hwn yn un a gyfyngwyd i'r sffêr ieithyddol. Roedd yn rhan o broses ehangach a arweiniodd at sicrhau lle mwyfwy amlwg ar yr agenda gwleidyddol i amrediad o bynciau a oedd yn ymwneud â lles lleiafrifoedd diwylliannol. Er enghraifft rhoddwyd sylw cynyddol i natur y gydnabyddiaeth wleidyddol, diriogaethol a chrefyddol a estynnwyd i genhedloedd lleiafrifol neu i grwpiau o fewnfudwyr ethnig (Kymlicka 1995b).[1] Eto i gyd, yn y cyd-destun ieithyddol, un o ganlyniadau'r broses oedd creu hinsawdd a oedd yn llawer mwy ffafriol i'r syniad o geisio adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol. Yn wir, mae'r newid a welwyd ers tua dechrau'r 1960au wedi bod yn syfrdanol. Erbyn heddiw, mae ymdrechion i adfer ieithoedd lleiafrifol i'w gweld ar waith mewn nifer helaeth o leoliadau, ac mae'r arferion polisi a gysylltir gydag ymdrechion o'r fath wedi datblygu'n fwyfwy soffistigedig ac yn fwyfwy pellgyrhaeddol o ran eu sgôp.

Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried y sefyllfa mewn nifer o genhedloedd lleiafrifol gorllewinol.[2] Yng Ngwlad y Basg, er enghraifft, cychwynnodd yr ymdrech gyfoes i adfer sefyllfa'r Fasgeg yn dilyn marwolaeth y Cadfridog Franco a chwymp y drefn Ffasgaidd yn ystod y 1970au. Am ddegawdau cyn hynny, roedd yr iaith a'i siaradwyr wedi profi cyfnod o orthrwm go eithafol. Cafodd y defnydd cyhoeddus ohoni, boed yn llafar neu'n ysgrifenedig, ei wahardd bron yn llwyr ac ar ben hynny,

---

[1] Yn wir, ni ddylai'r sylw cynyddol a roddwyd i sefyllfa grwpiau lleiafrifol gael ei ddehongli fel proses a oedd wedi ei gyfyngu i'r sffêr diwylliannol yn unig. Yn hytrach, gellid ei ddehongli fel rhan o symudiad cyfoes ehangach, sydd hefyd yn cwmpasu galwadau gan nifer o grwpiau cymdeithasol eraill, megis menywod, pobl hoyw a phobl anabl (Young 1990). Fel yn achos nifer o'r grwpiau diwylliannol, gwelwyd bod y grwpiau hyn hefyd wedi dechrau galw am gydnabyddiaeth o'u hanghenion arbennig ac ar i gymdeithas addasu ei harferion er mwyn bod yn fwy cynhwysol. At ei gilydd, mae'r cynnydd hwn mewn galwadau diwylliannol a chymdeithasol eu natur wedi arwain at sefydlu 'cydnabyddiaeth' fel ffactor mwyfwy allweddol mewn trafodaethau gwleidyddol cyfoes (Fraser 1995).

[2] Wrth gwrs, nid yw adferiad iaith yn amcan polisi sydd ond yn cael ei gysylltu â chenhedloedd lleiafrifol (Grenoble a Whaley 2006: 1). Eto i gyd, teg yw casglu ei fod yn nodwedd go amlwg o nifer o'r polisïau ieithyddol a fabwysiadir gan genhedloedd lleiafrifol.

cyfyngwyd ar y defnydd ohoni ym maes addysg a rhoddwyd terfyn ar unrhyw gyhoeddiadau Basgeg. Fodd bynnag, datganodd Statud Ymreolaeth Gwlad y Basg, a fabwysiadwyd ym 1979, y câi'r Fasgeg – 'priod iaith' y Basgiaid – ei chydnabod fel iaith swyddogol ochr yn ochr â'r Sbaeneg. Fel y noda Nick Gardner *et al* (2000: 324), y datganiad hwn oedd yn gosod sail ar gyfer yr ymdrech gyfoes i adfer a normaleiddio'r Fasgeg. Cafodd y broses ei gwthio ymlaen ymhellach ym 1982 yn dilyn pasio deddf iaith gynhwysfawr – 'Deddf i Normaleiddio'r Defnydd o'r Fasgeg'. Fel yr awgryma'r teitl, nid dim ond rheoleiddio'r berthynas rhwng dwy iaith swyddogol oedd bwriad y sawl a luniodd y ddeddf hon. Yn hytrach, yr amcan oedd ceisio gwrth-droi'r shifft a fu tuag at y Sbaeneg, gan adfer a normaleiddio'r Fasgeg, a hynny trwy gynyddu'r nifer o siaradwyr ac ehangu ar y defnydd a wnaed o'r iaith (Gardner *et al* 2000: 324 a 326). O ganlyniad mae'r ddeddf iaith hon yn cynnwys nifer o gymalau sy'n cyfeirio at yr angen i sicrhau lle i'r Fasgeg mewn meysydd allweddol megis byd addysg, y cyfryngau, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r llysoedd.

Fel yn achos y Fasgeg, dioddefodd y Gatalaneg yn sylweddol yn ystod cyfnod Franco.[3] Ond datganodd Statud Ymreolaeth Catalonia (1979) y câi'r Gatalaneg – 'priod iaith' Catalonia – ei chydnabod yn iaith swyddogol ochr yn ochr â'r Sbaeneg. Ar ben hynny, datganodd y byddai'r Generalitat, sef y llywodraeth ranbarthol, yn gweithio i greu amodau a fyddai'n caniatáu i drigolion Catalonia ddysgu a defnyddio'r ddwy iaith. Dilynwyd hyn yn ystod y 1980au a'r 1990au gan ddwy ddeddf iaith

[3] Yn ogystal, law yn llaw â gorthrwm uniongyrchol Franco, dioddefodd rhagolygon y Gatalaneg yn sgil rhai o newidiadau cymdeithasol y cyfnod. Yr amlycaf o'r newidiadau hyn oedd twf economaidd a fu yn y rhanbarth yn ystod y 1950au a'r 1960au. Arweiniodd hyn at fudo sylweddol i Gatalonia o rannau eraill o Sbaen. Cyfrannodd hyn at danseilio statws cymdeithasol y Gatalaneg ymhellach, gan nad oedd y mewnfudwyr, a ymgartrefai'n bennaf o amgylch Barcelona, yn gweld unrhyw angen i ddysgu'r iaith. Yn wir, yn absenoldeb unrhyw bolisïau i ddyrchafu'r Gatalaneg, prin oedd cyswllt y mewnfudwyr â hi beth bynnag (Gardner *et al* 2000: 338).

bwysig. Pasiwyd y cyntaf ym 1983 a'r ail ym 1998. Unwaith eto, roedd y deddfau hyn yn cynnwys cymalau a oedd yn ymwneud â meysydd megis gweinyddiaeth gyhoeddus, y drefn addysg, y cyfryngau a chynnyrch diwylliannol. At ei gilydd, prif amcan y deddfau oedd adfer sefyllfa'r Gatalaneg, gan normaleiddio'r defnydd ohoni ym mhob agwedd o fywyd. Fel y noda Gardener *et al*, 'The central policy of Catalonia is fully to normalize the Catalan language, that is, to return to normality the use of the language in all areas of public life' (Gardner *et al* 2000: 342).

Enghraifft Ewropeaidd arall yw'r ymdrech i adfer sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Ers cyflwyno'r Deddfau Uno ym 1536 – y deddfau a arweiniodd at ymgorffori Cymru'n wleidyddol, yn gyfreithiol ac yn weinyddol fel rhan o wladwriaeth Lloegr – cafodd y Gymraeg, i bob pwrpas, ei chau allan o fywyd cyhoeddus y genedl. Eto i gyd, yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif cymerwyd camau i ail godi statws yr iaith. Ymhlith y datblygiadau hyn roedd y penderfyniad i sefydlu sianel deledu Gymraeg, y twf sylweddol a welwyd yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg a hefyd Deddf yr Iaith Gymraeg a basiwyd ym 1993. Arweiniodd y mesurau hyn at gynnydd yn statws cyhoeddus yr iaith a hefyd at gynnydd graddol yn y defnydd a wnaed ohoni. Fodd bynnag, ychydig o feddwl strategol a fodolai tu ôl i'r ymdrechion hyn. Ar y cyfan, ymatebion cyndyn gan lywodraeth ganolog i ymgyrchoedd penderfynol oeddent, yn hytrach na chynllunio ieithyddol cydlynol (Phillips 2000).

Daeth cyfle i lunio polisi iaith mwy trefnus a rhagweithiol yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Wedi cyfnod o ymgynghori go sylweddol,

mabwysiadodd y llywodraeth newydd gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002). Amlinellwyd y cynllun hwn mewn dogfen bolisi a oedd yn dwyn yr enw priodol *Iaith Pawb,* ac fel y gwelir o ddarllen rhagair y ddogfen honno, roedd y llywodraeth yn amcanu i adfer sefyllfa'r iaith: 'Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gefnogi a hybu'r Gymraeg ... byddwn yn gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i greu'r amodau cywir lle gall yr iaith Gymraeg dyfu a blodeuo ym mhob agwedd o fywyd Cymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002: 2).

Wrth edrych tu hwnt i Ewrop, achos arall sy'n bwysig i'w ystyried yw Quebec. Ar yr olwg gyntaf, gall ymddangos braidd yn od fod Quebec yn cael ei thrafod yng nghyd-destun ymdrechion i adfer a normaleiddio ieithoedd. Yn ystod y 1960au, pan gychwynnodd yr ymdrechion i ddyrchafu'r Ffrangeg, roedd yr iaith yn parhau i fod yn famiaith i dros 80 y cant o'r boblogaeth ac roedd tua thri chwarter ohonynt yn siaradwyr uniaith (Bourhis 2001: 105). Fodd bynnag, er gwaethaf sefydlogrwydd cymharol y Ffrangeg yn Quebec, roedd rhai o dueddiadau'r cyfnod yn awgrymu'n gryf mai bregus oedd rhagolygon tymor hir yr iaith. Roedd shifft i gyfeiriad y Saesneg yn datblygu'n gyflym (Fishman 1991).

Ffactor a oedd yn cyfrannu at y newid hwn oedd statws goruchafol y Saesneg o fewn economi Quebec. Er mai hi oedd iaith y lleiafrif, y Saesneg oedd iaith gwaith o fewn yr economi, ac yn enwedig felly ar y lefelau uwch. O ganlyniad, roedd y defnydd o Saesneg gan siaradwyr Ffrangeg yn cynyddu wrth iddynt ddringo'n uwch o fewn yr economi. Ymhellach, pe byddai siaradwyr Ffrangeg yn llwyddo i sicrhau

dyrchafiad, byddai hynny ond yn digwydd ar yr amod ei fod ef neu hi'n gymwys i gyflawni'r gwaith trwy gyfrwng y Saesneg. Roedd hyn, yn ei dro, yn dylanwadu'n sylweddol ar dueddiadau ieithyddol y sawl a oedd yn mudo i Quebec, gan olygu fod statws y Ffrangeg fel prif iaith y gymdeithas dan fygythiad (Bourhis 2001).

O ganlyniad i dueddiadau o'r fath, bu galw am bolisïau cadarnhaol a fyddai'n adfer statws y Ffrangeg mewn perthynas â'r Saesneg ac yn normaleiddio'r defnydd ohoni mewn peuoedd lle bu gynt yn absennol. Er mwyn ceisio cyflawni hyn, cyflwynwyd cyfres o ddeddfau iaith pwysig yn ystod y 1960au a'r 1970au. Heb amheuaeth, y pwysicaf o'r deddfau hyn oedd Mesur 101 (Siarter yr Iaith Ffrangeg) a gyflwynwyd ym 1977 gan lywodraeth y *Parti Québécois*. Fel y noda Stephen May, amcan y mesur hwn oedd gwrth-droi gwendid hanesyddol y Ffrangeg ochr yn ochr â'r Saesneg trwy ei sefydliadoli fel prif iaith yr economi, y drefn addysg a'r byd gwleidyddol (May 2001: 228).

Gwelir felly o'r enghreifftiau hyn fod yr ymdrechion i adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol wedi datblygu'n sylweddol dros y degawdau diwethaf. Erbyn heddiw, mae ymdrechion o'r fath i'w gweld ar waith mewn sawl lleoliad gwahanol. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, gwelir fod natur y polisïau a fabwysiedir wrth gyrchu'r nod o adfer iaith wedi datblygu i fod yn rhai soffistigedig a phellgyrhaeddol. Bellach, mae'r polisïau hyn yn debygol o effeithio'n sylweddol ar sawl agwedd o rediad y wladwriaeth ddemocrataidd fodern, gan gynnwys y drefn gyfiawnder, y drefn addysg, y cyfryngau a'r economi. O ystyried hyn, rhaid casglu fod adferiad iaith yn

broses sy’n galw am sylw manwl, a hynny nid yn unig gan ysgolheigion ieithyddol, ond hefyd gan efrydwyr gwleidyddiaeth.

**2. Persbectif Normadol ar Adferiad Iaith**

O ystyried pwysigrwydd gwleidyddol yr ymdrechion hyn i adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol, diddorol yw nodi mai ychydig iawn sydd wedi’i ysgrifennu ynglŷn â’r pwnc gan athronwyr gwleidyddol. Yn sgil hynny, prin fu’r sylw ysgolheigaidd a roddwyd i ddimensiwn normadol y broses o adfer iaith. Wrth sôn am y dimensiwn normadol, cyfeirio a wneir at drafodaethau sy’n ymdrin â’r dadleuon moesol o blaid neu yn erbyn polisïau o’r fath. Sut, yn benodol, mae’r polisïau hyn yn gorwedd ochr yn ochr ag egwyddorion normadol pwysig, megis rhyddid, cyfiawnder, cydraddoldeb a democratiaeth? Beth yw’r terfynau na ddylai’r wladwriaeth eu croesi (Kymlicka 2001)?

I raddau helaeth, ni ddylid synnu ynglŷn â’r diffyg sylw normadol a roddwyd, hyd yn hyn, i’r broses o adfer iaith, gan mai ychydig iawn sydd wedi cael ei ysgrifennu gan athronwyr gwleidyddol ynglŷn â pholisi iaith yn gyffredinol. Mae’n ddigon gwir fod athronwyr gwleidyddol wedi rhoi llawer iawn o sylw i alwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Yn wir, mae hyn wedi arwain at nifer o drafodaethau diddorol sydd wedi tueddu i gael eu cwmpasu gan benawdau cyffredinol megis ‘amlddiwylliannedd’, ‘gwleidyddiaeth hunaniaeth’ neu ‘wleidyddiaeth cydnabod’. Fel rhan o’r trafodaethau hyn, cyhoeddwyd amryw o astudiaethau sy’n cymryd golwg gyffredinol ar oblygiadau amrywiaeth diwylliannol, a datblygwyd nifer o fframweithiau normadol cyffredinol sy’n nodi’n fras pa fath o

gamau y gall neu y dylai gwladwriaethau eu cymryd er mwyn ymateb yn deg i alwadau gwahanol grwpiau am gydnabyddiaeth o'u nodweddion unigryw (gweler er enghraifft Carens 2000; Kymlicka 1995a; Parekh 2000; Taylor 1992). Yn ogystal, cyhoeddwyd cyfres o drafodaethau manylach sy'n canolbwyntio ar y cwestiynau sy'n codi mewn perthynas ag agweddau penodol o amrywiaeth diwylliannol. Er enghraifft, cyhoeddwyd cyfrolau sy'n rhoi sylw manwl i bynciau megis hil (Cochran 1999), pobloedd brodorol (Ivison, Sanders a Patton 2000), mudo (Bauböck 1995; Cole 2000), cenedlaetholdeb (Tamir 1993; Miller 1995) a chrefydd (Rosenblum 2000). Fodd bynnag, er gwaethaf datblygiadau o'r fath, prin iawn fu'r sylw a roddwyd gan athronwyr gwleidyddol i faterion sy'n ymwneud â pholisi iaith, ac yn benodol i'r broses o adfer ieithoedd lleiafrifol.[4]

Mae'r drafodaeth gyffredinol ynglŷn ag amlddiwylliannedd a hawliau lleiafrifoedd yn cyffwrdd ar faterion ieithyddol o bryd i'w gilydd. Serch hynny, rhywbeth ysbeidiol yn unig ydyw ar y cyfan. Fel y noda Allan Patten a Will Kymlicka:

> Some of the concepts that figure prominently in these discussions are clearly relevant to debates about language policy, and language is often referred to as an example. But there have been relatively few attempts to apply systematically the insights from those theories to specific controversies over language or to formulate the theories in ways that take into account particular facts and social theories relating to language acquisition, language use and language shift (Patten a Kymlicka 2003: 12).

O ganlyniad, ar wahân i rai eithriadau prin, ychydig o ystyriaeth benodol a roddwyd, hyd yn hyn, i'r modd y mae gwahanol bolisïau iaith neu alwadau grwpiau iaith yn

[4] Fel y nododd Kymlicka, 'political theorists have had a lot to say about the language of politics – that is the symbols, metaphors and rhetorical devices of political discourse – but have had virtually nothing to say about the politics of language – that is, decisions about which languages to use in political, legal and educational forums' (Kymlicka 1995b: 2). Seiliwyd y sylw yma ar bwynt a wnaed yn wreiddiol gan Brian Weinstein (1983).

cydredeg ag egwyddorion normadol pwysig megis rhyddid, cyfiawnder, cydraddoldeb a democratiaeth.[5]

Mae adferiad iaith yn bwnc sydd wedi'i drafod yn fanwl iawn gan ysgolheigion mewn meysydd academaidd eraill. Er enghraifft, fe'i trafodwyd gan nifer o gymdeithasegwyr iaith a chynllunwyr iaith (gweler er enghraifft Fishman 1991 a 2001; Grenoble a Whaley 2006; Thomas a Mathias 2000; Williams 2000). Eto i gyd, gweithiau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddimensiwn empeiraidd ac ymarferol y broses yw rhain, yn hytrach na'r dimensiwn normadol. Caiff hyn ei adlewyrchu gan natur y cwestiynau ymchwil sy'n tueddu i gael eu trafod: Pa ffactorau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar statws gwahanol ieithoedd? Pa fath o bolisïau sy'n debygol o newid y statws hwn? Sut dylid penderfynu pa bolisïau i'w blaenoriaethu? Mae amryw o arsylwadau normadol i'w canfod ymhlyg yn y drafodaeth o'r cwestiynau hyn. Ond, fel y noda Helder De Schutter (2007: 16), nid yw'r pwyntiau normadol hyn yn cael eu gosod allan yn glir ac felly nid oes cyfle i gloriannu eu goblygiadau: 'traditional language policy fields do operate with many normative ideals which, however, are often only vaguely articulated and remain largely implicit.'

Yn sicr, ni ddylid diystyru'r cwestiynau ymarferol a drafodir gan gymdeithasegwyr iaith ac eraill; maent yn gwestiynau pwysig sydd angen eu hystyried yn fanwl os ydym, fel gwyddonwyr cymdeithasol, am fagu gwell dealltwriaeth o natur y broses o adfer iaith. Ond ar yr un pryd, ni ddylid anwybyddu dimensiwn normadol y

[5] Ymhlith yr eithriadau hyn ceir: Green 1987; Réaume 1991 a 2000; Patten 2001 a 2003; ac hefyd Kymlicka a Patten 2003.

broses honno. Wedi'r cyfan, ochr yn ochr â chwestiynau ymarferol, mae adferiad iaith yn broses sy'n codi nifer o gwestiynau normadol pwysig. Yn ogystal, wrth i ymdrechion i adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol ddod yn fwyfwy cyffredin, mae'n bosib iawn y bydd y cwestiynau normadol hyn ond yn dod yn fwyfwy perthnasol. O ganlyniad, mae'n hollbwysig fod athronwyr gwleidyddol yn ceisio llenwi'r gwagle presennol yn y llenyddiaeth, trwy roi sylw manwl i oblygiadau'r broses o adfer iaith. Amcan y traethawd hwn fydd cyfrannu at y broses honno. Eir ati i wneud hynny, trwy drafod dau o'r prif gwestiynau normadol sy'n codi mewn perthynas ag ymdrechion i adfer ieithoedd lleiafrifol, a hynny o bersbectif penodol; persbectif athroniaeth ryddfrydol gyfoes.

**3. Cwestiynau Ymchwil**

Y cwestiwn normadol cyntaf a drafodir yn ystod y traethawd yw: *Sut dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith?* Yn benodol, ystyrir a ddylent ei ddehongli fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder. Pam mae hwn yn gwestiwn sy'n haeddu cael ei drafod mor fanwl? Un o'r pethau mwyaf trawiadol ynglŷn â'r drafodaeth wleidyddol gyffredin mewn perthynas ag adferiad iaith yw natur foesol y drafodaeth honno. Yn bur aml, bydd lladmeryddion gwahanol ieithoedd lleiafrifol yn tueddu i bortreadu adferiad eu hieithoedd fel rhywbeth sy'n arbennig o bwysig o safbwynt cyfiawnder. A siarad yn gyffredinol, cred y bobl hyn fod eu hieithoedd wedi dirywio yn sgil cyfnod estynedig o anghyfiawnder, ac yn sgil hynny, caiff y dasg o'u hadfer ei gweld fel mater o gyfiawnder diamheuol. Fodd bynnag, ychydig o ystyriaeth a roddwyd, hyd yn hyn, i oblygiadau safbwynt o'r fath.

O ganlyniad, mae angen mynd ati i'w gloriannu'n fanwl, gan ystyried yn ofalus a ydyw'n safbwynt y gellir ei gymeradwyo o safbwynt rhyddfrydiaeth.

Yr ail gwestiwn a drafodir yn ystod y traethawd yw: *I ba raddau mae rhai o'r camau ymarferol a gymerir, wrth geisio gwireddu'r nod o adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol, yn arwain at dramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol?* Mae hwn yn gwestiwn pwysig, oblegid, wrth reswm, ni fydd rhyddfrydwyr yn barod i gymeradwyo pob un polisi y gellid ei gyflwyno fel rhan o ymdrech i adfer iaith leiafrifol. Er enghraifft, mae'n bur debyg y byddai rhyddfrydwyr yn gwrthwynebu polisïau adferol sy'n datgan mai *dim ond* yr iaith leiafrifol a ddylai gael ei defnyddio gan unigolion, hyd yn oed mewn sgyrsiau preifat. Byddai hynny'n mynd yn rhy bell. Ond beth am rai o'r polisïau adferol sydd ar waith ar hyn o bryd mewn gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd? Ydy rhain hefyd yn mynd yn rhy bell ac yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig? Yn sicr, mewn nifer o wahanol wledydd ar draws y byd mae gwahanol bolisïau iaith wedi bod yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o'r boblogaeth, ac yn bur aml mae gwrthwynebiadau'r bobl hyn wedi cynnwys ensyniadau ynglŷn â'r modd y mae gwahanol bolisïau yn tramgwyddo egwyddorion normadol megis rhyddid a chydraddoldeb. Ond, a oes unrhyw sail i wrthwynebiadau o'r fath? A yw rhai o'r camau ymarferol a gymerir heddiw, wrth geisio gwireddu'r nod o adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol, wir yn tramgwyddo egwyddorion pwysig ac felly'n annerbyniol o bersbectif rhyddfrydol?

Gwelir felly beth yw'r ddau gwestiwn ymchwil a fydd yn sail i drafodaeth y traethawd hwn. Maes o law fe amlinellir sut y trefnwyd y gwaith er mwyn ateb y

cwestiynau hyn. Ond cyn gwneud hynny, rhaid egluro'n fanwl pam y penderfynwyd eu trafod o bersbectif rhyddfrydol.

### 4. Rhyddfrydiaeth

Ar un adeg, ni fyddai mynd ati i drafod pwnc megis adferiad ieithoedd lleiafrifol o bersbectif rhyddfrydol wedi argoeli fel menter arbennig o addawol. Yn ystod cyfnod cynnar y drafodaeth athronyddol ynglŷn â sefyllfa lleiafrifoedd diwylliannol – hynny yw tua diwedd yr 1980au – yr ymateb traddodiadol ymhlith rhyddfrydwyr oedd y dylid gwrthwynebu pob ymdrech i estyn cydnabyddiaeth neu gefnogaeth arbennig i grwpiau o'r fath. Fel yr eglura Will Kymlicka, y gred gyffredinol oedd y byddai gwneud hynny'n gwrthdaro mewn modd cwbl sylfaenol ag egwyddorion rhyddfrydol pwysig:

> The near-universal response by liberals has been one of active hostility to minority rights ... schemes which single out minority cultures for special measures will appear irremediably unjust, a disguise for creating or maintaining racial or ethnic privilege (Kymlicka 1989: 4).

Ond ar beth yn union y seiliwyd y gwrthwynebiad hwn?

I ddechrau, dadleuwyd y byddai cydnabod galwadau lleiafrifoedd diwylliannol – galwadau a oedd, o ran eu natur, yn ymddangos fel rhai torfol neu gymunedol – yn debygol o wrthdaro â'r pwyslais rhyddfrydol ar oruchafiaeth foesol yr unigolyn. Yn ôl yr egwyddor hon – egwyddor a oedd yn ganolog i waith rhyddfrydwyr blaenllaw megis John Rawls (1971) – dylai unigolion gael eu trin fel 'the ultimate units of moral worth', hynny yw, 'as having moral standing as ends in themselves' (Kymlicka 1989: 140). Ymhellach, mae'r egwyddor yn datgan fod y gwerth moesol hwn yn perthyn i *bob* unigolyn yn ddiwahân, ac y dylai hynny gael ei gydnabod gan bob cymdeithas

wleidyddol: 'every individual has an equal moral status, and hence is to be treated as an equal by the government' (Kymlicka 1989: 140). Ar sail y pwyslais hwn ar yr unigolyn, a'r gred gysylltiedig yng nghydraddoldeb sylfaenol pob unigolyn, mae rhyddfrydwyr wedi mynnu y dylai pawb feddu ar yr un hawliau a breintiau. Dyma sydd wedi esgor ar y pwyslais rhyddfrydol ar hawliau dinesig sylfaenol. Eto i gyd, yr hyn sy'n bwysig yn y cyswllt hwn, yw bod rhyddfrydwyr hefyd wedi tueddu i ddod i'r casgliad fod y daliadau unigolyddol hyn yn golygu bod yn rhaid gwrthwynebu pob ymgais i estyn cydnabyddiaeth neu gefnogaeth ddiwylliannol arbennig i leiafrifoedd. Tybiwyd y byddai gwneud hynny'n beryglus, gan y byddai'n golygu trin pobl fel aelodau o grwpiau penodol, yn hytrach na fel dinasyddion unigol a chyfartal. Canlyniad hyn fyddai gosod y grŵp ar yr un lefel foesol a'r unigolyn ac felly tanseilio'r pwyslais traddodiadol ar oruchafiaeth yr unigolyn (Johnston 1989).

Yn ail, tueddai nifer o ryddfrydwyr i gredu y byddai estyn cydnabyddiaeth neu gefnogaeth arbennig i rai lleiafrifoedd yn gwrthdaro â'u dealltwriaeth o rôl briodol y wladwriaeth mewn perthynas â diwylliant. Yn ôl y ddealltwriaeth hon, dylai gweithredoedd y wladwriaeth mewn meysydd diwylliannol gael eu nodweddu gan niwtraliaeth. Golygai hyn y dylid ymatal rhag hybu neu gydnabod unrhyw ymlyniadau diwylliannol trwy gyfrwng polisi cyhoeddus. Yn hytrach, dylai'r dasg yma gael ei adael i'r sffêr preifat. Fel yr eglura Kymlicka:

> On this view, ethnic identity, like religion, is something which people should be free to express in their private life, but which is not the concern of the state. The state does not oppose the freedom of people to express their particular cultural attachments, but nor does it nurture such expression - rather ... it responds with benign neglect (Kymlicka 1995a: 3).[6]

---

[6] Mae'r ymadrodd *benign neglect* yn crynhoi'n effeithiol yr egwyddor a oedd yn sail i'r agwedd draddodiadol ymhlith athronwyr rhyddfrydol tuag at ymlyniadau diwylliannol. Bathwyd ef gan Nathan

Unig rôl y wladwriaeth, felly yw sicrhau fod pawb yn meddu ar lefel sylfaenol o hawliau dinesig. O wneud hynny, byddai pawb yn cael eu gwarchod rhag rhagfarn ac felly'n rhydd i ymgynnull ac i arddel eu hunaniaeth a'u diwylliant fel y maent yn dymuno. Credwyd y byddai cymryd camau pellach – er enghraifft trwy gynnig hawliau tiriogaethol neu ieithyddol arbennig i rai grwpiau – yn gwbl amhriodol, oblegid byddai'n tanseilio'r syniad o gydraddoldeb dinesig, gan ddyrchafu rhai diwylliannau a ffyrdd o fyw ar draul eraill.

O ystyried y pwyntiau uchod, gellir casglu fod ymdriniaeth wreiddiol rhyddfrydwyr o gwestiynau diwylliannol wedi tueddu i gael ei nodweddu gan raniad haearnaidd rhwng dinasyddiaeth, ar y naill law, a hunaniaeth neu ethnigrwydd ar y llaw arall (May 2001). Tybiwyd mai rôl briodol y wladwriaeth oedd canolbwyntio ar hybu a chynnal y cyntaf, ac y dylid anwybyddu'r ail. Eto i gyd, fel y gwelir isod, gellir codi amheuon difrifol ynglŷn ag i ba raddau mae daliadau rhyddfrydol o'r fath yn cynrychioli ffordd deg o ymdrin â galwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol am gydnabyddiaeth neu gefnogaeth.

I ddechrau, fel y noda Stephen May (2001), mae'r dyhead rhyddfrydol i'n trin fel dim mwy na dinasyddion unigol, gan anwybyddu nodweddion ehangach, yn arwain at ddarlunio pawb fel bodau diwahân, 'as interchangeable from a moral point of view' (May 2001: 103). Canlyniad hyn, yw diystyru'r modd y mae gwahanol ymlyniadau cymdeithasol a diwylliannol yn medru cyfrannu at gyfoethogi ein bywydau. Eto i gyd, mae unrhyw ddehongliad o fywyd dynol sy'n anwybyddu

---

Glazer. Roedd Glazer ei hun yn arddel y safbwynt hwn, fel y nododd wrth drafod amrywiaeth diwylliannol ar draws America (Glazer 1995).

pwysigrwydd ymlyniadau o'r fath yn debygol o fod yn un gwag; afreal hyd yn oed. Dyna yn sicr oedd tybiaeth y cymunedwyr. Er enghraifft, fel y dadleuodd Michael Sandel (1982; 1984), ni cheir y fath beth a'r 'unencumbered self'. Yn hytrach, caiff pawb eu 'lleoli' a'u 'gwreiddio' mewn cymuned o ryw fath, ac mae'r ymlyniadau gwahanol sy'n deillio o hyn yn debygol o gyfrannu, dros amser, at siapio gwerthoedd ac amcanion unrhyw unigolyn. Yn wir, fel y noda Charles Taylor, mae'r cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol hwn yn hollbwysig, oherwydd 'it is the background against which our tastes and desires and options and aspirations make sense' (Taylor 1992: 33 – 34). Felly, yn nhyb cymunedwyr megis Sandel a Taylor, mae tuedd rhyddfrydwyr i ddyrchafu'r unigolyn, gan anwybyddu'r cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol, wedi arwain at ddehongliad llawer rhy gul o'n anghenion.

Yn ogystal, mae'r rhaniad rhwng dinasyddiaeth a hunaniaeth yn amlygu diffyg dealltwriaeth sylfaenol o natur y wladwriaeth fodern. Yn ôl y dehongliad rhyddfrydol – y model *benign neglect* – câi'r wladwriaeth ei dehongli fel creadigaeth ddiduedd sy'n ymatal rhag cydnabod neu ddyrchafu unrhyw ymlyniadau diwylliannol. Serch hynny, wrth oedi i ystyried datblygiad a gweithrediad y mwyafrif o wladwriaethau modern, buan iawn y gwelir fod hwn yn honiad cwbl afresymol. Y gwir amdani yw nad yw'n bosib i unrhyw wladwriaeth gyfoes fodoli fel endid diduedd, sy'n camu'n ôl rhag penderfyniadau ethnig neu ddiwylliannol eu natur. Mae penderfyniadau ynglŷn â materion amrywiol megis iaith weinyddol, ffiniau mewnol, gwyliau cyhoeddus a symbolau'r wladwriaeth oll yn arwain at ffafrio nodweddion un grŵp ar draul eraill. Felly, mae'n anochel fod y wladwriaeth, trwy gyfrwng ei amrywiol rwydweithiau a sefydliadau, yn cydnabod ac yn dyrchafu *de facto* math arbennig o ddiwylliant a

hunaniaeth. Fel y noda Taylor (1992: 43 – 44), 'the supposedly neutral set of difference-blind principles of the politics of equal dignity is in fact a reflection of one hegemonic culture ... a particularism masquerading as the universal.'

Gwelir felly fod yna wendidau sylfaenol yn perthyn i'r modd y tueddai rhyddfrydwyr i ymateb i alwadau lleiafrifoedd diwylliannol. Yn wir, ar sail y gwendidau hyn, daeth nifer o athronwyr i'r casgliad mai ychydig iawn oedd gan ryddfrydiaeth, yn sgil ei phwyslais ar ddinasyddiaeth unigolyddol, i'w gynnig i unrhyw drafodaeth ynglŷn â materion o'r fath. Er enghraifft, nododd Vernon Van Dyke; 'the liberal emphasis on the individual precludes a proper theory of the state, which suggests in principle that liberalism cannot be trusted to deal adequately with the question of status and rights for ethnic communities (Van Dyke 1977: 344, gweler hefyd Johnston 1991; McDonald 1991).[7] O ganlyniad, casglwyd fod angen mabwysiadu fframwaith foesol amgen cyn gellid ymdrin yn deg â galwadau lleiafrifoedd diwylliannol, a thybiwyd fod seiliau'r fframwaith honno i'w canfod yn y feirniadaeth gymunedol o ryddfrydiaeth.[8]

[7] Daeth beirniadaeth o gyfeiriadau eraill hefyd – o gyfeiriad pobl megis John Gray, a ystyriwyd fel cyfaill i ryddfrydiaeth. Yn ôl Gray; 'the sustaining myths of liberal modernity – myths of global progress, of fundamental rights and of secular movement to a universal civilisation – cannot be maintained even as useful fictions in the intellectual and political context of the last decade of our century' (Gray 1989, dyfynnwyd yn Kukathas 1992: 107).

[8] Yn wir, yr hyn sy'n ddiddorol yw nad dim ond mewn cylchoedd athronyddol y gwelwyd amheuaeth o'r pwyslais rhyddfrydol ar unigolyddiaeth yn arwain at gwestiynu gallu'r syniadaeth i ymateb yn ystyrlon a theg i sefyllfa gwahanol leiafrifoedd diwylliannol. Mae'r un teimlad hefyd wedi brigo i'r wyneb o bryd i'w gilydd yn nadleuon nifer o ymgyrchwyr gwleidyddol. Cymerer, er enghraifft, y drafodaeth yma yng Nghymru ynglŷn â dyfodol y Gymraeg. Mae traddodiad hir ymhlith aelodau'r 'mudiad iaith' o roi pwyslais ar bwysigrwydd y gymuned i barhad yr iaith, ac ar adegau, mae'r pwyslais hwn wedi arwain at ddrwgdybiaeth ddofn o rinweddau rhyddfrydiaeth, ac yn benodol, ei natur unigolyddol.

Eto i gyd, er gwaethaf cefndir o’r fath, ni fydd y traethawd hwn yn ymwrthod â rhyddfrydiaeth, gan fabwysiadu persbectif mwy cymunedol. Pam hynny? I ddechrau, dylid nodi’r ffaith nad yw’r cymunedwyr, hyd yn hyn, wedi llwyddo i ddatblygu fframwaith cyflawn fel gwrthbwynt i ryddfrydiaeth. Do fe gyflwynwyd nifer o feirniadaethau penodol, ac fe drafodwyd y rhain yn fanwl iawn (gweler, er enghraifft Buchanan 1989; Gurman 1985; Walzer 1989). Ond, y tu hwnt i hynny, ychydig iawn o waith adeiladol a wnaed. Fel yr eglura Jeff Spinner, ‘communitarianism is mostly a critique of liberalism’ (Spinner 1994: 12). Fodd bynnag, er y diffygion adeiladol yma, mae beirniadaethau cymunedwyr megis Sandel (1982), yn cynnig awgrym bras o’r math o drefniadau cymdeithasol y byddai fframwaith cymunedol amgen yn medru eu cymeradwyo. O ganlyniad, onid oes yma ddigon o sail i ddechrau meddwl am gamu tu hwnt i ryddfrydiaeth?

I’m tyb i, nac oes. Deillia hyn o’r ffaith fod ystyriaeth ofalus o oblygiadau rhai o syniadau’r cymunedwyr yn codi pryderon sylweddol. Y gwir amdani yw bod y cymunedwyr, wrth herio rhyddfrydiaeth ar sail ei phwyslais unigolyddol, ac wrth bledio syniadau ynglŷn â’r lles cyffredinol a natur ‘leoledig’ y bod dynol, yn agor y drws i arferion gwleidyddol gorthrymol. Fel yr eglura Adeno Addis:

> ... in so far as the communitarian emphasizes the constitutive nature of these local communities and glorifies and protects them, he is prescribing the condition for closed, local communities. Such communities are likely to stifle the full development of their members by putting formal and informal restrictions upon the members, both in terms of exit and re-entry. In addition, the institutional implication of the localist conception of community is the emergence and proliferation of insulated and exclusionary communities (Addis 1992: 646).

Yn y pendraw, un peth yw beirniadu athronwyr rhyddfrydol, fel a wnaed uchod, am ddefnyddio pwyslais traddodiadol y syniadaeth ar yr unigolyn fel rheswm dros

ddiystyru pwysigrwydd ein hymlyniadau cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag, peth arall yn gyfan gwbl yw dadlau, fel y mae'r cymunedwyr wedi gwneud, bod felly angen ymwrthod â'r holl syniad o unigolyddiaeth, ac yn sgil hynny, rhyddfrydiaeth. Byddai cam o'r fath yn meddu ar oblygiadau sylweddol iawn. Wedi'r cyfan, y pwyslais rhyddfrydol ar yr angen i drin pawb yn gyntaf fel bodau dynol unigol, sy'n cynnig cynsail ar gyfer rhai o'n rhyddfreiniau gwleidyddol a dinesig mwyaf sylfaenol. Ni ellir, mewn difrif, ymwrthod a'r pethau hyn. [9]

Fodd bynnag, mae casgliad o'r fath yn creu ychydig o ddilema. Ar y naill law, mynnwyd uchod bod rhyddfrydiaeth yn cynrychioli rhai gwerthoedd sydd mor bwysig ac mor ganolog i'n dehongliad o degwch a chyfiawnder, fel na ddylid ymwrthod â'r syniadaeth yn llwyr. Ond ar y llaw arall, rai paragraffau yng nghynt, dangoswyd nad yw rhyddfrydwyr wastad wedi dehongli'r gwerthoedd hyn mewn modd sy'n caniatáu iddynt ymdrin yn deg â galwadau gwahanol leiafrifoedd am gydnabyddiaeth neu gefnogaeth arbennig. Sut felly mae goresgyn y ddilema hon?

Credaf fod yr ateb i'w ganfod yng ngwaith carfan newydd o athronwyr rhyddfrydol; carfan y cyfeirir atynt weithiau fel Rhyddfrydwyr Diwylliannol. Dyma garfan o athronwyr sy'n argyhoeddedig fod yr ymateb traddodiadol ymhlith rhyddfrydwyr i alwadau lleiafrifoedd diwylliannol wedi bod yn gwbl annigonol. Ond, yn arwyddocaol, nid ydynt o'r farn fod hyn yn rheswm i ymwrthod yn llwyr â'r syniadaeth. Yn wahanol i gymunedwyr megis Sandel a Van Dyke, credant fod modd goresgyn y gwendidau a oedd yn perthyn i ddadleuon traddodiadol rhyddfrydwyr, a

[9] Am amlinelliad llawnach o'r modd y gall syniadau'r cymunedwyr agor y drws i wleidyddiaeth orthrymol gweler Kymlicka 1989: penodau 4 a 5. Gweler hefyd Gutmann 1985.

hynny heb gamu tu hwnt i derfynau'r syniadaeth. Deillia hyn o'r gred fod rhyddfrydiaeth, er gwaethaf popeth, yn syniadaeth sy'n meddu ar yr adnoddau i gydnabod pwysigrwydd ein hymlyniadau cymdeithasol a diwylliannol. Yr unig broblem yw bod yr elfennau hyn wedi tueddu i gael eu hanwybyddu gan y mwyafrif o ryddfrydwyr cyfoes. O ganlyniad, yn hytrach nag ymwrthod â rhyddfrydiaeth, yr hyn sydd angen ei wneud yw ei ail ddehongli, gan gyflwyno ei hystyriaethau cymunedol a diwylliannol mewn modd mwy trefnus a diamwys nag a wnaed yn y gorffennol. O wneud hynny, gellir tynnu sylw rhyddfrydwyr at bwysigrwydd ein hymlyniadau diwylliannol, a dangos nad yw estyn cydnabyddiaeth a chefnogaeth i wahanol grwpiau ar sail yr ymlyniadau hyn yn debygol o dramgwyddo'r pwyslais rhyddfrydol ar ryddid unigol a chydraddoldeb.

Ers dechrau'r 1990au, mae dadleuon amgen y garfan hon wedi arwain at greu gwagle newydd o fewn terfynau rhyddfrydiaeth, gan ddangos bod modd i ddilynwyr y syniadaeth ymdrin yn decach nag y tybiwyd â galwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol am gydnabyddiaeth a chefnogaeth arbennig. Mae'r symudiad wedi bod yn un eang, ac wedi cwmpasu nifer helaeth o awduron gwahanol. Yn eu plith gellid rhestru pobl megis Joseph Carens (2000), David Miller (1995), Joseph Raz (1994), Jeff Spinner (1994) a Yael Tamir (1993). Fodd bynnag, yr amlycaf a hefyd y mwyaf toreithiog o'r garfan newydd yma o ryddfrydwyr yw Will Kymlicka (1989; 1995a; 2001; 2007). Am hynny, ystyrir ei brif ddadleuon yn ystod y paragraffau canlynol.

Fel a welwyd uchod, un o'r ffactorau a oedd yn sail i amheuaeth rhyddfrydwyr o alwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol, oedd y gred y byddai estyn

cydnabyddiaeth i bobl ar sail eu hymlyniad at grŵp neu gymuned arbennig yn gwrthdaro â'r pwyslais rhyddfrydol ar yr unigolyn. Credwyd mai'r oll y dylai'r wladwriaeth ei wneud oedd trin pawb fel dinasyddion unigol. Cafodd y syniadau hyn eu beirniadu gan y cymunedwyr. Ond, fel y dangosa Kymlicka, dylai rhyddfrydwyr hefyd fod yn fwy parod i roi pwyslais ar ein hymlyniadau cymdeithasol a diwylliannol, gan y bydd hynny'n hybu yn hytrach na niweidio sefyllfa'r unigolyn.

Man cychwyn ei ddadl yw ystyriaeth o'r dehongliad rhyddfrydol o ryddid. Yn ôl John Rawls (1971), mae hwn yn ddehongliad sy'n seiliedig ar yr egwyddor o ymreolaeth unigol. Golyga hyn fod person yn rhydd i lunio ei amcanion a'i werthoedd ac i'w hadolygu yn ôl yr angen. Bydd hyn yn caniatáu i berson fyw'r bywyd y mae ef neu hi'n ei ystyried fel un da (i'r graddau nad yw ei amcanion yn tramgwyddo ar fywyd a rhyddid unigolion eraill). Fel y noda Kymlicka, 'Rawls believes that the freedom to form and revise our beliefs about value is a crucial precondition for pursuing our essential interest in leading a good life' (Kymlicka 1989:163). Fodd bynnag, mae gallu person i arddel ymreolaeth unigol mewn unrhyw fodd ystyrlon yn galw am amrywiaeth digonol o opsiynau.[10] Yn ôl Taylor (1985a; 1992), mae'r opsiynau hyn – y gwahanol bethau sy'n caniatáu i berson wneud dewis – yn deillio o'n diwylliant. Hynny yw, ein diwylliant yw'r cyfrwng sy'n cyfleu ac yn amlygu y gwahanol opsiynau sydd ar gael. Yn nhyb Kymlicka, mae'r cysyniad hwn o opsiynau sy'n deillio o'n diwylliant a'n harferion cymdeithasol yn rhywbeth y gall rhyddfrydwyr ei dderbyn hefyd. Wedi'r cyfan, nid yw'r opsiynau hyn yn medru ymddangos o unlle. Noda: 'we do not explore a number of different patterns of

[10] Heb opsiynau digonol, ni ellir dweud bod person yn rhydd i wneud dewis 'go iawn'. Byddai hyn yn golygu bod y cysyniad o ymreolaeth unigol yn ddiystyr. Fel y noda Taylor, 'they must be choices' (Taylor 1985a: 197).

physical movement in abstraction from any cultural structure. Rather we make these judgements by examining the cultural structure' (Kymlicka 1989: 165). O ganlyniad, dadleua y dylai rhyddfrydwyr roi ystyriaeth i les gwahanol ddiwylliannau, gan mai ein diwylliant yw'r cyd-destun o ddewis a ddefnyddir gennym i lunio ein gwerthoedd a'n hamcanion: 'it's only through having a rich and secure cultural structure that people can become aware, in a vivid way, of the options available to them' (Kymlicka 1989: 165).

Serch hynny, os yw ein hymlyniad diwylliannol mor ganolog i'r dehongliad rhyddfrydol o ryddid unigol, pam na dderbyniodd fwy o sylw yng ngwaith athronwyr pwysig megis Rawls (1971) a Dworkin (1978)? Gellid dadlau, fel y gwnaeth Sandel, fod y gwendid hwn yn deillio o'r unigolyddiaeth sydd mor ganolog i ryddfrydiaeth, hynny yw, bod rhyddfrydwyr yn tueddu i ystyried unigolion fel creaduriaid sy'n bodoli ar wahân i unrhyw gyd-destun cymdeithasol neu ddiwylliannol (Sandel 1982). Ond, gwrthod hyn a wna Kymlicka. Dadleua nad yw methiant Rawls neu Dworkin i roi mwy o sylw i'n hymlyniad diwylliannol yn deillio o unrhyw wendid athronyddol sylfaenol. Yn hytrach, mae'r rheswm yn un llawer mwy arwynebol, sef methiant y ddau i ddeall natur amrywiol gwladwriaethau modern:

> The answer, I think, lies not in any deep, foundational flaw in liberalism, but simply in the fact that Rawls and Dworkin, like most post-war political theorists, work with a very simplified model of the nation state, where the political community is co-terminous with one and only one cultural community' (Kymlicka 1989: 177).

O ganlyniad, roedd Rawls a Dworkin yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant: 'The only reason that they don't explicitly give it status as a ground for legitimate claims is

that they falsely assume there is only one such cultural structure in each political community' (Kymlicka 1989: 178).[11]

Eto i gyd, hyd yn oed os yw ein hymlyniad diwylliannol yn bwysig, pam mae angen cydnabod a chefnogi diwylliannau penodol? Os mai'r hyn sy'n bwysig yw gallu diwylliant i gynnig cyd-destun o ddewis i'r unigolyn, onid yw'n bosib i unrhyw ddiwylliant lenwi'r bwlch? Er enghraifft, os yw un diwylliant lleiafrifol yn dirywio, oni fyddai'n ddigon i'r wladwriaeth gynorthwyo aelodau'r diwylliant hwnnw i fabwysiadu diwylliant arall, mwy sefydlog, gan ddefnyddio'r cyd-destun o ddewis a gynigir gan y diwylliant newydd? Mae hwn yn gwestiwn hollbwysig. Wedi'r cyfan, os gall unrhyw ddiwylliant wneud y tro, pa sail sydd yna dros estyn cefnogaeth arbennig i rai grwpiau?

Mae Kymlicka'n cynnig ateb effeithiol i'r cwestiwn hwn, trwy gysylltu ein hymlyniad diwylliannol â'n hunaniaeth bersonol. Trwy wneud hynny, mae'n pwysleisio bod cysylltiad cryf i'w gael rhwng person â'i ddiwylliant ac felly fod ein diwylliant yn rhan bwysig o'n gwneuthuriad:

> People are bound, in an important way, to their own cultural community. We can't just transplant someone from one culture to another ... Someone's upbringing isn't something that can just be erased: it is, and will remain, a constitutive part of who that person is. Cultural identity affects our very sense of personal identity and capacity' (Kymlicka 1989: 175).

[11] Fel y noda Paul Kelly, un o'r pethau mwyaf arwyddocaol ynglŷn â dehongliad Kymlicka yw'r ffaith ei fod yn dadlau bod yr ystyriaeth yma o bwysigrwydd diwylliant yn gwbl bosib o fewn fframwaith rhyddfrydol. Nid yw o'r farn fod mabwysiadu safbwynt o'r fath y golygu ildio tir i'r cymunedwyr: 'Kymlicka advances a version of the 'social thesis' in his defence of the role and significance of culture. He simply denies that this is a significant concession to communitarianism, as the 'social thesis' is perfectly compatible with holding liberal political values such as the primacy of autonomy' (Kelly 2002: 7).

Defnyddiwyd dadleuon tebyg gan Margalit a Raz. Yn wir, pwysleisiwyd ganddynt fod lles diwylliant hefyd yn effeithio ar hunan barch ei aelodau:

> ... the prosperity of the culture is important to the well-being of its members ... people's sense of their own identity is bound up with their sense of belonging to encompassing groups and ... their self-respect is affected by the esteem in which the groups are held (Margalit a Raz 1990: 449).

Felly, o ystyried bod yna gysylltiad cryf rhwng diwylliant person â'i hunan barch, nid yw'n deg i'r wladwriaeth ddisgwyl iddo newid ei ymlyniadau er cyfleustra gweinyddol.

O ddilyn y dadleuon uchod, gwelir, yn groes i dybiaethau'r cymunedwyr, bod modd i ryddfrydwyr roi ystyriaeth fanwl i les gwahanol ddiwylliannau lleiafrifol. Ymhellach, gwelwyd fod cam o'r fath yn gwbl gyson â'r pwyslais rhyddfrydol ar ymreolaeth unigol. Ond, hyd yn oed os derbynnir dadl Kymlicka ynglŷn â phwysigrwydd diwylliant, nid yw, ar ben ei hun, yn ddigon i gyfiawnhau estyn cefnogaeth arbennig, er enghraifft ar ffurf polisïau iaith pwrpasol, i rai grwpiau penodol. Ateb posib y sawl sydd dal am lynu at yr egwyddor o *benign neglect* yw eu bod hwythau hefyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ein hymlyniadau diwylliannol, ond nad yw hynny, o anghenraid, yn golygu y dylai'r wladwriaeth gyflwyno mesurau arbennig i gefnogi rhai lleiafrifoedd. Oni fyddai'n fwy teg a chydradd i gynnig lefel sylfaenol o hawliau dinesig i bawb? Oni fyddai gwneud mwy na hynny ond yn arwain at ddyrchafu rhai ffyrdd o fyw ar draul eraill?

Fel y gwelwyd eisoes mae'r egwyddor o *benign neglect* yn seiliedig ar gamddealltwriaeth sylfaenol o natur y wladwriaeth fodern. Mae'r dull hwn o ymdrin ag amrywiaeth yn seiliedig ar y gred fod y wladwriaeth yn greadigaeth ddiduedd,

sydd ddim yn cydnabod nac yn dyrchafu unrhyw ymlyniadau diwylliannol. Serch hynny, wrth oedi i ystyried datblygiad a gweithrediad y mwyafrif o wladwriaethau, buan iawn y gwelir fod hwn yn honiad cwbl anghynaliadwy. Dadleua Kymlicka fod derbyn y pwynt yma yn gam cwbl hanfodol os yw rhyddfrydwyr o ddifri am sicrhau tegwch i wahanol grwpiau diwylliannol lleiafrifol. Ymhellach, mynna nad yw gwneud hynny yn debygol o sicrhau ffafriaeth annheg i rai grwpiau, gan dramgwyddo gwerthoedd rhyddfrydol. Dangosa hyn yn glir trwy fanylu ar union oblygiadau'r dehongliad rhyddfrydol o gydraddoldeb (Kymlicka 1989; 1995a).

Mae'r rhaniad rhwng dewisiadau ac amgylchiadau yn ganolog i'r dehongliad rhyddfrydol o gydraddoldeb. Mae rhai o'r gwahaniaethau a geir rhwng pobl yn deillio o ddewisiadau gwahanol ac yn adlewyrchu amrywiaethau o ran gwerthoedd neu chwaeth. Yn ôl Kymlicka, mae rhyddfrydwyr o'r farn mai ein cyfrifoldeb personol yw gwahaniaethau o'r fath. Serch hynny, mae gwahaniaethau eraill yn deillio o amgylchiadau gwahanol. Dyma ffactorau na ellir eu dewis, er enghraifft, ein hil, ein dosbarth cymdeithasol neu'n cefndir diwylliannol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried y gwahaniaethau hyn fel cyfrifoldeb personol ac fe ddylid ceisio sicrhau nad yw pobl ar eu colled yn eu sgil.[12] Dyma safbwynt a gafodd ei amddiffyn gan Rawls (1971) a Dworkin (1978). Ar sail y dehongliad hwn o gydraddoldeb, gall rhyddfrydwyr estyn cydnabyddiaeth arbennig i rai grwpiau diwylliannol. Nid creu annhegwch neu gefnogi ffordd benodol o fyw yw'r nod, ond yn hytrach unioni'r anghyfartaledd cymdeithasol neu economaidd sydd yn bodoli rhwng y grŵp lleiafrifol a mwyafrifol.

[12] Caiff y safbwynt hwn ei gyfleu yn effeithiol gan Kymlicka trwy gyfrwng y disgrifiad canlynol: 'Someone who cultivates a taste for expensive wine has no legitimate claim for public subsidy, since she is responsible for the costs of her choice. Someone who needs expensive medicine due to a natural disability has a legitimate claim to special public subsidy, since she is not responsible for the costs of her disadvantageous circumstances' (Kymlicka 1989:186).

Fel y noda Kymlicka; 'some groups are unfairly disadvantaged in the cultural-market place and political recognition and support rectify this disadvantage' (Kymlicka 1995a: 109).

Serch hynny, mae Kymlicka'n pwysleisio nad yw hyn yn golygu y bydd modd i ryddfrydwyr gymeradwyo pob mesur o gydnabyddiaeth neu gefnogaeth ddiwylliannol. Mae'n bosib y bydd rhai grwpiau yn galw am fesurau a fyddai'n arwain at gyfyngu, yn hytrach na hybu, ymreolaeth unigol. Ymhlith y math o fesurau y cyfeirir atynt fel enghreifftiau, mae rhai a fyddai'n cyfyngu ar ryddid crefyddol aelodau'r grŵp, neu rai a fyddai'n caniatáu i grŵp barhau i arddel traddodiadau megis priodasau gorfodol. Yn ôl Kymlicka, nid yw arferion o'r fath yn bethau y dylai rhyddfrydwyr eu cymeradwyo. Felly, yr her sy'n codi wrth geisio amlinellu cyfiawnhad rhyddfrydol dros estyn hawliau arbennig i grwpiau lleiafrifol, yw sut i wahaniaethu rhwng y galwadau 'da' a'r rhai 'drwg' (Kymlicka 1995a; 2002).

Gellir gwneud hynny, yn ôl Kymlicka, trwy ystyried i ba raddau y mae'r galwadau a gyflwynir gan grŵp lleiafrifol yn rhai a fyddai'n cyfyngu ar ryddid a dewisiadau'r aelodau, neu, yn hytrach, yn arwain at unioni'r berthynas â'r grŵp mwyafrifol. Cyfeiria at y math cyntaf o fesurau fel 'cyfyngiadau mewnol' a'r ail fel 'amddiffynfeydd allanol' (Kymlicka 1995a). Yn ôl Stephen May:

> Internal restrictions involve intragroup relations where the ethnic or national-minority group seeks to restrict the individual liberty of its members on the basis of group solidarity ... In contrast, external protections relate to intergroup relations where an ethnic or national minority group seeks to protect its distinct identity by limiting the impact of decisions of the larger society' (May 2001: 120).

Yn ôl y disgwyl, yn sgil ei bwyslais ar yr egwyddor o ymreolaeth unigol, nid yw Kymlicka o'r farn y dylid caniatáu'r math cyntaf o fesurau. Ond, gellir cyfiawnhau'r amddiffynfeydd allanol, gan eu bod yn fodd o sicrhau bod aelodau'r grŵp yn medru cynnal eu diwylliant a'u ffordd o fyw heb gael eu bygwth gan gymdogion mwy:

> Granting special representation rights, land claims or language rights to a minority need not, and often does not, put it in a position to dominate other groups. On the contrary ... such rights can be seen as putting the various groups on a more equal footing, by reducing the extent to which the smaller group is vulnerable to the larger' (Kymlicka 1995a: 36 – 37).

Mae'r ddadl uchod yn un bwysig ac yn gyfraniad cadarnhaol i'r drafodaeth ynglŷn â galwadau lleiafrifoedd diwylliannol. Am gyfnod rhy hir, cafodd ystyriaeth gytbwys o alwadau'r grwpiau hyn am gydnabyddiaeth ei llesteirio gan fethiant sylwebwyr i wahaniaethu rhwng y galwadau a oedd yn ymdebygu i gyfyngiadau mewnol ac eraill a oedd yn gyfystyr ag amddiffynfeydd allanol.[13]

At ei gilydd felly, mae Kymlicka wedi dangos bod rhyddfrydiaeth yn syniadaeth sy'n meddu ar yr adnoddau i estyn cydnabyddiaeth a chefnogaeth arbennig i wahanol leiafrifoedd diwylliannol. O ganlyniad, gellir datgan nad yw'r dasg o ymdrin yn deg â galwadau o'r fath, o anghenraid, yn galw am ymwrthod â rhyddfrydiaeth, gan ffafrio cymunedoliaeth. I'r gwrthwyneb, fel y gwelwyd wrth drafod gwaith Kymlicka, mae'n gwbl bosib goresgyn y gwendidau sylfaenol a oedd yn tueddu i nodweddu'r modd y byddai rhyddfrydwyr yn ymdrin â gwahanol gwestiynau diwylliannol, a hynny o fewn terfynau rhyddfrydol. Yn wir, yr hyn sy'n arbennig o arwyddocaol yw bod y safbwynt hwn bellach i'w weld yn cynrychioli

[13] Un rheswm mawr dros amharodrwydd rhyddfrydwyr i gynnig hawliau arbennig i grwpiau oedd y gred y byddai hyn yn gyfystyr â chefnogi mesurau gorthrymus. Roedd hyn yn destun pryder yn enwedig i sylwebyddion adain chwith. Pryder mawr rhai ffeministiaid rhyddfrydol oedd y byddai mesurau arbennig yn caniatáu i arferion patriarchaidd barhau mewn rhai cylchoedd. Felly daeth hawliau arbennig i grwpiau i gael eu hystyried fel rhywbeth gwrth-ryddfrydol.

rhyw fath o gonsensws newydd ymhlith rhyddfrydwyr (Kymlicka 2001; Kymlicka a Norman 2000).[14]

Heb amheuaeth, mae hyn yn newyddion da. Fel y nodwyd eisoes, un o broblemau sylfaenol y safbwynt cymunedol yw'r ffaith ei fod, boed o fwriad ai peidio, yn agor y drws i arferion gwleidyddol gorthrymol. Dyna, yn y pen draw, fyddai canlyniad ymwrthod yn llwyr â'r pwyslais rhyddfrydol ar ddinasyddiaeth unigolyddol.[15] Fodd bynnag, mae Kymlicka, trwy ail ddehongli rhyddfrydiaeth, a thrwy gyflwyno ei hystyriaethau cymdeithasol a diwylliannol mewn modd mwy trefnus a diamwys nag a wnaed cynt, yn llwyddo i oresgyn y peryg hwn. Llwyddodd i amlinellu fframwaith sy'n cyfuno'r pwyslais rhyddfrydol traddodiadol ar ddinasyddiaeth unigolyddol â dealltwriaeth o bwysigrwydd ein cefndir diwylliannol. Fel y nododd Stephen May, 'he manages to uphold the importance of individual citizenship rights while, at the same time, developing an understanding of the importance of cultural membership to such rights' (May 2001: 119). O ganlyniad, mae'n bosib dadlau bod syniadau rhyddfrydol yn rhai cwbl briodol a theg i'w

[14] Wrth gwrs mae rhai athronwyr rhyddfrydol wedi gwrthod y datblygiad hwn, gan geisio ail bwysleisio gwerth y safbwynt rhyddfrydol traddodiadol. Gweler er enghraifft Brian Barry 2001.

[15] Mae'n bosib na fyddai hyn yn peri pryder i rai pobl, er enghraifft aelodau o gymunedau crefyddol caeth megis yr Amish neu rai llwythau brodorol. Eto i gyd, hyd yn oed yn achos grwpiau o'r fath, erys rhesymau gwleidyddol cryf dros geisio llunio galwadau sy'n ymddangos fel eu bod yn syrthio'n fras o fewn terfynau rhyddfrydol. Fel y noda Kymlicka wrth drafod sefyllfa rhai o bobloedd brodorol Canada, 'the various non-liberal arguments are quite controversial, legally and morally ... Opponents of liberalism may find them convincing, but they may not be the ones who need convincing on this point. For better or for worse, it is predominantly non-aboriginal judges and politicians who have the ultimate power to protect and enforce aboriginal rights, and so it is important to find a justification of them that such people can recognize and understand' (Kymlicka; 1989: 153 – 154). O ganlyniad, anodd fyddai datblygu corff sylweddol o gefnogaeth, ac hefyd ennill unrhyw fanteision ymarferol, trwy gyfrwng dadleuon normadol sy'n ymwrthod yn llwyr â rhyddfrydiaeth.

defnyddio fel sail i drafodaeth normadol ynglŷn â phwnc megis adferiad ieithoedd lleiafrifol.[16]

## 5. Strwythur y Traethawd

O ystyried cymaint o waith a wnaed eisoes gan Kymlicka, gellid deall pam y byddai rhai'n amau'r angen am ddarn o waith ymchwil sy'n ymdrin yn benodol â'r cyswllt rhwng rhyddfrydiaeth ag adferiad iaith, gan drafod y math o gwestiynau ymchwil a nodwyd gennyf yn gynharach (Adran 3). Onid yw'r atebion i'r cwestiynau hyn i'w canfod eisoes yn y fframwaith ryddfrydol cyffredinol a ddatblygwyd gan Kymlicka dros y deg i bymtheg mlynedd diwethaf?

Yn sicr, mae'r fframwaith hwn yn cynnig arweiniad pwysig mewn perthynas â chwestiynau ymchwil penodol y traethawd hwn. Ond, o ystyried ei natur gyffredinol, a'r modd y mae'n ystyried gwahanol agweddau o amrywiaeth ddiwylliannol, ni ellir disgwyl i fframwaith Kymlicka gynnig atebion cyflawn i'r cwestiynau hyn. Cymerer, er enghraifft, y cwestiwn ymchwil cyntaf, sy'n holi: *Sut dylai rhyddfrydwyr*

[16] Dylid nodi nad dim ond dehongliadau'r cymunedwyr a gynigiwyd fel opsiynau amgen. Trafodwyd sefyllfa lleiafrifoedd diwylliannol hefyd gan amryw o athronwyr radical, sy'n ysgrifennu o bersbectif ôl-fodernaidd neu ôl-drefedigaethol (gweler, er enghraifft Connolly 1991; 1995; 1996). Ni roddir sylw manwl i'w dadleuon yma, gan mai'r her gymunedol i ryddfrydiaeth sydd wedi tueddu i ddominyddu'r drafodaeth. Fodd bynnag, mae'n werth nodi un pwynt pwysig ynglŷn â natur y fframweithiau amgen a gynigiwyd gan ôl-fodernwyr neu ôl-drefedigaethwyr. Pan fo'r athronwyr hyn yn ceisio symud y tu hwnt i'w beirniadaethau cyffredinol o rhyddfrydiaeth, gan adeiladu dehongliad amgen o gyfiawnder diwylliannol, yr hyn sy'n arwyddocaol yw fod llawer o'r syniadau a'r egwyddorion a wyntyllir ganddynt yn tueddu i fod yn debyg iawn i'r rhai a drafodir gan ryddfrydwyr diwylliannol. Er enghraifft, nodwedd amlwg o waith yr ôl-fodernwyr hynny sydd wedi trafod amlddiwylliannedd yw'r awydd i osgoi trin hunaniaeth fel set o nodweddion oesol na ellir eu haddasu; hynny yw yr hyn a ddisgrifir fel 'the essentializing of identities' (Benhabib 2002). Fodd bynnag, onid yw hyn hefyd yn nodwedd amlwg o waith y rhyddfrydwyr diwylliannol? Onid ydynt hwy hefyd – er enghraifft trwy wrthwynebiad Kymlicka i gyfyngiadau mewnol – yn pwysleisio na ddylid atal unigolion a grwpiau rhag cwestiynu ac addasu agweddau o'u hamgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol. O ganlyniad, tra bod yna wahaniaethau amlwg o ran rhethreg rhwng gwaith y carfanau hyn, mae'n anodd gweld sut byddai'r dehongliad ôl-fodernaidd yn arwain at ganlyniadau ymarferol gwahanol. Fel yr hola Kymlicka, 'How would the postmodernist concern with essentialism and ethnocentralism lead to a different theory of language rights, say, than the liberal culturalist approach?' (Kymlicka 2001: 44).

*gysyniadoli statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith?* Mae ystyriaeth o drafodaeth gyffredinol Kymlicka yn dangos bod dim byd annerbyniol, o bersbectif rhyddfrydol, ynglŷn â pholisïau sy'n estyn cefnogaeth arbennig i wahanol leiafrifoedd diwylliannol, er enghraifft trwy hybu adferiad eu hieithoedd traddodiadol. Fodd bynnag, nid yw gwaith cyffredinol Kymlicka'n cynnig mwy o fanylion. Nid yw'n nodi beth yw hyd a lled ein hymrwymiadau moesol tuag at wahanol leiafrifoedd; pa fath o fesurau sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder a pha rai sydd ond yn dderbyniol? Fel yr eglura Joseph Carens, 'his [h.y. Kymlicka] account provides no way to assess the extent and the limits of our obligations' (Carens 2000: 61). I ganfod hynny, rhaid trafod ymhellach, a dyna a wneir yn ystod rhan gyntaf y traethawd hwn.

Bydd y drafodaeth yn cychwyn ar y gwastad moesol uchaf posib, wrth i Bennod 2 holi a yw adferiad yn weithred a ddylai gael ei ddehongli fel cam hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob un sefyllfa lle bo iaith yn digwydd dirywio; hynny yw, mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn i achos o ddirywiad iaith yw cymryd camau brys i geisio atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Eir ati i ystyried y graddau y gall rhyddfrydwyr gymeradwyo safbwynt absoliwt o'r fath trwy holi, i ddechrau, a yw dirywiad iaith yn broses sy'n medru esgor ar ganlyniadau niweidiol. Dadleuir bod hyn yn bosib, trwy drafod dwy ddadl bwysig sy'n tystio i'r hyn y gellid ei golli wrth i iaith ddirywio – y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol y byd a hefyd y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth. Fodd bynnag, un peth yw derbyn bod gweithred neu broses yn meddu ar oblygiadau anodd neu niweidiol, peth arall yw derbyn bod y goblygiadau hynny mor niweidiol fel y dylid ymrwymo i atal a gwrthdroi'r weithred neu'r broses dan sylw ym mhob

sefyllfa. O ganlyniad, yn ystod rhan olaf y bennod eir ati i ystyried a yw'r niwed sy'n medru deillio o ddirywiad iaith yn cyfiawnhau cymryd y cam pellach hwn. Wrth wneud hynny, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor allweddol: y graddau y gellir disgrifio'r niwed fel un cwbl ddifrifol a dinistriol, a'r graddau y gellir disgrifio'r niwed fel un hollgyffredinol o ran natur. Bydd y drafodaeth o'r ffactorau hyn yn dangos nad yw'r niwed sy'n medru deillio o ddirywiad iaith yn croesi'r trothwy angerheidiol. O ganlyniad, cesglir na ddylai rhyddfrydwyr drin y dasg o'i atal a'i wrthdroi fel rhywbeth y dylid ei sicrhau o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa.

Arweinia'r casgliad hwn at gwestiwn newydd. Tra na ellir trin adferiad iaith fel gofyniad moesol sylfaenol y dylid ei warantu ym mhob achos, a ellir dadlau ei fod yn weithred y mae cyfiawnder yn galw arnom i'w sicrhau mewn rhai amgylchiadau penodol, er enghraifft yn achos cenhedloedd lleiafrifol? Dyma a drafodir ym Mhennod 3. Dechreuir trwy ystyried syniadau rhai o'r athronwyr rhyddfrydol sydd eisoes wedi rhoi sylw i'r broses o adfer iaith. I ddechrau trafodir syniadau David Laitin a Rob Reich (2003). Yna rhoddir sylw i rai o'r sylwadau y mae Will Kymlicka (2007b) ei hun wedi eu cynnig yn ddiweddar ynglŷn â'r berthynas rhwng rhyddfrydiaeth ac adferiad iaith.[17] Nid yw'r athronwyr hyn yn credu bod unrhyw beth annerbyniol, o safbwynt rhyddfrydol, ynglŷn ag ymdrechu i adfer sefyllfa iaith benodol. Fodd bynnag, wrth drafod eu syniadau, gwelir nad yw'r un ohonynt yn barod i drin adferiad

[17] Cynigiwyd y syniadau hyn yn ystod cyfres o gyfweliadau a gynhaliwyd gennyf tra'n ymweld â phrifysgol Queens, Ontario fel ysgolhaig gwadd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2007. Cânt eu cynnwys yn y traethawd gyda chaniatâd Will Kymlicka. Wrth eu hystyried, dylai'r darllenydd gadw mewn cof mai sylwadau a gyflwynwyd yn fyrfyfyr mewn sefyllfa cyfweliad ydynt, ac nid rhai a ddatblygwyd yn fanwl gyda'r bwriad o'u cyhoeddi. O ganlyniad, ni ddylid disgwyl i Will Kymlicka lynu'n gaeth atynt mewn gweithiau a gyhoeddir ganddo yn y dyfodol. Ond, er hynny, mae'n bwysig i'w cynnwys a'u cloriannu yn y traethawd hwn gan eu bod yn cynnig ffordd ddiddorol o feddwl ynglŷn â statws moesol y nod o adfer iaith ac yn cynnig sail dda i drafodaeth Pennod 3 yn gyffredinol.

fel gweithred sy’n hanfodol o safbwynt cyfiawnder, hyd yn oed pan fo’r ddadl yn cael ei chymhwyso i sefyllfaoedd penodol, megis cenhedloedd lleiafrifol. Deillia hyn o’r ffaith y byddai cymryd cam o’r fath yn golygu trin adferiad iaith fel amcan sy’n medru cael ei osod uwchlaw’r broses ddemocrataidd, a thrwy hynny, cael ei gyrchu beth bynnag fo barn aelodau’r genedl. Dadl Laitin a Reich a Kymlicka yw y byddai’n fwy priodol trin adferiad fel gweithred dderbyniol; un o’r amrediad eang o bethau sy’n gwbl briodol i lywodraethau rhyddfrydol geisio’u cyflawni, pan fo hynny’n adlewyrchu casgliadau y daethpwyd iddynt yn sgil trafodaethau democrataidd agored a theg, ond eto, nid rhywbeth sy’n allweddol o safbwynt cyfiawnder.

Ar ôl amlinellu’r safbwynt ‘derbyniol’ a gaiff ei ffafrio gan yr athronwyr hyn, eir ati i ystyried a oes unrhyw fodd i ryddfrydwyr fynd ymhellach, gan drin adferiad fel mater o gyfiawnder, o leiaf mewn rhai sefyllfaoedd. Gwneir hynny trwy drafod rhai gwendidau pwysig sy’n perthyn i’r safbwynt derbyniol, yn enwedig y diffyg ystyriaeth a roddir i effeithiau anghyfiawnder hanesyddol. Fodd bynnag, er pwysigrwydd gwendidau o’r fath, cesglir nad ydynt yn cynnig digon o sail i ddiystyru’r safbwynt derbyniol, gan ddadlau fod adferiad iaith, wedi’r cyfan, yn dasg y dylid ei hystyried fel mater o gyfiawnder. Dangosir y bydd unrhyw ymgais i wneud hyn yn sicr o arwain at broblemau moesol sylfaenol i ryddfrydwyr, ac felly bod yn rhaid glynu at y safbwynt derbyniol, er gwaethaf ei wendidau.

O ganlyniad, bydd rhan gyntaf y traethawd yn dangos mai fel gweithred dderbyniol ac nid fel rhywbeth hanfodol o safbwynt cyfiawnder y dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol adferiad iaith. Fodd bynnag, ni all y drafodaeth hon gynnig

unrhyw atebion i'r ail gwestiwn ymchwil a osodwyd ar gyfer y traethawd: *I ba raddau mae rhai o'r camau ymarferol a gymerir, wrth geisio gwireddu'r nod o adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol, yn arwain at dramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol?* Mewn gwirionedd yr un fyddai'r sefyllfa beth bynnag fo casgliadau'r rhan gyntaf. Deillia hyn o'r ffaith fod y drafodaeth ynglŷn â dilysrwydd gwahanol gamau polisi penodol yn ymdrin â phwnc adferiad iaith o bersbectif ychydig yn wahanol.

Boed adferiad iaith yn cael ei drin gan ryddfrydwyr fel amcan derbyniol, neu fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder, yr hyn sy'n sicr yw na fyddent yn fodlon derbyn bod hynny'n agor y drws i bob math posib o gamau polisi ymarferol. Yn wir, dyma yw un o'r gwersi pwysig a ddysgir wrth ystyried syniadau cyffredinol Kymlicka. Deillia hyn o'i raniad rhwng 'amddiffynfeydd allanol' a 'chyfyngiadau mewnol'; canllawiau sy'n dangos yn fras pa fath o bolisïau y dylai rhyddfrydwyr eu cymeradwyo a pha rai y dylent eu gwrthwynebu. Fodd bynnag ni ellir disgwyl i'r canllawiau cyffredinol hyn egluro'n fanwl os yw enghreifftiau penodol o bolisïau iaith, a weithredwyd mewn gwahanol wladwriaethau democrataidd, yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol. I wneud hynny, ac ateb yr ail gwestiwn ymchwil, rhaid trafod ymhellach gan edrych yn fanwl ar y polisïau eu hunain.

Eir ati i wneud hynny trwy gloriannu trawstoriad o bolisïau iaith a fabwysiadwyd mewn dau leoliad penodol: Quebec a Chymru. Trefnwyd y drafodaeth yn y modd hwn, yn hytrach na thrwy grynhoi nifer o fân enghreifftiau o sawl lleoliad gwahanol, gan ei fod yn caniatáu'r amser a'r lle i osod y gwahanol bolisïau a drafodir yn eu cyd-destun hanesyddol cywir. Mae hyn yn hollbwysig, gan fod y cyd-destun yn

aml yn cyfrannu at unrhyw benderfyniad ynglŷn â dilysrwydd gwahanol weithredoedd.

Ond, wedi penderfynu gwneud hynny, rhaid oedd dewis pa achosion penodol i'w trafod. Daethpwyd i'r casgliad fod Quebec, heb amheuaeth, yn achos a oedd yn cynnig ei hun, gan fod y polisïau a fabwysiadwyd yno ers y 1960au, er mwyn hybu rhagolygon y Ffrangeg, wedi bod yn rhai arbennig o bellgyrhaeddol. O bosib, dyma'r polisïau iaith mwyaf pellgyrhaeddol a fabwysiadwyd mewn unrhyw wladwriaeth ryddfrydol-democrataidd. O ganlyniad os yw unrhyw achos o adferiad iaith yn debygol o godi cwestiynau diddorol ac anodd ynglŷn â therfynau'r hyn a ystyrir yn dderbyniol gan ryddfrydwyr, yna Quebec yw hwnnw. Ar ben hynny, mae Quebec yn achos lle gwelwyd y gwrthwynebiadau i wahanol bolisïau iaith yn cael eu cyflwyno mewn ieithwedd arbennig o foesol. Pan ystyrir rhai o'r trafodaethau a gafwyd yno dros y degawdau diwethaf, fe welir yn syth eu bod yn frith o ensyniadau ynglŷn â'r modd y mae rhai o bolisïau'r dalaith wedi arwain at danseilio rhyddid mynegiant a chydraddoldeb, neu wedi arwain at gamwahaniaethu. At ei gilydd felly, mae Quebec yn achos sy'n cynnig cryn dipyn o sgôp i'r sawl sydd am fynd ati i gloriannu dilysrwydd rhai o'r camau ymarferol a gymerir wrth geisio adfer iaith.

O ran yr ail achos, teimlwyd fod angen dewis un a oedd yn dipyn is na Quebec yn y 'gynghrair' o ymdrechion adferol. Yn bennaf, teimlwyd fod angen achos lle roedd yr iaith a gâi ei hadfer yn famiaith i leiafrif yn hytrach na mwyafrif o'r boblogaeth. Y dybiaeth oedd y byddai achos o'r fath yn cydorwedd yn dda gydag

achos Quebec, gan y byddai sefyllfa lai datblygedig yr iaith yn golygu bod natur y polisïau a gâi eu trafod yn debygol o fod ychydig yn wahanol.

O fod wedi gosod y maen prawf hwn, roedd modd diystyru achos Catalonia. Ond gadawodd hyn ddwy achos amlwg: Cymru a Gwlad y Basg. Yn y pen draw, penderfynwyd i ganolbwyntio ar y sefyllfa yng Nghymru. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar amryw o resymau. I ddechrau, fel y nodwyd yn y Rhagair, un o'r prif gymhellion dros ysgrifennu'r traethawd hwn oedd yr awydd i ymateb i'r modd y tueddai rhyddfrydiaeth unigolyddol i gael ei diystyru gan rai aelodau o'r mudiad iaith yng Nghymru. O ganlyniad, teimlwyd ei bod yn hollbwysig fod rhan o'r traethawd yn rhoi sylw penodol i Gymru. Ar ben hynny, penderfynwyd fod Cymru yn achos priodol i'w ystyried, ochr yn ochr â Quebec, gan fod y broses o ddatblygu ac yna o weithredu polisïau o blaid y Gymraeg hefyd wedi bod yn un drafferthus ar brydiau. Fel yn achos Quebec, ar wahanol adegau bu polisïau neu gynlluniau iaith yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o'r boblogaeth. Ymhellach, fel yn Quebec, mae amryw o'r gwrthwynebiadau a fynegwyd wedi bod yn rhai sy'n cynnwys ensyniadau ynglŷn â natur anghyfiawn neu anfoesol gwahanol bolisïau.[18]

Bydd y drafodaeth o'r ddau achos uchod yn cychwyn ym Mhennod 4, pan geisir cloriannu dilysrwydd rhyddfrydol rhai o bolisïau iaith Quebec. Rhoddir sylw i dri maes penodol, a ddewiswyd ar sail y ffaith eu bod yn rhai lle codir cwestiynau normadol pwysig o safbwynt rhyddfrydiaeth. I ddechrau, trafodir yr ymdrech i

---

[18] Pwynt arall pwysig sydd angen ei gadw mewn cof yw sgiliau ieithyddol yr ymchwilydd. Rwyf yn medru siarad Cymraeg a Ffrangeg ac felly teimlaf bod y rhain yn achosion y gallaf eu hastudio'n fanwl. Wrth gwrs, nid yw'r gallu i siarad yr iaith yn rhag-amod i astudio achosion o'r fath. Fodd bynnag, teimlaf fod cwestiynau yn medru codi ynglŷn a hygrededd neu ddyfnder yr ymchwil pan nad yw'r sawl a'i lluniodd yn siarad yr iaith.

reoleiddio pa ieithoedd a gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus, a'r gwyn fod y polisi hwn yn cyfyngu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Yn ail, ystyrir y gwrthwynebiad a fu i natur polisi addysg Quebec, ac yn benodol, y gwahanol gyfyngiadau ar argaeledd addysg Saesneg. Bydd y trydydd achos a ystyrir ychydig yn wahanol i'r ddau gyntaf. Yn hytrach na thrafod polisi penodol, byddaf yn ystyried y drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, a'r gwyn fod effaith gyffredinol y polisïau iaith bellach wedi arwain at danseilio cynaliadwyedd y gymuned honno. Ym mhob un o'r achosion hyn, byddaf yn holi i ba raddau mae'r gwrthwynebiadau a fynegwyd dros y blynyddoedd yn codi cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd gweithredoedd llywodraeth Quebec. A yw'r polisïau iaith hynny a fabwysiadwyd ganddi wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel polisïau annerbyniol o safbwynt moesol?

Bydd Pennod 5 wedyn yn mynd ymlaen i drafod y sefyllfa yng Nghymru. Ystyrir tri maes unwaith eto, ac fel yn achos Quebec, fe'u dewiswyd ar sail y ffaith eu bod yn codi cwestiynau normadol pwysig o safbwynt rhyddfrydiaeth. I ddechrau, trafodir yr arfer cynyddol o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol mewn perthynas â nifer o swyddi cyhoeddus. Dyma bolisi sydd wedi ennyn gwrthwynebiad gan ei fod, yn nhyb rhai, yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol megis cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail gallu a theilyngdod. Yn ail, ystyrir y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru i geisio sefydlu'r Gymraeg fel prif iaith addysg gynradd yn yr ardaloedd hyn. Mae'r sawl sydd wedi gwrthwynebu polisïau o'r fath wedi dadlau eu bod yn annerbyniol gan eu bod yn tramgwyddo hawliau sylfaenol ym maes addysg ac yn gorfodi plant ifanc i ddysgu iaith benodol. Yn drydydd, ystyrir

dilysrwydd y camau diweddar a gymerwyd i geisio dylanwadu ar arferion ieithyddol y teulu, trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn wahanol i'r ddau achos arall, ni fu unrhyw wrthwynebiad chwyrn i'r polisi hwn. Fodd bynnag, fe'i hystyrir gan ei fod yn achos sy'n codi nifer o gwestiynau normadol diddorol, yn enwedig felly i ryddfrydwyr. A siarad yn gyffredinol, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r lefel o ddylanwad sy'n briodol i unrhyw wladwriaeth geisio'i estyn dros arferion preifat ei dinasyddion. Unwaith eto, amcan y bennod hon fydd holi a oes unrhyw le i amau dilysrwydd rhai o'r camau a gymerwyd gan gynllunwyr iaith. A yw'r polisïau a drafodir yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel rhai annerbyniol o safbwynt moesol?

Casglwyd y wybodaeth angenrheidiol er mwyn ymdrin yn fanwl â'r gwahanol enghreifftiau a drafodir yn ystod Penodau 4 a 5 trwy astudio amrediad o ffynonellau cynradd ac eilaidd. Yn achos Quebec, gwnaed defnydd helaeth o'r dyfarniadau niferus a gyflwynwyd dros y blynyddoedd gan Uchel Lys Canada mewn perthynas â gwahanol agweddau o bolisïau iaith y dalaith. Yn ogystal, edrychwyd yn fanwl ar nifer o'r dogfennau polisi a gyflwynwyd gan wahanol fudiadau i'r *Commission des États généraux sur la situation et l'avenir de la langue française au Québec*, comisiwn ymchwil ar sefyllfa'r Ffrangeg a benodwyd gan lywodraeth y dalaith yn 2001. Ar ben hynny, tynnwyd ar y casgliad sylweddol o lenyddiaeth academaidd sy'n trafod datblygiad polisïau iaith Quebec. Roedd y broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer y bennod ar Gymru ychydig yn fwy graddol, gan y bu'n rhaid tynnu ar amrediad ehangach o ffynonellau. Roedd y rhain yn cynnwys erthyglau papur newydd, erthyglau o gylchgronau misol, dogfennau polisi, rhaglenni teledu a hefyd archifau

personol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gwnaed defnydd hefyd o'r llenyddiaeth academaidd berthnasol; corff o waith sydd ddim yn agos at fod mor helaeth â'r un a geir mewn perthynas â Quebec, ond eto un sy'n cynnwys sawl darn perthnasol a defnyddiol.

A siarad yn gyffredinol, bydd y drafodaeth yn ystod Penodau 4 a 5 yn casglu bod y mwyafrif helaeth o arferion polisi a ddatblygwyd dros y degawdau diwethaf yng Nghymru a Quebec yn rhai cwbl ddilys. Wrth gwrs, ceir un eithriad pwysig, sef polisi arwyddion dadleuol llywodraeth Quebec; polisi a oedd yn cyfyngu mewn modd annerbyniol ar ryddid mynegiant. Eto i gyd, er gwaethaf achos unigol o'r fath, pan ystyrir y sampl o bolisïau a drafodir yn ei gyfanrwydd, fe welir fod y darlun yn un cadarnhaol. O ganlyniad, bydd ail ran y traethawd yn dangos bod y mwyafrif helaeth o arferion polisi adferol a welir ar waith heddiw mewn cymdeithasau rhyddfrydol-democrataidd yn tueddu i gydorwedd yn gwbl gyfforddus gydag egwyddorion rhyddfrydol.

Yn ystod y bennod olaf, ceir amlinelliad manwl o'r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt wrth drafod y ddau gwestiwn ymchwil a osodwyd ar gyfer y traethawd. Yna eir ymlaen i fyfyrio ychydig ynglŷn â pha wersi cyffredinol y gellir eu crynhoi o'r traethawd yn ei gyfanrwydd. Wrth wneud hyn, gwneir tri phwynt: yn gyntaf, pwysigrwydd trafodaethau normadol i'r drafodaeth academaidd gyffredinol ynglŷn â pholisi iaith; yn ail, pwysigrwydd trafodaethau ieithyddol i'r drafodaeth normadol ynglŷn ag amlddiwylliannedd; ac yn drydydd, cyfeirir at y modd y mae casgliadau'r traethawd yn cynnig cadarnhad pellach o dybiaethau rhyddfrydwyr

diwylliannol megis Kymlicka, sef bod rhyddfrydiaeth yn syniadaeth sy'n meddu ar yr adnoddau i ymateb yn deg a chytbwys i alwadau gwahanol leiafrifoedd diwylliannol.

# Rhan 1: Statws Moesol Adferiad Iaith

Amcan rhan gyntaf y traethawd hwn fydd ceisio clorianddu sut dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol y dasg o adfer iaith. Yn benodol, ystyrir a ddylent ei ddehongli fel tasg sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder. Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad, mae tuedd ymhlith lladmeryddion nifer o ieithoedd lleiafrifol i ddehongli adferiad mewn termau moesol o'r fath. A siarad yn gyffredinol, cred y bobl hyn fod eu hieithoedd wedi dirywio yn sgil cyfnod estynedig o anghyfiawnder, ac yn sgil hynny, caiff y dasg o'u hadfer ei gweld fel mater o gyfiawnder diamheuol. Fodd bynnag, beth yn union yw goblygiadau safbwynt o'r fath? Ac yn bwysicach, a yw'n safbwynt y gall rhyddfrydwyr ei gymeradwyo? Dyma'r cwestiynau a gaiff eu hystyried yn ystod y ddwy bennod nesaf.

# 2. Adferiad Iaith: Gweithred Hanfodol ym Mhob Sefyllfa?

### 1. Cyflwyniad

Gall yr honiad fod adfer iaith yn dasg hanfodol o safbwynt cyfiawnder gael ei ddehongli mewn amryw o ffyrdd. Un ffordd o wneud hynny yw trwy gymryd bod ymdrechu i hybu adferiad yn hanfodol ym mhob sefyllfa lle bo iaith yn digwydd dirywio; hynny yw, mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn i achos o ddirywiad iaith yw cymryd camau brys i geisio atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw. Fodd bynnag, a yw safbwynt o'r fath – safbwynt cymharol absoliwt – yn gynaliadwy? A ellir, mewn difrif, awgrymu bod dirywiad iaith yn broses mor ddifrifol ac mor niweidiol fel y dylai rhyddfrydwyr ddadlau mai dim ond un ymateb priodol a chyfiawn a geir ym mhob achos?

Dod i gasgliadau ynglŷn â'r cwestiynau hyn fydd amcan y bennod hon. Dechreuir trwy egluro pam mae dichonoldeb safbwynt moesol sy'n meddu ar oblygiadau mor bellgyrhaeddol yn fater sydd angen ei drafod. Ar ôl hynny, eir ati i ystyried beth yn union yw goblygiadau gadael i iaith ddirywio. A yw proses o'r fath yn un sy'n medru arwain at ganlyniadau niweidiol? Ceisir dangos ei fod, trwy drafod dwy ddadl bwysig sy'n tystio i'r hyn y gellid ei golli wrth i iaith ddirywio – y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol y byd a hefyd y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth. Fodd bynnag, un peth yw derbyn bod gweithred neu broses yn meddu ar oblygiadau niweidiol, peth arall yw derbyn bod y goblygiadau hynny mor niweidiol fel y dylid ymrwymo i atal a gwrthdroi'r weithred neu'r broses dan sylw ym mhob sefyllfa. O ganlyniad, yn ystod rhan olaf y bennod eir

ati i ystyried a yw'r niwed sy'n medru deillio o ddirywiad iaith yn cyfiawnhau cymryd cam o'r fath. Wrth wneud hynny rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor allweddol; y graddau y gellir disgrifio'r niwed fel un cwbl difrifol a dinistriol a'r graddau y gellir disgrifio'r niwed fel un hollgyffredinol o ran natur.

## 2. Perthnasedd y Safbwynt Absoliwt

Teg yw holi ar ddechrau'r bennod pam mae dichonoldeb safbwynt absoliwt tebyg i'r hyn a ddisgrifiwyd uchod yn fater sydd wir angen ei drafod. A yw, er enghraifft, yn safbwynt a gaiff ei arddel gan ysgolheigion neu ymgyrchwyr ieithyddol? Yn nhyb rhai o'r athronwyr rhyddfrydol sydd eisoes wedi trafod polisi iaith, mae dadleuon arbennig o bellgyrhaeddol ynglŷn â phwysigrwydd y dasg o atal a gwrthdroi dirywiad ieithyddol yn cael eu mynegi yng ngwaith nifer helaeth o ysgolheigion. Er enghraifft, dadleuodd Leslie Green (1987: 653) mai ymdrechu i atal dirywiad iaith yw 'the implicit value assumption of nearly every linguistic demographer and sociolinguist.' Caiff hyn ei ategu gan Alan Patten a Will Kymlicka, sy'n awgrymu bod amryw o ysgolheigion yn aml yn trafod pynciau megis polisi iaith a dirywiad ieithoedd lleiafrifol mewn modd sy'n rhagdybio mai 'the maintenance or preservation of minority languages is *a fundamental requirement* of a normative theory of language policy' (Patten a Kymlicka 2003: 43, pwyslais wedi'i ychwanegu). Eto i gyd, a yw hwn yn ddehongliad teg o waith ysgolheigion megis ieithyddwyr, cymdeithasegwyr iaith neu anthropolegwyr? A ydynt, yng ngeiriau Patten a Kymlicka, yn tueddu i ddehongli adferiad iaith fel rhyw fath o 'ofyniad sylfaenol' – fel yr unig ymateb priodol a chyfiawn ym mhob achos o ddirywiad iaith?

Yn sicr, rhaid cydnabod sut y gallai rhywun gael argraff o'r fath o ddarllen gwaith rhai o'r ysgolheigion hyn. Cymerer, er enghraifft, waith David Crystal (2000) neu waith Daniel Nettle a Suzanne Romaine (2000). Mae'r rhain yn astudiaethau sy'n pryderu'n ddirfawr ynglŷn ag unrhyw ddirywiad yn amrywiaeth ieithyddol y byd ac yn trin ymdrechion i atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw fel gweithgaredd hollbwysig sy'n meddu ar yr un arwyddocâd ag ymdrechion i atal dirywiad ein hamgylchedd naturiol. Yn wir, caiff y pwysigrwydd hwn a briodolir i'r dasg o atal dirywiad iaith ei bwysleisio gan Crystal wrth iddo gloi un o benodau allweddol ei lyfr, *Language Death*, trwy nodi'r dyfyniad canlynol o eiddo Ron Crow: 'To fight to preserve the smaller cultures and languages may turn out to be the struggle to preserve the most precious things that make us human before we end up in the land fill of history' (dyfynnwyd yn Crystal 2000: 67). Ymhellach, nid dim ond ysgolheigion sy'n trafod y dasg o atal a gwrthdroi dirywiad iaith mewn termau o'r fath. Caiff safbwyntiau tebyg eu harddel hefyd gan grwpiau ymgyrchu rhyngwladol, megis Terralingua. Dyma grŵp sy'n nodi ymhlith ei brif amcanion, 'the integrated protection, maintenance and restoration of the biocultural diversity of life – the world's biological, cultural and linguistic diversity – through an innovative programme of research education, policy-relevant work and on-the-ground action'.[1] Gwelir felly fod tuedd bendant ymhlith rhai ysgolheigion ac ymgyrchwyr gwleidyddol i drin y dasg o atal a gwrthdroi dirywiad iaith fel un sy'n meddu ar arwyddocâd arbennig o bwysig.

Fodd bynnag, er gwaetha'r pwysigrwydd diamheuol a briodolir i'r dasg o atal a gwrthdroi dirywiad iaith gan ysgolheigion megis Crystal neu Nettle a Romaine, a

[1] Dyfynnwyd o wefan Terralingua, www.terralingua.org. Cyrchwyd 27.10.08.

hefyd gan fudiadau megis Terralingua, dylid gochel rhag datgan yn gwbl bendant eu bod yn arddel safbwynt absoliwt tebyg i'r un a ddisgrifiwyd ar ddechrau'r bennod. Y gwir amdani yw nad ydynt, er gwaethaf popeth, yn datgan yn gwbl glir eu bod yn trin dirywiad iaith fel proses mor ddifrifol ac mor niweidiol fel mai dim ond un ymateb priodol a chyfiawn a geir ym mhob achos. O ganlyniad, byddai'n annheg i'w cyflwyno yma fel cynrychiolwyr safbwynt o'r fath. Ond, os na ellir dweud yn sicr fod y safbwynt yn un a gaiff ei arddel gan unrhyw garfan benodol, yna pam mae angen treulio amser yn ystod y bennod hon yn cloriannu ei ddichonolrwydd?

I ddechrau, tra nad yw'r ysgolheigion ac ymgyrchwyr y cyfeiriwyd atynt uchod yn datgan yn gwbl glir eu bod yn trin y dasg o adfer ieithoedd lleiafrifol fel un cwbl hanfodol ym mhob sefyllfa, nid ydynt chwaith yn gwneud pwynt o ddiystyru'r safbwynt hwnnw. Mewn gwirionedd, mae amwysedd mawr i'w gael yng ngwaith nifer o'r ysgolheigion hynny sy'n bleidiol i achos ieithoedd lleiafrifol ynglŷn â beth yn union yw hyd a lled eu hargymhellion. Yn wir, mae hwn yn bwynt a gaiff ei gydnabod gan Crystal (2000: 127, n1). Maent oll yn gytûn bod dirywiad gwahanol ieithoedd yn broses y dylid gresynu yn ei gylch. Maent hefyd, ar y cyfan, yn gefnogol iawn i ymdrechion i wrthdroi proses o'r fath, gan drafod yn fanwl pa fath o gamau y gellid eu cymryd i gyflawni hynny. Eto i gyd, nid ydynt wedi egluro beth yw hyd a lled y gefnogaeth hon. A ddylai ymestyn i bob sefyllfa lle bo iaith yn digwydd dirywio, neu a ddylai gael ei atal mewn rhai achosion penodol? Fel y noda Crystal mae hwn yn fater sydd angen ei drafod ymhellach, ac fe ellid dehongli'r bennod hon – pennod sy'n ymdrechu i gloriannu cryfderau a gwendidau'r safbwynt absoliwt – fel cyfraniad i'r drafodaeth honno.

Fodd bynnag, mae rheswm da arall, cwbl annibynnol o drafodaethau ysgolheigion a mudiadau iaith, dros geisio cloriannu dichonolrwydd y safbwynt absoliwt yn ystod y bennod hon. Rhaid cofio nad yw'r safbwynt yn cael ei ystyried mewn gwagle, ond yn hytrach fel rhan o drafodaeth ehangach, a gynhelir yn ystod rhan gyntaf y traethawd, ynglŷn â sut dylai rhyddfrydwyr ddehongli statws moesol y dasg o adfer iaith. O ystyried hynny, mae'n gwbl briodol dechrau trafod ar y gwastad moesol uchaf posib. Yn gyntaf, bydd dechrau ar y brig fel hyn yn caniatáu i'r drafodaeth weithio i lawr yn raddol a rhesymegol maes o law. Ond ar ben hynny, ac yn bwysicach, trwy ddechrau ar y gwastad moesol hwn, gellir sicrhau ein bod yn mynd ati i drafod y gwahanol ddadleuon sy'n tystio i bwysigrwydd iaith mewn modd arbennig o feirniadol. Bydd hyn, yn ei dro, yn caniatáu i ni ddysgu llawer, nid yn unig ynglŷn â pha fath o fuddiannau sydd yn y fantol pan fo iaith mewn peryg o ddirywio, ond hefyd sut y mae'r buddiannau hynny yn gorwedd mewn cymhariaeth â rhai o'r buddiannau eraill sy'n allweddol i les ein bywydau. Yn wir bydd dysgu am y pethau hyn yn gosod sylfaen dda i drafodaeth yr holl draethawd.

Gwelir felly fod cloriannu dichonolrwydd y safbwynt absoliwt yn orchwyl cwbl briodol. O ganlyniad, dyna a wneir yn ystod y tudalennau nesaf, a hynny trwy holi a yw dirywiad ieithyddol yn broses mor ddifrifol ac mor niweidiol fel mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn ym mhob achos yw ymdrechu i'w atal, gan geisio adfer rhagolygon yr iaith?

### 3. Dirywiad Iaith: Ffenomenon Mwyfwy Cyffredin

Yn sicr, gellir dadlau fod dirywiad ieithyddol ar raddfa eang bellach yn fygythiad real a difrifol. Mae nifer o sylwebwyr yn gytûn fod dirywiad gwahanol ieithoedd lleiafrifol yn prysur ddatblygu i fod yn un o nodweddion amlycaf y byd modern. Yn ôl amcangyfrifon, tua 6,000 o ieithoedd a siaredir bellach ar draws y byd (Krauss 1992). Ymhlith y cyfanswm yma, ceir nifer helaeth o ieithoedd sydd ond yn cael eu defnyddio gan lond dwrn o bobl. Mae hyn yn cynnwys tua 2,000 sy'n cael eu siarad gan lai na mil o bobl (Patten a Kymlicka 2003: 42). O ystyried hyn, mae Michael Krauss (1992) wedi darogan y bydd tua 3,000 o'r cyfanswm o 6,000 o ieithoedd a siaredir heddiw yn diflannu erbyn diwedd yr unfed ganrif ar hugain. Yn wir, yn ei dyb ef, dim ond tua 600 o ieithoedd y gellir eu disgrifio bellach fel rhai 'diogel'.[2] Fel y cydnabu Krauss ei hun, gellir codi cwestiynau ynglŷn ag union gywirdeb rhai o'r ystadegau uchod. Fodd bynnag, ychydig iawn o amheuaeth a geir ynglŷn â chyfeiriad cyffredinol y tueddiadau ieithyddol presennol. O ganlyniad, mae Nettle a Romaine yn go bendant wrth ddatgan, 'the overwhelming majority of the world's languages may be in danger of extinction' (Nettle a Romaine 2000: 8).

Nid yw dirywiad gwahanol ieithoedd yn ffenomen newydd. Dros gyfnod o ganrifoedd mae nifer helaeth o ieithoedd wedi naill ai diflannu'n llwyr, wedi dirywio neu wedi addasu'n sylweddol. Er enghraifft, dadleua Nettle a Romaine fod tua hanner o ieithoedd y byd wedi diflannu yn ystod y 500 mlynedd diwethaf (2000: 2). Fodd

[2] Wrth gynnig gorolwg o'r sefyllfa mewn gwahanol rannau o'r byd ym 1992, nododd Krauss y canlynol: bod 80 y cant o ieithoedd yr Indiaid brodorol a siaradwyd ar draws Gogledd America bellach ddim yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall; bod 17 y cant o'r ieithoedd a siaredir yng Nghanolbarth America (50 allan o 300 iaith) a 27 y cant o'r ieithoedd a siaredir yn Ne America (110 allan 400 iaith) yn annhebygol iawn o oroesi; a bod 90 y cant o'r 250 o ieithoedd a siaradwyd gan yr Aborijinis ar draws Awstralia yn agos iawn i ddiflannu.

bynnag, yr hyn sy'n drawiadol ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yw maint y bygythiad. Fel y noda Stephen May:

> Of course, such language loss and language shift have always occurred – languages have risen and fallen, become obsolete, died, or adapted to changing circumstances in order to survive, throughout the course of human history. But what is qualitatively (and quantitatively) different as we enter the twenty first century is the unprecedented scale of this process of decline and loss (May 2001: 2).

Yn wir, cymaint yw maint y dirywiad presennol nes iddo gael ei ddisgrifio gan rai sylwebwyr fel 'hil-laddiad ieithyddol' (Skutnabb-Kangas 2000). Gellid codi cwestiynau digon dilys ynglŷn â phriodoldeb y defnydd o dermau megis hil-laddiad yn y cyswllt hwn (Boran 2003; Levy 2003). Fodd bynnag, pan ystyrir yr holl dystiolaeth empeiraidd a gyhoeddwyd gan ieithyddwyr dros y blynyddoedd diwethaf, anodd fyddai gwadu bod rhagolygon nifer helaeth o ieithoedd bellach yn fwy bregus nag y buont erioed.

I raddau helaeth, nid oes dim sy'n arbennig o ddadleuol ynglŷn â nodi'r ffeithiau hyn. Anodd fyddai gwadu nad yw amgylchiadau cyfoes yn arwain at roi pwysau sylweddol ar nifer helaeth o ieithoedd lleiafrifol. Serch hynny, nid yw dangos bod nifer helaeth o ieithoedd mewn peryg o ddirywio a diflannu, ar ben ei hun, yn egluro pam y dylid pryderu ynglŷn â thuedd o'r fath, na chwaith pam y dylid ymdrechu i'w wrthdroi ym mhob sefyllfa. Yn wir, mewn rhai cylchoedd, caiff dirywiad gwahanol ieithoedd ei ddehongli fel rhywbeth y dylid ei groesawu. Er enghraifft, yn nhyb modernwyr megis Ernest Gellner (1983), os yw dirywiad ieithoedd lleiafrifol yn arwain at ymlediad un iaith gyffredin ar draws cymuned wleidyddol, yna dylid ei groesawu, gan fod llawer o enillion cymdeithasol yn medru deillio o broses o'r fath. O ganlyniad, cyn gellir casglu bod dirywiad iaith yn broses y

dylid ei atal a'i wrthdroi fel mater o gyfiawnder, rhaid gwneud mwy i geisio sefydlu ei fod yn broses sy'n meddu ar oblygiadau niweidiol. A yw hyn yn bosib? Dyna a drafodir yn yr adran nesaf.

**4. Dirywiad Iaith: Proses Niweidiol?**

Er mwyn penderfynu a ddylai dirywiad iaith gael ei ddehongli fel proses niweidiol, rhaid ystyried rhai o'r dadleuon a ddefnyddiwyd gan gymdeithasegwyr iaith ac athronwyr gwleidyddol i dystio i bwysigrwydd iaith. Sut yn ôl y dadleuon hyn y byddai dirywiad gwahanol ieithoedd yn effeithio ar fywyd unigolion neu grwpiau? Beth yn union a gollir pan fo iaith yn dirywio? Beth yn union yw'r 'gost' (Blake 2003)? Nid oes lle yma i drafod pob un o'r gwahanol ddadleuon a ddefnyddiwyd wrth geisio tystio i'r 'gost' o golli iaith. Yn hytrach, rhoddir sylw i ddwy ddadl benodol; o bosib y rhai mwyaf poblogaidd bellach ymhlith yr ysgolheigion hynny sydd am ennill cefnogaeth i achos ieithoedd lleiafrifol. Y cyntaf o'r dadleuon hyn yw honno sy'n pwysleisio'r modd y gall dirywiad ieithyddol arwain at ganlyniadau niweidiol i ddynoliaeth yn gyffredinol, trwy leihau amrywiaeth y byd. Yr ail yw honno sy'n tystio i'r modd y gall dirywiad ieithyddol niweidio hunaniaeth grŵp neu unigolyn.

*4.1 Gwerth Amrywiaeth Ieithyddol*

Mae'r sawl sy'n arddel y ddadl ynglŷn â phwysigrwydd sylfaenol amrywiaeth ieithyddol yn ceisio estyn rhai o ragdybiaethau'r drafodaeth ynglŷn â'r amgylchedd naturiol ac amrywiaeth fiolegol y byd i faes iaith. Yn ôl ysgolheigion megis Crystal (2000) neu Nettle a Romaine (2000) mae amrywiaeth ieithyddol yn adnodd gwerthfawr dros ben, ac mae unrhyw ddirywiad yn yr amrywiaeth hwnnw yn debygol

o arwain at ganlyniadau niweidiol i'r ddynoliaeth yn gyffredinol. O ganlyniad, dadleuir yn frwd o blaid datblygu rhyw fath o 'ieithyddiaeth werdd' (Crystal 2000).

Wrth gwrs, un rheswm dros geisio sefydlu cyswllt rhwng y dimensiwn ieithyddol a'r dimensiwn amgylcheddol a biolegol yw'r gobaith y gall hynny esgor ar enillion gwleidyddol. Erbyn hyn ceir cytundeb cyffredinol o fewn cymdeithas ynglŷn â phwysigrwydd gweithredu i gynnal ein hamgylchedd naturiol ac i warchod gwahanol rywogaethau biolegol. Bellach, mae'r pwnc yn cael ei drafod yn gyson, ac mae hyn wedi arwain at raglenni polisi pellgyrhaeddol, boed hynny ar y lefel ddomestig neu'r lefel ryngwladol. Fodd bynnag, nid yw'r peryg sy'n wynebu nifer helaeth o ieithoedd wedi derbyn yr un math o sylw. Mae hyn yn destun rhwystredigaeth i rai, megis Krauss (1992), sy'n mynnu fod lefel y dinistr ieithyddol a wynebir gymaint â hynny'n fwy na'r un biolegol. O ganlyniad, trwy geisio ennill lle amlwg i faterion ieithyddol o fewn y drafodaeth gyfoes ynglŷn â'r amgylchedd naturiol ac amrywiaeth fiolegol, gobaith ysgolheigion megis Krauss, Crystal, neu Nettle a Romaine, yw y gellir trosglwyddo ychydig o'r brwdfrydedd a'r difrifoldeb sy'n nodweddu'r drafodaeth honno i'r drafodaeth ynglŷn â dyfodol ieithoedd lleiafrifol.

Fodd bynnag, nid mater o dactegau gwleidyddol yn unig mo'r gymhariaeth: mae lladmeryddion y safbwynt hefyd yn credu fod y cyswllt yn un cwbl briodol. Er enghraifft, dadleua Nettle a Romaine (2000) y ceir cydberthynas agos rhwng amrywiaeth fiolegol y byd a'i amrywiaeth ieithyddol; perthynas a gaiff ei amlygu mewn nifer o amrywiol ffyrdd. I ddechrau nodir y berthynas o ran dosbarthiad

daearyddol. Trwy gymharu dau fap gwahanol o'r byd, y naill yn nodi dosbarthiad biolegol a'r llall yn nodi dosbarthiad ieithyddol, dangosir mai'r ardaloedd a nodweddir gan amrywiaeth fiolegol sylweddol yw'r rhai lle caiff amrywiaeth eang o ieithoedd eu siarad (Nettle a Romaine 2000: 43). Yn ogystal, dadleuir fod y berthynas rhwng y biolegol a'r ieithyddol yn cael ei chyfleu trwy ystyried natur y bygythiadau a wynebir. Honnir mai'r prosesau gwleidyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n arwain at danseilio rhagolygon gwahanol rywogaethau biolegol sydd hefyd yn tanseilio hyfywedd gwahanol ieithoedd brodorol. Arweinia hyn Nettle a Romaine i ddatgan:

> Overall, the commonalities between biological and linguistic diversity are striking. The richness is concentrated in similar places, and in both cases, the destabilizing activities of a few powerful groups have potentially catastrophic consequences (Nettle a Romaine 2000: 48).

Eto i gyd, un peth yw dangos fod yna gyswllt posib rhwng dirywiad biolegol a dirywiad ieithyddol. Peth arall yw dangos pam dylid poeni ynglŷn â'r ddau yn yr un modd. Wrth gwrs, erbyn hyn ceir llwyth o dystiolaeth sy'n dangos yn glir sut mae amrywiaeth biolegol y byd yn cefnogi ac yn cyfoethogi ein bywydau, ynghyd â thystiolaeth sy'n nodi'r niwed sylweddol a all ddeillio o grebachiad yr amrywiaeth hwnnw. Ond, a yw'r sawl sy'n arddel y ddadl ynglŷn â phwysigrwydd sylfaenol ein hamrywiaeth ieithyddol yn llwyddo i egluro pam y dylid trin dirywiad yr amrywiaeth hwnnw fel proses niweidiol hefyd?

Yn nhyb Idil Boran (2003), mae'r llenyddiaeth sy'n trafod ecoleg ieithyddol yn cynnwys dwy brif ddadl sy'n cefnogi'r honiad fod dirywiad yn amrywiaeth ieithyddol y byd yn broses niweidiol. Mae'r dadleuon hyn yn cyffwrdd ar werth esthetig amrywiaeth ieithyddol a hefyd ei werth gwyddonol. Mae'r dadleuon sy'n pwysleisio gwerth esthetig yn nodi bod gwahanol ieithoedd yn cynnig nifer o ffyrdd

gwahanol i fynegi safbwynt a theimladau ac hefyd i gynhyrchu celf. Er enghraifft, fel y noda Boran, 'some forms of art are associated with particular languages' (Boran 2003: 195). Enghraifft o hyn, yn nhyb Boran, yw'r Siapanaeg a'r Haiku. Er bod hon yn ffurf o farddoni sydd bellach yn cael ei defnyddio gan siaradwyr ieithoedd eraill, ni fyddai hyn wedi bod yn bosib pe bai'r Siapanaeg wedi diflannu cyn i'r traddodiad barddonol yma gael ei rannu ag eraill (Boran 2003: 195).

Ysgolhaig sy'n credu'n gryf yn y budd esthetig sy'n deillio o gynnal amrywiaeth ieithyddol y byd yw Crystal (2000). Yn ei dyb ef:

> Humanity gains so much from each fresh expression of itself in a language ... The best way for an educated person to feel the power of this argument ... is to ask what would be missed if – through an imaginary catastrophic language disappearance – we had never had X (where X is any well-known language). What splendours of literature, in particular, would we have never experienced if some event had prematurely ended the development of French, Spanish or Russian? (Crystal 2000: 45).

Gwelir felly fod y budd esthetig sy'n deillio o fodolaeth amrywiaeth eang o ieithoedd yn medru cyfrannu at gyfoethogi ein bywydau. O ganlyniad, yn nhyb sylwebwyr megis Crystal, dylai unrhyw ddirywiad yn yr amrywiaeth hwnnw gael ei ddehongli fel proses niweidiol, gan fod rhan o gyfoeth cynhenid y byd yn cael ei golli.

Ochr yn ochr â'r ddadl uchod ynglŷn â gwerth esthetig amrywiaeth ieithyddol, mae lladmeryddion y persbectif ecolegol hefyd yn cynnig dadl ynglŷn â'i werth gwyddonol. Mae'r sawl sy'n tynnu sylw at yr agwedd hon yn tueddu i rannu eu sylwadau yn ddwy ran. I ddechrau, dadleuir fod gwybodaeth ynglŷn ag amrywiol ieithoedd yn bwysig i'r sawl sy'n arddel ieithyddiaeth fel gwyddor gymdeithasol. Caiff y pwynt yma ei bwysleisio gan Nettle a Romaine:

> Linguists need to study as many different languages as possible if they are to perfect their theories of language structure and to train future generations of students in linguistic analysis ... Satisfying answers to many current puzzles about languages and their origins will not emerge until linguists have studied many languages. To exclude exotic languages from our study is like expecting botanists to study only florist shop roses and greenhouse tomatoes and then tell us what the plant world is like (Nettle a Romaine 2000: 10 – 11).[3]

Fodd bynnag, dadl wyddonol dipyn pwysicach na'r uchod yw honno sy'n egluro sut y gall dirywiad yn amrywiaeth ieithyddol y byd arwain at danseilio cynnydd gwyddonol yn gyffredinol. Deillia hyn o'r wybodaeth bwysig ynglŷn â'r byd sydd i'w ganfod o fewn iaith. Fel y Noda Nettle a Romaine:

> The knowledge contained in indigenous languages has much to contribute to scientific theories through the uncovering of potentially invaluable perspectives on a variety of problems such as land management, marine technology, plant cultivation and animal husbandry (Nettle a Romaine 2000: 51).

O ganlyniad, trwy golli'r gronfa bwysig o wybodaeth ynglŷn â'r byd a'i weithrediad sydd i'w ganfod mewn gwahanol ieithoedd lleiafrifol, mae'n bosib ein bod yn colli'r cyfle i ganfod atebion i lawer o sialensiau cyfoes, a'n bod felly yn peri niwed i ragolygon y ddynoliaeth yn gyffredinol. Wrth gwrs, yr achos clasurol a ddefnyddir gan ladmeryddion y ddadl hon wrth geisio tanlinellu ei bwysigrwydd, yw'r un sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o ddarganfod gwellhad i glefydau cyfoes trwy astudio rhai o ieithoedd bach y byd. Fel yr eglura Boran:

> ... if a plant that is not yet known to us and is already known by a culture that has a name for the plant, then that information can be used to learn about that particular plant, which in turn can potentially be used to cure a disease that is not yet well understood (Boran 2003: 197).

---

[3] Ategir hyn gan Ken Hale sy'n nodi: 'It is a fact, I believe, that without linguistic diversity it will be impossible for us to perform the central task of linguistic science ... At this point in the history of linguistics, at least, *each* language offering testimony for linguistic theory brings something important, and heretofore not known or not yet integrated into the theory. In many cases, data from a 'new' language forces changes in the developing theory, and in some cases, linguistic diversity sets an entirely new agenda' (Hale 1998: 193 – 194).

Gwelir felly fod y sawl sy'n arddel y ddadl ynglŷn â phwysigrwydd sylfaenol amrywiaeth ieithyddol y byd yn llwyddo i dynnu sylw at amryw o ganlyniadau niweidiol – rhai esthetig a rhai gwyddonol – a all ddeillio o ddirywiad yr amrywiaeth hwnnw. Trown yn awr i ystyried y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth.

*4.2 Pwysigrwydd Iaith i Hunaniaeth*

Afraid dweud fod amryw o athronwyr gwleidyddol eisoes wedi cyfeirio at bwysigrwydd sylfaenol hunaniaeth. Er enghraifft, nododd Charles Taylor (1992: 25) fod pobl yn medru dioddef niwed go ddifrifol pan fo cymdeithas wedi'i threfnu mewn modd sy'n arwain at fychanu neu niweidio cefndir grŵp arbennig: 'a person or a group of people can suffer real damage, real distortion, if the people or society around them mirror back to them a confining or demeaning or contemptible picture of themselves.' O ganlyniad, os yw hunaniaeth person neu grŵp yn cael ei thanseilio neu ei dibrisio mewn modd sylweddol, gall hynny arwain at niwed seicolegol go ddifrifol. Fodd bynnag, nid yw'r pwynt cyffredinol hwn ynglŷn â phwysigrwydd hunaniaeth yn egluro pam mae sefyllfa'r iaith yn hollbwysig. Wedi'r cyfan, nid ymlyniad ieithyddol yw'r unig elfen sy'n cyfrannu at lunio a diffinio hunaniaeth. Rhywbeth cymhleth ydyw sy'n cynnwys nifer o elfennau gwahanol (Edwards 1984). O ystyried hyn, a ellir casglu y dylai dirywiad iaith gael ei drin fel proses sy'n meddu ar oblygiadau niweidiol o safbwynt hunaniaeth?

Yn nhyb nifer o gymdeithasegwyr iaith, mae dirywiad iaith yn broses sy'n medru arwain at ganlyniadau niweidiol i hunaniaeth grŵp diwylliannol. Un sy'n

arddel safbwynt o'r fath yw Joshua Fishman (1985 a 1991). Yn ei dyb ef, caiff iaith a hunaniaeth ethno-ddiwylliannol eu cysylltu mewn tair ffordd bwysig: yn fynegol (indexically), yn symbolaidd (symbolically) ac yn rhannol-gyflawn (part-whole link). I ddechrau, yn achos y cyswllt mynegol, noda Fishman:

> That language which has traditionally been linked with a given ethnoculture is, at any time during which that linkage is still intact, best able to name the artefacts and to formulate or express the interests, values and world-views of that culture (Fishman 1991: 20).

Yn nhyb Fishman, gan fod iaith a diwylliant traddodiadol fel arfer wedi datblygu ochr yn ochr â'i gilydd, a hynny dros gyfnod sylweddol o amser, bydd un yn meddu ar y gallu i gyfleu'r llall mewn modd mwy effeithiol na ieithoedd eraill. Wrth ddadlau hyn, nid yw Fishman yn awgrymu nad yw newid o unrhyw fath yn bosib. Mae'n fodlon cydnabod y gall iaith arall, dros gyfnod o amser, ddod i gynnal y cyswllt â'r diwylliant traddodiadol mewn modd sydd yr un mor effeithiol. Eto i gyd, mae'n pwysleisio mai proses hir fydd hon ac na fydd felly yn debygol o fodloni siaradwyr presennol yr iaith sy'n dirywio:

> ... no one lives in the long run; we all live in the short run, in the here and now ... in the short run (which is to say, at any particular point in time) no language but the one that has been most historically and intimately associated with a given culture is as well able to express the artefacts and the concerns of that culture (Fishman 1991: 21).

Yn ail, cyfeiria Fishman at y cyswllt symbolaidd rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth. Yn nhyb Fishman, yn sgil y cyswllt traddodiadol rhwng iaith a diwylliant mae'r naill wedi dod i gynrychioli'r llall, nid yn unig yng ngolwg aelodau'r grŵp ond yng ngolwg eraill oddi allan hefyd:

> This ethnoculturally symbolic role of language is not a strange phenomenon ... almost all of the languages of the world have also come to stand for the particular ethnic collectivises that speak them, for the ethnocultures that traditionally utilize them and, where we are dealing with official languages of nations or regions, for the polities that implement them (Fishman 1991: 23).

Yn achos rhai ieithoedd mawr ac yn enwedig yn achos y Saesneg, efallai na fydd cryfder y cyswllt symbolaidd hwn mor amlwg.[4] Serch hynny, yn ôl Fishman, deillia hyn o natur hollbresennol ieithoedd o'r fath; sefyllfa sy'n golygu bod eu siaradwyr yn tueddu i'w cymryd yn ganiataol. Y ddadl olaf a gyflwynir gan Fishman yw'r un sy'n ymwneud â'r cyswllt rhannol-gyflawn rhwng iaith a diwylliant. Mewn perthynas â'r ddadl hon mae'n nodi:

> ... that parts of every culture are expressed, implemented and realized via the language with which that culture has been most immediately associated. So much of any culture is primarily verbally constituted: its songs and its prayers, its laws and its proverbs ... All of the foregoing are conventionally and consensually expressed via the culture's traditionally associated language, to such a degree that ... they do not have the same 'flavour', the same 'charm', the same 'magic', not to mention the same 'associations and memories', when translated into any other language (Fishman 1991: 24).

Gwelir felly fod dadleuon Fishman, at ei gilydd, yn pwysleisio pwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith draddodiadol a hunaniaeth grŵp diwylliannol. Eto i gyd, pa mor bwysig yw'r cyswllt hwn mewn gwirionedd?

Wrth gwrs, roedd rhai o ramantwyr Almaenaidd y ddeunawfed ganrif – meddylwyr megis Herder, Von Humboldt a Fichte – yn dehongli'r berthynas rhwng iaith a hunaniaeth mewn modd cwbl haearnaidd. Fel yr eglura May (2003), roedd y meddylwyr hyn yn tybio mai iaith oedd hanfod hunaniaeth ac felly y byddai dirywiad yr iaith yn gwbl drychinebus:

> ... the eighteenth century German romantics, Herder, von Humboldt and Fichte, advocated an 'organic' or 'linguistic' nationalism where culture, and

[4] Mewn achosion o'r fath, nid yw'r gost o golli iaith, neu o leiaf o weld yr iaith yn dirywio, yn fater sy'n croesi meddyliau pobl. Cafodd y pwynt yma ei grynhoi yn effeithiol gan Ned Thomas wrth iddo drafod perthynas y Sais â'r Saesneg o'i chymharu â pherthynas rhai Cymry â'r Gymraeg: 'The Englishman is remarkably unselfconscious about his language and content to use it as a tool ... a healthy language, like a healthy body, does not need to have its temperature taken all the time; but the Welsh-speaker is constantly asking how the language is doing, noticing contradiction here, a small victory there ... pledging himself to do more' (Thomas 1971: 31).

> particularly  language, were viewed as central to the essence or character (Volksgeist) of the nation. In this perspective, language came to be constructed as the *most* important distinguishing characteristic of nationhood – indeed, its very soul (May 2003: 140, pwyslais yn y gwreiddiol).

Rhaid pwysleisio nad yw Fishman, na chwaith y mwyafrif helaeth o gymdeithasegwyr iaith cyfoes, yn dewis dehongli'r berthynas rhwng iaith a hunaniaeth mewn termau haearnaidd o'r fath. Er enghraifft, mae Fishman yn ddigon parod i gydnabod bod modd, dros amser, i iaith newydd lenwi'r gwagle a gaiff ei adael gan un sy'n dirywio; 'Many ethnic identities have managed to survive wholesale language shifts in connection with their historically associated languages' (Fishman 1991: 26). Eto i gyd, os ydym yn cydnabod bod modd parhau i arddel a chynnal hunaniaeth benodol yn absenoldeb yr iaith draddodiadol, onid yw hynny'n tanseilio holl nerth dadl sy'n ceisio pwysleisio pwysigrwydd y cyswllt rhwng y ddwy elfen yma? Os oes modd i grŵp gynnal hunaniaeth arbennig hyd yn oed wedi i'w iaith draddodiadol ddirywio, onid yw'n afresymol felly i drin dirywiad yr iaith fel proses arbennig o niweidiol? Onid oes yn rhaid cytuno â Gellner a nododd, 'changing one's language is not the heart-braking or soul-destroying business which it is claimed to be in romantic nationalist literature' (Gellner, 1964: 165)?

Mae'r cwestiwn olaf yma yn un a holir gan Carol Eastman (1984). Yn ei thyb hi, nid yw'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn un sy'n treiddio mor ddwfn â hynny. Rhywbeth arwynebol yn unig ydyw:

> ... language is an aspect of ethnic identity at the surface level ... but it is certainly not all there is to behaving ethnically ... When we stop using the language of our ethnic group, only the language use aspect of our ethnic identity changes; the primordial sense of who we are and what group we think we belong to for the remainder remains intact (Eastman 1984: 261).

Honna Eastman felly nad yw'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn un arbennig o arwyddocaol ac na fyddai dirywiad iaith benodol yn arwain at achosi unrhyw niwed sylweddol i hunaniaeth person neu grŵp. Gan mai dim ond elfen arwynebol o'n hunaniaeth yw'r iaith draddodiadol, gall ddirywio heb achosi unrhyw niwed sylweddol i graidd yr hunaniaeth honno:

> Language shift or change can only affect one aspect of our ethnic identity – the language use aspect ... The implication of this analysis of the relationship of language and ethnic identity, and the way change in both occurs, is that there is no need to worry about preserving ethnic identity, so long as the only change being made is in what language we use (Eastman 1984: 275).

Yn sicr, mae'r pwyntiau uchod o eiddo Eastman yn codi cwestiynau sylweddol ynglŷn â hygrededd dadleuon tebyg i rai Fishman.

Yn wir, fel mae May (2001) yn barod i gydnabod, nid dadleuon di-sail mo rhai Eastman. Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried tueddiadau ieithyddol nifer o grwpiau mudol cyfoes. Wrth symud, bydd aelodau'r grwpiau hyn yn aml yn mabwysiadu iaith eu gwlad newydd. Fodd bynnag, fel y noda Eastman, nid yw hyn yn golygu bod holl hunaniaeth y mudwyr yma yn sicr o newid:

> For example, if a French person leaves Paris and goes to live in New York, that person may learn to use English and stop using French ... That person remains ethnically French until the unlikely event that *all* factors of that ethnic identity change, including that person's perception of ancestry (Eastman 1984: 261).

Nid dim ond profiad y gellir ei briodoli i fewnfudwyr mo hwn chwaith. Mae'r pwyntiau a wnaed uchod hefyd yn berthnasol i rai o'r achosion hynny lle mae iaith cenedl leiafrifol wedi dirywio'n sylweddol. O bosib, un o'r achosion enwocaf yw achos Iwerddon (May 2001). Dros y ddau gan mlynedd diwethaf, dirywio'n sylweddol wnaeth rhagolygon y Wyddeleg wrth iddi gael ei disodli gan y Saesneg.

Erbyn heddiw, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o’r iaith. Eto i gyd, erys ymdeimlad cryf o hunaniaeth Wyddelig. Fel y noda John Edwards:

> ... it seems clear that there is, today, a strong Irish identity which does not involve the Irish language in a communicative sense ... if we accept that (a) there is an Irish national identity, and (b) the vast majority neither speak Irish nor seem particularly interested in doing so, then it follows that identity does *not* depend upon language alone (Edwards 1984: 289).

Felly, mae dadleuon Eastman ac Edwards yn awgrymu mai arwynebol yn unig yw’r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth grŵp diwylliannol, ac na ddylai dirywiad ieithyddol gael ei ddehongli felly fel proses arbennig o niweidiol.

Serch hynny, tra’n derbyn na ellir disgrifio’r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth fel un hanfodol, dylid gochel rhag camu ymlaen i ddadlau mai arwynebol yn unig yw’r cyswllt rhyngddynt, ac na all fyth fod yn fwy na hynny. Fel y dadleua May:

> Language clearly does *not* define us, and may not be a necessary feature, or even an important one, in the construction of our identities, whether at the individual or the collective level. I agree broadly with this constructivist analysis – indeed, who could not? Where I beg to differ is in refusing to take the next step that is often then taken by constructivists: that is, to assume that, if language is merely a contingent factor of identity, it cannot therefore (ever) be a *significant* or *constitutive* factor of identity (May 2003: 141).

Felly tra na ellir disgrifio’r cyswllt rhwng iaith draddodiadol a hunaniaeth fel un hanfodol, dadleua May y dylid bod yn barod i’w ddisgrifio, mewn rhai sefyllfaoedd, fel un pwysig dros ben. Byddai gwadu hynny yn golygu ein bod yn anwybyddu’r ffaith fod iaith *yn* chwarae rhan bwysig mewn nifer fawr o ddadleuon gwleidyddol ar draws y byd:

> This position is extremely problematic, not least because it simply does not reflect adequately, let alone explain, the heightened saliency of language issues in many historical and contemporary political conflicts ... particular languages clearly *are* for many people an important and constitutive factor of their individual and, at times, collective identities (May 2003: 141).

O ganlyniad, ni ddylid diystyru arwyddocâd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn llwyr.

Ymhellach, gan na ddylid diystyru arwyddocâd y cyswllt hwn, ni ddylid chwaith ddiystyru'r niwed a all ddeillio o'i dorri. Tra'i bod hi'n bosib i grŵp barhau i arddel ymdeimlad o hunaniaeth arbennig hyd yn oed wedi i'w iaith draddodiadol ddirywio, ni ddylid casglu fod y broses hon yn debygol o fod yn un cwbl rwydd i'r aelodau. Yn wir, nid proses lyfn na hwylus mo newid diwylliannol o unrhyw fath. Yn hytrach, mae'n broses anodd, sy'n medru cael effaith ddofn ar hunan barch a hyder aelodau'r grŵp dan sylw (Taylor 1992; Margalit a Raz 1990). Fel yr eglura Fishman:

> The fact that the traditional symbolic relationship between Xish and Xishness can ultimately be replaced by a new symbolic relationship between Yish and Xishness merely indicates that in the fullness of time such transformations are possible and they have, indeed occurred throughout human history. This does not mean that such symbolic redefinitions and self-redefinitions are either desirable or easily attained, or that Xishness is the same under both sets of linguistic circumstances' (Fishman, 1991: 34).

Gwelir felly fod y ddadl ynglŷn â'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth, fel y ddadl flaenorol ynglŷn â phwysigrwydd amrywiaeth, yn dangos fod dirywiad ieithyddol yn broses sy'n medru arwain at ganlyniadau anodd neu niweidiol. Eto i gyd, pa mor niweidiol yw'r canlyniadau hyn mewn gwirionedd? A ydynt yn cynnig digon o sail i gasglu fod dirywiad ieithyddol yn broses mor ddifrifol ac mor niweidiol fel y dylai rhyddfrydwyr ddadlau mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn ym mhob achos yw cymryd camau brys i'w atal a'i wrthdroi?

## 5. Adfer Iaith: Hanfodol ym Mhob Sefyllfa?

Mae'n bwysig deall nad yw dangos fod dirywiad iaith yn broses sy'n medru arwain at ganlyniadau niweidiol, ar ben ei hun, yn rhoi digon o reswm i gasglu mai hybu adferiad ddylai fod y nod ym mhob achos posib. Cyn bod modd gwneud hynny, rhaid trafod ymhellach er mwyn dysgu mwy ynglŷn ag union natur y niwed a wynebir. Wedi'r cyfan, un peth yw derbyn bod gweithred neu broses arbennig yn meddu ar oblygiadau niweidiol, peth arall yw derbyn bod y goblygiadau hynny mor niweidiol fel y dylid ymrwymo i atal y weithred neu'r broses dan sylw, doed a ddel, ym mhob sefyllfa dan haul.

Yn wir ychydig iawn o weithredoedd neu brosesau y byddai rhyddfrydwyr yn dymuno eu gosod ar wastad moesol o'r fath. Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried rhai o'r pethau hynny na fyddai'n llwyddo i groesi'r trothwy. Cymerer, er enghraifft, y syniad o gyfyngu ar ryddid mynegiant. A fyddai hwn yn gam y byddai rhyddfrydwyr am ei atal ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r amgylchiadau? Yn sicr, mae rhyddid mynegiant yn egwyddor bwysig sy'n cael lle amlwg yng ngwaith nifer o ryddfrydwyr cyfoes. Er enghraifft, caiff ei nodi gan John Rawls (1971) fel un o'r rhyddfreiniau hynny sy'n syrthio o dan faner y cyntaf, a'r pwysicaf, o'i egwyddorion cyfiawn. Fodd bynnag, gellir codi amheuon ynglŷn â'r graddau y byddai rhyddfrydwyr fel Rawls yn dymuno trin rhyddid mynegiant fel rhywbeth sydd mor bwysig fel y dylid atal pob ymdrech bosib i gyfyngu arno. Ystyrier sefyllfa lle bo grŵp hiliol yn cyhoeddi ac yn dosbarthu pamffledi ymfflamychol sy'n lledaenu rhagfarn aflan yn erbyn pobl groenddu, gan annog y defnydd o drais yn eu herbyn. A fyddai rhyddfrydwyr o ddifrif yn dadlau na ddylid erlyn cyhoeddwyr y pamffledi hyn ac y dylid goddef eu harferion

yn enw rhyddid mynegiant? Yn sicr, yn sgil y pwysigrwydd a briodolir i'r egwyddor, byddai rhyddfrydwyr yn dadlau bod angen i'r sawl sy'n dymuno cyfyngu ar ryddid mynegiant gynnig dadleuon arbennig o gryf cyn bod modd dilysu cam o'r fath. Ond, er hynny, nid yw'r cam yn un y byddent am ei atal ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Dengys hyn felly pa mor uchel yw'r trothwy sy'n rhaid ei groesi cyn y gellir datgan yn hyderus y dylid trin gweithred neu broses fel rhywbeth y dylid ei atal a'i wrthdroi doed a ddel.

Gweithredoedd sy'n llwyddo i groesi'r trothwy uchel hwn, ac felly'n haeddu cael eu disgrifio fel rhai y dylid ymdrechu i'w hatal ym mhob sefyllfa, yw arteithio a hil-laddiad. Dyma weithredoedd sydd mor ddifrifol ac mor niweidiol fel y gall rhyddfrydwyr ddatgan mai dim ond un ymateb priodol a chyfiawn a geir. Yn wir, nid dim ond safbwynt a gaiff ei arddel ymhlith deallusion mo hwn, ond un sy'n prysur ennill cefnogaeth ymhlith ymarferwyr gwleidyddol ar y llwyfan rhyngwladol (International Commission on Intervention and State Sovereignty 2001). Ond beth yn benodol ynglŷn â natur y niwed sy'n deillio o'r gweithredoedd hyn sy'n ein galluogi i ddatgan fod yna bwysau moesol arnom i'w hatal ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r amgylchiadau cefndirol? Cynigiaf isod ddwy nodwedd allweddol; natur gwbl ddifrifol y niwed a hefyd natur hollgyffredinol y niwed.

I ddechrau, yn achos gweithredoedd megis arteithio neu hil-laddiad, gellir datgan eu bod yn weithredoedd sy'n arwain at niwed cwbl ddifrifol; hynny yw, y math o niwed sy'n gwbl ddinistriol i les ein bywydau. Wedi'r cyfan nid yw'n bosib i unrhyw berson neu grŵp fyw bywyd rhydd a chyflawn tra'n gochel rhag bygythiadau

o’r fath. Yn wir, cymaint yw’r niwed sy’n deillio o’r gweithredoedd hyn fel bod pwysigrwydd y dasg o’u hatal yn ‘trympio’ pob ystyriaeth arall. Wrth drafod achosion o arteithio neu hil-laddiad ni fyddai’n briodol o gwbl i daflu ystyriaethau eraill i’r pair; ystyriaethau megis diogelwch neu undod a chydlyniad cymdeithas (International Commission on Intervention and State Sovereignty 2001). Nid yw’r niwed a achosir yn un a all gael ei leddfu, ei gymedroli a’i wneud yn fwy derbyniol trwy gyfeirio at enillion o’r fath. Yn ogystal, mae difrifoldeb y niwed sy’n deillio o weithredoedd megis arteithio neu hil-laddiad yn hollgyffredinol. Golyga hyn fod y niwed yn meddu ar yr un arwyddocâd a pherthnasedd moesol ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Nid yw ein casgliadau ynglŷn â’r ffaith fod arteithio neu hil-laddiad yn weithredoedd sy’n achosi niwed difrifol yn ddibynnol ar ystyried beth yw cefndir hanesyddol, diwylliannol neu faterol y person neu’r grŵp sy’n dioddef. At ei gilydd felly, mae’r hyn sy’n nodweddu’r niwed a gysylltir â gweithredoedd megis arteithio a hil-laddiad – ei natur cwbl ddifrifol a’i natur hollgyffredinol – yn caniatáu i ni ddatgan y byddai atal gweithredoedd o’r fath yn dasg y byddai rhyddfrydwyr am ei thrin fel un hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa. Ond a ellir dadlau bod y niwed a gysylltir gyda dirywiad gwahanol ieithoedd lleiafrifol yn arddangos y nodweddion hyn hefyd?

### *5.1 Natur Gwbl Ddifrifol y Niwed*

Cymerer, i ddechrau, y pwynt ynglŷn â natur gwbl ddifrifol y niwed a achosir. Tra bod yr adran flaenorol wedi casglu bod dirywiad iaith yn broses a all arwain at ganlyniadau niweidiol, rhaid cydnabod y gellir codi cwestiynau digon dilys ynglŷn ag union ddifrifoldeb y canlyniadau hyn. Gwelir hyn yn sicr yn achos y ddadl sy’n

pwysleisio'r modd y gall dirywiad ieithyddol arwain at ganlyniadau niweidiol i ddynoliaeth yn gyffredinol, trwy leihau amrywiaeth y byd. Ystyrier, er enghraifft, y rhan o'r ddadl sy'n cyfeirio at effaith esthetig unrhyw ddirywiad ieithyddol. Yn sicr, gellir derbyn nad yw dirywiad yn ein cyfoeth esthetig yn rhywbeth y dylid ei groesawu, gan fod bodolaeth cyfoeth o'r fath yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi ein bywydau. Fodd bynnag, tra'n derbyn hynny, gellir cwestiynu i ba raddau y byddai dirywiad esthetig o'r fath yn arwain at ganlyniadau cwbl ddifrifol i les ein bywydau. Ar y cyfan, rhaid casglu na fyddai'n gwneud hynny. Er enghraifft, ni fyddai'n debygol o effeithio ar ryddfreiniau sylfaenol unrhyw unigolyn neu grŵp ac ni fyddai'n debygol o amharu ar eu hanghenion materol mwyaf sylfaenol. Fel y noda Boran, 'aesthetic needs rank lower than more urgent needs, such as those of people who do not enjoy protection of their basic liberties, or the poorest members of society, or those who have to work under unacceptable conditions' (Boran 2003: 195 - 196). O ganlyniad, pan gymherir ef â rhai o'r anawsterau eraill y gall unigolion neu grwpiau eu profi, mae'n bwysig sylweddoli mai ymylol, ar y cyfan, yw'r niwed sy'n deillio o ddirywiad yn ein cyfoeth esthetig.

Gellir nodi pwyntiau tebyg mewn perthynas â'r rhan o'r ddadl sy'n nodi pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol i ieithyddiaeth fel gwyddor gymdeithasol. Yn sicr, mae'r gallu i astudio amrediad eang o ieithoedd – er enghraifft eu gwyddorau a'u gramadeg – o fudd i ieithyddiaeth fel proffesiwn. Gellid dadlau hefyd fod y wybodaeth sy'n deillio o astudiaethau'r ieithyddwyr hyn, yn eu tro, yn cyfrannu at gyfoethogi bywyd poblogaeth y byd yn gyffredinol, trwy drosglwyddo gwybodaeth newydd ynglŷn â'r ieithoedd a siaredir gan wahanol bobl. Fodd bynnag, unwaith eto

rhaid cwestiynu a fyddai dirywiad graddol yn y gallu hwn i astudio a chasglu gwybodaeth yn arwain at ganlyniadau gwirioneddol niweidiol i les ein bywydau.

Ar y cyfan, mae'r ddadl wyddonol arall a drafodwyd, sef honno sy'n cyfeirio at bwysigrwydd yr wybodaeth a gaiff ei chynnal o fewn iaith, yn dipyn cryfach. Er enghraifft, byddai colli'r cyfle i ddatblygu gwellhad i glefydau cyfoes yn sicr o gael effaith niweidiol ar fywydau nifer fawr o bobl. Fodd bynnag, hyd yn oed yn achos y ddadl hon, mae angen gochel rhag gorbwysleisio'r niwed a all ddeillio o unrhyw ddirywiad ieithyddol. Fel yr eglura Boran:

> We need to be cautious, however, in making this claim regarding scientific value, for it can be easily overstated. That is, it is important not to conflate (a) a *probable* loss of useful scientific knowledge and (b) an *actual* loss of the same order. To say that small languages of which we have little knowledge may prove useful for scientific reasons in the long run is not tantamount to concluding that they are actually useful or that we actually loose specific knowledge if small languages are lost (Boran 2003: 197).

Nid oes amheuaeth fod y niwed gwyddonol a allai ddeillio o golli rhan o amrywiaeth ieithyddol y byd yn fater arwyddocaol. Eto i gyd, fel y noda Boran, cyfeirio at *bosibilrwydd* a wneir yma ac nid *sicrwydd* ac mae'n bwysig ein bod yn cadw hyn mewn cof wrth drafod rhinweddau'r ddadl.

Rhaid pwysleisio nad yw'r pwyntiau uchod yn awgrymu am eiliad y dylid diystyru'r ddadl ynglŷn â phwysigrwydd sylfaenol amrywiaeth ieithyddol y byd. Mae'r pwyntiau a wneir gan ladmeryddion y safbwynt ynglŷn ag effaith esthetig a gwyddonol unrhyw ddirywiad yn yr amrywiaeth hwnnw yn rhai dilys a theg ac yn dangos yn glir y dylai dirywiad ieithyddol gael ei ddehongli fel proses a all arwain at ganlyniadau niweidiol. Fodd bynnag, dylid gochel rhag gorbwysleisio difrifoldeb y

niwed hwn. Ni ellir, mewn gwirionedd, ei ddisgrifio fel niwed cwbl ddifrifol sy'n debygol o fod yn gwbl ddinistriol i les ein bywydau, yn yr un modd â'r niwed sy'n deillio o weithredoedd megis arteithio neu hil-laddiad. Ar y cyfan, mae'r cyswllt a wneir rhwng dirywiad iaith a lles ein bywyd gan ladmeryddion y safbwynt ecolegol yn llawer rhy haniaethol i ganiatáu hynny.

Trown felly i ystyried y dadleuon sy'n tystio i'r niwed y gall dirywiad ieithyddol ei achosi i hunaniaeth person neu grŵp. Yn sicr, mae rhain yn ddadleuon sy'n llwyddo i sefydlu cyswllt llawer mwy diriaethol ac uniongyrchol rhwng lles pobl a dirywiad iaith. Fel y nodwyd, mae proses sy'n arwain at danseilio hunaniaeth person yn medru cael effaith ar hunan barch a hyder y person hwnnw; niwed sy'n ein taro fel un tipyn mwy *imminent* a dwys na'r niwed esthetig neu'r niwed gwyddonol a drafodwyd uchod. Er gwaethaf hyn, gellir codi cwestiynau ynglŷn â'r graddau y dylid disgrifio'r niwed a achosir yn achos hunaniaeth fel un cwbl ddifrifol a dinistriol.

Fel y gwelwyd, nid yw'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth yn un cwbl hanfodol. Ceir cryn dipyn o dystiolaeth hanesyddol sy'n dangos fod nifer o grwpiau, boed y rheini'n grwpiau mudol neu'n grwpiau cenedlaethol, wedi llwyddo i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth arbennig er gwaethaf dirywiad eu hieithoedd traddodiadol. Wrth gwrs, mae rhai, megis Eastman (1984), yn dewis defnyddio hyn fel rheswm i ddadlau mai arwynebol yn unig yw'r cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth, ac felly nad yw dirywiad iaith draddodiadol yn meddu ar unrhyw oblygiadau niweidiol. Cam gwag yw hynny; er nad yw iaith yn gwbl hanfodol o safbwynt hunaniaeth, mae'n nodwedd ddiwylliannol sy'n medru dal arwyddocâd pwysig mewn rhai sefyllfaoedd. Eto i gyd,

nid yw'r arwyddocâd hwn, mewn difrif, yn cynnig digon o sail i ddadlau bod dirywiad iaith yn broses sy'n esgor ar niwed cwbl ddifrifol a dinistriol i les ein bywydau.

Fel yn achos y ddadl ecolegol, rhaid pwysleisio nad y bwriad yma yw awgrymu y dylid diystyru'r ddadl sy'n tystio i'r niwed y gall dirywiad ieithyddol ei achosi i hunaniaeth person neu grŵp. I'r gwrthwyneb, mae'r pwyntiau a wneir gan gyfranwyr megis May (2001) neu Fishman (1991) yn rhai pwysig a dilys ac yn dangos na ddylid anwybyddu achosion o ddirywiad ieithyddol. Fodd bynnag, yr her a osodwyd yma oedd ceisio profi bod y niwed i hunaniaeth grŵp sy'n deillio o ddirywiad iaith benodol mor fawr fel y gall gael ei ddisgrifio fel niwed cwbl ddifrifol a dinistriol, yn yr un modd â'r niwed sy'n deillio o weithredoedd megis arteithio neu hil-laddiad. Byddai gwneud hynny yn galw am ymestyn y ddadl braidd yn rhy bell.

Gwelir felly nad yw dirywiad iaith – boed yn cael ei ystyried o bersbectif y ddadl ynglŷn â phwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol, neu o bersbectif y ddadl ynglŷn â hunaniaeth – yn broses sy'n esgor ar y math o ganlyniadau niweidiol sy'n briodol i'w disgrifio fel rhai cwbl ddifrifol a dinistriol. Yn sgil hynny, ac yn wahanol i'r niwed sy'n deillio o weithredoedd megis arteithio neu hil-laddiad, ni ellir dadlau bod y niwed a gysylltir â dirywiad iaith mor ddifrifol fel ei fod yn sicr o 'drympio' pob ystyriaeth arall ym mhob achos. Mae'n bosib iawn na fydd hwn yn gasgliad sydd at ddant pawb. Mae'n bosib y bydd rhai yn teimlo bod yma ormod o lastwreiddio, ac y dylid cynnig dehongliad llawer cryfach o'r niwed a amlygir gan y dadleuon ynglŷn ag amrywiaeth a hunaniaeth. Fodd bynnag, fel y gwelir isod, hyd yn oed pe bai modd

gwneud hyn, byddai'n dal yn amhosib trin y dasg o atal a gwrthdroi dirywiad iaith fel un hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa dan haul.

*5.2 Natur Hollgyffredinol y Niwed*

Hyd yn oed pe bai rhywun am anghytuno â'r casgliadau uchod, gan ddadlau y dylid trin dirywiad iaith fel proses a all arwain at niwed sy'n briodol i'w ddisgrifio fel un cwbl ddifrifol, mae'n amheus iawn a fyddai'r person hwnnw hefyd yn medru hawlio fod difrifoldeb y niwed yn hollgyffredinol; hynny yw mai'r un yw arwyddocâd a pherthnasedd moesol y niwed ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried y ffaith fod dirywiad ieithyddol yn broses sy'n amlygu ei hun mewn sawl cyd-destun gwahanol. Cymerer i ddechrau sefyllfa ieithoedd gwahanol bobloedd brodorol. Mae shifft iaith neu ddirywiad yn gyflwr sy'n nodweddu sefyllfa ieithoedd y mwyafrif helaeth o'r bobl hyn. Yn wir, roedd llawer o'r ystadegau a ddefnyddiwyd yn gynharach yn ystod y bennod hon, er mwyn cyfleu maint y dirywiad ieithyddol sy'n ein hwynebu heddiw, yn cyfeirio at ieithoedd nifer o bobloedd brodorol y byd. Ochr yn ochr â ieithoedd pobloedd brodorol, mae ieithoedd traddodiadol gwahanol genhedloedd lleiafrifol hefyd, yn bur aml, yn wynebu sefyllfa ansicr. Yn y ddau achos yma, bydd y bygythiad i wahanol ieithoedd fel arfer yn deillio o'r ffaith fod eu siaradwyr wedi'u hymgorffori o fewn gwladwriaeth fwy sy'n meddu ar iaith gref, a honno, dros amser, wedi ymledu, naill ai trwy anogaeth *de jure* neu *de facto*.

Sefyllfa arall lle mae'n debygol y gwelir tystiolaeth o shifft neu ddirywiad iaith yw pan fo pobl yn mudo o'u mamwlad, gan ymgartrefu mewn gwlad newydd. Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith fod y bobl hyn, wrth fudo, yn tueddu i fabwysiadu iaith eu gwlad newydd (May 2001). Wrth wneud hynny, mae'n ddigon posib y bydd y sawl sy'n mudo yn parhau i drosglwyddo eu mamiaith i'w plant ac yn parhau i'w ddefnyddio fel iaith y cartref. Fodd bynnag, gan eu bod bellach yn byw mewn cymdeithas sy'n gweithredu trwy gyfrwng iaith arall, mae'n debygol y bydd disgynyddion y mudwyr gwreiddiol, dros amser, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith draddodiadol ac yn penderfynu peidio â'i throsglwyddo i'w plant hwythau. Hyd yn oed lle nad yw'r shifft sylfaenol yma o fewn y teulu yn digwydd, mae'r cyfleoedd hynny sydd gan fewnfudwyr i fyw rhannau pwysig o'u bywydau trwy gyfrwng eu mamiaith yn diflannu. Er enghraifft, mae'n debygol na fydd modd derbyn addysg statudol trwy gyfrwng yr iaith ac na fydd modd ei defnyddio fel iaith gwaith.

Nawr, os yw dirywiad iaith yn broses sy'n esgor ar niwed sydd nid yn unig yn ddifrifol, ond hefyd yn hollgyffredinol o ran natur, yna byddai'n rhaid casglu ei fod yn niwed sy'n meddu ar yr un arwyddocâd a pherthnasedd moesol ym mhob un o'r sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd uchod. Ond a fyddai hyn yn briodol? Cymerer, er enghraifft, achos y grwpiau mudol. Mae'n bosib iawn y gallai dirywiad iaith draddodiadol cymuned o'r fath arwain at ganlyniadau digon anodd a niweidiol, er enghraifft, o ran ymdeimlad y gymuned o hunaniaeth ddiwylliannol. Eto i gyd, i ba raddau y dylid casglu fod y niwed hwn yn un sy'n meddu ar arwyddocâd moesol?

Yn nhyb nifer o ryddfrydwyr, ni fyddai hynny'n briodol. Fel y dadleuodd Kymlicka, mae'n amheus iawn a ellir trin dirywiad diwylliannol ymhlith grwpiau mudol fel proses sy'n meddu ar arwyddocâd moesol arbennig. Er bod dygymod â dirywiad eu hiaith neu eu diwylliant traddodiadol, gan fabwysiadu set o arferion newydd, yn debygol o fod yn broses ddigon anodd i aelodau cymuned o'r fath, nid yw'r anawsterau neu'r niwed a brofir yn un sy'n galw arnom i gymryd camau brys i atal unrhyw ddirywiad. Deillia hyn o'r ffaith fod y bobl hyn, a siarad yn gyffredinol, wedi dewis gadael eu mamwlad.[5] O ganlyniad, os yw eu hiaith neu eu diwylliant traddodiadol yn digwydd dirywio wrth iddynt ymgartrefu yn eu cartref newydd, nid oes sail gadarn ganddynt i ddadlau bod yr anawsterau neu'r niwed sy'n deillio o broses o'r fath yn un sy'n galw am gael ei atal a'i wrthdroi:

> The expectation of integration is not unjust ... In deciding to uproot themselves, immigrants voluntarily relinquish some of the rights that go along with their original membership. For example if a group of Americans decide to emigrate to Sweden, they have no right that the Swedish government provide them with institutions of self-government or public services in their mother tongue (Kymlicka 1995a: 96).

Trwy ddadlau fel hyn, nid yw Kymlicka'n awgrymu nad oes dyletswydd ar y wladwriaeth i ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau tuag at les y sawl sy'n mudo:

> ... if we reject the option of enabling immigrants to re-create their societal culture, then we must address the issue of how to ensure that the mainstream culture is hospitable to immigrants, and to the expression of their ethnic differences. Integration is a two way process – it requires the mainstream society to adapt itself to immigrants, just as immigrants must adapt to the mainstream (Kymlicka 1995a: 96).

[5] Mae Kymlicka'n cydnabod nad yw hyn yn wir yn achos ffoaduriaid. Yn ogystal, mae'n cydnabod y gellid codi cwestiynau sylweddol ynglŷn â'r graddau y mae llawer o bobl yn *dewis* mudo mewn byd sydd wedi'i nodweddu gan anghyfartaledd sylweddol o ran cyfoeth ac adnoddau (Kymlicka 1995a: 98 – 100). Yn wir, mae'r pwyntiau hyn wedi arwain rhai i gwestiynu dilysrwydd y rhaniad rhwng sefyllfa grwpiau mudol a chenhedloedd lleiafrifol neu bobloedd brodorol (gweler er enghraifft Rubio Marin 2003 neu Pinto 2007). Fodd bynnag, mae'n amheus iawn a fyddai'r bobl hynny wedyn yn barod i ddadlau fod amcan fel adfer iaith yn rhywbeth a ddylai sefyll ym mhob sefyllfa.

Eto i gyd, amcan y mesurau hyn, yn y pen draw, fyddai hwyluso'r broses o integreiddio. Byddai hyn yn cynnwys camau sy'n sicrhau bod aelodau gwahanol grwpiau mudol yn rhydd i fynegi eu hunaniaeth ethnig arbennig os ydynt yn dymuno, ond ni fyddai'n arwain at gamau sydd â'r nod o atal a gwrthdroi unrhyw ddirywiad ieithyddol neu ddiwylliannol. Er enghraifft, go brin y byddent yn cynnwys polisïau pellgyrhaeddol sy'n ceisio sicrhau ffyniant tymor hir rhai o ieithoedd y cymunedau hyn, trwy sicrhau bod amrediad eang o gyfleoedd i'w defnyddio a bod mwy a mwy o bobl yn ei dysgu (gweler hefyd Kymlicka 2007c).[6]

Yr hyn a welir felly yw fod ystyriaethau cyd-destunol yn debygol o ddylanwadu ar yr arwyddocâd moesol a briodolir i'r niwed sy'n deillio o ddirywiad iaith. O ganlyniad mae'n amheus iawn a ellid hawlio fod y niwed sy'n deillio o'r broses yn hollgyffredinol o ran natur; hynny yw, mai'r un yw arwyddocâd a pherthnasedd moesol y niwed ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig rhwng dirywiad iaith a phrosesau megis arteithio neu hil-laddiad. Fel a nodwyd yn achos y ddau olaf, does dim rhaid ystyried beth yw cefndir person, ble mae'n byw na chwaith faint o adnoddau sydd ganddo cyn gellir datgan eu bod yn weithredoedd cwbl annerbyniol y dylid eu hatal. Nid yw'r rhain yn bethau sy'n dylanwadu ar bwysigrwydd neu briodoldeb peidio ymddwyn tuag at eraill yn y fath fodd. Yn hytrach, derbynnir fod y niwed a achosir yn hollgyffredinol, ac felly dylid ymdrechu i atal arteithio neu hil-laddiad ym mhob sefyllfa. Ond, fel a welwyd, nid yw

[6] Ochr yn ochr â'r ffaith nad oes gan fewnfudwyr sail foesol gadarn i ddadlau y dylid ymdrechu i atal eu hieithoedd rhag dirywio, rhaid cofio hefyd ei bod hi'n bosib iawn na fydd polisi o'r fath yn gwbl ymarferol. Fel y noda Kymlicka, 'on a practical level, most existing ethnic groups are too 'dispersed, mixed, assimilated and integrated ... They are not sufficiently compact, self-conscious and culture-maintaining' (Kymlicka 1995a: 96).

hyn yn wir yn achos y dasg o geisio atal a gwrthdroi dirywiad iaith. Felly, dyma reswm arall dros ddatgan nad yw'n dasg y dylai rhyddfrydwyr ei thrin fel un hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa.

### 6. Casgliadau

Yn ystod y bennod hon cloriannwyd i ba raddau y gall rhyddfrydwyr gymeradwyo safbwynt sy'n trin adferiad fel gweithred hanfodol ym mhob sefyllfa lle bo iaith yn digwydd dirywio; hynny yw, mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn i achos o ddirywiad ieithyddol yw cymryd camau brys i geisio atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Aethpwyd ati i ystyried dichonolrwydd y safbwynt hwn trwy holi, i ddechrau, a yw dirywiad iaith yn broses sy'n medru esgor ar ganlyniadau niweidiol. Gwelwyd bod hyn yn bosib, trwy drafod dwy ddadl bwysig sy'n tystio i'r hyn y gellid ei golli wrth i iaith ddirywio – y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol y byd ac hefyd y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth. Fodd bynnag, fel a nodwyd, un peth yw derbyn bod gweithred neu broses yn meddu ar oblygiadau anodd neu niweidiol, peth arall yw derbyn bod y goblygiadau hynny mor niweidiol fel y dylid ymrwymo i atal a gwrthdroi'r weithred neu'r broses dan sylw ym mhob sefyllfa. Mae hyn yn golygu gosod y dasg ar wastad moesol arbennig o uchel, ac yn ystod adran olaf y bennod gwelwyd na ellid cyfiawnhau cymryd cam o'r fath yn achos ymdrechion i atal a gwrthdroi dirywiad iaith. Yn bennaf, roedd hyn yn deillio o'r ffaith na ellid dehongli'r niwed a gysylltir â dirywiad iaith fel un cwbl ddifrifol a

dinistriol ac hefyd nad yw'r niwed yn un sy'n hollgyffredinol o ran ei arwyddocâd moesol.

O ganlyniad, ni ellir llunio dadl sy'n caniatáu i ryddfrydwyr drin y dasg o geisio atal a gwrthdroi dirywiad iaith fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa dan haul. Ond beth yw goblygiadau'r casgliad hwn i'r bobl sy'n tueddu i sefydlu cyswllt go bendant go bendant rhwng cyfiawnder a'r angen i adfer gwahanol ieithoedd? A yw dadl o'r fath yn meddu ar unrhyw hygrededd? Tra na ellir trin adferiad iaith fel tasg hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob achos, a ellir dadlau ei fod yn weithred y mae cyfiawnder yn galw arnom i'w sicrhau mewn rhai amgylchiadau penodol?  Dyma fydd pwnc trafod y bennod nesaf.

# 3. Adferiad Iaith: Dim Mwy na Gweithred Dderbyniol?

## 1. Cyflwyniad

Yn y bennod flaenorol, gwelwyd nad oes modd i athronwyr rhyddfrydol drin adferiad iaith fel tasg sy'n gwbl hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa dan haul. Ymhlith pethau eraill, byddai dehongli adferiad iaith mewn termau absoliwt o'r fath yn golygu bod yn rhaid trin galwadau pob math o grŵpiau ieithyddol yn yr un modd. Byddai hyn yn golygu gosod galwadau adferol o du mudwyr ethnig ar yr un gwastad moesol a galwadau cenhedloedd lleiafrifol. Dadleuwyd nad yw hyn yn gam rhesymegol a theg ac felly dylid gochel rhag dehongli adferiad iaith fel gweithred sy'n gwbl hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob achos. Fodd bynnag, mae'r casgliad hwn yn arwain at gwestiwn newydd. Tra na ellir trin adferiad iaith fel gofyniad moesol sylfaenol y dylid ei fynnu ym mhob achos, a ellir dadlau ei fod yn weithred y mae cyfiawnder yn galw arnom i'w sicrhau mewn rhai amgylchiadau penodol, er enghraifft yn achos cenhedloedd lleiafrifol?

Hyd yn hyn, mae'r criw bach iawn o athronwyr rhyddfrydol sydd wedi ystyried y broses o adfer iaith wedi bod yn amharod i gymryd cam o'r fath. Yn ogystal â chredu fod y dehongliad absoliwt o statws moesol adferiad iaith yn ddi-sail, mae rhyddfrydwyr megis David Laitin a Rob Reich (2003) a hefyd Will Kymlicka (2007b) wedi dewis dadlau yn erbyn y safbwynt mwy cyfyngedig, sy'n dehongli adferiad fel mater o gyfiawnder mewn rhai amgylchiadau penodol. Dylid nodi nad yw'r athronwyr hyn yn awgrymu fod unrhyw beth sy'n sylfaenol annerbyniol o safbwynt rhyddfrydol ynglŷn ag ymdrech gan genedl leiafrifol i adfer sefyllfa iaith draddodiadol. Eto i gyd,

maent yn amharod i drin gweithred o'r fath fel rhywbeth sy'n angenrheidiol o safbwynt cynnal cyfiawnder. Am amryw o resymau, credir na fyddai'n briodol gosod adferiad iaith ar wastad moesol o'r fath. Yn hytrach, dadleuir y dylid ei drin fel dim mwy na gweithred dderbyniol – hynny yw, un o'r amrediad eang o weithredoedd sy'n ddigon derbyniol mewn cymdeithas ryddfrydol a democrataidd, ond eto nid rhywbeth sy'n angenrheidiol o safbwynt cynnal cyfiawnder.

Fodd bynnag, i ba raddau mae hyn yn gasgliad teg? Ai dim ond fel gweithred dderbyniol y dylai rhyddfrydwyr ddehongli'r dasg o adfer iaith? Dyma'r cwestiynau y ceisir eu hateb yn ystod y bennod hon, ac fe wneir hynny trwy gynnig ymdriniaeth feirniadol o ddadleuon y sawl sydd wedi argymell mabwysiadu'r safbwynt derbyniol. I ddechrau, ceir amlinelliad llawn o ddadleuon Laitin a Reich, ac yn dilyn hynny, ceir amlinelliad o ddadleuon Kymlicka. Yna, eir ati i amlinellu cyfres o wendidau sy'n perthyn i safbwyntiau'r athronwyr hyn, ac wrth wneud hynny, ceisir pwyso a mesur i ba raddau y mae'r gwendidau a nodir yn rhai sy'n ddigon sylweddol i gyfiawnhau camu ymlaen a cheisio fframio adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder.

**2. David Laitin a Rob Reich – Y Safbwynt Rhyddfrydol-Democrataidd**

Noda Laitin a Reich mai aelodau o genhedloedd lleiafrifol yw prif ladmeryddion y gred y dylid trin adferiad ieithyddol fel mater o gyfiawnder. Yn nhyb y sawl sy'n arddel safbwynt o'r fath, mae unrhyw ddirywiad ieithyddol a welwyd dros y blynyddoedd wedi deillio o anghyfiawnder ac mewn amgylchiadau o'r fath dylai

cyfiawnder ddatgan ei bod hi'n angenrheidiol fod camau'n cael eu cymryd i drawsnewid y sefyllfa:

> In this view, justice requires asking how historical injustices that marginalized once-thriving language communities can be remedied, so that marginalized languages, and the value of these languages to the identities of their speakers, can be restored. The focus here is on revitalizing languages that have waned in use over generations ... this view is most often promoted by representatives of national minority groups (Laitin a Reich 2003: 81).

Yn nhyb Laitin a Reich, derbyniodd y safbwynt hwn fynegiant academaidd yng ngwaith Stephen May (2001 a 2003). I ddechrau, mae May yn cytuno â'r aelodau o genhedloedd lleiafrifol sy'n mynnu bod dirywiad eu hiaith draddodiadol wedi deillio o anghyfiawnder. Yn ogystal, honna Laitin a Reich fod May yn dadlau fod pwysigrwydd moesol y nod o adfer iaith yn cael ei atgyfnerthu gan y dyhead clir sy'n bodoli ymhlith aelodau o genhedloedd lleiafrifol i weld eu hiaith draddodiadol yn cael ei dyrchafu unwaith eto. Disgrifia Laitin a Reich ei safbwynt fel a ganlyn: 'If this is what marginalized people want, and they have been driven to marginalization by dominant groups, the dominant groups should facilitate ... a remedy in which the marginalized languages are revivified' (Laitin a Reich 2003: 85). At ei gilydd felly, mae May o'r farn y dylid trin adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder.

Mae Laitin a Reich yn barod i gytuno â rhai agweddau o safbwyntiau sylwebwyr megis May. Er enghraifft, maent yn ddigon hapus i gydnabod bod dirywiad ieithoedd nifer o genhedloedd lleiafrifol wedi deillio, yn rhannol o leiaf, o anghyfiawnder hanesyddol. Yn hyn o beth, maent yn derbyn nad yw sylwadau beirniadol rhywun megis Brian Barry (2001) ynglŷn ag ymdrechion i adfer ieithoedd yn rhai cwbl deg. Nodweddir safbwynt Barry gan duedd gref i awgrymu mai

dewisiadau rhydd gan unigolion sydd yn gyfrifol am ddirywiad gwahanol ieithoedd. Mewn cyd-destun o'r fath mynna nad oes unrhyw sail i ymdrechion adferol: 'A liberal society cannot adopt policies designed to keep a language in existence if those who speak it prefer to let it go' (Barry 2001: 65). Fodd bynnag, fel y nodir gan Laitin a Reich, nid yw safbwynt o'r fath yn rhoi digon o ystyriaeth i effeithiau annhegwch ac anghyfiawnder hanesyddol: 'he (Barry) rather quickly skirts around the issue of whether historical injustices towards a group require remedy' (Laitin a Reich 2003: 87).

Eto i gyd, er y gwendid hwn, mynna Laitin a Reich fod Barry yn llwyddo i dynnu sylw at un gwendid pwysig yn nadl y sawl sy'n dewis dehongli adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder: 'Barry rightly zeroes in on the principal flaw of the nationalist logic' (Laitin a Reich 2003: 87). Mae'r gwendid hwn yn ymwneud â'r ail o honiadau May a drafodwyd uchod – hynny yw'r dyhead honedig am adferiad ymhlith aelodau'r genedl. Dadleuir fod sylwebwyr megis May yn tueddu i orgyffredinoli'r dyhead hwn, gan gymryd yn ganiataol fod budd pob un o aelodau'r genedl yn gysylltiedig â'r ymdrech i sicrhau adferiad yr iaith: 'May and many nationalists err when they portray a marginalized cultural group as inevitably having an abiding interest in sustaining ancestral cultural forms' (Laitin a Reich 2003: 87). Yn nhyb Laitin a Reich, er bod dirywiad ieithoedd nifer o genhedloedd yn aml yn deillio o anghyfiawnder o ryw fath, dylid gochel rhag cymryd yn ganiataol y bydd pawb felly yn dymuno gweld yr ieithoedd hyn yn cael eu hadfer: 'It may be true, of course, that *most* members of *most* national minorities do seek to retain their mother tongue and transmit it to future generations. But the point is that we cannot assume

this as a matter of course' (Laitin a Reich 2003: 90). Trwy anwybyddu'r pwynt pwysig yma, awgrymir fod sylwebyddion megis May, ac hefyd aelodau amryw o genhedloedd lleiafrifol, yn euog o anwybyddu 'vital elements of empirical reality' (Laitin a Reich 2003: 81).

Canlyniad y gwendid hwn, yn ôl Laitin a Reich, yw codi cwestiynau ynglŷn ag i ba raddau y mae'n briodol i ryddfrydwyr ystyried adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder. Awgrymir y byddai gwneud hynny, gan greu cysylltiad rhy gadarn rhwng cyfiawnder a'r angen i adfer iaith, yn gam peryglus o safbwynt rhyddfrydol. Byddai'n golygu mai dim ond un trywydd polisi y gellid ei ystyried fel un derbyniol, ac fe fyddai hyn yn gwrthdaro â'r pwyslais traddodiadol ymhlith rhyddfrydwyr ar ymreolaeth unigol. Dyma egwyddor sy'n datgan y dylai unigolion feddu ar y rhyddid i gloriannu, addasu, ac ar adegau, ymwrthod ag agweddau o'u hetifeddiaeth gymdeithasol neu ddiwylliannol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yn nhyb Laitin a Reich, os yw rhyddfrydwyr am gymryd yr egwyddor hon o ddifrif, yna mae'n rhaid derbyn y bydd pobl yn dod i amryw o gasgliadau gwahanol ynglŷn â'r dyfodol y maent yn ei ddeisyfu i iaith draddodiadol eu cenedl:

> In our view, theorists should not assume that access to one's own societal culture is what every individual wants. We should make no assumptions about people's preferences on this matter, for if ... individual autonomy endows people with this capacity to revise and even reject their ancestral traditions, including their language, we can expect the preferences of individuals to vary, even within national minorities, on the subject of language (Laitin a Reich 2003: 91).

O ystyried hyn, gellir gweld pam y byddent yn amheus o'r duedd i ddiffinio adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder. Yn eu tyb hwy, byddai hynny'n golygu clymu aelodau'r genedl i lwybr ieithyddol penodol, ac yn y broses, yn

rhoi statws uchel iawn i ddyheadau rhai aelodau, tra'n diystyru teimladau a dyheadau'r aelodau hynny sydd, am wahanol resymau, ddim yn dymuno gweld yr iaith yn cael ei hadfer. Am hynny, datgenir: 'In disregarding the preferences of potential assimilators, nationalist commentators are fundamentally illiberal' (Laitin a Reich 2003: 87).

Felly, mae Laitin a Reich o'r farn na ddylai rhyddfrydwyr geisio fframio'r alwad i adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder. Yn eu tyb hwy, dylai'r pwyslais rhyddfrydol ar ymreolaeth unigol olygu eu bod yn gwrthod dilyn trywydd o'r fath. Gan fod pobl yn debygol o ddod i gasgliadau amrywiol ynglŷn â dyfodol iaith y genedl, dylid gochel rhag dadlau fod cyfiawnder ieithyddol yn ddibynnol ar weithredu polisïau sy'n arwain i gyfeiriad penodol. Yn hytrach, mynna Laitin a Reich y dylid derbyn nad yw egwyddorion rhyddfrydol yn cynnig unrhyw arweiniad pendant ynglŷn â natur a chyfeiriad y polisïau ieithyddol y dylid eu mabwysiadu. O ganlyniad, dylid bod yn barod i ymddiried yng ngallu ein prosesau democrataidd arferol i'n harwain at ganlyniadau teg:

> We wish here to defend a liberal democratic approach to linguistic justice. It views the resolution of many questions and problems of linguistic justice as the proper subject of the messy contestation of democratic politics rather than as the result of clean specifications from first principles (Laitin a Reich 2003: 92).

Felly, yr hyn sy'n hanfodol bwysig o safbwynt cyfiawnder ym maes polisi iaith yw nid y parodrwydd i fabwysiadu cyfeiriad polisi penodol, ond yn hytrach bodolaeth y math o amgylchiadau cefndirol sy'n caniatáu trafodaeth ddemocrataidd agored ynglŷn â'r opsiynau posib.

O sicrhau'r amgylchiadau democrataidd hyn, bydd pawb yn meddu ar yr un cyfle i roi mynegiant i'w dyheadau ieithyddol gwahanol. Wrth gwrs, bydd penderfyniad ar gyfeiriad polisi penodol yn gorfod cael ei gymryd yn y pen draw, ond bydd y penderfyniad hwn yn deillio o ymrafael democrataidd agored a theg rhwng amrediad o ddyheadau cyfartal, yn hytrach na thuedd i ddyrchafu dyheadau un garfan uwchlaw rhai pawb arall:

> A liberal democratic approach views any citizen or set of citizens in a state as possessing the right to mobilize support for a language community or language policies that it considers a collective or public good. All citizens have an equal right to exert electoral or interest-group pressure, to foster broader coalitions, and to engage the broader polity in democratic deliberation in the quest to provide this collective or public good (Laitin a Reich 2003: 93).

Felly, mae Laitin a Reich o'r farn y dylid cyfyngu ar arwyddocâd moesol y galwadau i adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol. Yn hytrach na cheisio'u fframio fel mater o gyfiawnder sylfaenol, dadleuir y dylid trin y galwadau hyn fel unrhyw ddyhead neu flaenoriaeth wleidyddol gyffredin. Golyga hyn eu bod yn perthyn i'r dosbarth eang hwnnw o amcanion derbyniol; rhywbeth y gall dinasyddion ei gynnig a'i hyrwyddo trwy gyfrwng trefniadau democrataidd, ond eto nid rhywbeth sy'n meddu ar unrhyw arwyddocâd o safbwynt cynnal cyfiawnder.

Ble mae hyn yn gadael y sawl sydd yn frwd o blaid y nod o adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol? Pe bai'r garfan yma yn llwyddo i adeiladu cefnogaeth gyhoeddus i'r amcan o adfer iaith benodol, yna, yn nhyb Laitin a Reich, byddai'n gwbl dderbyniol i lywodraeth ryddfrydol ddefnyddio adnoddau cyhoeddus i geisio cyflawni'r nod hwnnw. Eto i gyd, gan nad yw adferiad iaith yn haeddu cael ei ddehongli fel mater o gyfiawnder, rhaid derbyn mai derbyniol yn unig fydd amcan o'r fath. Ni all feddu ar unrhyw arwyddocâd moesol pellach. Caiff y safbwynt yma ei

grynhoi yn effeithiol gan Patten a Kymlicka (2003), wrth iddynt drafod arwyddocâd dadl Laitin a Reich:

> Language security belongs in a class of goods the provision for which out of general tax revenues is neither required nor prohibited by considerations of justice. For these goods, the correct level of provision by the state is a function of what the democratic process decides. If, after due deliberation, a majority wish to devote public resources to protecting a particular language, then it is reasonable and legitimate for the state to pursue such a goal. If, on the other hand, the majority is uninterested in language preservation, then *no fundamental norm is being violated* if the language subsequently dies out or is marginalized (Patten a Kymlicka 2003: 49; pwyslais wedi'i ychwanegu).

Yn hyn o beth, caiff galwadau i adfer iaith eu trin yn yr un modd a galwadau i ddarparu cefnogaeth gyhoeddus i gwmnïau opera neu glybiau chwaraeon (Laitin a Reich 2003: 95). Os oes cefnogaeth gyhoeddus i'r syniad o ddarparu adnoddau cyhoeddus i gefnogi a datblygu gwaith y sefydliadau hyn, yna mae'n gwbl briodol fod llywodraethau rhyddfrydol democrataidd yn gwneud hynny. Ond, os yw llywodraeth yn digwydd penderfynu peidio gwneud hynny, ar sail y ffaith nad oes cefnogaeth sylweddol i'r syniad, nid yw hynny yn esgor ar unrhyw anghyfiawnder sylfaenol. Wrth gwrs, gall y penderfyniad fod yn destun siom a hyd yn oed dicter i rai carfanau o fewn cymdeithas, ond, er gwaethaf hynny, go brin y gellid dadlau ei fod yn tramgwyddo ystyriaethau sylfaenol ynglŷn â chyfiawnder. Fel y noda Laitin a Reich, 'In the abstract, we regard the construction of a new language community or the reconstruction of a formerly oppressed language community in a morally neutral way' (Laitin a Reich 2003: 94 – 95).

Dylid nodi fod Laitin a Reich yn gwadu eu bod yn euog o ddiystyru'r arwyddocâd y mae aelodau cenhedloedd lleiafrifol yn ei briodoli i'w hieithoedd traddodiadol. Er enghraifft, maent yn barod i gydnabod nad yw trafodaethau ynglŷn â

pholisi iaith yn union yr un peth a thrafodaethau ynglŷn â datblygiadau celfyddydol neu chwaraeon: 'In practice, language issues are not the moral equivalent of preferences about sports stadiums' (Laitin a Reich 2003: 95). Eto i gyd, nid ydynt o'r farn y dylid ffurfioli'r gwahaniaeth hwn mewn dadl normadol:

> We agree that language policies are not on a moral or political par with culinary, automotive, or artistic options, yet we see no need at the level of theory to give pre-eminence to constitutive identity markers ... we are not diminishing its value to its speakers. We hold instead that the value of one's ancestral language may be deep, but that is best revealed through cultural, social and political action (Laitin a Reich 2003: 95).

Felly, yn nhyb Laitin a Reich, os yw'r iaith wir yn nodwedd sy'n meddu ar gryn arwyddocâd i aelodau'r genedl, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu mewn gweithgaredd gwleidyddol o'i phlaid.

Hanfod dadl Laitin a Reich felly yw'r gred y dylai rhyddfrydwyr fod yn fwy parod i ymddiried yng ngweithrediad ein prosesau gwleidyddol a democrataidd arferol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfeiriad polisïau iaith. Maent o'r farn fod hyn yn rhagori ar geisio llunio cyfarwyddiadau ar sail trafodaethau athronyddol cyffredinol:

> Our liberal democratic alternative brings politics back into liberalism. It encourages groups to seek linguistic remedies through political agitation, legal confrontation, and moderate levels of coercion ... Under liberal democratic conditions, linguistic revivals will rarely succeed, as the votes for the creation of linguistic communities are hard to harvest. But when linguistic revivals do succeed, they will be a product of democracy properly tempered by liberal principles (Laitin a Reich 2003: 103).

Er mwyn ategu'r pwynt hwn, ac er mwyn dangos sut byddai eu model normadol amgen yn gweithio'n ymarferol, cyfeirir at y drafodaeth a gafwyd yng Nghatalonia yn ystod y 1990au ynglŷn â chyfeiriad polisi iaith y genedl honno. Dyma drafodaeth a arweiniodd at basio deddfwriaeth iaith newydd ym 1998. Roedd y ddeddfwriaeth hon

yn ymestyn ar waith y ddeddf iaith wreiddiol a basiwyd ym 1983 er mwyn ailgodi statws y Gatalaneg yn dilyn cwymp Franco. Yn nhyb Laitin a Reich, roedd natur y drafodaeth a gafwyd yng Nghatalonia yn dangos yn glir pam ddylai rhyddfrydwyr fod yn fwy parod i ymddiried yn ein trefniadau democrataidd arferol wrth ddod i benderfyniadau mewn meysydd diwylliannol megis polisi iaith:

> The debates over this act, pitting those seeking individual rights for non-Catalan speakers against those seeking remedial rights to the community for centuries of discrimination by the Spanish state, were filled with rancour. Partisans on both sides accused their opponents of bad faith. But, all told, democratic procedures were followed, and both sides to the debate were constrained by liberal principles. Eventually the CiU proposal (h.y. cynnig y llywodraeth) was passed by an overwhelming majority, including many legislators whose ancestry was not Catalan. Deliberation had therefore brought something approaching a consensus. As liberal democrats we applaud this form of politics, as it represents an appropriate political response to the fact of pluralism (Laitin a Reich 2003: 97).

O ganlyniad trafodaeth ddemocrataidd agored tebyg i hon yw'r dull gorau i benderfynu ynglŷn â chyfeiriad polisi iaith. Ar adegau, gall hyn arwain at fabwysiadau polisi adferol fel yn achos Catalonia, ond ar adegau eraill mae'n bosib y dewisir dilyn rhyw gyfeiriad arall. Mae hyn yn gwbl dderbyniol yn nhyb Laitin a Reich, gan mai tegwch yr amgylchiadau cefndirol sy'n bwysig yn y pen draw ac nid natur y polisi iaith a gaiff ei fabwysiadu. Dyma felly sut y cred Laitin a Reich y dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol galwadau i adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol. Trown yn awr i ystyried rhai o ddadleuon Will Kymlicka.

### 3. Will Kymlicka – Cydnabod Galwadau Siaradwyr Mamiaith

Dechreua Will Kymlicka trwy gydnabod fod rhyddfrydwyr, ar y cyfan, o'r farn ei bod hi'n gwbl briodol i gymdeithas wneud penderfyniadau ynglŷn â safbwyntiau a dyheadau gwleidyddol cyffredin trwy gyfrwng ein trefniadau democrataidd arferol.

Golyga hyn fod barn y mwyafrif yn cael ei ffafrio pan fo'r farn honno yn cael ei mynegi trwy gyfrwng trafodaeth gyhoeddus rydd a theg. Fel y noda Kymlicka, 'The default position is that majority decision making is legitimate and that this default position holds so long as the issues under consideration are essentially tastes and preferences' (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 3). Eto i gyd, tra'n cydnabod fod y trefniadau democrataidd hyn yn ddigon derbyniol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â phynciau gwleidyddol cyffredin, mae Kymlicka hefyd yn pwysleisio y dylai rhyddfrydwyr dderbyn bod angen gwneud mwy na dim ond dibynnu ar farn y mwyafrif pan fo'r pwnc dan sylw yn un o arwyddocâd sylweddol. Bryd hynny, bydd gan bobl sail i ddadlau y dylid dilyn llwybr polisi arbennig, beth bynnag fo barn y mwyafrif, gan fod gwneud hynny'n cael ei ystyried yn bwysig o safbwynt cyfiawnder.

Fel y gwelwyd, nid yw David Laitin a Rob Reich (2003) yn credu y dylai rhyddfrydwyr osod y dasg o adfer iaith yn yr ail ddosbarth hwn, gan gysyniadoli galwadau o'r fath fel rhai pwysig o safbwynt cyfiawnder. O ganlyniad, maent hwy yn berffaith hapus i ddadlau fod ein mecanweithiau democrataidd arferol yn cynnig dull cwbl briodol o wneud penderfyniadau ym maes polisi iaith. Fodd bynnag, nid yw Kymlicka'n barod i gamu'n syth i'r un cyfeiriad â hwy. Yn ei dyb ef, cyn gellir gwneud hynny mae angen meddwl mwy ynglŷn â'r graddau y dylai gwahanol alwadau ieithyddol gael eu trin fel rhai sy'n gwarchod buddiannau arbennig.

Eglura mai ei fan cychwyn wrth ystyried y mater hwn yw holi a fyddai gan aelodau o genedl leiafrifol sail i gwyno, gan ddadlau eu bod yn dioddef anghyfiawnder, pe bai'r prosesau democrataidd arferol yn digwydd arwain at sefyllfa

lle nad yw’r iaith leiafrifol yn derbyn unrhyw gefnogaeth. Fel y noda, ‘I always think that a good way to think about normative issues is to ask; if a decision goes one way, who has a legitimate reason for complaining that an injustice has been done?’ (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 3). Os yw’r dasg o adfer iaith yn haeddu cael ei dehongli fel mater o gyfiawnder, yna, yn ôl dadl Kymlicka, mae angen dangos sut y byddai peidio â mabwysiadu polisi sy’n anelu at nod o’r fath yn gyfystyr â chynnal anghyfiawnder.

Er mwyn meddwl ymhellach ynglŷn â hyn, mae Kymlicka’n amlinellu enghraifft ddychmygol. Awgrymir fod refferendwm yn cael ei gynnal mewn cenedl leiafrifol i benderfynu a ddylid gweithredu polisi iaith sy’n anelu i gefnogi sefyllfa’r iaith draddodiadol. Awgrymir hefyd fod y refferendwm hwn yn esgor ar ganlyniad sy’n gwrthod y syniad o ddatblygu polisi o’r fath ac felly nad yw’r llywodraeth yn gwneud dim i gefnogi’r iaith. Mewn sefyllfa o’r fath, a fyddai rhai o aelodau’r genedl, yn nhyb rhyddfrydwyr, yn medru hawlio fod peidio cydnabod a chefnogi’r iaith mewn unrhyw fodd yn anghyfiawn? Dadleua Kymlicka y byddai gan y sawl sy’n siarad yr iaith fel mamiaith sail gref i ddadlau nad yw sefyllfa o’r fath yn un teg:

> ... if the people who were on the losing side of the referendum – those who wanted to see an active language revival policy developed – were then to go to a court of justice of political philosophers, the mother tongue speakers could say that while there may not be a fifty plus one majority at present in favour of an active language revival policy, they still have a claim of justice that maintains that certain things should be provided because they are mother tongue speakers (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

A siarad yn gyffredinol, gellir tybio y byddai hyn yn golygu sicrhau bod yr iaith yn derbyn cydnabyddiaeth swyddogol a bod ei siaradwyr yn medru derbyn amrediad o wasanaethau cyhoeddus allweddol yn yr iaith honno. Eto i gyd, dim ond y siaradwyr

mamiaith a fyddai'n medru hawlio'r pethau hyn fel mater o gyfiawnder. Mae Kymlicka'n mynegi amheuaeth ynglŷn â'r graddau y byddai aelodau eraill o'r genedl – pobl sydd efallai ddim yn siaradwyr mamiaith, ond sydd, er hynny, yn gefnogol iawn i'r iaith – yn medru dadlau eu bod hwythau hefyd yn dioddef annhegwch yn sgil canlyniad anffafriol y refferendwm:

> If the people who are not mother tongue speakers, but who have a preference that the Welsh language be strengthened – and who voted for it but lost in the referendum – went to the same court of political philosophers and said that the referendum should be overturned because they have a claim of justice due to the fact that they are citizens of Wales, because Welsh is the traditional language of Wales, and that because, in some sense, Welsh is a common inheritance of Welsh people and that therefore the matter should be taken out of the traditional democratic decision making process because it is a right that they have. Here my response would be – 'I'm not so sure' (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

Ond, ar ba sail gellir priodoli statws normadol uwch i ddadleuon y siaradwyr mamiaith?

Awgryma Kymlicka y dylid gwahaniaethu rhwng galwadau'r ddau grŵp uchod gan mai dim ond un ohonynt, sef y siaradwyr mamiaith, sydd, yn ei dyb ef, yn medru hawlio fod darparu'r lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth ieithyddol a ddisgrifiwyd uchod yn debygol o warchod buddiannau pwysig. Neu, o fynegi'r pwynt mewn modd ychydig yn wahanol, dim ond y siaradwyr mamiaith all ddadlau y byddai gwrthod darparu'r pethau hyn yn esgor ar niwed difrifol. Fel y nodwyd, mae dangos hyn yn hanfodol er mwyn sefydlu pam dylai rhyddfrydwyr wneud mwy na dim ond dibynnu ar rediad ein trefniadau democrataidd wrth wneud penderfyniadau mewn meysydd megis polisi iaith. Nid yw Kymlicka o'r farn fod aelodau eraill o'r genedl yn medru cyflwyno dadl mor gryf ac felly ni ellir rhoi'r un statws i'w galwadau hwy:

> ... the people that can plausibly claim that they have linguistic interests that could trump or could set constraints on majority decision making are going to be those who are mother tongue speakers. People may have a strong preference to learn a language or to use it, but that's just a preference that we throw into the mix of majority decision making and democracy is a fair decision making procedure for dealing with varying preferences. But, for mother tongue speakers it's more of a right, or more of a need than just a preference (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 3).

Felly, yn nhyb Kymlicka, ceir gwahaniaeth pwysig rhwng statws galwadau'r ddau grŵp. Yn achos y siaradwyr mamiaith, gall elfen o gefnogaeth ieithyddol gael ei hystyried fel angen pwysig. Ond, yn achos y sawl sydd ddim yn siaradwyr mamiaith, ni ellir ond dehongli cefnogaeth o'r fath fel dymuniad ac nid angen.

Ar sail ei ystyriaeth o'r achos dychmygol uchod, daw Kymlicka i'r casgliad fod yna ddyletswydd arnom i sicrhau fod y sawl sy'n siarad iaith cenedl leiafrifol fel mamiaith yn meddu ar amrediad o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith honno:

> ... unless certain policy steps are taken mother tongue speakers of Welsh or Irish have a very strong basis for complaining that an injustice has been done to them. But everyone else has to make their case, and then if the policy happens to end up being weaker or stronger than they desire, they do not have the same cause for complaint (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

O ganlyniad, mae Kymlicka yn derbyn y gall rhai aelodau o genhedloedd lleiafrifol hawlio rhai pethau pwysig fel mater o gyfiawnder. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig rhwng ei safbwynt ef ac un Laitin a Reich. Yn nhyb Kymlicka, ni ellir dibynnu'n llwyr ar y mecanweithiau democrataidd arferol wrth wneud penderfyniadau ym maes polisi iaith, gan fod rhai galwadau ieithyddol – galwadau'r siaradwyr mamiaith – yn meddu ar statws uwch na'r cyffredin. O ganlyniad, dylid gweithredu rhai polisïau ieithyddol beth bynnag fo barn y mwyafrif. Eto i gyd, rhaid holi beth yw goblygiadau'r ddadl benodol hon o eiddo Kymlicka i drafodaeth y bennod hon ynglŷn â sut dylai rhyddfrydwyr ddehongli statws moesol y nod o adfer iaith?

Gwelwyd fod Kymlicka'n barod i gydnabod bod galwadau'r sawl sy'n siarad iaith cenedl leiafrifol fel mamiaith yn rhai sy'n meddu ar statws arbennig ac felly dylai'r dasg o gydnabod y galwadau hyn gael ei thrin fel mater o gyfiawnder. Er hynny, mae'n bwysig sylweddoli fod hyn yn wahanol iawn i drin yr amcan mwy cyffredinol o adfer iaith y genedl fel galwad sy'n meddu ar statws o'r fath. Wrth gwrs, dylid nodi nad yw'r math o gefnogaeth y mae Kymlicka'n dychmygu y dylid ei darparu i siaradwyr mamiaith fel mater o gyfiawnder, o anghenraid, yn gyfyng ei natur. Yn wir, fel y mae ef ei hun yn barod i gydnabod ar fwy nag un achlysur, gallai cefnogaeth o'r fath fod yn bellgyrhaeddol, gan alluogi'r siaradwyr hyn i ddefnyddio'u hiaith mewn amrediad eang o sefyllfaoedd:

> ... government has a duty to respect and to enable people whose mother tongue is a national minority language to be able, not just learn that language, but also to use it and to create the conditions under which that will not be a disadvantage to them and therefore to make it a language of opportunity and prestige and so on. I think that when you are talking about people who have a national minority language as their mother tongue, that in fact the state has a duty to enable those people to use it (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

Yna, ychydig yn hwyrach yn yr un cyfweliad, mae'n ychwanegu, 'they (h.y. y siaradwyr mamiaith) have a right to use their language and to be able to pass it on and also that it be a language of opportunity and so on. Indeed that may require extensive support' (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1). Yn sicr, ni fydd cefnogaeth o'r fath yn gwneud drwg i ragolygon iaith.

Eto i gyd, mae yna wahaniaeth pwysig rhwng amcan y math yma o gefnogaeth a'r amcan ehangach o geisio hybu adferiad iaith. Fel y gwelwyd yn ystod y drafodaeth ym mhennod gyntaf y traethawd hwn, mae adfer iaith yn weithred sy'n galw am geisio gwrthdroi unrhyw shifft ieithyddol a fu yn y gorffennol. Yn aml, bydd hyn yn

cynnwys ceisio creu mwy o siaradwyr ac ymdrechu i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol beuoedd. Yn y bôn, mae ymdrechu i adfer iaith yn golygu ceisio creu newid yn rhai o batrymau iaith y gymdeithas. Mae hyn yn wahanol iawn i'r math o amcan sydd gan Kymlicka mewn golwg. Ei amcan ef yw sicrhau fod gan siaradwyr presennol yr iaith gyfleoedd i'w defnyddio mewn rhai peuoedd allweddol. Dyma, yn ei dyb ef, y dylai rhyddfrydwyr ymdrechu i'w sicrhau fel mater o gyfiawnder. Fodd bynnag, nid yw o'r farn fod yr ymdrech ehangach i geisio gwrthdroi shifft y gorffennol ac adfer sefyllfa'r iaith yn meddu ar yr un statws normadol:

> ... there is a significant normative difference between the claim that mother tongue speakers of a minority language have a right – that is that there is a right to protect and develop the conditions where mother tongue speakers can use their language and not be penalised for it – and the claim that members of a national minority have a right to revive a language. There is a normative difference between these two claims (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

O ganlyniad, mae trin adferiad iaith fel mater o gyfiawnder yn gam y mae Kymlicka'n amharod i'w gymryd. Yn ei dyb ef, dim ond y syniad mwy cyfyng o gydnabyddiaeth ieithyddol i siaradwyr mamiaith y dylai rhyddfrydwyr ystyried yn gam pwysig o safbwynt cyfiawnder.

Wedi dweud hynny, mae'n bwysig nodi nad yw Kymlicka'n awgrymu fod yr ymdrech ehangach i ddatblygu polisi sy'n mynd ati i geisio adfer sefyllfa iaith cenedl leiafrifol yn weithred sydd, o ran ei hanfod, yn annerbyniol o bersbectif rhyddfrydol. Yn ei dyb ef, mae'n gwbl briodol i lywodraeth ymgymryd â thasg o'r fath os oes yna gefnogaeth ddemocrataidd i'r syniad. Yn wir, mae'n bosib y gallai symudiad o'r fath ddeillio, fel canlyniad anuniongyrchol, o'r camau a gymerir i sicrhau cyfiawnder i'r siaradwyr mamiaith (h.y. bod cefnogaeth gynyddol i'r iaith yn datblygu ar draws y

gymdeithas a bod llywodraeth felly yn datblygu polisïau pellach). Fodd bynnag, mae'n pwysleisio fod cydnabod natur dderbyniol polisïau o'r fath yn wahanol iawn i ddweud fod yna bwysau moesol arnom i'w datblygu fel mater  gyfiawnder:

> From my point of view, in relation to the question of reviving languages, I don't have any problem saying that it should be permissible. There is no intrinsic injustice in a substate nation – or even a state such as Ireland – engaging in a deliberate policy of language planning to revive a language. But, whether they have a *right* to do it and that other actors have a *duty of justice* to make it possible for them to engage in this kind of revivalist language planning is a stronger claim (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 1).

Hyd yn oed pe bai polisi iaith ehangach yn cael ei fabwysiadu maes o law, nid yw Kymlicka o'r farn y dylai rhyddfrydwyr ddechrau ystyried yr alwad i ymgymryd â pholisi o'r fath fel cam pwysig o safbwynt cyfiawnder.

Yr hyn a welir felly yw bod syniadau Kymlicka ynglŷn â statws moesol y nod o adfer iaith cenedl leiafrifol yn debyg i syniadau Laitin a Reich. Wrth gwrs, rhaid pwysleisio fod Kymlicka, yn wahanol i'r ddau arall, yn barod i gydnabod y gall rhai aelodau o genhedloedd lleiafrifol hawlio rhai pethau ieithyddol fel mater o gyfiawnder. Yn ei dyb ef, dylai'r sawl sy'n siarad iaith y genedl fel mamiaith fedru hawlio lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth i'r iaith honno, beth bynnag fo barn y mwyafrif. O ganlyniad, nid yw'n credu fod polisi iaith yn faes sy'n gwbl rydd o ystyriaethau ynglŷn â chyfiawnder. Fodd bynnag, fel y gwelwyd uchod, mae hyn yn wahanol i drin y nod ehangach o adfer iaith fel mater o gyfiawnder. Fel Laitin a Reich, mae Kymlicka'n hapus i drin adferiad fel galwad wleidyddol gyffredin – dim ond un o'r nifer o amcanion derbyniol y gall dinasyddion eu cynnig a'u hyrwyddo trwy gyfrwng sefydliadau rhyddfrydol democrataidd, ond eto i gyd nid cam sy'n bwysig o safbwynt cynnal cyfiawnder.

## 4. Cloriannu'r Safbwynt 'Derbyniol'

Gwelir felly sut y cred Laitin a Reich a Kymlicka y dylai rhyddfrydwyr ymateb i'r galwadau i adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol. Nodir fod gweithredoedd o'r fath yn dderbyniol mewn cymdeithasau rhyddfrydol a democrataidd, ond wedi dweud hynny, ni ddylid eu hystyried fel gweithredoedd angenrheidiol o safbwynt cynnal cyfiawnder. Fodd bynnag, i ba raddau mae hyn yn gasgliad teg? Ai dim ond fel gweithred dderbyniol y dylai rhyddfrydwyr ddehongli'r dasg o adfer iaith? Fel y gwelir yn ystod yr adran hon, gellir codi cwestiynau digon dilys ynglŷn â'r graddau y mae'r safbwyntiau derbyniol a amlinellwyd uchod yn llwyddo i sicrhau triniaeth ieithyddol deg i aelodau cenhedloedd lleiafrifol. Eto i gyd, i ba raddau y mae gwendidau o'r fath yn cynnig digon o sail i fedru camu ymlaen a dadlau fod adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol, wedi'r cyfan, yn dasg y dylid ei thrin fel mater o gyfiawnder?

### *4.1 Iaith, Hunaniaeth a Niwed*

Eisoes, ym Mhennod 2, rhoddwyd sylw i'r drafodaeth ynglŷn ag arwyddocâd iaith i hunaniaeth grŵp diwylliannol. Bryd hynny, dadleuwyd na ellir trin y cyswllt rhwng iaith draddodiadol a hunaniaeth y grŵp fel un cwbl hanfodol. Nodwyd y ceir amryw o enghreifftiau lle mae iaith draddodiadol wedi dirywio – boed hynny yn achos grŵp o fudwyr ethnig neu genedl leiafrifol – ond bod yr ymdeimlad o hunaniaeth unigryw a fodolai ymhlith aelodau'r grŵp wedi goroesi. Ond, tra'n cydnabod na ddylid trin y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth fel un cwbl hanfodol, pwysleisiwyd y dylid gochel rhag camu ymlaen i ddadlau fod iaith felly yn nodwedd sydd ddim yn meddu ar unrhyw arwyddocâd arbennig. Yn hytrach, ategwyd dadleuon pwysig Stephen May

(2003). Yn nhyb May, un peth yw casglu nad yw iaith benodol yn rhan hanfodol o hunaniaeth pob grŵp diwylliannol, peth arall yw awgrymu nad yw iaith yn nodwedd sy'n medru meddu ar gryn arwyddocâd.

Mentraf ddadlau y ceir nifer helaeth o genhedloedd lleiafrifol lle mae'r iaith draddodiadol wedi ac yn parhau i feddu ar arwyddocâd o'r fath. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud mai'r iaith yw hanfod hunaniaeth y cenhedloedd hyn, ond mae'n sicr yn golygu cydnabod bod yr iaith yn nodwedd sydd, dros y blynyddoedd, wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnal ymdeimlad o fodolaeth ac o arwahanrwydd ymhlith yr aelodau. Fel y gwelir o'i drafodaethau cyffredinol o oblygiadau amlddiwylliannedd, mae Kymlicka hefyd yn ddigon parod i gydnabod y gall iaith draddodiadol feddu ar gryn arwyddocâd i aelodau cenedl leiafrifol (Kymlicka 1989 a 1995a). Fodd bynnag, trwy wahaniaethu mor bendant rhwng statws moesol galwadau siaradwyr mamiaith o'u cymharu â galwadau pobl eraill, a yw'n awgrymu nad yw'r arwyddocâd hwn yn estyn i bob un o aelodau'r genedl?

Os ydyw, yna byddai'n rhaid casglu fod yr awgrym yn un amhriodol. O bosib, bydd awgrym o'r fath yn ymddangos yn ddigon rhesymol ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, wrth feddwl yn ofalus ynglŷn â'r berthynas rhwng aelodau cenhedloedd lleiafrifol a'u hieithoedd gwelir y gellir codi amheuon ynglŷn â dilysrwydd safbwynt sy'n mynnu bod iaith y genedl ond yn meddu ar arwyddocâd i'r sawl sy'n ei siarad. Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried rhai o ddadleuon yr athronydd Cymreig, J. R. Jones.

Mewn ysgrif yn dwyn y teitl *A Raid i'r Iaith Ein Gwahanu* (1967),[1] dadleuodd J. R. Jones bod hunaniaeth grŵp neu genedl yn gweithredu ar ddau wastad gwahanol – y gwastad gweithrediadol a'r gwastad ffurfiannol. Disgrifiodd y gwahaniaeth rhwng y gwastadau hyn fel a ganlyn:

> Gwahaniaeth ydyw rhwng dau wastad yn adeiladwaith Pobl (neu genedl) – nid annhebyg i'r gwahaniaeth a dynnir yn adeiladwaith corff rhwng ei anatomi ar y naill wastad ac, ar y gwastad arall ei 'ffisioleg' sef y prosesau bywiol sy'n mynd ymlaen o fewn i glymau ei anatomi o funud i funud. Yr oedd hi'n anodd i gael gair Cymraeg am yr ail wastad hwn – y gwastad lle mae Pobl neu genedl yn byw eu bywyd o ddydd i ddydd ac o brofiad i brofiad, fel y mae'r gwaed yn cylchredeg yn y corff neu'r bwyd yn treulio yn y coluddion. Fe rois yr enw y 'gwastad gweithrediadol' (functional) ... Galwaf y llall 'y gwastad ffurfiannol' neu 'wastad ffurfiant'. Hwn sy'n cyfateb i anatomi'r corff (Jones 1978: 9 – 10).

Yn nhyb Jones, mae arwyddocâd rhai o'r elfennau hynny, megis iaith draddodiadol, sy'n cyfrannu at lunio hunaniaeth genedlaethol yn medru cael ei fynegi mewn gwahanol ffyrdd ar y ddau wastad yma – y gweithrediadol a'r ffurfiannol. I ddechrau, ar y gwastad gweithrediadol, sef gwastad bywyd dydd i ddydd, caiff arwyddocâd yr iaith ei amlygu wrth iddi gael ei defnyddio fel cyfrwng byw gan rai o aelodau'r genedl mewn amryw beuoedd cyhoeddus a phreifat. Ond, ar ben hynny, mae Jones yn pwysleisio bod arwyddocâd iaith draddodiadol i genedl hefyd yn medru cael ei amlygu ar y gwastad ffurfiannol. Dyma lefel ddyfnach, lle caiff arwyddocâd yr iaith ei gyfleu nid trwy ei amlygrwydd arwynebol ym mywyd bob dydd aelodau'r genedl, ond yn hytrach yn sgil ei gyfraniad hanesyddol i'r broses o greu a chynnal ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol unigryw.

Ar sail y sylweddoliad hwn fod arwyddocâd elfennau o hunaniaeth genedlaethol yn medru cael ei fynegi ar ddau wastad gwahanol, aiff Jones yn ei flaen i

[1] Dyfynnir yma o'r ailargraffiad a gyhoeddwyd ym 1978 gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac a argraffwyd gan y Lolfa, Talybont. Argraffwyd y gwreiddiol gan Wasg Gomer, Llandysul.

godi amheuon ynglŷn â’r honiad fod arwyddocâd iaith benodol i berson yn debygol o ddiflannu pan fo’r person hwnnw yn colli’r gallu i’w siarad. Yn ei dyb ef, nid yw dadl o’r fath ond yn canolbwyntio ar y cyswllt gweithrediadol rhwng person a iaith ac yn anwybyddu’r cyswllt sy’n medru bodoli ar y gwastad ffurfiannol:

> ... tŷb gyfeiliornus yw hon – tŷb fas, seiliedig ar fethu tynnu’r gwahaniaeth rhwng bywyd beunyddiol Pobl, ar y naill law, a’u ffurfiant, ar y llall – rhwng y gwastad gweithrediadol a’r gwastad ffurfiannol. Daliaf fi nad yw cysylltiad Pobl â’u hiaith – na’u rhwymedigaeth, gan hynny, iddi – yn darfod pan beidiant hwy mwyach a’i medru. Canys y mae eu cysylltiad ffurfiannol â hi yn aros, ac yn weladwy yn y ffaith eu bod hwy’n *bod* fel Pobl wahanol (Jones 1978: 14).

Felly, wrth gymhwyso’r ddadl hon i sefyllfa Cymru, fel y gwna Jones yn ei ysgrif, gellir casglu bod yr iaith Gymraeg yn nodwedd sy’n medru meddu ar gryn arwyddocâd i holl aelodau’r genedl ac nid dim ond y sawl sy’n ei siarad. Deillia hyn o’r ffaith fod y Gymraeg nid yn unig yn iaith a gaiff ei defnyddio gan nifer helaeth yn eu bywydau bob dydd, ond hefyd gan ei bod, trwy ei bodolaeth, wedi cyfrannu dros y blynyddoedd at gynnal ymdeimlad o arwahanrwydd neu o hunaniaeth unigryw ymhlith aelodau’r genedl, boed yr aelodau hynny yn digwydd siarad yr iaith ai peidio.[2] O ganlyniad, ni fyddai’n briodol cyfyngu unrhyw drafodaeth ynglŷn ag arwyddocâd yr iaith i’r sawl sy’n digwydd ei siarad fel mamiaith. Gall iaith draddodiadol debyg i’r Gymraeg chwarae rhan bwysig yn nehongliad pobl o’u hunaniaeth genedlaethol, hyd yn oed os nad ydynt yn digwydd ei siarad.

[2] Dylid pwysleisio nad yw mabwysiadu safbwynt sy’n cyfeirio at arwyddocâd iaith cenedl leiafrifol i’r aelodau hynny sydd ddim yn digwydd ei siarad yn golygu bod yn rhaid dadlau fod hyn yn wir ym mhob achos, yn ddi-ffael. Yn hytrach, yr hyn a wneir yw awgrymu bod cyswllt o’r fath yn *bosib* ac am hynny na ddylid cyfyngu unrhyw drafodaeth ynglŷn ag arwyddocâd yr iaith i’r sawl sy’n digwydd ei siarad fel mamiaith.

Fodd bynnag, a fyddai, mewn difrif, yn deg cyhuddo Kymlicka o wadu hyn? Pan ystyrir ei safbwynt yn ofalus, gwelir nad ei fwriad yw awgrymu na all yr iaith draddodiadol feddu ar unrhyw arwyddocâd i'r aelodau hynny o'r genedl nad ydynt yn digwydd ei siarad, pan geisia wahaniaethu rhwng y statws moesol y dylid ei briodoli i alwadau'r garfan honno, o'u cymharu â galwadau'r siaradwyr mamiaith. Mewn gwirionedd, mae'n ddigon parod cydnabod y gall yr iaith feddu ar arwyddocâd pwysig i holl aelodau'r genedl (Kymlicka 2008). Fodd bynnag, nid yw'n teimlo bod yr arwyddocâd hwn, ar ben ei hun, yn cynnig digon o reswm i osod galwadau'r sawl sydd ddim yn digwydd siarad yr iaith ar yr un gwastad moesol â rhai'r siaradwyr mamiaith, gan greu sefyllfa lle dylai holl aelodau'r genedl fedru hawlio lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth ieithyddol fel mater o gyfiawnder. Tra bod yr iaith draddodiadol yn nodwedd sy'n medru meddu ar arwyddocâd pwysig i'r aelodau hynny o'r genedl sydd ddim yn digwydd ei siarad, mynna Kymlicka bod natur y niwed a brofa'r grŵp yma, pan fo'r broses ddemocrataidd yn arwain at sefyllfa lle nad oes unrhyw gydnabyddiaeth neu gefnogaeth yn cael ei hestyn i'r iaith draddodiadol, yn debygol o fod yn wahanol iawn, o ran ei natur a'i oblygiadau, i'r niwed a brofa'r siaradwyr mamiaith (Kymlicka 2008). O ganlyniad, yn ei dyb ef, ni fyddai'n briodol gosod galwadau'r ddau grŵp ar yr un gwastad moesol.

Gwelir felly mai'r gwahaniaeth o ran y niwed a brofa'r ddau grŵp, pan fo cydnabyddiaeth neu gefnogaeth ieithyddol yn absennol, sy'n arwain Kymlicka i ddatgan mai dim ond siaradwyr mamiaith all hawlio lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth ieithyddol fel mater o gyfiawnder. Nid yw'r rhaniad yn deillio o gred gyfeiliornus ynglŷn â diffyg arwyddocâd iaith y genedl i'r aelodau hynny nad ydynt yn digwydd ei

siarad. Ond a yw'r sylweddoliad hwn yn cyfrannu at roi gwedd fwy derbyniol i'r rhaniad sydd mor ganolog i ddadl Kymlicka?

I raddau helaeth, er y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth sy'n medru bodoli yn achos y ddau grŵp, mae'n anodd gwrthod yr awgrym a wneir gan Kymlicka, sef bod y niwed a achosir trwy atal cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, yn debygol o fod yn wahanol iawn o ran ei natur a'i oblygiadau yn achos y siaradwyr mamiaith. Ystyrier sefyllfa lle nad yw gwasanaethau iechyd pwysig – er enghraifft ym maes therapi lleferydd – ar gael trwy gyfrwng yr iaith leiafrifol. Mae'r niwed a brofa'r sawl sy'n siarad yr iaith fel mamiaith yn debygol o fod yn un sylweddol. Gall olygu nad yw cyflwr y person hwnnw yn cael ei drin mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn wir yn achos y sawl nad yw'n siarad yr iaith leiafrifol, beth bynnag fo teimladau'r person hwnnw tuag at yr iaith dan sylw. Serch hynny, a ddylai'r gwahaniaeth hwn o ran y niwed a brofir gan wahanol bobl ein harwain at y casgliad nad oes unrhyw rym moesol yn medru perthyn i alwadau'r sawl nad ydynt yn siaradwyr mamiaith?

Ar y cyfan, mae hwn yn gam rwyf yn amharod i'w gymryd. Un rheswm pwysig dros yr amharodrwydd hwn yw'r modd y byddai dyrchafu galwadau siaradwyr mamiaith yn y fath fodd yn diystyru effeithiau anghyfiawnder hanesyddol. Pan fo iaith cenedl leiafrifol wedi dirywio mewn amgylchiadau anghyfiawn, onid yw'n annheg gosod galwadau'r sawl sy'n parhau i siarad yr iaith heddiw uwchlaw rhai'r bobl hynny sydd wedi'i cholli? Pe bai amodau'r gorffennol wedi bod yn rhai mwy ffafriol – rhai tecach – yna mae'n ddigon posib y byddai aelodau'r ail grŵp yn parhau i siarad yr iaith a'u galwadau yn meddu ar statws tipyn uwch. Fel y saif pethau, mae dadl

Kymlicka yn ymddangos fel pe bai'n cosbi pobl am ddigwyddiadau a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth; sefyllfa y mae rhyddfrydwyr fel arfer yn awyddus iawn i'w osgoi.

Wrth gwrs, mae hyn yn ddibynnol ar dderbyn bod dirywiad ieithyddol ac anghyfiawnder hanesyddol yn brosesau sy'n aml yn rhedeg law yn llaw. Nid yw hwn yn gasgliad y byddai pob rhyddfrydwr yn camu iddo'n syth. Wedi'r cyfan, mae amryw o sylwebwyr rhyddfrydol wedi pwysleisio nad yw canlyniadau a ystyrir gan rai pobl fel rhai anffodus, o anghenraid, yn adlewyrchu anghyfiawnder. Fel y noda Daniel Weinstock, 'not all that is to be regretted is unjust' (Weinstock 2003: 262). Yn ôl y ddadl hon, dylid derbyn y canlyniadau hynny – anffodus ai peidio – sy'n deillio o benderfyniadau rhydd a wneir gan unigolion mewn amgylchiadau teg. Felly, mewn perthynas â iaith cenedl leiafrifol, os yw'r dirywiad a welir yn un sy'n deillio o'r ffaith fod siaradwyr unigol yn penderfynu o'u gwirfodd i newid eu harferion ieithyddol, yna ni ddylai rhyddfrydwyr deimlo bod yma achos o anghyfiawnder sy'n galw am unrhyw atebion penodol. Eglura Blake:

> Linguistic destruction ... does not always represent an evil with which a liberal has reason to be concerned ... When these costs (h.y. dirywiad iaith) arise from the free exercise of the human imagination, as each generation remakes and rethinks the linguistic tools of its parents, then these costs represent an inevitable corollary of the goods of free agency (Blake 2003: 218 – 219).

Byddai hwn efallai yn ganlyniad anffodus, ond yn nhyb rhyddfrydwyr fel Weinstock a Blake, ni fyddai'n anghyfiawn.

Mewn cyd-destun o'r fath, lle mae dirywiad yr iaith wedi deillio o ddewisiadau rhydd gan unigolion, mae'n bosib na fyddai amharodrwydd Kymlicka i roi pwyslais ar alwadau'r sawl nad ydynt yn siaradwyr yr iaith yn ymddangos yn

arbennig o annheg. Fodd bynnag, gellir codi amheuon ynglŷn â sawl achos o ddirywiad ieithyddol a all gael ei ddehongli mewn termau gwirfoddol o'r fath. Mae'n siŵr ei bod hi'n bosib i athronwyr ddychmygu achosion sy'n ffitio'r disgrifiad uchod i berwyl dadl benodol. Ond, i ba raddau y ceir unrhyw achos 'go iawn' o iaith yn dirywio yn sgil penderfyniadau gwirfoddol a rhydd a wnaed gan ei siaradwyr?

Un sy'n herio'r defnydd o'r disgrifiad hwn a hefyd y defnydd cysylltiedig o dermau megis 'hunanladdiad ieithyddol' yw May (2001). Yn ei dyb ef, ni ellir gwadu fod y gwahanol benderfyniadau a wneir gan siaradwyr unigol yn rhan anochel o ddirywiad unrhyw iaith. Fodd bynnag, mae hefyd yn pwysleisio bod angen gwell ymwybyddiaeth o'r modd y mae amgylchiadau penodol yn medru dylanwadu ar y penderfyniadau hyn:

> ... it should be stressed that language shifts are not solely the result of coercion or 'language murder'. However, neither are they solely the result of a 'voluntary' shift, or 'language suicide', as critics of minority-language rights are wont to suggest. Both internal pull and external push factors are invariably involved – although ... it is the usually the latter that direct the former (May 2001: 146).

Ychwanega mewn cyhoeddiad arall:

> ... one can legitimately assert that so-called 'individual choice' is neither as unconstrained nor as neutral as proponents of language shift suggest. Rather it is at best a 'forced choice', propelled by wider forces of social, political, economic and *linguistic* inequality and discrimination (May 2003: 150 – 151).

Fel y gwelir o'r dyfyniadau hyn, mae May yn gryf o'r farn fod natur yr amgylchiadau a wyneba siaradwyr nifer o ieithoedd lleiafrifol yn cyfrannu'n sylweddol at unrhyw ddirywiad a welir. Yn sicr, gellir tybio y byddai hyn yn wir yn achos ieithoedd nifer helaeth o genhedloedd lleiafrifol. Wedi'r cyfan, creithiwyd hanes y cenhedloedd hyn gan sgil effeithiau'r broses o adeiladu gwladwriaethau modern. Pan ystyrir dirywiad

ieithyddol yn y termau hyn, mae dadl Kymlicka – dadl sy'n rhoi statws uwch i alwadau'r sawl sy'n parhau i siarad yr iaith na'r rhai hynny nad ydynt, ond a fyddai efallai yn dymuno gwneud – yn ymddangos braidd yn naïf.

Gwelir felly y gellir codi cwestiynau pwysig ynglŷn â thegwch y modd y mae Kymlicka'n diystyru galwadau'r sawl nad ydynt yn siaradwyr mamiaith. Fodd bynnag, sut dylai hyn effeithio ar gasgliadau cyffredinol y bennod ynglŷn â statws moesol y nod o adfer ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol? A yw'r pwyntiau a wnaed uchod ynglŷn ag anghyfiawnder hanesyddol yn cynnig sail i ddiystyru'r safbwynt 'derbyniol' ac i gamu ymlaen i drin adferiad yr ieithoedd hyn fel mater o gyfiawnder?

Rhaid casglu nad ydynt yn gwneud hynny. Yn y pen draw, hyd yn oed pe bai Kymlicka'n unioni'r cam a nodwyd uchod, gan dderbyn y dylid trin galwadau gwahanol bobl mewn perthynas â'r iaith draddodiadol yn yr un modd, ni fyddem yn symud yn nes at safbwynt sy'n trin adferiad iaith fel mater o gyfiawnder. Pam hynny? Yn syml, nid yw ymgais Kymlicka i wahaniaethu rhwng statws y galwadau hynny a gyflwynir gan siaradwyr mamiaith, o'u cymharu â galwadau pobl eraill, mewn gwirionedd yn codi mewn perthynas â'r nod pellgyrhaeddol o adfer iaith.

Cofier fod dadl Kymlicka yn cychwyn gyda'r esiampl o refferendwm dychmygol a gâi ei chynnal mewn cenedl leiafrifol i benderfynu a ddylid mabwysiadu polisi cyhoeddus sy'n anelu i gefnogi neu adfer sefyllfa'r iaith draddodiadol. Yn yr esiampl arbennig hon, roedd y penderfyniad democrataidd yn un sy'n gwrthwynebu'r syniad o fabwysiadu polisi adferol pellgyrhaeddol. O dderbyn hyn, mae Kymlicka'n

mynd ymlaen i holi a fyddai unrhyw garfan, sydd efallai wedi'i siomi gan y canlyniad, yn dal i feddu ar sail i ddadlau y dylai'r llywodraeth gymryd rhai camau i sicrhau elfen o ddarpariaeth sylfaenol yn yr iaith draddodiadol, er gwaetha'r ffaith nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ffafrio'r syniad pellgyrhaeddol o adfer. Sylwer mai yma y caiff y gwahaniaeth rhwng statws gwahanol garfanu ieithyddol ei gyflwyno. Yn nhyb Kymlicka, hyd yn oed pan fo'r mwyafrif yn gwrthod y syniad pellgyrhaeddol o adfer iaith y genedl, dylai'r sawl sy'n parhau i siarad yr iaith honno fel mamiaith feddu ar y gallu i hawlio bod y llywodraeth yn dal i gynnig elfen sylweddol o ddarpariaeth yn yr iaith honno. Dylid gwneud hynny er mwyn sicrhau nad yw'r bobl hyn yn dioddef yn ormodol yn sgil penderfyniad y mwyafrif. Fodd bynnag, nid yw'r sawl nad ydynt yn siaradwyr mamiaith yn meddu ar yr y gallu i gyflwyno galwadau o'r fath. Yn nhyb Kymlicka, nid yw'r niwed a ddaw i ran y bobl hyn yn sgil canlyniad y refferendwm yn meddu ar yr un arwyddocâd moesol, ac felly ni ddylent fedru hawlio unrhyw ddarpariaeth yn yr iaith draddodiadol fel mater o gyfiawnder.

Nawr, os oes unrhyw sail i'r awgrym a wnaed uchod, sef bod rhaniad Kymlicka rhwng galwadau siaradwyr mamiaith ac aelodau eraill y genedl yn un annheg, yna mae'n bosib y gellid llunio dadl sy'n mynnu y dylai holl aelodau'r genedl feddu ar yr y gallu i hawlio bod y llywodraeth yn darparu'r lefel sylfaenol yma o gydnabyddiaeth ieithyddol fel mater o gyfiawnder. Mae hyn, fodd bynnag, yn wahanol iawn i lunio dadl sy'n mynnu y dylid trin y nod ehangach o adfer yr iaith draddodiadol fel mater o gyfiawnder. Fel y nodwyd eisoes, mae yna wahaniaeth pwysig rhwng y syniad yma o ddarparu cydnabyddiaeth sylfaenol i iaith mewn rhai peuoedd cyhoeddus pwysig a'r syniad ehangach o geisio adfer yr iaith, gan wrthdroi

unrhyw ddirywiad a fu dros y blynyddoedd. O ran y syniad ehangach hwn o adfer, mae Kymlicka'n ddigon hapus i'w drin fel mater a gai ei adael i rediad ein trafodaethau democrataidd cyhoeddus, ac nid yw dileu'r rhaniad rhwng siaradwyr mamiaith ac eraill yn newid hyn mewn unrhyw fodd.

Gwelir felly nad yw'r feirniadaeth uchod o ddadleuon Kymlicka – er mor bwysig ydyw – yn cynnig sail i ddechrau dadlau y dylid trin *adferiad* iaith cenedl leiafrifol fel mater o gyfiawnder. Rhywbeth sy'n digwydd ar ôl i'r drafodaeth ddemocrataidd agored wrthod mabwysiadu polisi iaith adferol yw rhaniad Kymlicka rhwng galwadau gwahanol garfanau ieithyddol. Fel y gwelwyd, mae'n bosib y gellid dadlau nad yw'r rhaniad hwn yn un cwbl deg. Ni fydd llwyddo i brofi hynny, fodd bynnag, yn dangos pam y dylai'r nod pellgyrhaeddol o adfer iaith gael ei drin fel mater o gyfiawnder. Byddai mabwysiadu safbwynt o'r fath yn golygu ein bod yn barod i ddatgan y dylid mynd ati i adfer yr iaith, beth bynnag fo barn aelodau'r genedl; hynny yw, y dylai'r mater gael ei osod uwchlaw'r cwestiynau hynny y byddai rhyddfrydwyr yn dewis eu cloriannu trwy gyfrwng ein trefniadau democrataidd arferol. Nid yw'r feirniadaeth o safbwynt Kymlicka'n dangos i ni pam y dylid gwneud hynny. Nid yw'n dangos pam nad yw'r dull democrataidd arferol hwn yn un priodol a theg i'w ddefnyddio wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â'r nod cyffredinol o adfer iaith. Mewn gwirionedd, dim ond trwy danseilio tegwch y dull hwnnw'n benodol y gellid gwneud hynny, gan gynnig sail i ddechrau trin adferiad fel mater o gyfiawnder. O ganlyniad, yn ystod y paragraffau isod eir ati i ystyried a yw casgliad o'r fath yn bosib.

*4.2 Anghyfiawnder Hanesyddol a Thrafodaethau Democrataidd Teg*

Gellir codi cwestiynau digon difrifol ynglŷn â'r ffydd y mae Laitin a Reich a Kymlicka yn dangos yng ngallu ein trefniadau democrataidd arferol i sicrhau trafodaethau gwirioneddol deg ynglŷn â dyfodol gwahanol ieithoedd lleiafrifol. Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried beirniadaeth a gyflwynwyd gan May (2003) o waith Laitin a Reich. Yn arwyddocaol, mae hon hefyd yn feirniadaeth sy'n ymwneud ag effeithiau anghyfiawnder hanesyddol. Yn nhyb May, nid yw'r sawl sy'n dadlau bod ein trefniadau democrataidd arferol yn ddull cwbl briodol a digonol o ddod i benderfyniadau ynglŷn â'r nod o adfer iaith cenedl leiafrifol yn rhoi digon o ystyriaeth i'r modd y câi tegwch unrhyw drafodaethau democrataidd eu tanseilio gan hanes o anghyfiawnder ieithyddol.

Fel y gwelwyd eisoes, gall cyfnod hir o anghyfiawnder gael dylanwad dwfn ar arferion a hefyd ar agweddau ieithyddol gwahanol bobl. O ystyried hyn, oni ddylid cwestiynu dilysrwydd a thegwch unrhyw drafodaeth a gynhelir heb ymdrechu i ymdrin ag effeithiau etifeddiaeth o'r fath? Nid yw hwn yn fater a gaiff ei ystyried gan Laitin a Reich – nid ydynt yn dweud dim ynglŷn ag effeithiau posib unrhyw anghyfiawnder hanesyddol ar degwch y trafodaethau agored ynglŷn â pholisi iaith a argymhellir ganddynt. Y cyfan a wneir yw tanlinellu rhinweddau'r drafodaeth a gafwyd yng Nghatalonia yn ystod y 1990au ynglŷn natur deddfwriaeth iaith newydd y wlad. Yn eu tyb hwy, mae hon yn enghraifft berffaith o pam dylai rhyddfrydwyr ymddiried mwy yn ein trefniadau democrataidd cyffredin wrth ddod i benderfyniadau teg ym maes polisi iaith. Eto i gyd, fel y pwysleisia May, maent yn anwybyddu un

pwynt hollbwysig. Roedd y drafodaeth hon ym 1998 yn digwydd yn dilyn dros ddegawd o gynllunio cydlynol o blaid y Gatalaneg:

> ... the eventual acceptance of the Linguistic Policy Act poses another problem for the democratic litmus test advocated by Laitin and Reich, since the acceptance of the Act in the face of such trenchant and powerful opposition could have been achieved only in the light of historical circumstances that had *already* significantly changed the position of the minority language (Catalan) within the state. In other words, the more gradual but nonetheless deliberate process of 'linguistic normalization' pursued in Catalunya since the death of Franco was an essential prerequisite for the subsequent acceptance of its higher legal status and institutional reach via the Linguistic Policy Act (1998). In short, informed debate on and acceptance of accommodative language rights is likely to occur only in a political context already conducive to it (May 2003: 139).

Mae'r frawddeg olaf o'r dyfyniad uchod o eiddo May yn gwbl allweddol. Yn dilyn marwolaeth Franco ac aileni democratiaeth yn Sbaen, cychwynnwyd ar y broses o gynllunio i ailgodi'r Gatalaneg. Parhaodd y cynllunio hwn trwy'r 1980au a'r 1990au cynnar, gan arwain at newidiadau sylweddol yn statws yr iaith. Dim ond wedi'r broses allweddol hon y cafwyd y drafodaeth gyhoeddus y mae Laitin a Reich mor awyddus i'w chanmol. Felly, yn absenoldeb unrhyw gynllunio sylfaenol sydd â'r nod o ailgodi sefyllfa iaith cenedl leiafrifol, mae'n anodd gweld sut y gall model rhyddfrydol Laitin a Reich ddod yn agos at greu amgylchiadau sy'n caniatáu i ni ymdrin yn deg â sefyllfa'r ieithoedd hyn.

Er bod y sylwadau uchod yn canolbwyntio ar waith Laitin a Reich, mae'r ergyd yn berthnasol yn achos Kymlicka hefyd; hynny yw, bod gwendidau pendant yn perthyn i safbwynt sy'n mynnu bod ein trefniadau democrataidd arferol yn ddull cwbl briodol o ddod i benderfyniadau ynglŷn â'r nod o adfer iaith cenedl leiafrifol. Nid yw'r safbwynt hwn yn rhoi digon o ystyriaeth i'r modd y gall tegwch unrhyw drafodaethau democrataidd gael ei danseilio gan hanes o anghyfiawnder ieithyddol.

Fel y gwelwyd wrth drafod dadl May (2003), ni fyddai'r math o drafodaethau democrataidd agored a gaiff eu dyrchafu gan Laitin a Reich (ac sydd hefyd yn rhan o ddadl Kymlicka) byth yn medru digwydd mewn gwagle. Bydd rhyw fath o gefndir hanesyddol wastad yn debygol o effeithio ar y safbwyntiau a gaiff eu mynegi gan y cyfranogwyr. Ac os yw'r cefndir hwnnw yn un o anghyfiawnder, lle cai un iaith ei thrin yn israddol a'i chau allan o wahanol beuoedd cymdeithasol – fel sy'n wir yn achos ieithoedd nifer o genhedloedd lleiafrifol – yna gellir codi cwestiynau difrifol ynglŷn â'r graddau y gall unrhyw drafodaeth gael ei disgrifio fel un sy'n digwydd mewn amgylchiadau gwirioneddol rydd a theg. Ymhlith pethau eraill, bydd cefndir o'r fath wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffaith nad yw nifer o aelodau'r genedl bellach yn medru siarad yr iaith. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, bydd y profiad o fyw trwy gyfnod hir lle câi'r iaith ei thrin yn israddol wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ymlediad agweddau dilornus tuag at yr iaith, nid yn unig ymhlith y sawl nad ydynt yn ei siarad bellach, ond ymhlith nifer o siaradwyr mamiaith hefyd.

O ganlyniad, bydd cefndir hanesyddol anghyfiawn yn debygol o effeithio ar y graddau y gellid diffinio unrhyw drafodaeth a gynhelir ynglŷn â dyfodol yr iaith fel un rhydd a theg. Ond, sut dylai hyn ddylanwadu ar ein casgliadau ynglŷn â'r nod o adfer iaith cenedl leiafrifol? A ddylid trin adferiad fel mater o gyfiawnder o leiaf yn y sefyllfaoedd hynny lle gellir dadlau bod amgylchiadau anghyfiawn wedi cyfrannu'n sylweddol at ddirywiad yr iaith, ac yn debygol o atal unrhyw drafodaeth ystyrlon ynglŷn â'i dyfodol?

I rai, mae'n siŵr y byddai ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn uchod yn ymddangos fel cam digon rhesymol. Os yw cyfnod o anghyfiawnder wedi cael effaith ddofn ar sefyllfa iaith – nid yn unig o ran nifer y siaradwyr ond hefyd o ran agweddau pobl tuag ati – oni ddylid casglu mai'r unig lwybr teg i'w ddilyn yw un sy'n argymell fod cyfiawnder yn galw am gymryd camau pendant i'w hadfer? Yn sicr, y math yma o resymeg sy'n rhedeg drwy ddadleuon nifer o genedlaetholwyr, ac ar y cyfan, gellir deall pam y byddai hwn yn ymddangos yn safbwynt priodol. Fodd bynnag, erys rhai pwyntiau pwysig sy'n achosi i ni oedi ac amau a ellir datgan yn gwbl ddiamwys y dylai *rhyddfrydwyr* drin adferiad ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol fel mater o gyfiawnder, hyd yn oed pan fo'r dirywiad hwnnw wedi deillio o anghyfiawnder.

Fel y noda Laitin a Reich (2003), tra bod dirywiad ieithoedd nifer o genhedloedd lleiafrifol wedi deillio o anghyfiawnder o ryw fath, dylid gochel rhag cymryd yn ganiataol y bydd pawb yn dymuno gweld yr ieithoedd hyn yn cael eu hadfer. Wrth gwrs, gellid dadlau nad yw'r sawl sy'n mynegi amheuon o'r fath ond yn amlygu effeithiau blynyddoedd o gam-gydnabyddiaeth; hynny yw bod pobl wedi'u cyflyru i feddwl am iaith draddodiadol y genedl mewn modd dilornus. Serch hynny, un peth yw cydnabod y posibilrwydd real o ganfod sefyllfa o'r fath, peth arall yw dadlau fod hynny'n rhoi sail i gamu ymlaen i ddadlau fod cyfiawnder felly yn galw arnom i anwybyddu'r amheuon hyn, gan sicrhau adferiad yr iaith doed a ddêl. Yn nhyb ryddfrydwyr, byddai gwneud hynny yn ein harwain i dir moesol ansicr.

Yn y pen draw, wrth geisio sefydlu cyswllt pendant rhwng cyfiawnder ac adferiad, yr hyn a wneir yw creu sefyllfa lle caiff dyletswydd sylweddol iawn ei gosod

ar aelodau'r genedl; beth bynnag fo barn y bobl hyn ynglŷn â'r iaith, mae *dyletswydd* arnynt i hybu ei hadferiad, gan fod hynny'n fater o gyfiawnder. Byddai camu i gyfeiriad o'r fath yn broblematig iawn o safbwynt rhyddfrydol. Deillia hyn o'r ffaith y byddai fframio adferiad iaith yn y fath fodd yn golygu ein bod yn trin yr iaith ei hun fel gwrthrych sy'n medru gosod gofynion sylweddol ar aelodau'r genedl. O wneud hynny, yr hyn fyddai gennym yw safbwynt sy'n trin aelodau unigol y genedl fel dim mwy na chyfrwng i hybu nod. Wrth gwrs, i ryddfrydwyr mae safbwyntiau moesol sy'n trin y berthynas rhwng bodau dynol â nodweddion diwylliannol yn y fath fodd yn gwbl annerbyniol (Kymlicka 1995a; Weinstock 2003).

**6. Casgliadau**

Gwelir felly fod problemau moesol yn gysylltiedig â dadl sy'n trin adferiad iaith fel mater hanfodol o safbwynt cyfiawnder, hyd yn oed pan fo'r ddadl honno yn cael ei chymhwyso i sefyllfaoedd penodol, megis cenhedloedd lleiafrifol, fel y gwnaed yn ystod y bennod hon. O ganlyniad, yr ateb i'r cwestiwn sylfaenol a osodwyd ar gyfer rhan gyntaf y traethawd hwn yw mai fel gweithred dderbyniol, ac nid un hanfodol o safbwynt cyfiawnder, y dylai rhyddfrydwyr ddehongli adferiad ieithyddol.

Fodd bynnag, er bod hwn yn safbwynt sy'n sicr yn fwy cyson ag egwyddorion rhyddfrydol, nid yw, ar unrhyw gyfri, yn gwbl rydd o broblemau. Ar y naill law, mae'n gwbl briodol fod rhyddfrydwyr megis Laitin a Reich neu Kymlicka yn dadlau na allant gymeradwyo ymdrech i adfer iaith leiafrifol os nad yw'r ymdrech honno yn adlewyrchu ewyllys democrataidd y grŵp. Ond, ar y llaw arall, nid yw dadleuon yr athronwyr hyn yn cydnabod yr effaith ddifrifol y gall ffactorau megis cefndir

hanesyddol eu cael ar y posibilrwydd o gynnal trafodaethau democrataidd gwirioneddol deg ynglŷn â dyfodol gwahanol ieithoedd. Mae hyn yn wendid hollbwysig ac fe ddylid fod wedi gwneud llawer mwy o ymdrech i'w gydnabod.

Serch hynny, a ellid bod wedi disgwyl iddynt wneud mwy na dim ond ei gydnabod? I ba raddau y mae mynd ati i ymdrin yn effeithiol â phroblemau cefndirol megis amgylchiadau hanesyddol, sydd o'u hanfod yn mynd i amrywio o ran natur a difrifoldeb o achos i achos, yn dasg y gellir ei chyflawni tra'n trafod o bersbectif egwyddorion rhyddfrydol cyffredinol? Yn sicr, gellir defnyddio'r egwyddorion hyn i gloriannu priodoldeb cyffredinol safbwynt sy'n mynnu y dylai adferiad iaith gael ei drin fel gweithred hanfodol o safbwynt cyfiawnder. Fodd bynnag, a ellir disgwyl iddynt wneud llawer mwy na hynny? A ellir disgwyl iddynt ymateb i broblemau cymhleth sy'n deillio o hanes?

I raddau helaeth, mae ymdriniaeth o broblemau cefndirol o'r fath yn mynd â ni tu hwnt i faes defnyddioldeb yr egwyddorion hyn. I ddweud mwy, gan ymateb i'r math o her a godwyd ar ddiwedd y bennod hon, byddai galw am gamu o'r tir egwyddorol cyffredinol a haniaethol, gan ddisgyn i'r lefel benodol a diriaethol. Byddai angen ystyried cefndir achosion penodol, gan edrych ar natur y gorthrwm ieithyddol a brofwyd dros y blynyddoedd a'r modd y mae hyn wedi effeithio ar unrhyw drafodaeth a gynhelir ynglŷn â dyfodol gwahanol ieithoedd. Wrth wneud hynny, byddai egwyddorion rhyddfrydol yn sicr o effeithio ar ein casgliadau ynglŷn â statws moesol adferiad iaith, ond byddai cyd-destun penodol yr achosion hefyd yn ffactor pwysig.

Ni ddylai'r cyfyngiadau hyn ar ddefnyddioldeb egwyddorion rhyddfrydol gael eu gweld fel gwendid, ac nid ydynt yn cynnig sail i ddadlau mai dim ond mewn modd ymylol yn unig y gall egwyddorion o'r fath oleuo ein dealltwriaeth o foesoldeb y broses o adfer iaith. I ddechrau, mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ystod rhan gyntaf y thesis, wrth ystyried a all rhyddfrydwyr drin adferiad fel gweithred hanfodol o safbwynt cyfiawnder, yn ddiddorol, yn bwysig, ac yn herio 'synnwyr cyffredin' llawer iawn o bobl. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, nid dim ond mewn perthynas â'r cwestiwn ymchwil hwn y gellir cymhwyso egwyddorion rhyddfrydol. Gellir eu defnyddio hefyd mewn perthynas â chwestiynau eraill; yn benodol, cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd rhai o'r camau polisi ymarferol a gymerir gan lywodraethau rhyddfrydol-ddemocrataidd wrth iddynt geisio hybu rhagolygon gwahanol ieithoedd lleiafrifol. O ganlyniad, i'r maes gwahanol hwn y trown ein sylw yn ystod ail ran y traethawd.

# Rhan 2: Camau Ymarferol a Chyfyngiadau Normadol

Yn ystod rhan gyntaf y traethawd, gwelwyd na all rhyddfrydwyr gymeradwyo safbwynt sy'n trin adferiad iaith fel tasg hanfodol o safbwynt cyfiawnder, hyd y oed pan fo'r safbwynt hwnnw yn cael ei gyfyngu i achosion penodol, megis cenhedloedd lleiafrifol. Yn hytrach, mae rhyddfrydwyr yn debygol o ffafrio dehongli'r dasg o adfer iaith fel gweithred dderbyniol; tasg sy'n gwbl briodol i lywodraethau rhyddfrydol-democrataidd ymgymryd ag ef pan fo hynny'n adlewyrchu casgliadau y daethpwyd iddynt yn sgil trafodaethau agored a theg ymhlith aelodau'r grŵp. Gwelwyd y byddai mabwysiadu safbwynt cryfach na hynny yn ein harwain i dir moesol ansicr.

Eto i gyd, nid yw'r drafodaeth uchod ynglŷn â statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith wedi dweud dim wrthym ynglŷn â pha fath o gamau ymarferol y cred rhyddfrydwyr sy'n dderbyniol i'w cymryd wrth gyrchu nod o'r fath. Yn wir, yr un fyddai'r sefyllfa beth bynnag fyddai'r casgliadau y daethpwyd iddynt uchod. Deillia hyn o'r ffaith fod y drafodaeth ynglŷn â dilysrwydd gwahanol gamau polisi penodol yn ymdrin â phwnc adferiad iaith o bersbectif ychydig yn wahanol.

Boed adferiad iaith yn cael ei drin gan ryddfrydwyr fel amcan derbyniol, neu fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder, yr hyn sy'n sicr yw na fyddent yn fodlon derbyn bod hynny'n agor y drws i bob math posib o gamau polisi ymarferol. Er enghraifft, mae'n sicr y byddai rhyddfrydwyr yn gwrthwynebu polisïau adferol sy'n datgan mai *dim ond* yr iaith leiafrifol a ddylai gael ei ddefnyddio gan unigolion, hyd

yn oed mewn sgyrsiau preifat. Byddai hynny'n mynd yn rhy bell. Ond beth am rai o'r polisïau adferol sydd ar waith ar hyn o bryd mewn gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd? Ydy'r rhain hefyd yn mynd yn rhy bell ac yn tramgwyddo ar egwyddorion rhyddfrydol pwysig?

Heb os, mewn nifer o wahanol wledydd ar draws y byd mae gwahanol bolisïau iaith wedi bod yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o'r boblogaeth. Ar ben hynny, yn bur aml mae gwrthwynebiadau'r bobl hyn wedi cynnwys ensyniadau ynglŷn â'r modd y mae gwahanol bolisïau yn tramgwyddo egwyddorion normadol megis rhyddid, cyfiawnder a chydraddoldeb. Ond, a oes unrhyw sail i wrthwynebiadau o'r fath? A yw rhai o'r camau ymarferol a gymerir gan genhedloedd lleiafrifol, wrth geisio gwireddu'r nod o adfer eu hieithoedd traddodiadol, wir yn tramgwyddo egwyddorion pwysig ac felly yn annerbyniol o bersbectif rhyddfrydol? Dyma a drafodir yn ystod ail ran y traethawd, ac fe wneir hynny trwy gloriannu trawstoriad o bolisïau iaith a fabwysiadwyd mewn dau achos penodol: Quebec a Chymru.

# 4. *Le Français, une langue pour tous le monde*: Sefydlu'r Ffrangeg fel iaith gyhoeddus gyffredin Quebec

## 1. Cyflwyniad

Yng nghyd-destun ymdrechion cyfoes i gefnogi ieithoedd cenhedloedd di-wladwriaeth, does dim amheuaeth nad yw Quebec yn achos pwysig. Ers y 1960au, cymerodd llywodraeth y dalaith gyfres o gamau pellgyrhaeddol – o bosib y mwyaf pellgyrhaeddol a gymerwyd gan unrhyw lywodraeth rhyddfrydol-ddemocrataidd – er mwyn cynnal a chodi statws y Ffrangeg. Mae'r gweithredu pellgyrhaeddol hwn wedi cyffwrdd ar sawl maes polisi, gan gynnwys addysg, byd gwaith a mewnfudo. Yn sgil y camau hyn, mae rhagolygon yr iaith bellach yn llawer gwell nag oeddent ddeugain mlynedd yn ôl. O ganlyniad, gellir cytuno â Richard Bourhis, a nododd; 'French Quebec has emerged as a symbolic case ... for it shows that sustained language planning can reverse language shift even relative to the most powerful language of this millennium: English' (Bourhis 2001: 101).

Amcan y bennod hon fydd ceisio cloriannu, o bersbectif rhyddfrydol, ddilysrwydd moesol rhai o'r camau hynny a gymerwyd gan lywodraeth Quebec wrth geisio trawsnewid sefyllfa'r Ffrangeg. Bydd tri maes penodol yn cael eu hystyried. I ddechrau, trafodir yr ymdrech i reoleiddio pa ieithoedd a gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus, a'r gwyn fod y polisi hwn yn cyfyngu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Yn ail, ystyrir y gwrthwynebiad a fu i natur polisi addysg Quebec, ac yn benodol, y gwahanol gyfyngiadau ar argaeledd addysg Saesneg. Bydd y trydydd achos a ystyrir ychydig yn wahanol i'r ddau gyntaf. Yn hytrach na thrafod polisi penodol, byddaf yn

ystyried y drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, a'r gwyn fod effaith gyffredinol y polisïau iaith bellach wedi arwain at danseilio cynaliadwyedd y gymuned honno. Ym mhob un o'r achosion hyn, ystyrir i ba raddau mae'r gwrthwynebiadau a fynegwyd dros y blynyddoedd yn codi cwestiynau dilys ynglŷn â phriodoldeb gweithredoedd llywodraeth Quebec. A yw'r polisïau iaith hynny a fabwysiadwyd ganddi wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel polisïau annerbyniol o safbwynt moesol?

Wrth gwrs, cyn gellir mynd ati i gynnal trafodaeth normadol o'r fath, rhaid magu dealltwriaeth o gefndir yr achos dan sylw. O ganlyniad, dyna fydd amcan adrannau cyntaf y bennod hon. I ddechrau ceir gorolwg bras o hanes Quebec. Yna, eir ati i grynhoi rhai o'r ffactorau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol sydd wedi bygwth sefyllfa'r Ffrangeg. Yn ogystal, amlinellir natur y polisïau iaith a fabwysiadwyd gan wahanol lywodraethau ers y 1960au. O wneud hyn, bydd modd camu ymlaen yn hyderus yn ystod ail hanner y bennod i drin a thrafod dilysrwydd moesol gwahanol agweddau o bolisïau iaith Quebec.

## 2. Cefndir Hanesyddol

Roedd yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif yn gyfnod o ryfela ac o ymgiprys cyson rhwng lluoedd Prydain a Ffrainc, ac un o feysydd pwysicaf y cystadlu hwn oedd tiriogaethau eang Gogledd America. Law yn llaw ag ardaloedd eraill, megis Asia, bu'r rhan hon o'r byd yn ganolog i ymdrechion ymerodraethol cynnar y ddwy wlad. Yn dilyn teithiau fforwyr megis Jaques Cartier (1534, 1535-36 a 1541-42) a Samuel de Champlin (sylfaenydd dinas Quebec ym 1608), datblygwyd trefedigaeth *La*

*Nouvelle France* ar hyd glannau’r afon St Lawrence. Yn ddiweddarach ymestynnodd Ffrainc ei dylanwad i lawr i gyfeiriad y Llynnoedd Mawr ac ymlaen ar hyd glannau’r afon Mississippi. Yn y cyfamser, meddiannwyd tiroedd helaeth ar hyd arfordir Môr yr Iwerydd (megis yr ardaloedd hynny a adnabyddir heddiw fel Efrog Newydd, Pennsylvania, New Jersey a Delaware) gan luoedd Prydain.

Er ei llwyddiant cynnar, llacio wnaeth gafael Ffrainc ar ei thiroedd yn ystod y ddeunawfed ganrif. Yn dilyn Rhyfel Olyniaeth Sbaen (1703 – 1713), meddiannwyd ardal Acadia (a adnabyddir heddiw fel Nova Scotia, Prince Edward Island, New Brunswick a Maine) gan luoedd Prydain. Roedd hyn yn sicr yn ergyd i obeithion Ffrainc. Serch hynny, daeth yr ergyd fawr yn ddiweddarach yn ystod y ddeunawfed ganrif, pan fu’n rhaid i’r wlad ildio gweddill ei thiroedd yng Ngogledd America yn sgil cael ei threchu yn ystod y Rhyfel Saith Mlynedd (1756 – 1763). Un o ddigwyddiadau allweddol y rhyfel hwn oedd buddugoliaeth y cadfridog Prydeinig James Wolf yn ninas Quebec ym 1759. Galluogodd y fuddugoliaeth hon i luoedd Prydain hwylio ymlaen gan feddiannu Montreal hefyd erbyn 1760.

Yn sgil buddugoliaeth Prydain ac arwyddo cytundeb Paris ym 1763, rhoddwyd terfyn ar bresenoldeb coron Ffrainc yng Ngogledd America. O ganlyniad, gellid bod wedi disgwyl i diriogaeth Quebec, fel y gelwid hi erbyn hynny, Seisnigo’n raddol, yn yr un modd ag y gwnaeth cyn drefedigaethau’r Iseldiroedd a Sweden (Chevrier 2003: 119). Yn wir, dyna oedd bwriad gwreiddiol llywodraeth Prydain; sefydlwyd Eglwys Lloegr fel yr eglwys swyddogol, cyflwynwyd cyfraith Lloegr a hefyd datganwyd mai’r Saesneg oedd yr iaith swyddogol (Keating 2001: 77). Fodd bynnag, bu’n rhaid

cyfaddawdu cryn dipyn ar yr amcanion polisi hyn. I ddechrau, fel yr eglura John Dickinson a Brian Young, roedd pen draw i'r graddau y byddai'n bosib i Brydain gymell cymathiad trigolion ei threfedigaeth newydd:

> Although Governor James Murray had instructions to establish English law and the Anglican Church and to use English schools as vehicles of assimilation, he realized that – with the exception of the institution of British criminal law – such a policy was unworkable. Of the 70,000 French Canadians, 85 percent were rural inhabitants isolated from contact with the British and their institutions. Most of the few hundred British merchants who had come to the colony lived in Quebec City and Montreal, and there was little prospect of any substantial British immigration in the near future (Dickinson a Young 2003: 53).

Ar ben hynny, dylanwadwyd ar bolisïau llywodraeth Prydain gan y bygythiad o gyfeiriad y Gwrthryfelwyr yn America a'r pryder y byddai polisïau cymhathu llawdrwm yn cymell trigolion Ffrengig Quebec i gefnogi eu hymgyrch hwy. O ganlyniad, ym 1774, cyflwynwyd Deddf Quebec. Ymhlith pethau eraill, roedd y ddeddf hon yn gwarantu hawl Catholigion Ffrangeg eu hiaith i arddel eu crefydd a hefyd eu hawl i ddal swyddi cyhoeddus. Arweiniodd y mesurau hyn at dawelu pryderon y boblogaeth Ffrengig, ac yn enwedig yr elit crefyddol, gan olygu nad estynnwyd unrhyw gefnogaeth i amcanion y Gwrthryfelwyr Americanaidd. Ar yr un pryd, golygai'r ddeddf fod cydnabyddiaeth yn cael ei hestyn i le'r Ffrangeg ym mywyd cyhoeddus Quebec (Dickinson a Young 2003).

Rhoddwyd cynnig arall ar gymathu'r boblogaeth Ffrengig yn dilyn gwrthryfel aflwyddiannus 1837 – 1838. Yn ei adroddiad dadleuol ynglŷn ag achosion yr anghydfod hwn, nododd yr Arglwydd Durham iddo ganfod 'two nations warring in the bosom of a single state'. Aeth ymlaen i feirniadu diwylliant a thraddodiadau'r boblogaeth Ffrengig: 'There can hardly be conceived a nationality more destitute ...

than that which is exhibited by the descendents of the French in Lower Canada, owing to their peculiar language and manners. They are a people with no history and no literature' (dyfynnwyd yn Dickinson a Young, 2003: 182). Ar sail yr adroddiad hwn penderfynodd llywodraeth Prydain gyflwyno Deddf Uno 1840. Roedd y mesur hwn yn sefydlu cynulliad etholedig. Ond, yn arwyddocaol, fe'i trefnwyd mewn modd a oedd yn sicrhau bod gan y boblogaeth Seisnig, a drigai yn y gorllewin (yr ardal a adnabyddir heddiw fel Ontario), fwyafrif parhaol dros boblogaeth Ffrengig y dwyrain (Quebec heddiw). Eto i gyd, ni chafodd y trefniadau hyn lawer o gyfle i fagu gwreiddiau. Ym 1867 cyflwynwyd Deddf Gogledd America (The British North America Act), a arweiniodd at undod rhwng taleithiau Ontario, Quebec, New Brunswick a Nova Scotia ac at sefydlu Dominiwn Canada. Dyma'r cytundeb a arweiniodd at sefydlu'r hyn a adnabyddir heddiw fel Canada ffederal. Ar y pryd, dim ond pedair talaith oedd i'w cael (byddai eraill yn ymuno maes o law), ond roedd y Canadiaid Ffrengig yn fwyafrif yn un o'r taleithiau hyn. Fel y noda Michael Keating, 'Thereafter Quebec remained a distinct society within British North America and, later, Canada' (Keating 2001: 77).

Yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, nodweddwyd Quebec gan geidwadaeth ac amharodrwydd i gyfranogi yn y newidiadau cymdeithasol ac economaidd a oedd yn dylanwadu ar natur nifer o gymdeithasau gorllewinol. Dadleuwyd fod lles, ac yn wir, goroesiad, yr iaith a'r diwylliant Ffrengig yn ddibynnol ar ymwrthod â thueddiadau modern megis diwydiannu a threfoli. Sefydliad a oedd yn flaenllaw wrth hybu a chynnal y meddylfryd hwn oedd yr Eglwys Gatholig. Ar y pryd ymestynnai ei dylanwad i bob rhan o'r gymdeithas. Yn wir, yr eglwys oedd yn bennaf

gyfrifol am weinyddu darpariaeth iechyd ac addysg y dalaith. Ochr yn ochr â'r eglwys, câi'r byd-olwg ceidwadol hwn ei gynnal gan blaid yr *Union Nationale* a'i harweinydd Maurice Duplessis a fu'n llywodraethu yn Quebec fwy neu lai yn ddi-dor rhwng 1936 a 1959 (Keating 1998; 2001).

O ran yr ymdeimlad o hunaniaeth a fynegwyd yn ystod y cyfnod hwn, yr hyn sy'n ddiddorol i'w nodi yw bod y pwyslais, ar y cyfan, yn cael ei roi ar undod y genedl Ffrengig ar draws Canada, yn hytrach na thiriogaeth Quebec yn benodol. Fel y noda Michael Keating, 'The Canadiens were marked out from anglophone Canadians within and outside Quebec as well as from Americans' (Keating 2001: 78). Fodd bynnag, yn dilyn marwolaeth Duplessis ym 1959, ac yna buddugoliaeth Jean Lessage a'r Blaid Ryddfrydol yn etholiad 1960, cychwynnodd Quebec ar gyfnod o newid mawr. Dyma gyfnod a ddisgrifir fel y Chwyldro Tawel. Cyflwynwyd cyfres o newidiadau cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol oedd â'r nod o ganiatáu i Quebec ddal fyny â thaleithiau eraill Canada. Ymhlith y newidiadau mwyaf arwyddocaol roedd y penderfyniad i sefydlu adran addysg. Arweiniodd hyn at dynnu'r cyfrifoldeb dros y maes hwnnw o ddwylo'r Eglwys. Yn yr un modd ehangwyd ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Ar ben hynny, gwladolwyd y cyfleustodau egni a sefydlwyd corff cenedlaethol newydd, sef Hydro Quebec, i'w gweinyddu.

Arweiniodd y broses yma o foderneiddio cymdeithas Quebec at addasu ac ail ddiffinio'r hen ymdeimlad o hunaniaeth a drafodwyd uchod. Wrth i'r gwaith o ddatblygu sefydliadau cenedlaethol newydd fynd rhagddo symudwyd i ffwrdd o'r hen

syniad o Ganadiaid Ffrengig a rhoddwyd mwy o bwyslais ar ymdeimlad y boblogaeth tuag at Quebec ei hun. Fel y noda Keating (2001: 85 – 86), 'the basis of national identity has shifted from that of French-Canadian, an ethnic designation, to Québécois, an identity based on the territory of Quebec and its institutions.' Mae Raymond Mougeon hefyd yn cynnig sylwadau ynglŷn â'r newid arwyddocaol hwn:

> During the 1960s and 1970s however, francophones in Quebec developed a strong sense of distinctive identity. They no longer referred to themselves as French Canadians but as Québécois. They also became less and less concerned about the fate of Canada's francophone minorities and took a series of major steps to (re)gain control of the economy of their province and to ensure the continued survival of French in Quebec' (Mougeon 1998: 228).

Mewn gwirionedd, yr hyn a welwyd yn Quebec yn ystod y 1960au oedd cychwyn proses o adeiladu cenedl fodern. Un o ganlyniadau'r broses hon oedd llacio ar ddylanwad yr eglwys Gatholig ac ehangu ar rôl y wladwriaeth. Fodd bynnag, drwy'r cyfan parhaodd y Ffrangeg i gael ei ystyried fel nodwedd genedlaethol allweddol. Yn wir, fel y gwelir maes o law, yn ystod y 1960au a'r 1970au datblygodd rhagolygon yr iaith i fod yn bwnc gwleidyddol o'r pwys mwyaf.

**3. Bygythiadau i sefyllfa'r Ffrangeg yn Quebec**

Roedd y 1950au a'r 1960au cynnar yn gyfnod o newid sylfaenol yn nemograffeg ieithyddol Canada (Laporte 1984: 55). Ers 1871, pan gyhoeddwyd cyfrifiad cyntaf y wlad, roedd y ganran o siaradwyr Ffrangeg wedi aros yn gymharol sefydlog – tua 30 y cant. Yn wir, llwyddwyd i gynnal y sefydlogrwydd hwn er gwaetha'r newidiadau sylweddol a welwyd wrth i Ganada ymestyn draw i'r gorllewin, gan ymgorffori taleithiau a thiriogaethau newydd. Ond rhwng 1951 a 1961, tarfwyd ar y patrwm traddodiadol hwn. Yn ôl y cyfrifiad a gyhoeddwyd ym 1961, roedd y ganran o boblogaeth Canada a oedd yn siarad Ffrangeg bellach wedi disgyn i 28 y cant.

Parhaodd y dirywiad hwn drwy'r 1960au, gan olygu bod y ganran wedi disgyn ymhellach, i 25 y cant, erbyn 1971 (Laporte 1984: 55).

Ymhlith pethau eraill, roedd y dirywiad hwn yng nghryfder demograffig y Ffrangeg ar draws Canada yn tanlinellu'r ffaith fod y broses o gymathu'r siaradwyr a oedd yn byw tu hwnt i ffiniau Quebec yn prysur fynd yn ei flaen. Fel y noda Alison d'Anglejan (1984: 32), erbyn canol y 1960au câi'r Saesneg ei mabwysiadu gan nifer sylweddol o'r Francophones a oedd yn trigo mewn taleithiau eraill. Er enghraifft, erbyn diwedd y 1960au roedd tua 85 y cant o boblogaeth Francophone Newfoundland wedi mabwysiadu'r Saesneg, tra bod tua 65 y cant wedi gwneud hynny yn British Columbia a tua 38 y cant yn Ontario. Yn ôl Bourhis, roedd y ffactorau a gyfrannodd at hybu'r cymathiad ieithyddol hwn yn niferus:

> Factors such as the isolation of small Francophone communities across the country, declining birth-rate, French-English exogamy, lack of French language primary and secondary schooling, the legacy of anti-French laws and the dearth of provincial and federal government services offered in French, combined to erode the number of French mother-tongue speakers outside of Quebec (Bourhis 2001: 103).

Heb amheuaeth, cafodd y dystiolaeth yma o ddirywiad ieithyddol effaith ddofn ar yr ymwybyddiaeth ieithyddol yn Quebec ei hun. Roedd y dystiolaeth yn cadarnhau'r pryder fod seiliau tiriogaethol y Ffrangeg ar draws Canada, a Gogledd America'n gyffredinol, yn crebachu'n gyflym. O ganlyniad, fel y noda Bourhis, dadleuodd nifer cynyddol o genedlaetholwyr mai Quebec oedd 'the last territorial enclave in which a 'normal' fully developed French society could survive within the New World' (Bourhis 2001: 105).

Ar y pryd, roedd sefyllfa'r Ffrangeg yn Quebec ei hun yn dipyn mwy sefydlog nag ydoedd mewn rhannau eraill o'r wlad. Er enghraifft, roedd yr iaith yn parhau i fod yn famiaith i dros 80 y cant o boblogaeth Quebec, ac roedd tua thri chwarter ohonynt yn siaradwyr uniaith (Bourhis 2001: 105). Eto i gyd, er gwaethaf sefydlogrwydd cymharol y Ffrangeg yn Quebec, gwelwyd yn ystod y 1960au fod rhai o dueddiadau cymdeithasol y cyfnod yn meddu ar y potensial i danseilio hyfywedd tymor hir yr iaith, hyd yn oed yn ei chadarnle.

Fel y noda Pierre Larrivée (2003: 169), un o sgil effeithiau'r modd y datblygodd Quebec i fod yn gymdeithas fwy trefol, modern a seciwlar yn ystod y 1950au a'r 1960au, oedd y dirywiad sylweddol a fu yng ngraddfa genedigaethau'r dalaith. Rhwng 1875 a 1965, graddfa genedigaethau Quebec oedd yr uchaf ar draws Gogledd America. Wrth gwrs, ar y pryd roedd dylanwad yr Eglwys Gatholig yn parhau yn gryf ac roedd ei chynrychiolwyr yn annog y boblogaeth i fagu teuluoedd mawr er lles yr iaith a'r diwylliant Ffrengig. Eto i gyd, wrth i natur y gymdeithas newid, syrthiodd y raddfa enedigaethau. Bu cwymp o 4.2 (h.y. 4.2 plentyn i bob teulu) ym 1956 i 2.3 erbyn 1966 (Chevrier 2003: 127). Canlyniad y newid cymdeithasol hwn, yn ôl Bourhis (2001: 105), oedd codi pryderon ynglŷn â gallu tymor hir y gymuned Ffrengig yn Quebec – ac yn arbennig yn ninas Montreal – i gynnal ei safle demograffig mwyafrifol.

Fodd bynnag, ni ddaw union effeithiau'r newidiadau demograffig hyn i'r amlwg hyd nes eu trafodir ochr yn ochr â thueddiadau mudo'r cyfnod, ac yn arbennig sgil effeithiau ieithyddol y tueddiadau hynny. Wrth gwrs, ers dyddiau cynnar *La*

*Nouvelle France*, mae mudo wedi chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad cymdeithasol Quebec a Chanada'n gyffredinol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod yr ugeinfed ganrif. Rhwng 1901 a 1931, mudodd nifer helaeth o deuluoedd i Ganada er mwyn dianc rhag yr argyfyngau economaidd a gwleidyddol a oedd yn tarfu ar fywyd ar draws Ewrop. Ymhlith y don yma o fewnfudwyr, roedd nifer helaeth o Eidalwyr ac Iddewon a ymgartrefodd ym Montreal. Yn ddiweddarach, yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, gwelwyd ton arall o fewnfudo a oedd yn cynnwys nifer helaeth o Almaenwyr, Pwyliaid, Eidalwyr, Groegwyr a Phortiwgeaid. Unwaith eto, ymgartrefodd nifer helaeth ym Montreal (Larrivée 2003: 167). Caiff effaith y cyfnod hwn o fewnfudo ar natur poblogaeth Quebec – a dinas Montreal yn benodol – ei chrynhoi gan Marc Levine:

> ... the population composition of Montreal changed significantly after 1900. The non-French, non-British component of Montreal Island's population grew from 16,000 in 1900 to over 500,000 in 1970 (increasing from 4.5 percent to over 23 percent of the total). The immigrant's choice of whether to adopt English or French as their language would obviously affect Montreal's linguistic demography (Levine 1990: 55).

Ond beth yn union oedd effaith y cyfnod hwn o fudo ar batrymau ieithyddol Quebec?

Yr hyn oedd yn arwyddocaol o safbwynt ieithyddol ynglŷn â'r tueddiadau mudo hyn, oedd y ffaith bod y mwyafrif helaeth o unigolion a theuluoedd a ddaeth i ymgartrefu yn Quebec, yn gwneud hynny gan fabwysiadu'r Saesneg, yn hytrach na'r Ffrangeg, fel iaith gyhoeddus newydd. Yn wir, fel y noda Pierre Laporte (1984: 59), erbyn 1971 dim ond tua 8.2 y cant o fewnfudwyr oedd yn mabwysiadu'r Ffrangeg wrth ymgartrefu yn Quebec, tra bod tua 24 y cant yn mabwysiadu'r Saesneg. Wrth gwrs, doedd hyn yn ei hun ddim yn newydd. Y Saesneg fu'r iaith a fabwysiadwyd gan y mwyafrif o fewnfudwyr ers i Brydeinwyr o wahanol gefndiroedd ddechrau mudo i

Quebec ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eto i gyd, hyd nes y 1950au a'r 1960au, nid arweiniodd hyn at danseilio cryfder demograffig y gymuned Ffrangeg mewn unrhyw fodd sylweddol, yn sgil graddfa enedigaethau sylweddol y gymuned honno (Levine 1990: 62). Fodd bynnag, wrth i'r raddfa enedigaethau syrthio'n sylweddol yn ystod y 1960au, daeth nifer o ladmeryddion y Ffrangeg i sylweddoli fod tueddiadau ieithyddol mewnfudwyr yn ffactor a fyddai'n dylanwadu'n sylweddol ar ragolygon tymor hir yr iaith yn Quebec (Chevrier 1997).

Cafodd tybiaethau o'r fath eu cadarnhau gan adroddiad a gyhoeddwyd ym 1969 gan y demograffwr Jacques Henripin. Roedd yr adroddiad hwn – un a dderbyniodd gryn dipyn o sylw ar y pryd – yn nodi, 'If recent migration trends continue, and if immigrants continue to opt predominantly for the English language, the French-speaking community of Quebec is bound to see its majority seriously reduced, particularly in Montreal' (dyfynnwyd yn Levine 1990: 62). Aeth Henripin mor bell a darogan y byddai'r Ffrangeg yn iaith leiafrifol ym Montreal erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif.[1] O ganlyniad, gwelwyd fod sefydlogi sefyllfa'r Ffrangeg – yn enwedig ym Montreal – yn dibynnu ar sicrhau bod mwy a mwy o fewnfudwyr yn mabwysiadu'r Ffrangeg wrth ymgartrefu yn Quebec. Fel y noda Bourhis:

> Without a sustained Francophone birth-rate, reliance on immigration and the integration of immigrants to the Francophone linguistic community rather than to the Anglophone one became strategically important as a means of stemming

[1] Dylid nodi fod nifer o sylwebwyr eraill wedi cwestiynu union gywirdeb rhai o honiadau Henripin ynglŷn â pha mor gyflym y byddai'r Ffrangeg yn colli ei statws mwyafrifol. Er enghraifft, nodwyd nad oedd ei gasgliadau yn rhoi digon o ystyriaeth i'r ffaith fod nifer sylweddol o siaradwyr Saesneg yn debygol o gael eu denu i Toronto wrth i'r ddinas honno dyfu. Ar ben hynny, awgrymwyd nad oedd ei gasgliadau yn rhoi sylw i'r ffaith fod nifer helaeth o siaradwyr Ffrangeg yn y broses o fudo i Montreal ar y pryd o ardaloedd gwledig Quebec. Yn wir, maes o law byddai Henripin ei hun yn addasu rhai o'i gasgliadau gwreiddiol. Ond, er gwaethaf y cwestiynau penodol hyn, roedd y ddadl gyffredinol – hynny yw bod tueddiadau ieithyddol mewnfudwyr yn tanseilio seiliau demograffig y Ffrangeg – yn un a gâi ei dderbyn gan y mwyafrif o drigolion Quebec. Gweler Levine (1990).

> the long term decline of the Francophone population in the Province (Bourhis 2001: 106).

Ymhellach, wrth i'r sylweddoliad hwn ynglŷn â phwysigrwydd dewisiadau ieithyddol mewnfudwyr fagu gwreiddiau, datblygodd un maes penodol yn gadfan hollbwysig.

Ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gan rieni y rhyddid i ddanfon eu plant naill ai i ysgolion cyhoeddus Ffrangeg eu cyfrwng, neu i rai Saesneg eu cyfrwng. Erbyn y 1960au daeth yn fwyfwy amlwg fod y mwyafrif helaeth o fewnfudwyr yn dewis danfon eu plant i'r ysgolion cyfrwng Saesneg. Er enghraifft, rhwng 1951 a 1967 syrthiodd y ganran o blant o gefndir Eidalaidd a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Ffrangeg o 49 y cant i 12 y cant (Laporte 1984: 59). Golygai tueddiadau o'r fath fod dewisiadau addysgiadol gwahanol fewnfudwyr yn arwain at danseilio cryfder demograffig y Ffrangeg. Caiff y sefyllfa erbyn dechrau'r 1970au ei chrynhoi yn effeithiol gan Laporte:

> Indeed, by the early seventies, about a quarter of the student population of anglophone schools was made of pupils whose mother tongue was other than English. These included a small percentage of francophone pupils and a much greater proportion of students from language minorities. For the year 1970-71, 8.3% of the student population of Montreal English schools was of French mother tongue while 22.5% was from various language minorities. The comparison with French schools is revealing: in 1970-72, 1.9% of students in these schools were English mother tongue and 0.9% came from language minorities (Laporte 1984: 59 – 60).

Yn wir, mae'r tueddiadau a nodir uchod gan Laporte yn pwysleisio cymaint oedd cryfder y Saesneg – ac yn enwedig ei hatyniad ymhlith mewnfudwyr – mewn cymhariaeth â'r Ffrangeg.

Un ffactor a oedd yn cymell y tueddiadau hyn oedd natur grefyddol y drefn addysg. Mae d'Anglejan (1984:34) wedi dadlau bod hyn yn tanseilio datblygiad yr

ysgolion Ffrangeg. Ar y pryd, nid oedd yr ysgolion Catholig (rhai Ffrangeg a Saesneg eu cyfrwng) yn derbyn plant nad oeddent yn dod o gefndir Catholig. Serch hynny, roedd yr ysgolion Protestannaidd (a oedd yn bennaf yn ysgolion cyfrwng Saesneg) yn derbyn plant o bob cefndir crefyddol. O ganlyniad, datblygodd yr ysgolion Protestannaidd i fod yn sefydliadau a nodweddwyd gan amrywiaeth diwylliannol, lle câi plant o wahanol gefndiroedd eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.

Fodd bynnag, mae'n siŵr mai ystyriaethau economaidd oedd yn dylanwadu'n bennaf ar ddewisiadau addysgiadol mewnfudwyr. Fel y noda Levine, 'For most immigrants arriving in Montreal, the frame of reference was English-speaking North America, not necessarily French-speaking Quebec' (Levine 1990: 56). O ganlyniad, yn nhyb y mwyafrif o fewnfudwyr roedd sicrhau meistrolaeth o'r Saesneg yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfleoedd economaidd a dyrchafiad cymdeithasol. Serch hynny, nid dim ond sefyllfa fwyafrifol y Saesneg ar draws Gogledd America oedd yn llywio ystyriaethau'r mewnfudwyr. Roedd statws cymharol y Ffrangeg a'r Saesneg o fewn Quebec ei hun yn ddylanwad pwysig hefyd.

Ar y pryd, er gwaetha'r ffaith mai'r Ffrangeg oedd iaith gyntaf y mwyafrif helaeth o'r boblogaeth, roedd y Saesneg – iaith gyntaf y lleiafrif – yn meddu ar statws a bri dipyn uwch. Fel yr eglura Laporte, roedd perthynas y ddwy iaith o fewn yr economi yn gwbl ganolog i ddatblygiad sefyllfa o'r fath:

> The dominance of English in Quebec was partly demographic since its status as a majority language in Canada and North America gave the local anglophone minority a sense of strength, which they would not have otherwise. But, much more important, given that Quebec is 80% French is the economic basis of language dominance. In much of Quebec history, English has been the language of the economically powerful (Laporte 1984: 56).

Cafodd y ddominyddiaeth ieithyddol hon o fewn economi Quebec ei hamlinellu'n glir mewn adroddiadau cynhwysfawr a gyhoeddwyd yn ystod y 1960au a'r 1970au gan y Comisiwn Brenhinol ar Ddwyieithrwydd a Deuddiwylliannedd (Government of Canada 1969) a Chomisiwn Gendron ar ddyfodol y Ffrangeg yn Quebec (Le Gouvernement du Québec 1972). Ar y cyfan, y Saesneg oedd iaith gwaith o fewn economi Quebec, ac yn enwedig felly ar lefelau uwch yr economi. Fel y noda Laporte, 'English tended to dominate as the language of economic advancement. While French was used widely in the lower echelons of economic life, English usage dominated in the upper strata of the corporate world' (Laporte 1984: 57).

Canlyniad hyn oedd creu sefyllfa lle nad oedd siaradwyr Ffrangeg yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefelau uchaf economi Quebec. Ymhellach, pe byddai siaradwyr Ffrangeg yn llwyddo i sicrhau dyrchafiad, ni fyddai hynny ond yn digwydd ar yr amod eu bod yn gymwys i gyflawni'r gwaith trwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad roedd y pwysau i fod yn ddwyieithog yn cael ei osod, bron yn gyfan gwbl, ar ysgwyddau siaradwyr Ffrangeg, a hynny er gwaetha'r ffaith mai'r Ffrangeg oedd iaith y mwyafrif. Mae Levine wedi awgrymu fod y sefyllfa yn Quebec ar y pryd – ac yn enwedig ym Montreal – yn ymdebygu i ryw fath o 'raniad llafur diwylliannol': 'Anglophones controlled capital and occupied command positions well out of proportion to their numbers in the Montreal population, while Francophones were relegated to subordinate or peripheral economic activities' (Levine 1990: 18). Boed y defnydd o'r term 'rhaniad llafur diwylliannol' yn gwbl briodol ai peidio, yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod y sefyllfa wedi arwain at wahaniaethau sylweddol o ran cyflog a oedd yn rhedeg ar hyd llinellau ieithyddol:

> These occupational differences translated into significant wage differentials between Francophone's and Anglophones. Although Francophones accounted for 60 percent of Montreal's male labour force in 1964, they represented only 37 percent of the salaried personnel making more than $5,000 a year ... at the highest salary levels, Francophone representation shrank to 17 percent. On the other hand, although Anglophones constituted only 24 percent of Montreal's labour force in 1961, they totalled 56 percent of the metropolitan area's "best paid" wage earners (Levine 1990: 23).

Yn wir, fel y nododd y Comisiwn Brenhinol ar Ddwyieithrwydd a Deuddiwylliannedd (Government of Canada 1969), roedd siaradwyr Saesneg *uniaith* yn tueddu i ennill cyflog tipyn uwch na siaradwyr Ffrangeg dwyieithog.

Yn ôl y disgwyl, câi bodolaeth rhaniad ieithyddol o'r fath o fewn yr economi ei ystyried fel bygythiad go sylweddol i ffyniant tymor hir y Ffrangeg yn Quebec. Roedd sefyllfa o'r fath yn dylanwadu ymhellach ar ddewisiadau ieithyddol mewnfudwyr. Hyd yn oed os anwybyddwyd cyd-destun cyffredinol Gogledd America, roedd dominyddiaeth y Saesneg o fewn economi Quebec wedi bod yn ddigon i'w cymell i ffafrio'r iaith honno fel cyfrwng newydd (Levine 1990: 56). Ar ben hynny, roedd y rhaniad ieithyddol o fewn yr economi yn sail i anghyfiawnder strwythurol a oedd yn tanseilio cyfleoedd cymdeithasol y mwyafrif Ffrangeg eu hiaith.

**4. Polisïau Iaith y Llywodraeth Ffederal**

Wrth i ymwybyddiaeth gynyddu ynglŷn â'r bygythiadau gwahanol i ragolygon y Ffrangeg, boed yn Quebec, neu mewn rhannau eraill o Ganada, gwelwyd bod angen mynd ati i ddatblygu polisïau ieithyddol cadarnhaol. Yn yr adran nesaf, edrychir yn fanwl ar natur y polisïau ieithyddol a ddatblygwyd gan lywodraeth Quebec. Fodd bynnag, cyn mynd ati i wneud hynny, rhoddir gorolwg o'r polisïau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Ffederal Canada.

Roedd Deddf Gogledd America 1867 – y ddeddf Brydeinig a arweiniodd at sefydlu Canada ffederal – yn cynnwys rhai cymalau a oedd yn cyfeirio at natur ddwyieithog y wlad. Er enghraifft, noda cymal 133 o'r ddeddf:

> Either the English or the French Language may be used by any Person in the Debates of the Houses of the Parliament of Canada and of the Houses of the Legislature of Quebec; and both those languages shall be used in the respective Records and Journals of those Houses; and either of those languages may be used by any Person or in any Pleading or process in or issuing from any Court of Canada established under this Act, and in or from all or any of the Courts of Quebec (dyfynnwyd yn MacMillan 2003: 89).

O ganlyniad, yn swyddogol o leiaf, rhoddwyd cydnabyddiaeth i statws cyfartal y Saesneg a'r Ffrangeg o fewn y llywodraeth ffederal a hefyd yn Quebec. Eto i gyd, cyfyngedig iawn oedd effaith datganiad o'r fath. Mewn perthynas â'r llywodraeth ffederal, nid arweiniodd at ddatblygu unrhyw bolisïau neu arferion dwyieithog ystyrlon. Fel y noda Levine (1990: 91), 'The face of the federal government was resolutely English.' Yn ogystal, yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, llywodraeth Quebec oedd yr unig lywodraeth daleithiol a oedd yn gwneud ymdrech i gydnabod y ddwy iaith. Yn wir, roedd amryw o'r taleithiau eraill wedi mynd ati'n bwrpasol i danseilio'r Ffrangeg, gan gyflwyno mesurau a oedd yn gwahardd ei defnydd ym maes addysg.[2]

Dros y blynyddoedd cymerwyd rhai camau symbolaidd gan y llywodraeth ffederal i gydnabod y Ffrangeg. Er enghraifft, cyhoeddwyd stampiau dwyieithog yn ystod y 1950au. Fodd bynnag, hyd y 1960au ni welwyd bod angen unrhyw ystyriaeth fanylach o sut y dylai Canada ymateb i'r ffaith ei bod yn wladwriaeth amlieithog. Eto

[2] Ym 1890, pasiwyd mesur gan senedd Manitobia a oedd yn diddymu statws swyddogol y Ffrangeg yn y dalaith. O ganlyniad, Saesneg oedd unig iaith y senedd, y gyfraith a'r llysoedd. Ym 1912 cyflwynwyd Rheol 17 gan lywodraeth Geidwadol Ontario. Arweiniodd hyn at gyfyngu'n sylweddol ar y ddarpariaeth o addysg Ffrangeg ar draws y dalaith.

i gyd, yn sgil yr ymchwydd a welwyd mewn hunaniaeth genedlaethol yn Quebec erbyn dechrau'r 1960au, penderfynodd y llywodraeth ffederal i ymateb. Ym 1963, sefydlwyd y Comisiwn Brenhinol ar Ddwyieithrwydd a Deuddiwylliannedd gan lywodraeth Ryddfrydol Lester B. Pearson. Amcan y comisiwn hwn oedd 'to inquire into and report upon the existing state of bilingualism and biculturalism in Canada and to recommend what steps should be taken to develop the Canadian confederation as an equal partnership between the two founding races' (dyfynnwyd yn Levine 1990: 91). Roedd yr ymchwiliad a gynhaliwyd gan aelodau'r comisiwn hwn yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes diweddar Canada. Cynhaliwyd nifer helaeth o gyfarfodydd ym mhob rhan o'r wlad a chyhoeddwyd cyfres o adroddiadau swmpus.[3]

Darganfyddodd y comisiynwyr gryn dipyn o anniddigrwydd ymhlith siaradwyr Ffrangeg ynglŷn â statws yr iaith, ac hefyd ei rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Yn wir, cymaint oedd yr anniddigrwydd nes i adroddiad cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym 1965, nodi bod Canada; 'without being fully conscious of the fact, is passing through the greatest crisis in its history' (dyfynnwyd yn Chevrier, 2003: 128). Roedd y ffactorau a oedd yn sail i'r anniddugrwydd hwn yn niferus ac yn cyfateb i nifer o'r pwyntiau a drafodwyd yn yr adran flaenorol. Ar ben hynny, pwysleisiodd y Comisiwn fod methiant y llywodraeth ffederal i drin y Ffrangeg a'r Saesneg yn gyfartal yn broblem sylfaenol. Fel y noda Michael MacMillan:

> Within federal institutions, it (h.y. y Comisiwn) found that French Canadians were under-represented compared to their share of the national population ... and that they were concentrated in the lower echelons of the departmental public service, such that, the higher the position level, the smaller the percentage of Francophones ... Beyond that, only 9 per cent of positions were

[3] Am orolwg diddorol o waith y Comisiwn, ei aelodau ac hefyd natur y gwahanol gyfarfodydd a gynhaliwyd ar draws Canada yn ystod y 1960au, gweler Fraser (2006).

> designated bilingual, a strong indicator of the limited commitment to provide government services in French (MacMillan 2003: 91).

O ganlyniad, dadleuwyd fod yn rhaid i'r llywodraeth ffederal fynd ati ar fyrder i fabwysiadu polisi iaith cynhwysfawr.

Amlinellodd y Comisiwn nifer helaeth o bolisïau y gellid eu mabwysiadu er mwyn sicrhau mwy o gyfartaledd ar draws Canada rhwng y Ffrangeg a'r Saesneg, ac ymgorfforwyd llawer ohonynt yn y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol a gyflwynwyd ym 1969. Roedd y ddeddf hon yn nodi bwriad y llywodraeth ffederal i gyflwyno cyfres o newidiadau sylfaenol i'r modd y byddai'n ymdrin â'r Ffrangeg a'r Saesneg. I ddechrau, cafodd y ddwy iaith eu cydnabod fel ieithoedd swyddogol Canada. Yn ail, ymrwymodd y llywodraeth i sicrhau bod Canadiaid yn medru cyfathrebu â sefydliadau ffederal a derbyn eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Ffrangeg neu'r Saesneg yn y brifddinas, a hefyd yn yr ardaloedd hynny lle ceir galw digonol am wasanaethau dwyieithog. Yn drydydd, er mwyn cyfrannu at wireddu'r pwynt blaenorol, ymrwymwyd i gynyddu'r nifer o siaradwyr Ffrangeg a oedd yn gweithio i'r gwasanaeth sifil ffederal ac hefyd i sicrhau bod gan y gweithwyr hyn fwy o gyfleoedd i weithio trwy gyfrwng y Ffrangeg. Yn bedwerydd, nodwyd y bwriad i ddatblygu cyfres o ardaloedd dwyieithog – hynny yw cyfres o ardaloedd lle roedd *Francophones* neu *Anglophones* yn cynrychioli dros ddeg y cant o'r boblogaeth leol. Yn wreiddiol y bwriad oedd y byddai'r ardaloedd hyn yn rhai lle byddai pob gwasanaeth – ffederal, taleithiol a lleol – yn cael eu darparu'n ddwyieithog.[4] Yn olaf, sefydlwyd swydd Comisiynydd Ieithoedd Swyddogol. Y person yma a fyddai'n gyfrifol am oruchwylio

---

[4] Yn y pen draw nid oedd hi'n bosib i weithredu'r polisi o ddatblygu ardaloedd dwyieithog. Bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r gwaith o ganlyniad i anghydweld cyson rhwng y llywodraeth ffederal a llywodraethau'r taleithiau unigol. Am drafodaeth gyflawn o'r mater hwn gweler Bourgois (2006).

gweithrediad y ddeddf, gan gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Heb os, fe arweiniodd y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol at newidiadau pwysig. Er enghraifft, dros y blynyddoedd gwelwyd cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Ffrangeg a wnaed gan gyrff ffederal a hefyd yn y nifer o swyddi o fewn y gwasanaeth sifil ffederal a nodwyd fel rhai a oedd yn galw am ddwyieithrwydd.[5] Yn wir, o'r 1960au ymlaen byddai materion ieithyddol yn hawlio lle llawer uwch ar restr flaenoriaethau'r llywodraeth ffederal.

Cafwyd cadarnhad pellach o'r pwysigrwydd hyn ym 1982, yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at fabwysiadu cyfansoddiad newydd ar gyfer Canada. Fel rhan o'r broses hon, mabwysiadwyd Siarter o Hawliau a Rhyddfreiniau, ac roedd nifer o gymalau'r siarter newydd yn cyfeirio at faterion ieithyddol. Yn wir, arweiniodd y siarter at gryfhau ac ymestyn rhannau o Ddeddf Iaith 1969. I ddechrau, yn ôl Kenneth McRae, tra bod y ddeddf wreiddiol wedi gosod dyletswydd ar nifer o gyrff ffederal i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, nid oedd wedi arwain at sefydlu hawl i dderbyn y gwasanaeth hwnnw trwy gyfrwng iaith arbennig (McRae 1998: 76). Fodd bynnag, symudwyd i'r cyfeiriad hwn ym 1982 yn sgil mabwysiadu'r Siarter o Hawliau a Rhyddfreiniau:

> This further step would be achieved with the passage of the Canadian Charter of Rights and Freedoms in 1982, which embedded such rights in the constitution Section 20 (1) of the Canadian Charter of Rights and Freedoms grants any member of the Canadian public the right to receive any available government services from head offices of the federal government and other offices where there is a 'significant demand' in either English or French (MacMillan; 2003: 97).

[5] Am drafodaeth o'r cynnydd a wnaed ac hefyd y problemau a wynebwyd mewn meysydd megis iaith gwaith, iaith gwasanaethau a iaith addysg, gweler MacMillan 2003: 92 – 103; McRae 1998: 65 – 75.

Roedd cam o’r fath yn cryfhau’n sylweddol y pwysau a roddwyd ar gyrff ffederal i drin y Ffrangeg a’r Saesneg yn gyfartal.

Cafwyd datblygiad pwysig arall yn sgil y cymalau hynny o’r Siarter a oedd yn ymwneud ag addysg. Roedd Cymal 23 yn cydnabod bod gan leiafrifoedd Ffrangeg a Saesneg eu hiaith yr hawl i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno, ar yr amod bod galw digonol yn yr ardal dan sylw. Roedd hwn yn gam arwyddocaol, a oedd unwaith eto yn ymestyn ar ddarpariaeth Deddf 1969. Golygai fod dyletswydd cyfansoddiadol mewn perthynas â iaith yn cael ei osod ar y llywodraethau taleithiol hefyd, gan fod addysg yn faes a oedd yn perthyn i’w cylch gorchwyl hwy. Fel y gwelir maes o law, byddai’r gofynion hyn ym maes addysg yn un o’r ffactorau a fyddai’n cyfrannu at y gwrthdaro mewn perthynas â pholisïau iaith penodol llywodraeth Quebec.

O ran y dadleuon a ddefnyddiwyd gan y llywodraeth ffederal er mwyn cyfiawnhau’r broses o ddatblygu’r polisïau iaith a ddisgrifiwyd uchod, teg yw dweud mai’r amcan o hybu undod ar draws Canada oedd bwysicaf (MacMillan 2003: 93). Roedd hyn yn ffactor a nodwyd eisoes yn adroddiad cychwynnol y Comisiwn Brenhinol ar Ddwyieithrwydd a Deuddiwylliannedd ym 1965. Ond dros y blynyddoedd, gwelwyd ei fod yn ddadl a ddefnyddiwyd yn gyson gan y llywodraeth ffederal ei hun. Er enghraifft, yn ystod y 1970au, yn wyneb gwrthwynebiad cynyddol o gyfeiriad Canadiaid uniaith Saesneg, nododd y llywodraeth, ‘Canada cannot continue to exist as a single country unless the English an French languages are accepted and recognised as official languages of the country’ (dyfynnwyd yn

MacMillan 2003: 93). Fodd bynnag, mae'n bosib mai'r cyn Brif Weinidog Pierre Elliot Trudeau a fynegodd deimladau'r llywodraeth orau yn ystod trafodaeth yn y Senedd ym 1973:

> We are dealing with straightforward political and social realities ... If only because of sheer force of numbers, either group has the power to destroy the unity of this country. Those are the facts ... These facts leave Canada with only one choice, only one realistic policy: to guarantee the language rights of both linguistic communities (dyfynnwyd yn MacMillan 2003: 112).

Felly yn nhyb y llywodraeth ffederal roedd y broses o ddatblygu polisi dwyieithog ac o gynnig hawliau iaith yn hanfodol er mwyn cynnal undod cenedlaethol Canada.

Eto i gyd, os mai sicrhau undod cenedlaethol oedd un o'r prif amcanion, yna rhaid nodi mai cymharol gyfyng fu'r llwyddiant. Wedi'r cyfan yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf cynhaliwyd dau refferendwm ar annibyniaeth yn Quebec – un ym 1980 a'r llall ym 1995 – gyda'r ail yn dod o fewn trwch blewyn i ennill. Serch hynny, i ba raddau y dylid bod wedi disgwyl i'r polisïau ieithyddol a fabwysiadwyd gan y llywodraeth ffederal hybu undod? Wedi'r cyfan nid oedd gobeithion André Laurendeau, cyd-gadeirydd y Comisiwn Brendinol ar Ddwyieithrwydd a Deuddiwylliannedd, yn uchel iawn. Ar adeg cyflwyno'r gyfrol gyntaf o adroddiad y comisiwn nododd yn ei ddyddiadur; 'it does nothing for Quebec' (dyfynnwyd yn MacMillan, 2003: 104). Fel yr eglura MacMillan nid oedd cynigion gwreiddiol y comisiwn, na chwaith y polisïau ffederal a ddatblygwyd dros y blynyddoedd, yn mynd i'r afael â'r problemau ieithyddol penodol a wynebwyd gan Quebec:

> The proposals didn't engage the social and economic grievances of Francophones within Quebec's private sector. Neither did they address questions of immigration and linguistic assimilation within Quebec. As controversial and significant as its innovations would be for Francophones in

> the rest of Canada, they would have an insignificant impact within Quebec, where federal institutions were already achieving these language policy goals (MacMillan 2003: 104).

O ystyried hyn, nid yw'n syndod mewn gwirionedd i Lywodraeth Quebec fynd ati yn ystod y 1970au i ddatblygu ei model ei hun o bolisi iaith; polisi a oedd yn wahanol i'r model ffederal o ran sgôp, ac amcanion sylfaenol.

**5. Datblygiad Polisi Iaith Quebec**

Un o'r camau cyntaf a gymerwyd gan Lywodraeth Quebec ym maes polisi iaith oedd sefydlu'r *Office de la Langue Française* ym 1961. Eto i gyd, cam digon cyfyng oedd hwn mewn gwirionedd. Prif gyfrifoldeb y corff newydd oedd ceisio codi safon y Ffrangeg a siaradwyd gan drigolion Quebec; hynny yw, y math o waith a adnabyddir gan gynllunwyr iaith fel cynllunio corpws. Tra bod y gwaith hwn yn ymateb i bryderon y bobl hynny a oedd, erbyn y 1960au, yn gynyddol anhapus ynglŷn â'r dirywiad a fu yn safon y Ffrangeg a siaradwyd yn Quebec, o'i chymharu â'r norm Ewropeaidd, nid oedd yn mynd i'r afael â rhai o'r ffactorau dyfnach a oedd yn bygwth seiliau demograffig yr iaith. O ganlyniad, nid yw'n syndod bod y mwyafrif o'r camau diweddarach a gymerwyd gan lywodraeth Quebec wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr agwedd honno o gynllunio iaith a adnabyddir fel cynllunio statws.

Fodd bynnag, rhaid oedd aros tan 1969 cyn i'r llywodraeth gymryd unrhyw gamau pellach. Ers y penderfyniad dadleuol nôl ym 1967 i gyfyngu ar y ddarpariaeth o addysg Saesneg yn nalgylch Saint-Léonard ym Montreal, roedd cyfrwng dysgu ysgolion Quebec wedi datblygu i fod yn bwnc dadleuol dros ben.[6] O ganlyniad, roedd

[6] Am drafodaeth fanwl o 'achos Saint-Léonard', gweler Levine 1990.

pwysau ar y llywodraeth i ymateb er mwyn tawelu'r sefyllfa. Fel y noda Levine wrth gyfeirio at y sefyllfa ym Montreal erbyn diwedd y 1960au, 'anxieties were rising in both Montreal's linguistic communities, and the provincial government could no longer avoid the need to articulate a clear, comprehensive policy on the language of education in Montreal' (Levine 1990: 73). O ganlyniad, cyflwynwyd Mesur 63 – *Une Loi pour promouvoir la langue française au Québec* – gan lywodraeth yr Union Nationale dan arweiniad Jean-Jaques Bertrand.

Roedd y mesur hwn yn cynnwys amryw o gymalau oedd â'r nod o geisio hybu statws y Ffrangeg yn Quebec. Er enghraifft, nodwyd y dylid ceisio sicrhau fod pob plentyn a oedd yn graddio o drefn addysg Quebec yn gwneud hynny gyda dealltwriaeth sylfaenol o'r Ffrangeg. Ar ben hynny, nodwyd y byddai'r llywodraeth yn ymestyn ar y ddarpariaeth o raglenni a oedd yn annog mewnfudwyr i ddysgu Ffrangeg. Serch hynny, prif gymal Mesur 63 oedd yr un yn ymwneud â'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Ffrangeg a chyfrwng Saesneg. Yn achos y pwnc hynod ddadleuol hwn, nododd y mesur y dylai fod gan rieni y rhyddid i ddewis pa fath o addysg y byddai eu plant yn ei dderbyn. Felly, fel yr eglura Levine, 'Immigrants would not be compelled to attend French-language schools; moreover, freedom of choice would exist for anyone, Francophones included, to send their children to English-language schools' (Levine 1990: 79 – 80). Roedd hwn yn benderfyniad a gymeradwywyd gan y gymuned Anglophone. Serch hynny, cafodd ei feirniadu'n hallt gan nifer helaeth o aelodau'r mwyafrif Francophone, ac ar sail hynny, cafwyd protestio ffyrnig. Yn wir, roedd ymdriniaeth Bertrand a'r Union Nationale o'r mater hwn yn rhannol gyfrifol am y ffaith iddynt golli'r etholiad cyffredinol ym 1970.

Roedd hi'n anochel y byddai'n rhaid i'r llywodraeth newydd gyflwyno newidiadau i Fesur 63, gymaint oedd yr ansicrwydd. Eto i gyd, nid oedd Robert Bourassa a'i lywodraeth Ryddfrydol am wneud dim byd ar frys. O ganlyniad, datganwyd y byddent yn aros i weld beth fyddai casgliadau Comisiwn Gendron – comisiwn a apwyntiwyd i ymchwilio i gyflwr y Ffrangeg yn Quebec – cyn cymryd unrhyw gamau pellach. Cyhoeddwyd casgliadau'r comisiwn ym mis Rhagfyr 1972. Yna, yn ystod 1974 cyflwynodd Bourassa Fesur 22 – *La loi sur la langue officielle*. Roedd hwn yn fesur tipyn mwy cynhwysfawr na Mesur 63 yr Union Nationale. Mewn gwirionedd, hwn oedd yr ymgais difrifol cyntaf gan lywodraeth Quebec i ddyrchafu statws y Ffrangeg (Chevrier 2003: 131).

Caiff yr awydd hwn i weithredu o blaid y Ffrangeg ei danlinellu yn ieithwedd rhagarweiniad y mesur:

> The French language is a national heritage which the body politic is in duty bound to preserve, and it is incumbent upon the government of the province of Quebec to employ every means in its power to ensure the pre-eminence and to promote its vigour and quality (Le Gouvernement du Québec, 1974; dyfynnwyd yn Chevrier, 2003: 131).

Yn wir, roedd cyflwyno Mesur 22 yn nodi diwedd ar y cyfnod o gydraddoldeb swyddogol o ran statws rhwng y Ffrangeg a'r Saesneg (Levine 1990: 99). Am y tro cyntaf, datganwyd mai'r Ffrangeg oedd unig iaith swyddogol y dalaith. Yn sgil hynny, y Ffrangeg fyddai bellach yn cael ei defnyddio fel iaith weithredol gan adrannau'r llywodraeth a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol. Datganwyd hefyd fod gwybodaeth o'r Ffrangeg bellach yn hanfodol er mwyn cyflawni amrediad o swyddi proffesiynol megis doctoriaid, cyfreithwyr, nyrsys a gweithwyr cymdeithasol. Ar ben hynny, nodwyd bod disgwyl i'r Ffrangeg gael ei defnyddio ar amrediad o arwyddion megis

enwau cwmnïau, labeli cynnyrch a hysbysebion. Serch hynny, tra bod Mesur 22 yn mynd dipyn pellach na Mesur 63, nid mesur a oedd yn anelu at sefydlu unieithrwydd ydoedd:

> ... Bill 22 was emphatically *not* a French unilingualist policy: although it mandated a form of French priority in most areas, English-language rights were explicitly written into the bill ... For example, local governments and school boards in areas that were at least 10 percent English-speaking were required to draw up official documents in English. Moreover, both French and English were permitted as the languages of internal communication for public institutions in these communities. Finally, while billboards and other public signs were now required to be in French – a stipulation meant to meet nationalist concerns over the insufficiently French face of Montreal – English was not proscribed. In short, despite the bald rhetoric of French promotion in the preamble of Bill 22, there was still a healthy dose of bilingualism throughout the bill itself (Levine 1990: 99 – 100).

O ganlyniad, tra bod camau sylweddol wedi eu cymryd i ddyrchafu'r Ffrangeg, nid oedd y Saesneg wedi cael ei gwahardd mewn unrhyw fodd.

Eto i gyd, tra bod y camau a nodwyd uchod yn rhai pwysig, roedd dau faes penodol yn ganolog i amcanion Mesur 22: y defnydd o'r Ffrangeg o fewn yr economi a hefyd ym maes addysg. Roedd y camau a gymerwyd yn y meysydd hyn yn nodi ymdrech i ymdrin â dau o'r ffactorau a oedd yn ganolog i anniddigrwydd ieithyddol y 1960au. O ran yr economi, datganwyd y byddai camau yn cael eu cymryd i hybu'r defnydd o'r Ffrangeg fel iaith y gweithle. Er mwyn hybu symudiad o'r fath, datganwyd mai dim ond y cwmnïau hynny a oedd yn gwneud defnydd helaeth o'r Ffrangeg yn y gweithle a fyddai'n gymwys i dderbyn cytundebau neu gymorthdaliadau gan lywodraeth Quebec:

> In order to be eligible to receive contracts, subsidies, concessions or benefits from the public administration, the law required that business firms apply for "francization certificates". These certificates were to be issued on the basis of several criteria related to the language of work. Among these were the required

> knowledge and use of French by management personnel, as well as the presence of francophones in management (d'Angelejan 1984: 39).

Er bod hwn, heb amheuaeth, yn gam arwyddocaol, roedd ei effeithiau'n gymharol gyfyng. Wedi'r cyfan, ni roddwyd unrhyw orfodaeth ar gwmnïau i fabwysiadu'r Ffrangeg fel iaith weithredol.

Heb os, argymhellion Mesur 22 ym maes addysg oedd y rhai mwyaf arwyddocaol a dadleuol. Am y tro cyntaf, cymerwyd camau i gyfyngu ar y ddarpariaeth o addysg Saesneg. Yn ôl y mesur, ni fyddai'r ddarpariaeth hon ond ar gael ar gyfer y sawl a oedd eisoes yn meddu ar 'a sufficient knowledge of the language of instruction to receive their instruction in that language' (Cymal 41; dyfynnwyd yn d'Angelejan 1984: 39). Roedd disgwyl i bawb arall, beth bynnag fo'u mamiaith, fynychu'r ysgolion Ffrangeg. Sefydlwyd profion ieithyddol swyddogol er mwyn penderfynu pa blant oedd yn meddu ar ddigon o Saesneg i gael derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno.

Gobaith Bourassa a'i lywodraeth oedd y byddai'r polisi addysg hwn yn plesio pawb, gan gynnig rhyw fath o ddatrysiad i'r ddadl ieithyddol ym maes addysg. Y bwriad oedd y byddai'r mwyafrif o blant mewnfudwyr yn cael eu cyfeirio i'r ffrwd addysg Ffrangeg, tra bod y plant hynny a oedd eisoes yn siarad Saesneg yn dal i fedru derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno. Serch hynny, yn y pen draw nid oedd y polisi'n plesio neb. Ar y naill law, roedd lladmeryddion y Ffrangeg yn galw am bolisi tynnach a fyddai'n cyfeirio hyd yn oed mwy o fewnfudwyr tuag at y ffrwd addysg Ffrangeg. Ar y llaw arall, roedd nifer o fewnfudwyr, a hefyd aelodau o'r gymuned Saesnig, yn gweld y polisi fel ymosodiad ar eu 'rhyddid' hwy i ddewis pa

fath o addysg y dylai eu plant dderbyn. Ar ben hynny, roedd y syniad o seilio'r holl drefn ar brofion ieithyddol yn hynod o amhoblogaidd, fel yr eglura Pierre Larrivée:

> The idea of having young children put through language tests, the prospect of having a family's children placed in different schools, the vagueness of the notion of adequate knowledge which was liable to discretionary interpretations and actions made the application of an already much questioned principle completely unacceptable to English speaking Quebecers (Larrivée, 2003: 171 – 172).[7]

Yn wir, fel yn achos Mesur 63 rai blynyddoedd yng nghynt, roedd amhoblogrwydd Mesur 22 yn un o'r prif ffactorau a gyfrannodd at gwymp y llywodraeth Ryddfrydol ym 1976 (Levine 1990: 108 – 109).

Caiff etholiad cyffredinol 1976 ei gydnabod fel un o'r pwysicaf yn hanes diweddar Quebec. Am y tro cyntaf, etholwyd llywodraeth dan arweiniad y *Parti Québécois* (PQ). Ymhlith pethau eraill dwysaodd y canlyniad hwn y drafodaeth ynglŷn â dyfodol cyfansoddiadol Quebec, gan arwain at y refferendwm cyntaf ar annibyniaeth, a gynhaliwyd ym 1980. Ond ar ben hynny, esgorodd y canlyniad ar gyfnod pellach o weithgarwch ym maes polisi iaith. Eisoes, roedd y PQ wedi ymrwymo'i hun i ddiwygio Mesur 22 y Rhyddfrydwyr a chyflwyno polisi iaith cryfach. Nodwyd mai dyma fyddai un o flaenoriaethau'r blaid pe bai'n digwydd ffurfio llywodraeth. O ganlyniad, ychydig fisoedd wedi'r etholiad cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant, Camille Laurin, Bapur Gwyn (Le Gouvernement du Québec 1977a, 1977b) a oedd yn amlinellu prif syniadau'r llywodraeth ym maes polisi iaith. Arweiniodd hwn, yn ei dro, at ddeddfwriaeth ieithyddol newydd, neu'r *Charte de la langue française* (Mesur 101) fel y galwyd ef, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol

[7] Mae awduron yn amrywio o ran eu sillafiad o'r term Quebecers. Fel a welir maes o law, mae rhai yn ffafrio Quebeckers. Hyd y gwelaf, mae'r ddau sillafiad yn cael eu derbyn. Y ffurfiau a nodir yn nyfyniadau'r bennod hon yw'r rhai a ymddangosodd yn y gweithiau gwreiddiol.

Quebec ym mis Awst 1977. Roedd hwn yn fesur a oedd yn amcanu at ddyrchafu'r Ffrangeg ym mhob agwedd o fywyd Quebec, ac i'r perwyl hynny, cyflwynwyd mesurau pellgyrhaeddol mewn nifer o feysydd gwahanol. Fel yn achos Mesur 22, dechreuodd trwy ddatgan mai'r Ffrangeg oedd iaith swyddogol Quebec. Yna aeth ymlaen i sefydlu cyfres o hawliau ieithyddol sylfaenol. Roedd yr hawliau hyn yn cynnwys: yr hawl i gyfathrebu â chyrff cyhoeddus, cyrff lled-gyhoeddus a chwmnïau preifat trwy gyfrwng y Ffrangeg; hawl gweithwyr i gyflawni eu dyletswyddau trwy gyfrwng y Ffrangeg a hawl pawb i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Ffrangeg. Datganwyd hefyd mai'r Ffrangeg fyddai iaith y ddeddfwrfa a'r llysoedd, ac mai dim ond y fersiwn Ffrangeg o ddeddfau a phenderfyniadau a fyddai'n meddu ar statws swyddogol. Ymhellach, datganwyd mai'r Ffrangeg oedd iaith weithredol adrannau'r llywodraeth a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol.

Rhoddodd y ddeddf newydd gryn dipyn o sylw i statws cyhoeddus y Ffrangeg yn Quebec. Tra bod Mesur 22 eisoes wedi datgan y dylai'r Ffrangeg gael ei chynnwys ar bob math o arwyddion cyhoeddus, aeth Siarter 1977 gam ymhellach. Datganwyd mai dim ond y Ffrangeg y dylid ei defnyddio bellach ar arwyddion a phosteri cyhoeddus. Dylid nodi, fel yr eglura Marc Chevrier, y gwnaed amryw o eithriadau i'r rheol hwn:

> ... the 1977 law authorises firms employing not more than four people to display signs and posters in both French and another language ... The same kind of exception applies to the cultural activities of ethnic groups and advertising non-profit organisations (Chevrier 2003: 134).

Eto i gyd, ystyriwyd fod yr ymgais yma i sefydlu unieithrwydd cyffredinol mewn perthynas â'r mwyafrif o arwyddion cyhoeddus yn gam pwysig a fyddai'n siapio'r tirlun ieithyddol ar draws Quebec. Yn ogystal, cymerwyd camau pwysig i sefydlu'r

Ffrangeg fel iaith y gweithle. Fel yr eglura d'Anelejan, yn hytrach na dibynnu ar anogaeth, fel y gwnaed yn achos Mesur 22, gwnaeth Mesur 101 hi'n orfodol i ddefnyddio'r Ffrangeg yn y gweithle:

> Bill 101 is more explicit and more rigorous in imposing the use of French at all levels. Whereas Bill 22 relied mainly on good will and incentives to motivate Quebec industry to increase the use of French, Bill 101 spells out specific deadlines and sanctions' (d'Anelejan 1984: 41).

Yn wir, erbyn 1983 roedd disgwyl i bob corff a chwmni a oedd yn gweithredu yn Quebec, ac a oedd yn cyflogi mwy na 50 o bobl, i fod wedi gweithredu cynllun 'Ffrangegeiddio' cynhwysfawr. Byddai'r O*ffice de la langue française* wedyn yn dyfarnu tystysgrifau iddynt pe bai'r cynlluniau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.[8]

Wrth reswm, pan gyhoeddwyd cynlluniau'r PQ, un o'r prif gwestiynau oedd sut y byddent yn mynd ati i reoleiddio'r drefn addysg. Wedi'r cyfan, y ddadl ynglŷn â chyfrwng dysgu ysgolion Quebec oedd y pwnc a oedd wedi esgor ar y dadleuon mwyaf chwyrn dros y deg i bymtheg mlynedd diwethaf. Roedd y Papur Gwyn eisoes wedi gwneud yn glir nad oedd bwriad gan y llywodraeth i ddiddymu'r drefn addysg Saesneg. Fodd bynnag, pwysleisiwyd fod angen ffrwyno'r modd yr oedd y drefn honno yn tanseilio statws y Ffrangeg. Felly, yn nhyb y PQ, dylid sicrhau bod addysg Saesneg ar gael i'r lleiafrif hanesyddol Saesneg ei hiaith, ond tu hwnt i hynny 'it is legitimate to make sure that persons who settle in Quebec in the future send their children to French schools' (Le Gouvernement du Québec 1977a: 71).

[8] Am amlineliad manwl o natur y broses yma o 'Ffrangegeiddio' gweler Bouchard 2002.

Eto i gyd, sut gâi hyn ei weinyddu? Roedd Mesur 22 eisoes wedi ceisio symud i'r cyfeiriad hwn, ond roedd y canllawiau a oedd yn nodi pwy gâi fynychu'r ysgolion Saesneg wedi bod yn fethiant llwyr. Am hynny, rhoddwyd terfyn ar y profion ieithyddol amhoblogaidd. Yn eu lle ceisiodd y PQ amlinellu cyfres o ganllawiau clir a oedd yn nodi mai dim ond y canlynol a gai fynychu ysgolion cyfrwng Saesneg:

- Y plant a oedd ag o leiaf un rhiant a oedd wedi derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Quebec;
- Y plant a oedd eisoes yn mynychu'r ysgolion Saesneg yn ogystal â'u brodyr a'u chwiorydd;
- Y plant a oedd yn meddu ar o leiaf un rhiant a oedd wedi derbyn addysg Saesneg tu allan i Quebec, ond a oedd yn byw yn Quebec ar yr adeg y cafodd y Siarter ei fabwysiadu.

Wrth gwrs, fel y gwelir maes o law, y canllawiau hyn oedd un o elfennau mwyaf dadleuol y Siarter, ac o ganlyniad, bu'n rhaid addasu tipyn ar y drefn dros y blynyddoedd.

Gwelir felly fod polisi iaith Quebec, erbyn diwedd y 1970au, wedi esblygu mewn modd gwahanol iawn i bolisi'r Llywodraeth Ffederal. Yn hytrach na sefydlu dwyieithrwydd swyddogol a fyddai'n gwarantu hawl unigolion i ymwneud â rhai o adrannau'r llywodraeth trwy gyfrwng y Ffrangeg neu'r Saesneg, roedd Quebec wedi symud yn raddol tuag at y nod ehangach o adfer y Ffrangeg fel iaith gyffredin y gymdeithas. Yn sicr, dyna oedd yr amcan erbyn 1977 pan gyflwynwyd y *Charte de la langue française*, fel y gwelir o ddarllen rhagair y mesur:

> ... the Assemblé National du Québec recognizes that Quebecers wish to see the quality and influence of the French language assured and is resolved therefore

> to make of French the language of Government and the Law, as well as the normal and everyday language of work, instruction, communication, commerce and business (Le Gouvernement du Québec, 1977a).

I raddau helaeth, roedd mabwysiadu'r amcan hwn yn benllanw ar ddeg i bymtheg mlynedd o drafod democrataidd ynglŷn â dyfodol y Ffrangeg yn Quebec. Yn wir, ers ei fabwysiadu mae'r *Charte de la langue française* wedi mwynhau cefnogaeth gyhoeddus gref ar draws Quebec.

Fodd bynnag, nid yw polisïau iaith pellgyrhaeddol Quebec wedi bodloni pawb. Ers ei fabwysiadu, cafodd y *Charte* ei beirniadu'n hallt o rai cyfeiriadau, a'i chyhuddo o fod yn ddeddf wrth-ryddfrydol a oedd yn tanseilio hawliau sylfaenol. Er enghraifft, noda Chevrier:

> In the media throughout English Canada and among Anglophone interest groups in Quebec, it is often depicted as an unnecessary, illiberal and capricious law that promotes, at the expense of interests viewed as fundamental rights, the rebel language of a minority refusing to jump into the Anglo-American continental mainstream (Chevrier 2003: 118).

Arweiniodd y beirniadu hwn at gyfres o heriadau cyfreithiol gerbron Uchel Lys Canada. O ganlyniad, dros y blynyddoedd, bu'n rhaid i lywodraeth Quebec – boed honno'n llywodraeth ryddfrydol neu genedlaetholgar – gyflwyno cyfres o newidiadau i'r polisïau iaith.

Fodd bynnag, i ba raddau yr oedd sail i'r holl feirniadu a fu? I ba raddau y mae llywodraeth Quebec wedi bod yn euog o fynd yn rhy bell ym maes polisi iaith? Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y cwestiynau hyn, oblegid mae terfynau pendant i'r camau hynny y byddai rhyddfrydwyr yn fodlon eu caniatáu yn enw adferiad iaith. Saif hynny beth bynnag fo maint y gefnogaeth gyhoeddus i'r polisi dan sylw. O ganlyniad, bydd

gweddill y bennod yn ystyried i ba raddau y mae rhai o bolisïau iaith Quebec wedi tramgwyddo terfynau rhyddfrydol. Gwneir hynny trwy gloriannu rhai o'r prif ddadleuon a fynegwyd dros y blynyddoedd mewn gwrthwynebiad iddynt. Fel y nodwyd yng nghyflwyniad y bennod, caiff tri maes penodol eu hystyried. I ddechrau, byddaf yn trafod yr ymdrech i reoleiddio pa ieithoedd a gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus, a'r gwyn fod y polisi hwn yn cyfyngu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Yn ail, byddaf yn ystyried y gwrthwynebiad a fu i'r polisi addysg, ac yn benodol, y gwahanol gyfyngiadau ar argaeledd addysg Saesneg. Bydd y trydydd achos a ystyrir ychydig yn wahanol i'r ddau gyntaf. Yn hytrach na thrafod polisi penodol, byddaf yn ystyried y drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, a'r gwyn fod effaith gyffredinol y polisïau iaith bellach wedi arwain at danseilio cynaliadwyedd y gymuned honno. Ym mhob un o'r achosion hyn, byddaf yn holi i ba raddau mae'r gwrthwynebiadau a fynegwyd dros y blynyddoedd yn codi cwestiynau ynglŷn â dilysrwydd gweithredoedd llywodraeth Quebec. A yw'r polisïau iaith a fabwysiadwyd ganddi wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel polisïau annerbyniol o safbwynt moesol?

Cyn mynd ati i ystyried y materion hyn, dylid nodi un pwynt pwysig. Nid bwriad y drafodaeth fydd ceisio dod i gasgliadau ynglŷn â chryfderau a gwendidau'r model o bolisi iaith a fabwysiadwyd gan Quebec o'i gymharu â'r model ffederal. Yn hytrach, fy unig fwriad fydd ystyried i ba raddau y gall y camau a gymerwyd yn Quebec gael eu hystyried fel rhai derbyniol, sydd ddim yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol. Dyma drafodaeth ychydig yn wahanol, ac mae'n bwysig fod y darllenydd yn deall hynny wrth symud ymlaen i'r adrannau nesaf.

## 6. Arwyddion Cyhoeddus Uniaith Ffrangeg

Dichon mai'r agwedd enwocaf o'r polisïau iaith a ddatblygwyd gan lywodraeth Quebec ers y 1970au, oedd yr un a geisiai reoleiddio pa ieithoedd a gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus ar draws y dalaith. Dyma bolisi dadleuol a esgorodd ar gryn dipyn o wrthwynebiad. Yn ôl Bourhis a Landry (2002), hyd at y 1970au cynnar roedd y Saesneg yn hollbresennol ar yr arwyddion a'r hysbysebion a gâi eu harddangos gan y siopau a'r busnesau hynny a oedd yn masnachu yng nghanol dinas Montreal. Yn wir, fel yr eglurodd Roland Lorrain nol ar ddiwedd y 1960au:

> Regardez au centre de la ville, dans le quartier Sainte-Catherine-Peel par exemple: presque toutes les grandes enseignes sont uniquement en anglais, et cela malgré la fameuse Révolution tranquille (oh, ce tranquille!) et la majorité française qui fait vivre même le centre de la ville. Il y a bien peu de français sur les petites pancartes des vitrines et sur les menus, pour la vente! (Lorrain, 1966: 80, dyfynnwyd yn Bourhis a Landry, 2002: 108).[9]

Cymerodd Deddf 22, a gyflwynwyd gan lywodraeth Ryddfrydol Robert Bourassa ym 1974, gamau pendant i ddyrchafu statws y Ffrangeg yn y maes hwn. Ymhlith pethau eraill, gwnaeth y ddeddf hi'n orfodol i fasnachwyr gynnwys yr iaith ar bob arwydd cyhoeddus. Roedd hwn yn ddatblygiad pwysig, ond nid oedd yn ddigon i blesio nifer o'r ymgyrchwyr iaith. Yn eu tyb hwy, roedd y gydnabyddiaeth yma o ddwyieithrwydd yn gadarnhad pellach o ddominyddiaeth a phwysigrwydd y Saesneg (Bourhis a Landry 2002: 108). Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y *Charte de la langue française* ym 1977, cymerwyd camau pellgyrhaeddol er mwyn ceisio sicrhau fod tirwedd ieithyddol Quebec – a Montreal yn enwedig – yn adlewyrchu'r ffaith mai'r Ffrangeg

---

[9] Edrychwch yng nghanol y dref, yn ardal Sainte-Catherine-Peel er enghraifft: mae bron pob un o arwyddion y siopau yn uniaith Saesneg, a hynny er gwaethaf y Chwyldro Tawel enwog (o mor dawel!) a'r mwyafrif Ffrangeg eu hiaith sy'n trigo yn yr un ardal. Ychydig iawn iawn o Ffrangeg a geir ar y cardiau bach sy'n hysbysebu pethau yn ffenestri'r siopau ac ar fwydlenni, er mwyn gwerthu! (Lorrain 1966: 80; dyfynnwyd yn Bourhis a Landry 2002: 108, cyfieithiad personol).

oedd prif iaith y dalaith. Felly, ar wahân i rai eithriadau, datganwyd y dylai arwyddion cyhoeddus gael eu harddangos mewn Ffrangeg yn unig.

Cymerwyd cam o'r fath am amryw o resymau. Yn eu plith, roedd y dyhead i ddangos yn glir i drigolion Quebec, ac yn enwedig i'r sawl a fyddai'n mudo i'r dalaith, mai'r Ffrangeg oedd y brif iaith gyhoeddus. Byddai sicrhau tirwedd ieithyddol uniaith Ffrangeg yn fodd o danlinellu neges o'r fath. Ar ben hynny, trwy sefydlu unieithrwydd Ffrangeg, gellid sicrhau y byddai'r mesur iaith newydd yn cael dylanwad sydyn ar y sefyllfa ieithyddol ar draws Quebec. Fel yr eglura Bourhis a Landry (2002), er pwysigrwydd rhai o gymalau eraill y ddeddf, er enghraifft y bwriad i Ffrangegeiddio byd gwaith a'r bwriad i ddatrys yr argyfwng ym maes addysg, ni fyddent yn esgor ar ganlyniadau sydyn a gweladwy. Roedd hyn yn flaenllaw ym meddwl Camille Laurin, y gweinidog diwylliant:

> Le 'père' de la loi 101, le docteur Camille Laurin, s'était donné pour mission à la fois de rassurer les francophones sur le statut et la pérennité du fait français au Québec, et de signifier clairement aux anglophones et allophones que le statut du français par rapport à celui de l'anglais était en train de changer dans la province. Grâce à sa grande visibilité et à son impact immédiat, la francisation du paysage linguistique symbolisa de façon tangible les nouveaux rapports de force entre le français et l'anglais au Québec (Bourhis a Landry 2002: 107).[10]

O ganlyniad, penderfynwyd i sefydlu unieithrwydd ieithyddol.

Esgorodd y polisi hwn ar wrthwynebiad chwyrn o gyfeiriad y gymuned Anglophone. Fodd bynnag, ar un wedd, nid oedd yn bolisi a fyddai'n effeithio'n

[10] Gosododd 'tad' deddf 101, y doctor Camille Laurin, y nod iddo'i hun o geisio rhoi sicrwydd ar un pryd i'r boblogaeth 'Ffrancophone' ynglŷn â statws a pharhad y ffaith Ffrangeg yn Quebec, a hefyd i ddangos yn glir i'r boblogaeth Anglophone ac Allophone fod statws y Ffrangeg, mewn perthynas ag un y Saesneg, yn y broses o newid yn y dalaith. Yn sgil ei natur hynod weledol, a'i heffaith ddi-oed, fe wnaeth 'Ffrangegeiddio'r' tirlun ieithyddol symboleiddio, mewn modd diriaethol, y berthynas grym newydd rhwng y Ffrangeg a'r Saesneg yn Quebec (Bourhis a Landry 2002: 107, cyfieithiad personol).

uniongyrchol ar gymaint â hynny o bobl, o'i gymharu, dyweder, â rhai o gymalau eraill y ddeddf iaith newydd. Fel yr awgryma Stevenson:

> In one sense the issue had little practical importance. Even if displaying commercial signs in English is a 'right', it is one of which relatively few people wish to take advantage. It directly concerns only those engaged in certain kinds of business, particularly retail trade. Those who read signs are obviously much more numerous than those who display them, but most English-speaking Quebeckers by 1977 had the minimal degree of bilingualism necessary to recognize the few words most likely to appear on commercial signs (Stevenson, 1999: 186).

Eto i gyd, ar y lefel symbolaidd, câi polisi a oedd yn datgan mai dim ond arwyddion cyhoeddus uniaith Ffrangeg y gellid eu harddangos ei ystyried fel cam hynod o arwyddocaol gan aelodau'r gymuned Anglophone. Aeth rhai mor bell â honni fod yr ymdrech yma i wahardd y defnydd o'r Saesneg yn rhan o ymdrech i wadu bodolaeth y gymuned honno a ddefnyddiau'r iaith (Stevenson 1999: 187). Caiff y teimladau hyn eu cyfleu gan y dyfyniad canlynol a ddaw o ddogfen a gyhoeddwyd gan y grŵp pwyso Saesnig, *Alliance Quebec*, ar ddechrau'r 1980au:

> With respect to the language of signs, the visible presence of the English-speaking community is vital to its acceptance as a full participant in the cultural life of Quebec. Government must not discourage or prevent evidence of the English-speaking presence from manifesting itself, even in a legitimate attempt to promote the French language (Alliance Quebec 1982: 57).

Felly, o ystyried y teimladau hyn, nid yw'n syndod i'r polisi o geisio rheoleiddio iaith arwyddion cyhoeddus esgor ar gymaint o wrthwynebiad.

Yn ganolog i'r gwrthwynebiad hwn, roedd yr honiad fod y polisi'n cyfyngu ar ryddid mynegiant trigolion Quebec. Nid honiad cwbl ddi-sail oedd hwn chwaith. Ym mis Tachwedd 1983, wrth ymddangos gerbron pwyllgor seneddol a oedd, ar y pryd, yn ystyried newidiadau posib i ddeddf iaith 1977, eglurodd Francine Fournier, llywydd Comisiwn Hawliau Dynol Quebec, ei bod o'r farn fod y cymalau o'r ddeddf a

oedd yn rheoleiddio iaith arwyddion cyhoeddus yn tramgwyddo'r hawl i ryddid mynegiant. Dyma ryddid sylfaenol a gâi ei warantu gan Siarter Hawliau a Rhyddfreiniau Canada a Siarter Hawliau Dynol Quebec (Stevenson 1999: 187). Tri mis yn ddiweddarach, lansiwyd her gyfreithiol yn erbyn y polisi arwyddion. Dygwyd yr achos hwn gan Valerie Ford, perchennog siop wlân o Pointe-Claire, ynghyd â phump o fasnachwyr eraill o ardal Montreal. Roedd pob un o'r masnachwyr hyn wedi'u cyhuddo o arddangos arwyddion dwyieithog yn groes i ofynion y ddeddf. Fodd bynnag, yn hytrach na derbyn y cyhuddiadau, aethant ati i herio'r polisi, gan alw ar y llysoedd i ddatgan ei fod yn tramgwyddo rhyddid mynegiant (Stevenson 1999: 187).

Cafodd y ddadl hon ei derbyn gan Uchel Lys Quebec ym 1984, gan Lys Apêl Quebec ym 1986 ac yna gan Uchel Lys Canada ym 1988. Ar bob achlysur, dyfarnwyd fod y cymalau hynny o'r *Charte de la langue française* a oedd yn sicrhau unieithrwydd Ffrangeg ar arwyddion cyhoeddus yn tramgwyddo rhyddid mynegiant trigolion Quebec. Nodwyd na fyddai dim o'i le ar bolisi a oedd yn datgan y dylai masnachwyr gynnwys y Ffrangeg ar unrhyw arwydd, neu hyd yn oed ddatgan y dylai'r Ffrangeg gael blaenoriaeth. Fodd bynnag, roedd gwahardd y Saesneg, neu yn wir unrhyw iaith arall, yn mynd yn rhy bell. O ganlyniad datganwyd y dylai'r polisi gael ei addasu (Stevenson 1999: 186 – 190).

Serch hynny, nid ymateb trwy gyfaddawdu'n llwyr wnaeth Llywodraeth Quebec yn dilyn cyhoeddi dyfarniad terfynol Uchel Lys Canada ym 1988. Yn hytrach, penderfynwyd y dylai'r *Charte de la langue française* gael ei heithrio o gylch

gorchwyl yr Uchel Lys. Gwnaed hynny trwy ddefnyddio’r *notwithstanding clause*; cymal yng nghyfansoddiad Canada a oedd yn caniatáu i daleithiau eithrio deddfau penodol am gyfnod o bum mlynedd (Larrivée 2003: 175). Yna, cyn diwedd 1988, cyflwynwyd mesur newydd – Mesur 178 – a oedd yn diwygio ychydig ar gynnwys y Siarter. Rhaid oedd i’r arwyddion a’r hysbysebion a gâi eu harddangos tu allan i siopau a busnesau barhau i fod mewn Ffrangeg yn unig. Fodd bynnag, rhoddwyd caniatâd i fasnachwyr ddefnyddio Saesneg, neu unrhyw iaith arall, ar yr arwyddion a gâi eu harddangos dan do, ar yr amod bod y Ffrangeg yn parhau i gael goruchafiaeth. Fel y noda Larrivée, ‘Some English could be used on signs, without questioning the pre-eminence of French or the French outlook of Quebec cities. Thus, the government believed that it had devised an honourable compromise’ (Larrivée 2003: 175). Eto i gyd, nid dyma oedd diwedd y dadlau. I ddechrau, roedd y trefniant newydd hwn yn parhau i fod yn un a oedd yn tramgwyddo rhyddid mynegiant, yn ôl y modd y diffiniwyd ef gan yr Uchel Lys. Ar ben hynny, dim ond trefniant dros dro ydoedd, gan fod defnydd Llywodraeth Quebec o’r *notwithstanding clause* yn golygu y byddai’n rhaid edrych eto ar y mater ymhen pum mlynedd.

Yn y cyfamser, rhoddwyd pwysau pellach ar y Llywodraeth pan ofynnwyd i Bwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig drafod y polisi arwyddion yn dilyn cais gan dri o ddynion busnes o Quebec. Cyhoeddwyd dyfarniad y pwyllgor hwn ym mis Mawrth 1993, dim ond ychydig fisoedd cyn y byddai’n rhaid i Lywodraeth Quebec gyflwyno unrhyw newidiadau. Nododd y pwyllgor fod dewis un neu fwy o ieithoedd fel rhai swyddogol, yn enwedig er mwyn sefydlogi ieithoedd sydd mewn sefyllfaoedd bregus, yn weithred ddilys. Fodd bynnag, fel yn achos Uchel Lys

Canada, datganwyd fod rheoliadau Siarter Ffrangeg Quebec – hyd yn oed ar ôl cyflwyno diwygiadau Mesur 178 – yn mynd yn rhy bell ac felly'n tramgwyddo'r egwyddor o ryddid mynegiant. Dyma ryddid sylfaenol a gâi ei ymgorffori yn y Datganiad Byd-eang o Hawliau Dynol (Chevrier 2005: 138; Woehrling 2005: 60 – 64).

Felly, erbyn dechrau'r 1990au roedd polisi arwyddion Quebec wedi ennill statws drwg-enwog, nid yn unig ar draws Canada, ond hefyd ar y llwyfan rhyngwladol. O ganlyniad, nid oedd yn syndod i'r llywodraeth gyflwyno diwygiadau pellach i'r polisi arwyddion ym Mehefin 1993. Arweiniodd hyn at lacio cryn dipyn ar y rheoliadau ym maes arwyddion cyhoeddus. Bellach, byddai gan fasnachwyr yr hawl i arddangos arwyddion dwyieithog, ar yr amod bod y Ffrangeg yn parhau i gael goruchafiaeth. Fel yr eglura Larrivée:

> Bill 86 allowed bilingual signage in as much as French remained markedly predominant. French was judged to be predominant on a given sign if the space given to the French text was twice as large as the space given to another language, if the French lettering was twice as big as the lettering in another language, to the exclusion of any characteristic, like colours, that reduced its visual impact (Larrivée 2003: 175).

Trwy gyflwyno'r newidiadau hyn, roedd Llywodraeth Quebec yn cydymffurfio, i raddau helaeth, gyda chasgliadau Uchel Lys Canada yn ei ddyfarniad nol ym 1988.

Gan mai amcan y bennod hon yw cloriannu dilysrwydd rhyddfrydol gwahanol bolisïau iaith, mae'r achos uchod yn un arbennig o berthnasol. Heb os, mae rhyddid mynegiant yn egwyddor bwysig i ryddfrydwyr (Rawls 1971; Kymlicka 2002). Tueddant i'w ystyried fel un o'r rhyddfreiniau dinesig a gwleidyddol y dylai unrhyw gymdeithas ryddfrydol-ddemocrataidd ei gwarantu. Yn hynny o beth, gosodir hi ochr

yn ochr â rhyddfreiniau sylfaenol eraill, megis rhyddid cydwybod, rhyddid barn, y rhyddid i ymgynnull yn heddychlon a'r rhyddid i ymwneud ag eraill. Yn wir, caiff pwysigrwydd yr egwyddorion hyn i ryddfrydwyr ei danlinellu gan y statws a briodolir iddynt yn yr amryfal gyfansoddiadau a siarterau hawliau a fabwysiedir gan lywodraethau rhyddfrydol-ddemocrataidd.

Felly, o ystyried y pwysigrwydd a briodolir i'r egwyddor o ryddid mynegiant, nid yw'n syndod fod polisi arwyddion gwreiddiol Quebec – polisi a gyhuddwyd o geisio cyfyngu ar y rhyddid hwnnw – wedi profi'n bur ddadleuol. Yn wir, os oedd unrhyw sail i'r cyhuddiadau hyn, yna mae'n bosib iawn y byddai rhyddfrydwyr yn gorfod casglu fod polisi o'r fath yn ymddangos fel un annerbyniol. Wedi'r cyfan, un o themâu pwysig y llenyddiaeth gyfoes ar ryddfrydiaeth ddiwylliannol, yw na ddylai unrhyw bolisi sydd â'r nod o gefnogi rhagolygon diwylliant lleiafrifol dramgwyddo rhyddfreiniau pwysig o'r fath (Kymlicka 1995a). O ganlyniad, yn ystod y paragraffau isod ceisiaf gloriannu'r polisi arwyddion, gan ystyried a oedd, mewn gwirionedd, yn bolisi y dylai rhyddfrydwyr ei ddehongli fel un annerbyniol. Byddaf yn gwneud hynny trwy holi dau gwestiwn pwysig: i ba raddau roedd y polisi wir yn cyfyngu ar ryddid mynegiant dinasyddion Quebec; ac os oedd, i ba raddau roedd y cyfyngu hwn yn ormodol ac yn amhriodol o dan yr amgylchiadau?

Yn naturiol, y cam cyntaf wrth gloriannu'r polisi arwyddion yw ystyried i ba raddau roedd y polisi wir yn cyfyngu ar ryddid mynegiant. Mae angen ystyried hyn yn ofalus, oblegid amcan amryw o'r dadleuon amddiffynnol a ddefnyddiwyd gan lywodraeth Quebec oedd ceisio gwadu fod y polisi'n effeithio mewn unrhyw fodd ar y

rhyddid hwnnw. Hawliwyd, yn hytrach, mai beirniaid y polisi oedd yn euog o gamddeall ystyr a goblygiadau'r rhyddid. Gwelwyd hyn, er enghraifft, wrth i'r llywodraeth ddadlau gerbron y llysoedd nad oedd rhyddid mynegiant yn rhyddid a oedd yn gwarantu gallu person i fynegi ei hun ym mha bynnag iaith mae ef neu hi'n dewis. Mynnwyd nad oedd hi'n briodol na chwaith yn ymarferol i ddehongli'r rhyddid mewn termau o'r fath.

I ddechrau, yn nhyb y llywodraeth, wrth drafod rhyddid mynegiant roedd hi'n bwysig a hefyd yn gwbl briodol i wahaniaethu rhwng y cynnwys a'r cyfrwng; hynny yw, rhwng y syniadau a'r teimladau a fynegir gan berson, a'r iaith a ddefnyddir gan y person hwnnw i'w cyfleu. Credai'r llywodraeth fod hwn yn wahaniaeth pwysig, ac mai'r elfen gyntaf, sef y cynnwys, oedd yn allweddol wrth drin a thrafod rhyddid mynegiant. Gwarchod gallu pobl i fynegi syniadau a theimladau yn ôl eu dymuniad oedd yn bwysig, ac nid yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt. Am hynny, tybiwyd nad oedd rheoliadau a oedd yn ymwneud â'r defnydd preifat o iaith ar arwyddion cyhoeddus yn tramgwyddo rhyddid mynegiant. Yn y pen draw, dim ond cyfrwng oedd yr iaith; dull o gyfleu cynnwys yr hyn a gâi ei fynegi (Supreme Court of Canada 1988a).

Ochr yn ochr â'r gwahaniaethu uchod rhwng y cynnwys a'r cyfrwng, dadleuwyd y byddai dehongli rhyddid mynegiant fel rhyddid a oedd yn meddu ar ddimensiwn ieithyddol yn gwbl anymarferol. Seiliwyd yr honiad hwn ar y gred y byddai dehongli rhyddid mynegiant mewn termau eang o'r fath yn arwain at osod dyletswyddau ieithyddol sylweddol ar ysgwyddau'r wladwriaeth. Byddai'n arwain at

sefyllfa lle byddai disgwyl i'r wladwriaeth estyn hawliau ieithyddol penodol mewn meysydd megis addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus i bob grŵp ieithyddol a drigai o fewn ei ffiniau. Yn achos Canada, byddai hyn yn tanseilio'r trefniant cyfansoddiadol lle câi statws swyddogol o'r fath ei estyn i'r Saesneg a'r Ffrangeg yn unig (Supreme Court of Canada 1988a).

Gwelir felly fod un rhan o amddiffyniad Llywodraeth Quebec o'i pholisi arwyddion wedi seilio ar geisio profi nad oedd rhyddid mynegiant, mewn gwirionedd, yn cynnwys hawl person i fynegi ei hun ym mha iaith bynnag mae ef neu hi'n dewis. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn fod modd cynnal safbwynt o'r fath. Fel y gwelir wrth ystyried dyfarniad yr Uchel Lys, mae'r dadleuon a ddefnyddiwyd yn rhai sy'n sefyll ar dir go simsan. Er enghraifft, mae'n anodd gweld sut gellir gwahaniaethu mor glir rhwng y cynnwys a'r cyfrwng wrth drafod rhyddid mynegiant. Fel y nododd yr Uchel Lys yn ei ddyfarniad:

> Language is so intimately related to the form and content of expression that there cannot be true freedom of expression by means of language if one is prohibited from using the language of one's choice. Language is not merely a means or medium of expression; it colours the content and meaning of expression (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 40).

Ar ben hynny, mae'r honiad y byddai'n gwbl anymarferol i ddehongli rhyddid mynegiant fel rhyddid a oedd yn meddu ar ddimensiwn ieithyddol yn seiliedig ar gamddealltwriaeth. Yn y pen draw, fel y noda'r llys, mae gwahaniaeth sylfaenol i'w gael rhwng y rhyddid i fynegi ein hunain yn yr iaith o'n dewis, a'r hawl i dderbyn gwasanaethau gan lywodraeth yn yr iaith o'n dewis. Ni ellir dadlau fod un yn sicr o arwain at y llall.

I ddechrau, maent yn alwadau ieithyddol sy'n tueddu i gael eu cyfiawnhau mewn ffyrdd gwahanol. Ar y cyfan, mae rhyddid mynegiant, fel rhyddfreiniau sylfaenol eraill, yn tueddu i gael ei ystyried fel egwyddor gyffredinol; rhywbeth sy'n meddu ar yr un arwyddocâd ym mhob sefyllfa, beth bynnag fo'r cefndir hanesyddol a gwleidyddol. Mewn cyferbyniad, derbynnir y dylai ffactorau hanesyddol a gwleidyddol penodol ddylanwadu ar ein casgliadau ynglŷn â pha ieithoedd sy'n derbyn cydnabyddiaeth gyhoeddus, hynny yw bod gan yr hawliau sy'n deillio o gydnabyddiaeth o'r fath 'their own special historical, political and constitutional basis' (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 43).

Yn ail, mae goblygiadau'r galwadau hyn yn wahanol iawn i'w gilydd. Fel yn achos rhyddfreiniau sylfaenol eraill, megis rhyddid cydwybod neu'r rhyddid i ymgynnull, gosod dyletswyddau negyddol ar y wladwriaeth a wna rhyddid mynegiant. Mewn termau ieithyddol, golyga bod y wladwriaeth yn camu nôl ac yn ymrwymo i beidio amharu ar allu unigolion a grwpiau i arddel pa iaith bynnag a ddymunant yn eu bywydau preifat. Gallai hyn gynnwys y rhyddid i sefydlu cymdeithasau diwylliannol arbennig, y rhyddid i sefydlu cylchgronau mewn iaith benodol, neu ddim ond y rhyddid syml i ddefnyddio'r iaith wrth sgwrsio â chyfeillion. Fodd bynnag, mae'r hawl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus mewn iaith arbennig yn wahanol, gan ei bod yn sefydlu dyletswyddau cadarnhaol. Yn hytrach na chamu nôl, mae'r wladwriaeth nawr yn ymrwymo i gymryd camau pellgyrhaeddol er mwyn sicrhau fod ei amryfal sefydliadau yn gymwys i weithredu mewn nifer cyfyngedig o ieithoedd. Wrth gwrs, byddai'n gwbl anymarferol i unrhyw wladwriaeth sicrhau darpariaeth o'r fath i bob un grŵp ieithyddol sy'n trigo o fewn ei ffiniau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rheswm

dros beidio dehongli rhyddid mynegiant fel rhyddid sy'n meddu ar ddimensiwn ieithyddol. Fel y nododd y Llys mewn perthynas â'r drefn ieithyddol a fodolai yng Nghanada:

> The central unifying feature of all the language rights given explicit recognition in the Constitution of Canada is that they pertain to governmental institutions and for the most part they oblige the government to provide for, or at least tolerate, the use of both official languages ...They grant entitlement to a specific benefit from the government or in relation to one's dealing with the government ... They do not ensure, as does a guaranteed freedom, that within a given broad range of private conduct, an individual will be free to choose his other own course of activity ... The legal structure, function and obligations of government institutions with respect to the English and French languages are in no way affected by the recognition that freedom of expression includes the freedom to express oneself in the language of one's choice in areas outside of those for which the special guarantees of language have been provided (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 43).

At ei gilydd felly, gwelir nad yw derbyn bod rhyddid mynegiant yn meddu ar ddimensiwn ieithyddol yn agor y drws i alwadau ieithyddol pellgyrhaeddol gan bob math o grwpiau ieithyddol, gan fod seiliau a hefyd oblygiadau'r galwadau hyn yn wahanol iawn i'w gilydd.

Fodd bynnag, hyd yn oed os oedd ryddid mynegiant yn cynnwys hawl person i fynegi ei hun ym mha iaith bynnag mae ef neu hi'n dewis, ceisiodd llywodraeth Quebec ddadlau nad oedd hyn yn profi fod y polisi arwyddion, o anghenraid, yn cyfyngu ar ryddid hwnnw, gan nad yw'n rhyddid sy'n ymestyn i faes cyfathrebu masnachol. Dyma felly ymgais arall i wadu fod y polisi arwyddion mewn gwirionedd yn tramgwyddo'r egwyddor o ryddid mynegiant. Yn nhyb llywodraeth Quebec nid oedd rhyddid mynegiant ond yn ymwneud â meysydd pwysig megis gwleidyddiaeth a'r celfyddydau. Nid oedd y llywodraeth o'r farn y dylai'r dehongliad o ystyr y rhyddid hwnnw ymestyn y tu hwnt i feysydd o'r fath. Ni fyddai hyn ond yn arwain at

lastwreiddio'i werth. Fel y nodwyd yn ystod yr achos gerbron yr Uchel Lys ym 1988, caiff rhyddid mynegiant ei ystyried fel rhyddid sy'n gwarchod buddiannau sylfaenol, ond nid oes dim byd sylfaenol yn perthyn i gyfathrebu masnachol (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 53).

Yn sicr, meysydd megis gwleidyddiaeth a'r celfyddydau a ystyrir fel arfer wrth drafod rhyddid mynegiant; er enghraifft rhyddid person i arddel a mynegi gwahanol safbwyntiau gwleidyddol, neu ei ryddid i greu a chyhoeddi gwahanol weithiau llenyddol neu gelfyddydol. Nid oedd y polisi arwyddion yn cyfyngu mewn unrhyw fodd ar ryddid dinasyddion Quebec yn y meysydd allweddol hyn. Roedd rhai o gymalau'r ddeddf iaith yn nodi'n glir nad oedd yr angen am unieithrwydd Ffrangeg yn ymestyn i unrhyw arwydd neu gyhoeddiad gwleidyddol, crefyddol neu ddiwylliannol. O ganlyniad, yn nhyb y llywodraeth, roedd eithriadau o'r fath yn brawf o'u hymrwymiad i gynnal rhyddid mynegiant. Nid oeddent o'r farn fod yr ymdrech i reoleiddio cyfathrebu masnachol yn tanseilio'r ymrwymiad hwnnw mewn unrhyw fodd.

Eto i gyd, i ba raddau y mae dadl o'r fath yn dal dŵr? Ar y cyfan, credaf fod y llywodraeth yn euog o geisio gorbwysleisio'r gwahaniaeth rhwng mynegiant masnachol a mynegiant gwleidyddol neu gelfyddydol. Daw hyn i'r amlwg wrth graffu eto ar rai o wrthddadleuon yr Uchel Lys. Roedd y llys yn cydnabod mai'r mynegiant o syniadau gwleidyddol a ystyrir fel arfer wrth drafod pwysigrwydd rhyddid mynegiant. Awgrymwyd fod hyn yn deillio o'r ffaith mai yn y maes hwn y gwelwyd y bygythiadau mwyaf mynych dros y blynyddoedd i ryddid o'r fath. Fodd bynnag, nid

oedd y llys yn teimlo fod hyn yn rheswm dros ddiystyru pwysigrwydd rhyddid mynegiant mewn meysydd eraill, megis y byd masnachol. Yn y pen draw, dim ond un ffurf ar fynegiant ymhlith nifer yw mynegiant gwleidyddol, ac fel y noda'r llys, mae pob un o'r ffurfiau hyn yn meddu ar werth pwysig mewn cymdeithas rydd a democrataidd:

> It is apparent to this Court that the guarantee of freedom of expression ... cannot be confined to political expression, important as that form of expression is in a free and democratic society ... political expression is only one form of the great range of expression that is deserving of constitutional protection because it serves individual and societal values in a free and democratic society (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 60).

Yn y pen draw, er mai rheoleiddio gweithgareddau masnachol oedd amcan Llywodraeth Quebec, ni ddylid anwybyddu'r ffaith mai canlyniad y polisi oedd atal unigolion rhag defnyddio iaith benodol: 'Although the expression in this case has a commercial element, it should be noted that the focus here is on choice of language and on a law which prohibits the use of a language' (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 60).

At ei gilydd felly, gwelir fod rhyddid mynegiant yn rhyddid sy'n cwmpasu gallu person i fynegi ei hun ym mha iaith bynnag mae ef neu hi'n dewis. Ar ben hynny, gwelwyd fod y rhyddid yn un a ddylai gwmpasu mynegiant masnachol yn ogystal â mynegiant gwleidyddol neu gelfyddydol. Dyma ddwy amod bwysig a gâi eu tramgwyddo gan bolisi arwyddion Llywodraeth Quebec. O ganlyniad, ni ellir derbyn yr awgrym nad oedd y polisi hwn yn cyfyngu ar ryddid mynegiant. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod y polisi arwyddion yn euog o gyfyngu ar ryddid mynegiant yn golygu bod y polisi hwnnw, o anghenraid, yn gwbl annerbyniol. Ydy, mae rhyddid mynegiant yn tueddu i gael ei ystyried gan ryddfrydwyr fel un o'r rhyddfreiniau dinesig a

gwleidyddol sylfaenol y dylai unrhyw gymdeithas ryddfrydol a democrataidd ei gwarantu. Eto i gyd, nid yw rhyddid o'r fath yn gwbl absoliwt. Er y pwysigrwydd a briodoli'r iddo, mae'n siŵr y byddai llawer o ryddfrydwyr yn derbyn ei bod yn gwbl briodol i gyfyngu ar rhyddid mynegiant mewn rhai amgylchiadau arbennig.

Serch hynny, tra'n derbyn bod modd cyfiawnhau cyfyngu ar egwyddorion sylfaenol megis rhyddid mynegiant mewn rhai amgylchiadau, mae'n sicr y byddai rhyddfrydwyr hefyd am bwysleisio na ellir mynd ati i wneud hynny ar hap. Gan fod egwyddor o'r fath yn tueddu i gael ei osod ar wastad normadol mor uchel, mae'n naturiol bod disgwyl i'r sawl sy'n dymuno cyfyngu arno gwrdd ag amodau go arbennig. Ond pa fath o amodau fyddai'r rhain? Caiff dwy amod bosib eu hamlinellu yn Siarter Hawliau Canada. Ar y cyfan, credaf y byddai rhain yn amodau a fyddai'n ddigon derbyniol i'r mwyafrif o ryddfrydwyr:

> Two requirements must be satisfied to establish that a limit is reasonable and demonstrably justified in a free and democratic society. First, the legislative objective which the limitation is designed to promote must be of sufficient importance to warrant overriding a constitutional right. It must bear on a 'pressing and substantial concern'. Second, the means chosen to attain those objectives must be proportional or appropriate to the ends (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 66).

Felly, rhaid i'r amcan a geisir wrth gyfyngu ar unrhyw ryddid sylfaenol fod yn arbennig o bwysig. Ar ben hynny, rhaid i'r cyfyngiadau a gyflwynir fod yn rhai rhesymol a phriodol o dan yr amgylchiadau; hynny yw, bod yna gysylltiad rhesymol rhwng y cyfyngiadau a'r amcan dan sylw.

Ond i ba raddau roedd y dadleuon a gyflwynwyd i amddiffyn polisi arwyddion Quebec yn bodloni amodau o'r fath? Wrth amddiffyn y polisi yn ystod yr achosion

llys, cyflwynodd y llywodraeth dystiolaeth a oedd yn tystio i safle bregus y Ffrangeg yn Quebec ac ar draws Canada. Ar ben hynny, cyflwynwyd astudiaethau o feysydd cymdeithaseg iaith a chynllunio ieithyddol er mwyn cadarnhau bod statws cyhoeddus iaith yn cyfrannu'n sylweddol at ei llewyrch. Ar sail y deunydd hwn, dadleuwyd fod polisi pellgyrhaeddol a oedd yn gosod cyfyngiadau ar y defnydd o'r Saesneg ar arwyddion cyhoeddus yn gwbl briodol a rhesymol – hyd yn oed os oedd hynny'n golygu cyfyngu ar ryddid mynegiant – gan fod hynny'n rhan allweddol o'r ymdrech i ddiogelu dyfodol diwylliant Ffrengig Quebec. Ond a oedd sail i honiad o'r fath?

Ar y cyfan, roedd y deunydd a gyflwynwyd yn dangos bod amcan y llywodraeth wrth fabwysiadu ei pholisïau iaith yn un pwysig a theilwng: gwarchod rhagolygon y Ffrangeg yn Quebec yn wyneb grym aruthrol y Saesneg. Ar ben hynny, roedd y deunydd yn dangos fod polisïau a oedd yn sicrhau presenoldeb amlwg i'r Ffrangeg ar arwyddion cyhoeddus yn rhan hollbwysig o'r broses honno. Er hynny, nid oedd y deunydd, mewn gwirionedd, yn dangos pam fod y dyrchafiad cyhoeddus hwn, o anghenraid, yn galw am sefydlu unieithrwydd Ffrangeg. Fel y nododd yr Uchel Lys yn ei ddyfarniad:

> The materials establish that the aim of the language policy ... was a serious and legitimate one. They indicate the concern about the survival of the French language and the perceived need for an adequate legislative response to the problem. Moreover, they indicate a rationale connection between protecting the French language and assuring that the reality of Quebec society is communicated through the *'visage linguistque'*. The materials do not, however, demonstrate that the requirement of the use of French only is either necessary for the achievement of the legislative objective or proportionate to it ... The issue is whether any such prohibition is justified. In the opinion of this Court it has not been demonstrated that the prohibition of the use of any language other than French ... is necessary to the defence and enhancement of the status of the French language in Quebec or that it is proportionate to that legislative purpose (Supreme Court of Canada 1988a: Pwynt 73).

Doedd neb – gan gynnwys gwrthwynebwyr mwyaf chwyrn y polisi arwyddion – yn gwadu fod y Ffrangeg dan bwysau a bod hybu ei statws cyhoeddus yn hanfodol er mwyn gwella'i rhagolygon. Fodd bynnag, roedd cryn amheuaeth ynglŷn â phriodoldeb a rhesymoldeb polisi a oedd yn gwahardd pob iaith heblaw'r Ffrangeg, a thrwy hynny, yn cyfyngu'n rhannol ar ryddid mynegiant y boblogaeth. Dyma amheuaeth na chafodd ei hateb gan ddadleuon llywodraeth Quebec.

Fel y dadleuodd yr Uchel Lys, yn hytrach na cheisio sefydlu unieithrwydd Ffrangeg, gallai Llywodraeth Quebec fod wedi anelu at sicrhau fod y Ffrangeg yn derbyn goruchafiaeth amlwg ar bob arwydd cyhoeddus. Byddai hyn wedi bod yn gyfyngiad mwy cymedrol ac felly yn fwy derbyniol: 'requiring the predominant display of the French language, even its marked predominance, would be proportional to the goal of promoting and maintaining a French 'visage linguistique' in Quebec' (Uchel Lys Canada, 1988a: Pwynt 78). At ei gilydd felly, nid oedd polisi gwreiddiol Quebec o sicrhau unieithrwydd Ffrangeg ar arwyddion cyhoeddus yn cwrdd â'r amodau pwysig a nodwyd uchod. O ganlyniad, rhaid casglu fod gweithredu polisi o'r fath wedi arwain at ymgais amhriodol i gyfyngu ar ryddid mynegiant. Golyga hyn ei fod yn bolisi a oedd yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig ac felly dylid ei ddehongli fel cam annerbyniol o safbwynt moesol (gweler hefyd Carens 2000; Tully 1995).

**7. Addysg Saesneg**

Ochr yn ochr â'r polisi arwyddion a drafodwyd uchod, mae'n siŵr mai polisi llywodraeth Quebec ym maes addysg sydd wedi esgor ar y dadlau mwyaf chwyrn dros

y deugain mlynedd diwethaf. Fel y gwelwyd eisoes, roedd maes addysg yn gwbl ganolog i'r drafodaeth ynglŷn â dyfodol y Ffrangeg yn Quebec. Erbyn diwedd y 1960au daeth yn fwyfwy amlwg fod y mwyafrif helaeth o'r unigolion a'r teuluoedd a fudai i Quebec yn gwneud hynny gan fabwysiadu'r Saesneg yn hytrach na'r Ffrangeg fel iaith gyhoeddus newydd. Câi'r arfer hwn ei danlinellu gan y ffaith fod mewnfudwyr yn tueddu i ddewis danfon eu plant i ysgolion Saesneg. Golygai hyn fod y dasg o gymathu'r newydd-ddyfodiaid i'r gymuned Francophone fwy neu lai'n amhosib. O ganlyniad, datblygodd maes addysg yn gadfan hollbwysig i'r sawl a oedd yn pryderu ynglŷn â dyfodol y Ffrangeg yn Quebec. Tybiwyd fod ffrwyno datblygiad yr ysgolion Saesneg, gan reoleiddio pwy gâi eu mynychu yn gwbl hanfodol os am atal dirywiad pellach yn seiliau demograffig yr iaith.

Ceisiodd llunwyr deddf iaith 1974 fynd i'r afael â'r mater hwn, ond heb lwyddiant. Cafwyd datrysiad mwy pendant ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach yn dilyn pasio deddf iaith y PQ ym 1977. Fel y nodwyd uchod, rhoddodd y ddeddf hon derfyn ar y profion ieithyddol amhoblogaidd ac yn hytrach amlinellwyd cyfres o ganllawiau clir. I bob pwrpas, cafodd yr hawl i fynychu'r ysgolion Saesneg ei chyfyngu i'r sawl a oedd â brawd, chwaer neu riant a oedd eisoes wedi derbyn addysg cyfrwng Saesneg rhywle yn Quebec. Fel yn achos agweddau eraill o'r *Charte de la langue française* roedd yr ymateb i'r polisi hwn yn gymysg. Ar y naill law, derbyniodd gefnogaeth frwd gan drwch y boblogaeth Francophone. Ond, ar y llaw arall, cafodd ei feirniadu'n hallt o gyfeiriadau eraill - gan aelodau o gymuned Anglophone Quebec, gan Ganadiaid o daleithiau eraill a hefyd gan y sawl a fudai i Quebec o rannau eraill o'r byd (Levine 1990). A siarad yn gyffredinol, honnwyd fod y

polisi yn un a oedd yn sathru ar ‘hawliau sylfaenol’ ym maes addysg – ymhlith pethau eraill, roedd yn gwarantu triniaeth anghyfartal gan y gyfraith a hefyd yn tanseilio symudoledd cymdeithasol. Mae’r rhain oll yn wrthwynebiadau difrifol. O ystyried hyn, mae’n bwysig fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau normadol polisi llywodraeth Quebec ym maes addysg. Yn wir, mae hyn yn arbennig o berthnasol erbyn heddiw, gan fod arwyddion o anniddigrwydd bellach i’w gweld yn datblygu ymhlith rhai aelodau o’r gymuned Francophone hefyd (Woehrling 2005).

O ganlyniad, bydd trafodaeth yr adran hon yn asesu i ba raddau y gall y camau a gymerwyd gan lywodraeth Quebec ym maes addysg gael eu hystyried gan ryddfrydwyr fel rhai derbyniol o safbwynt moesol. Yn benodol, byddaf yn holi a all polisi addysg sy’n cyfyngu’r hawl i fynychu ysgolion Saesneg i rai carfanau penodol gael ei gyfri fel un teg? Bydd ateb y cwestiwn hwn yn galw am ystyried y gwrthwynebiadau moesol a gyflwynwyd gan wahanol garfanau megis Canadiaid o daleithiau eraill, mewnfudwyr rhyngwladol a hefyd Francophones. Ond, i ddechrau, fel rhagarweiniad i’r drafodaeth bwysig hon, rhoddir sylw i gwestiwn normadol arall, mwy sylfaenol: a oes unrhyw reidrwydd moesol ar lywodraeth Quebec i sicrhau darpariaeth o addysg cyfrwng Saesneg?

Fel y noda Joseph Carens (1995), mae llywodraeth Quebec, ar hyn o bryd, yn darparu amrediad eang o wasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth addysg sy’n estyn o’r blynyddoedd cynnar i addysg brifysgol. Wrth gwrs, fel y trafodir nes ymlaen, mae maint a dylanwad y sefydliadau hyn wedi edwino’n sylweddol dros y blynyddoedd, yn sgil gweithredu polisïau cryf o blaid y

Ffrangeg. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ymdrech ddifrifol i geisio dileu'r ddarpariaeth gyhoeddus o addysg cyfrwng Saesneg. Yn sicr, byddai polisi o'r fath wedi bod yn un dadleuol dros ben, gan esgor ar wrthwynebiad chwyrn o sawl cyfeiriad. O ystyried hyn, nid yw'n syndod nad yw llywodraeth Quebec wedi cymryd cam o'r fath. Eto i gyd, fel y noda Carens, nid yw'r ffaith fod rhywbeth yn digwydd bod yn ddadleuol o safbwynt gwleidyddol yn golygu ei fod hefyd yn rhwym o fod yn gwbl annerbyniol o safbwynt moesol. O ganlyniad, mae'n werth holi a oes unrhyw reidrwydd moesol ar lywodraeth Quebec i gynnal darpariaeth o addysg cyfrwng Saesneg?

Yn nhyb Carens ei hun, ni ddylai dyfodol trefn addysg Saesneg Quebec gael ei ddehongli fel pwnc sy'n meddu ar unrhyw arwyddocâd moesol:

> ... Quebec provides extensive public services to its anglophone minority. With respect to public schooling, this situation largely reflects the requirements of the Canadian constitution, but in other ways the services go well beyond what is required by federal law. Is Quebec morally obliged to continue this level of support for anglophones? I do not see why. It may be prudent policy to do so in the current political context, but that is another matter (Carens 1995: 60).

Felly, yn nhyb Carens, pwysau gwleidyddol a chyfansoddiadol sy'n deillio o ymlyniad Quebec wrth wladwriaeth Canada, ac nid unrhyw bwysau moesol, sy'n gyfrifol am y ffaith fod disgwyl i'r llywodraeth gynnal darpariaeth gyhoeddus o addysg Saesneg, yn ogystal ag amrediad o wasanaethau cyhoeddus eraill. Pe bai Quebec yn digwydd dod yn wladwriaeth annibynnol ryw dro yn y dyfodol, byddai'r cyfrifoldebau cyfansoddiadol hyn yn diflannu ac, yn nhyb Carens, fe fyddai'n gwbl dderbyniol, o safbwynt moesol, i Quebec ddatblygu trefn addysg a fyddai ond yn gweithredu trwy gyfrwng y Ffrangeg:

> If Quebec were independent would it be obliged to continue any of the services, including the system of public education? In terms of the standard of moral permissibility, I do not see why continuation of such support would be

> mandatory ... it might be wise or prudent to continue the support for English in Quebec, and the Parti Québécois has announced its intention to do so, but wisdom and prudence are different moral virtues from justice (Carens 1995: 60).

Ond, i ba raddau y mae'r safbwynt hwn o eiddo Carens yn un teg?

Ar y cyfan, credaf nad yw Carens yn rhoi digon o ystyriaeth i statws arbennig y gymuned Anglophone yn Quebec, ynghyd â'r cyfrifoldebau pwysig sy'n cael eu gosod ar y llywodraeth yn sgil y statws hwn. Yn hyn o beth, rwyf yn cytuno â sylwadau'r athronydd o Quebec, Michel Seymour (2000). Dadleua Seymour y dylai'r gymuned Anglophone sy'n trigo yn Quebec gael ei dehongli fel lleiafrif cenedlaethol – hynny yw estyniad ar y genedl Ganadaidd-Saesneg ei hiaith sy'n fwyafrif yng ngweddill tiriogaeth Canada:

> ... the inclusion of Anglo-Quebeckers within the Quebec socio-political nation is compatible with having the status of a national minority within the Quebec nation. As a minority extension on the territory of Quebec of a national majority of English Canadians, English Quebeckers form a national minority (Seymour 2000: 241).

Caiff y dehongliad hwn o statws y gymuned Anglophone ei rannu gan Bourhis (2008), ieithydd cymdeithasol o Quebec, sy'n cyfeirio at y gymuned fel 'this historic national minority in Quebec'. Nid yw Joseph Thériault (2007: 259), fodd bynnag, mor awyddus i gyfeirio at y gymuned Anglophone fel lleiafrif cenedlaethol. Er hynny, mae'n ddigon parod i gydnabod fod y gymuned hon yn meddu ar gyswllt hanesyddol arbennig â Quebec: 'they are not national minorities as such, although their historic dynamics is hard to understand without referring to their place in the Canadian plurinational dynamics'. O ganlyniad, boed y gymuned Anglophone yn cael ei diffinio fel lleiafrif cenedlaethol, neu yn wir fel rhywbeth ychydig yn wahanol yn ôl dymuniad Thériault, ni ellir gwadu bod y gymuned yn un sy'n meddu ar statws arbennig, yn sgil

ei chyswllt hanesyddol â thiriogaeth Quebec.[11] Yn sicr, ni ellir, ac ni ddylid portreadu'r gymuned fel dim mwy nag un ymhlith nifer o leiafrifoedd ethnig gwahanol.

Yn sgil y statws arbennig hwn, gellir dadlau bod rheidrwydd moesol ar lywodraeth Quebec i barchu anghenion ieithyddol a diwylliannol sylfaenol y gymuned Anglophone, er enghraifft trwy sicrhau darpariaeth o addysg cyfrwng Saesneg i'w haelodau. Mae Seymour yn sicr yn credu hyn wrth iddo nodi 'Quebeckers as a whole should respect these special ties that Anglo-Quebeckers entertain towards the language and culture of English Canada (Seymour 2000: 241; gweler hefyd Seymour 2005). Mae'n siŵr y byddai amryw o ryddfrydwyr diwylliannol eraill yn cytuno hefyd. Er enghraifft, yn ystod ei drafodaethau cyffredinol o faterion megis amlddiwylliannedd, mae Will Kymlicka wedi pwysleisio droeon bod dyletswydd foesol ar y cenhedloedd lleiafrifol sy'n ymgymryd â phroses o godi cenedl i gydnabod anghenion unrhyw leiafrifoedd cenedlaethol eraill sy'n digwydd trigo o fewn eu ffiniau (gweler yn enwedig Kymlicka 2001b).[12]

Gwelir felly, yn groes i dybiaeth Carens, y dylai llywodraeth Quebec drin y dasg o gynnal trefn addysg Saesneg fel ymrwymiad moesol; gweithred sy'n

[11] Caiff y cyswllt hanesyddol hwn ei bwysleisio gan gynrychiolwyr y gymuned Anglophone. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn arolwg o bolisi iaith Quebec yn 2001, nododd *Alliance Quebec*, 'Depuis plus de deux siècles, la communauté d'expression anglaise du Québec fait partie intégrante de l'histoire et du développement social, politique, culturel et économique de la province. Quoique notre communauté soit minoritaire, elle est plus que simplement importante ; elle fait partie de l'identité, du tissu et du caractère du Québec' (Ers dwy ganrif a mwy, mae cymuned Saesneg Quebec wedi chwarae rhan ganolog yn hanes a datblygiad cymdeithasol, gwleidyddol, diwylliannol ac economaidd y dalaith. Er bod ein cymuned yn un lleiafrifol, mae hi'n sylfaenol bwysig; mae'n rhan o hunaniaeth, o wead ac o gymeriad Quebec) (Alliance Quebec 2001: 6, cyfieithiad personol).

[12] Yn wir, yr hyn sy'n ddiddorol yw fod Carens ei hun, mewn gwaith diweddarach, hefyd yn cydnabod bod gan 'long settled linguistic minorities' sail gref i ddadlau y dylid darparu gwasanaethau pwysig megis addysg yn eu hiaith (Carens 2000).

angenrheidiol o safbwynt cyfiawnder. Ar y cyfan, gellid dadlau fod hwn yn gasgliad y byddai'r llywodraeth ei hun yn ei dderbyn. Wedi'r cyfan, roedd y Papur Gwyn ar bolisi iaith a gyhoeddwyd ym 1977 fel rhagarweiniad i'r *Charte de la langue française* yn nodi, 'There can be no question of abolishing English education nor of rejecting the cultural tradition which has inspired it until this day' (Le Gouvernement du Québec 1977a: 71). Eto i gyd, tra'n cydnabod na ellir diddymu'r drefn addysg Saesneg, roedd Papur Gwyn llywodraeth Quebec hefyd yn mynnu ei bod yn gwbl dderbyniol o safbwynt moesol i ffrwyno datblygiad yr ysgolion hyn, gan reoleiddio pwy sy'n cael eu mynychu: 'the English school, which forms a special system granted to the present minority in Quebec, must cease being an assimilating force and must then be reserved to those for whom it was created'(Le Gouvernement du Québec 1977a: 71). Mae hyn felly yn ein harwain at gwestiwn pwysig arall: i ba raddau y gall polisi sy'n cyfyngu'r hawl i fynychu ysgolion Saesneg i rai carfanau penodol gael ei gyfri'n dderbyniol o safbwynt moesol?

Rhaid dechrau trwy holi pwy, dros y blynyddoedd, sydd wedi'u hatal rhag mynychu'r ysgolion Saesneg? A siarad yn gyffredinol, gellir rhannu'r bobl hyn yn dair prif carfan: i ddechrau, ceir y Canadiaid hynny sy'n symud i Quebec o daleithiau eraill; yn ail, ceir y sawl sy'n mudo i Quebec o weddill y byd; yn drydydd, ceir aelodau o fwyafrif Francophone Quebec. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon, mae aelodau o bob un o'r carfanau hyn, ar wahanol adegau, wedi mynegi gwrthwynebiad cryf i'r cyfyngiadau a osodir ar argaeledd addysg Saesneg gan bolisïau addysg llywodraeth Quebec. Fodd bynnag, i ba raddau y mae'r cyfyngiadau hyn yn rhai annerbyniol o safbwynt moesol? Yn ystod y paragraffau isod, ystyrir y cwestiwn hwn

mewn perthynas â sefyllfa'r tri grŵp a nodwyd. I ddechrau, rhoddir sylw i achos y Canadiaid hynny sy'n symud i Quebec o daleithiau eraill. Yna, eir ymlaen i ystyried dadleuon y mewnfudwyr a'r Francophones. Caiff y ddau grŵp yma eu trafod gyda'i gilydd, gan fod eu dadleuon mewn perthynas â'r polisi addysg yn aml yn gorgyffwrdd.

Gan fod y polisi addysg gwreiddiol, fel y pasiwyd ef ym 1977, yn cyfyngu'r hawl i fynychu ysgolion Saesneg i'r sawl a oedd â brawd, chwaer neu riant a oedd eisoes wedi derbyn addysg cyfrwng Saesneg rywle yn Quebec, roedd disgwyl i'r mwyafrif helaeth o Ganadiaid a fyddai'n symud yno o daleithiau eraill fynychu'r ysgolion Ffrangeg. Roedd hyn yn sicr yn gam dadleuol. Y teimlad ymhlith nifer o bobl oedd bod y cyfyngiadau hyn ar argaeledd addysg Saesneg mewn un rhan o'r wlad yn cyfyngu ar eu hawliau sylfaenol fel dinasyddion Canadaidd.

O ganlyniad, nid yw'n syndod i gamau gael eu cymryd er mwyn herio'r cymal yma o'r *Charte de la langue française*. Roedd Siarter Hawliau a Rhyddfreiniau, a fabwysiadwyd ym 1982, yn cynnwys cymal a oedd yn nodi y dylai fod gan bob un o drigolion Quebec, neu'r sawl a fyddai'n symud i'r dalaith, yr hawl i dderbyn addysg Saesneg os oedd rhieni'r person eisoes wedi derbyn addysg Saesneg mewn unrhyw ran o Ganada. Arweiniodd hyn at wrthdaro uniongyrchol â pholisi Quebec a oedd yn cyfyngu'r hawl yma i'r sawl a oedd â rhieni a addysgwyd yn Saesneg yn Quebec yn unig. Cyfeiriwyd at y tensiwn yma fel y gwrthdaro rhwng y 'Canada clause' a'r 'Quebec clause'.

Ar sail yr hawliau newydd a grëwyd gan Siarter Hawliau Canada, lansiwyd her gyfreithiol yn erbyn y polisi addysg gan y Quebec Protestant School Boards. Cyrhaeddodd yr achos yr Uchel Lys, ac ym 1984 cyflwynodd y llys ei ddyfarniad. Yn ôl y disgwyl, roedd y dyfarniad hwn yn cefnogi'r her gyfreithiol ac yn datgan y dylai Llywodraeth Quebec gyfnewid y 'Quebec Clause' am y 'Canada clause'. Nododd y llys yn ei ddyfarniad, 'The provisions of s. 73 of Bill 101 collide directly with those of s. 23 of the *Charter*, and are not limits which can be legitimized' (Supreme Court of Canada 1984: Pwynt 59). O ganlyniad, bu'n rhaid i lywodraeth Quebec ddiwygio ei bolisi addysg, gan lacio ar ychydig ar y cyfyngiadau, er mwyn caniatáu i Ganadiaid o daleithiau eraill fynychu'r ysgolion Saesneg hefyd. Fodd bynnag, i ba raddau dylid dehongli'r newidiadau hyn fel rhai angenrheidiol o safbwynt moesol? Tra bod y cyfyngiadau gwreiddiol yn ddadleuol o safbwynt gwleidyddol, ac yn sicr yn groes i ganllawiau cyfansoddiad Canada, a oeddent hefyd yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n dderbyniol i lywodraeth ryddfrydol-democrataidd? Pe bai Quebec yn digwydd dod yn wladwriaeth annibynnol, a fyddai'n dderbyniol iddi droi nôl i'r polisi gwreiddiol o gyfyngu addysg Saesneg i'r sawl oedd â chyswllt â'r dalaith?

I ateb y cwestiynau normadol hyn, rhaid cyfeirio nôl at y drafodaeth uchod ynglŷn â sut dylid dehongli statws cymuned Anglophone Quebec. Bryd hynny, fe gytunwyd â dadl Seymour (2000), sef y dylai'r gymuned Anglophone sy'n trigo yn Quebec gael ei dehongli fel lleiafrif cenedlaethol – hynny yw estyniad ar y genedl Ganadaidd-Saesneg ei hiaith sy'n fwyafrif yng ngweddill tiriogaeth Canada. Credaf fod dehongli statws cymuned Anglophone Quebec mewn termau o'r fath yn meddu ar oblygiadau i'r modd y dehonglir gwrthwynebiadau Canadiaid o daleithiau eraill i'r

polisi addysg gwreiddiol a basiwyd ym 1977. Os ydym yn derbyn bod y lleiafrif Anglophone sy'n trigo yn Quebec yn estyniad ar y genedl Ganadaidd-Saesnig, yna rhaid derbyn bod y sawl sy'n mudo i Quebec o daleithiau megis Alberta neu British Columbia yn dod yn rhan o'r un grŵp. Yn sgil hynny, onid yw'r bobl hyn yn haeddu meddu ar yr un statws a'r aelodau hynny sydd wedi trigo yn Quebec ers cenedlaethau? Credaf fod yn rhaid derbyn eu bod. O ganlyniad, rhaid casglu y byddai'n annerbyniol, o safbwynt moesol, i lywodraeth Quebec eu hatal rhag mynychu ysgolion Saesneg y dalaith.

Gwelir felly y dylai polisi addysg sy'n atal Canadiaid o daleithiau eraill rhag mynychu ysgolion Saesneg yn Quebec gael ei ystyried fel polisi annerbyniol. Fodd bynnag, a ddylid dod i'r un casgliad mewn perthynas â'r sawl sy'n mudo i Quebec o weddill y byd, neu mewn perthynas ag aelodau o gymuned Francophone Quebec? A yw atal aelodau o'r carfanau hyn rhag mynychu'r ysgolion Saesneg hefyd yn annerbyniol o safbwynt moesol? Ystyrir hyn isod, gan gloriannu'n feirniadol amryw o'r dadleuon a ddefnyddiwyd i wrthwynebu'r polisi addysg: yr honiad fod y cyfyngiadau ar argaeledd addysg Saesneg yn tanseilio hawliau mewnfudwyr a Francophones; yr honiad fod y cyfyngiadau yn camwahaniaethu yn erbyn aelodau'r grwpiau hyn; a hefyd yr honiad eu bod yn tanseilio symudoledd cymdeithasol.

Thema gyson yn y beirniadu a fu ar bolisi addysg llywodraeth Quebec yw'r ffaith fod y polisi hwnnw wedi arwain at ddileu hawliau a fu cynt ym meddiant mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone. Fel y gwelwyd yn ystod adrannau cyntaf y bennod hon, cyn pasio deddfau iaith 1974 a 1977 roedd gan aelodau o'r

grwpiau hyn yr hawl gyfreithiol i fynychu ysgolion Ffrangeg neu Saesneg. Yn wir, y ffaith fod cymaint o fewnfudwyr (a hefyd canran nid ansylweddol o aelodau’r gymuned Francophone) yn dewis mynychu’r ysgolion Saesneg a sicrhaodd fod addysg yn bwnc mor allweddol i ddyfodol y Ffrangeg yn Quebec. Wrth gwrs, ni ellir gwadu fod y polisi newydd a fabwysiadwyd ym maes addysg erbyn diwedd y 1970au wedi arwain at ddileu'r hawl hon i ddewis rhwng dwy drefn addysg, a thrwy hynny, cyfyngu ar opsiynau’r mewnfudwr a’r Francophone. Ymhellach, ni ellir gwadu fod hwn wedi bod yn benderfyniad dadleuol, yn bennaf ymhlith mewnfudwyr. Eto i gyd, i ba raddau y dylai’r ymdrech hon i ddileu hawliau a fu cynt yn nwylo grŵp gael ei ystyried fel cam annerbyniol o safbwynt moesol?

Ar y pwynt yma, rwyf yn gytûn â Joseph Carens (2000). Fel yr eglura Carens, tra bod llywodraeth Quebec wedi dileu hawl a fu gynt ym meddiant mewnfudwyr ac aelodau o’r gymuned Francophone, roedd hwn yn gam cwbl dderbyniol. Deillia hyn o’r ffaith nad oedd yr hawl i ddewis rhwng addysg Saesneg ac addysg Ffrangeg yn hawl foesol sylfaenol:

> Quebec has indeed deprived recent immigrants of a legal right that previous immigrants had enjoyed. Nevertheless, I think that Quebec’s policy is entirely justifiable. The previous legal right was never a fundamental moral entitlement ... no one is entitled to an education at public expense in the language of his or her choice ... The change reduced the options for immigrants, but did not deprive them of anything to which they had a fundamental right (Carens 2000: 129).

Er bod y sylwadau uchod o eiddo Carens yn canolbwyntio ar sefyllfa mewnfudwyr, credaf eu bod hefyd yn berthnasol i aelodau cymuned Francophone Quebec. Byrdwn neges Carens yw na all rhywun hawlio bod dyletswydd ar lywodraeth i sicrhau eu bod yn medru derbyn eu haddysg ym mha iaith bynnag a ddymunant. Yn hytrach, mae’n

gwbl dderbyniol i lywodraeth ryddfrydol-democrataidd fynnu bod mewnfudwyr yn mynychu ysgolion sy'n dysgu trwy gyfrwng iaith swyddogol y diriogaeth honno. Yn yr un modd, mae'n amheus iawn a all aelodau o genedl benodol hawlio, fel mater o gyfiawnder, y dylent fedru derbyn addysg gyhoeddus mewn iaith sy'n wahanol i iaith swyddogol eu cenedl. Er enghraifft, er y byddai amryw o ddinasyddion Sweden o bosib yn dymuno derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg, nid wyf o'r farn y gellid hawlio hyn fel mater o gyfiawnder.[13] O ganlyniad, trwy atal mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone rhag mynychu ysgolion Saesneg, nid oedd llywodraeth Quebec yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion sylfaenol. Dyma'r casgliad sy'n arwain Vicki Spencer i ddatgan:

> While the children of francophone and immigrant parents in Quebec are legally compelled to attend francophone public schools, their individual rights are no more violated by Bill 101 than children of most parents in Australia where English is the primary language of the education system (Spencer 2008: 247).

Yn y pen draw felly, gellid dadlau fod llywodraeth Quebec yn gweithredu mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion rhyddfrydol-democrataidd.

Dadl y gellid ei thaflu'n ôl yn erbyn y casgliad uchod yw honno sy'n cyhuddo'r polisi addysg o warantu triniaeth gyfreithiol anghyfartal, gan gamwahaniaethu yn erbyn mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone. Yn ôl y ddadl hon, hyd yn oed os nad oes dyletswydd ar lywodraeth Quebec i sicrhau bod modd i aelodau'r grwpiau hyn dderbyn addysg Saesneg, os yw'r dewis hwnnw eisoes yn cael ei gynnig i rai dinasyddion, yna mae'n annerbyniol, o safbwynt moesol i atal

[13] Gosodaf ystyriaethau ynglŷn â symudoledd cymdeithasol o'r neilltu am nawr. Caiff y mater yma eu drafod maes o law.

eraill rhag gwneud yr un peth. Os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, yna dylai fod yn agored i bawb. Fel y noda Carens:

> One argument against Quebec's policy focuses on the principle of equal treatment ... if it does provide such a system (h.y. addysg Saesneg) it must provide it as an option to all, not just to some. The suggestion is that restricting the English language system to the children of people educated in English in Canada, Quebec is discriminating against the children of immigrants (Carens 2000: 130).

Y ddadl hon oedd yn sail i achos *Gosselin* yn 2005, pan ddygwyd achos gerbron Uchel Lys Canada gan griw o deuluoedd Francophone a oedd yn anhapus nad oeddent ym medru dewis fel y mynnont rhwng y gwahanol fathau o ysgolion sydd ar gael yn Quebec (Supreme Court of Canada 2005). Yn ogystal, câi dadl o'r fath ei mynegi'n gyson gan gynrychiolwyr o'r *Equality Party*, plaid a sefydlwyd i ymladd dros hawliau siaradwyr Saesneg yn ystod y 1990au.[14] Er enghraifft, nododd yr *Equality Party* wrth gyflwyno tystiolaeth i'r arolwg o bolisi iaith a gynhaliwyd yn Quebec yn 2001:

> At present the right to instruction in English depends upon one's parentage and language. For the government to accord accessibility to English language instruction to some and deny it to others on such a basis constitutes a severe and unacceptable form of discrimination. The Equality Party believes in equal access to all educational facilities, independent of language of instruction, one's parentage, one's mother tongue, or one's culture. Just as English-speaking residents – at least those who have eligibility certificates – have the right, the freedom to choose the language of instruction for their sons and daughters, so should French-speaking and new Canadians have that right. They should have equality before the law (The Equality Party, 2001: 19).

[14] Ffurfiwyd yr *Equality Party* ar ddiwedd yr 1980au mewn ymateb i amharodrwydd gwreiddiol llywodraeth Quebec i addasu ei bolisi ar arwyddion cyhioeddus. Aeth y blaid ati i wrthwynebu sawl agwedd arall o'r polisiau iaith, gan fabwysiadu ieithwedd llawer mwy ymosodol na grwpiau eraill megis *Alliance Quebec*. Fel yr awgryma'i enw, galwai'r *Equality Party* am gydraddoldeb llawn rhwng y Ffrangeg a'r Saesneg. Daeth llwyddiant i ran y blaid yn ystod etholiadau taleithiol 1989, pan etholwyd pedwar o aleodau i Gynulliad Cenedlaethol Quebec. Fodd bynnag, collwyd pob un o'r seddi hyn yn ystod yr etholiad canlynol ym 1994, a wedi hynny, edwinodd proffil y blaid yn sylweddol. Erbyn heddiw mae wedi peidio â bod i bob pwrpas; ni chynigiwyd unrhyw ymgeisyddion yn ystod etholiadau taleithiol 2007 na 2008. Am fanylion pellach ynglŷn â gweithgarwch yr *Equality Party* yn ystod y 1990au, gweler Stevenson 1999.

Eto i gyd, i ba raddau y mae sail i'r honiadau hyn? A yw'r polisi addysg wir yn euog o gamwahaniaethu mewn modd annerbyniol yn erbyn mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone?

Nid wyf o'r farn ei fod. Credaf fod polisi addysg llywodraeth Quebec yn trin â mewnfudwyr a hefyd aelodau o'r gymuned Francophone mewn modd teg. Fel y dadleua Carens (2000), mae'r gwrthwynebiad uchod o eiddo'r *Equality Party* ac eraill yn seiliedig ar yr honiad fod aelodau o leiafrif Anglophone Quebec yn meddu ar fantais annheg, ac felly bod eraill yn dioddef gan nad ydynt yn meddu ar yr un cyfleoedd i fynychu ysgolion Saesneg. Fodd bynnag, pan ystyrir yr amgylchiadau ieithyddol sy'n bodoli yn Quebec erbyn heddiw, lle mae'r Ffrangeg yn famiaith i tua 80 y cant o'r boblogaeth a hefyd yn brif iaith llywodraeth a'r byd gwaith, mae honiad o'r fath yn ymddangos yn ddi-sail. Ni fyddai derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg o anghenraid o fantais:

> If the option of attending English language public schools were open to the children of francophone Québécois, but not to the children of immigrants, this argument would be more persuasive. Then one could claim that immigrants were selected for disadvantageous treatment, that the government was not being evenhanded. As it is, the argument depends on the claim that the children of anglophone Canadians are unduly privileged in Quebec in relation to everyone else. It is a claim that seems implausible on its face (Carens 2000: 130).

Fel y noda Carens, nid yw trin pawb yn deg hefyd yn golygu bod yn rhaid trin pawb yn yr un modd.[15] O ganlyniad, gellir casglu nad yw polisi addysg Quebec yn euog o gamwahaniaethu'n annheg yn erbyn mewnfudwyr ac aelodau Francophone.

[15] Yn wir, ymddengys fel pe bai'r *Equality Party* yn dymuno ei chael hi bob ffordd. Weithiau, maent yn dadlau bod agweddau o bolisïau iaith Quebec – er enghraifft y polisïau cyflogaeth pellgyrhaeddol – yn camwahaniaethu yn erbyn aelodau o'r lleiafrif Anglophone. Yna ar adegau eraill, maent yn dadlau bod rhai o'r polisïau yn camwahaniaethu yn erbyn mewnfudwyr ac aelodau o'r mwyafrif Francophone.

Mae Carens hefyd yn gwneud pwynt arall sy'n arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn; pwynt a gaiff ei anghofio'n aml gan y sawl sy'n feirniadol o bolisi addysg Quebec. Y gwir amdani yw bod darpariaeth taleithiau eraill Canada o addysg Saesneg neu Ffrangeg yn gweithredu yn ôl canllawiau digon tebyg i rai Quebec:

> The critics of Quebec's policy rarely mention that the other provinces of Canada are under no obligation to offer French language education to their inhabitants (whether recent immigrants or citizens of long descent) unless the children have a parent who received a French language public education in Canada. Even when there is a system of French language public education established, anglophone parents can be and often are denied the right to send their children to these schools. Thus the question becomes whether the Canadian Constitution is morally justified in providing special guarantees regarding education in the language of one's parents to the to major language groups in Canada. (Carens 2000: 131).

O ganlyniad, os am ddadlau fod polisi addysg Quebec – hynny yw yn eu ffurf bresennol – yn annerbyniol, gan eu bod yn camwahaniaethu yn erbyn rhai grwpiau, rhaid derbyn bod polisïau addysg taleithiau eraill Canada, a'r cyfansoddiad sy'n sail iddynt, yn euog o'r un cyhuddiad hefyd.

Dadl arall y gellid ei defnyddio gan fewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone wrth wrthwynebu'r cyfyngiadau ar argaeledd addysg Saesneg, yw honno sy'n mynnu bod y cyfyngiadau hyn yn cyfrannu at ffrwyno symudoledd cymdeithasol. Wedi'r cyfan, er bod statws y Ffrangeg wedi codi'n aruthrol ers y 1970au, mae gwybodaeth o'r Saesneg yn parhau'n bwysig yng nghyd-destun Gogledd America. Yn wir, cafodd hyn ei atgyfnerthu yn sgil aelodaeth Canada o NAFTA. Fel y noda Michael Keating:

> In the continental market, the language of commerce will be English and, unless the Québécois have fluency in English, then the commercial relations of the province with the rest of North America will be dominated by the Anglophone middle class, most of whose children – in contrast to their parents

> – have learnt French thanks to provincial language policies (Keating, 1998: 477).

O ganlyniad, tra nad yw gwybodaeth o’r Saesneg yn hanfodol bellach ar gyfer byw a gweithio yn Quebec, ni ellir gwadu fod y gallu i siarad yr iaith yn arbennig o ddefnyddiol o safbwynt symudoledd cymdeithasol ar draws Gogledd America.

Yn sicr, bu ymwybyddiaeth o hyn yn ganolog i’r gwrthwynebiad i bolisi addysg Quebec a ddaeth o du mewnfudwyr. Caiff teimladau’r bobl hyn eu crynhoi’n effeithiol yn y dyfyniad isod o waith William Coleman:

> The following statement by a citizen whose mother tongue was Italian illustrates well this opposition: ‘We have left our friends and family and our country behind. We have come all the way to Canada in order to better ourselves and provide for the future of our children. It just simply wouldn’t make sense for us to limit the range of jobs open to our children by educating them in French, for French is only spoken in the province of Quebec. English is the language of North America’ ... The matter was strictly a bread and butter one for the immigrants. Social mobility in North America, including Quebec, was impossible without knowledge of English (Coleman 1984: 202).

Ar y cyfan, wrth fudo i Quebec, nid oedd yn bobl hyn yn ystyried eu bod yn symud i diriogaeth lle roedd y Ffrangeg yn iaith fwyafrifol. Yn hytrach, câi Quebec ei gweld fel un rhan o diriogaeth eang Gogledd America, lle roedd y Saesneg yn ben. O ganlyniad, roedd polisi a oedd yn ymyrryd â gallu pobl i ddysgu’r iaith honno yn cael ei weld fel rhwystr annheg ar lwybr dyrchafiad cymdeithasol. Yn wir, nid dim ond ymhlith mewnfudwyr y cafodd teimladau o’r fath eu mynegi. Mae’n siŵr fod ystyriaethau megis symudoledd cymdeithasol hefyd wedi cyfrannu at benderfyniad y rhieni Francophone hynny a aeth ati i herio’r polisi addysg fel rhan o achos Gosselin yn 2005 (Supreme Court of Canada 2005).

Eto i gyd, i ba raddau y dylid dehongli'r cyfyngiadau presennol ar argaeledd addysg Saesneg fel rhwystr annheg sy'n tanseilio symudoledd cymdeithasol mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone? Does dim amheuaeth fod hybu symudoledd cymdeithasol yn egwyddor bwysig i ryddfrydwyr. Ar ben hynny, gan fod Saesneg yn parhau'n adnodd economaidd allweddol yn sgil safle Quebec yng Ngogledd America, raid cydnabod fod y sawl sy'n dymuno dysgu'r iaith yn meddu ar yr hyn y cyfeiria Carens ato fel 'a legitimate interest' (Carens 2000). Fodd bynnag, nid yw cydnabod hyn yn golygu bod yn rhaid casglu fod y polisi addysg presennol yn annerbyniol. Nid yw gweithredu polisi addysg sy'n datgan y dylai'r mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone fynychu ysgolion Ffrangeg yn tanseilio eu cyfleoedd ar gyfer dyrchafu'n gymdeithasol. Wedi'r cyfan, yn achos iaith hollbresennol fel y Saesneg nid yw'n angenrheidiol fod plentyn yn derbyn ei holl addysg mewn iaith benodol er mwyn dysgu i ddefnyddio'r iaith honno. Yn wir, yn achos plant y sawl sy'n mudo i Quebec, gellid dadlau fod y polisi addysg wedi bod yn un arbennig o llesol o safbwynt symudoledd cymdeithasol, gan eu bod wedi arwain at sefyllfa lle mae'n arferol bellach i'r bobl hyn fod yn dairieithog (Bourhis 2001).

Pe bai llywodraeth Quebec yn mynd ati'n bwrpasol i geisio atal aelodau'r grwpiau hyn rhag dysgu Saesneg, yna mae'n bosib iawn y byddai'n rhaid casglu fod hynny'n annerbyniol. Mae'n siŵr y byddai gweithredu polisi o'r fath yn gwneud y dasg o ddiogelu sefyllfa'r Ffrangeg gymaint yn haws, ond ar yr un pryd, byddai'n cyfyngu'n ormodol ar symudoledd cymdeithasol. Eto i gyd, nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Ydy, mae'r llywodraeth wedi gosod canllawiau sy'n nodi faint o Saesneg y dylid ei ddysgu yn yr ysgolion Ffrangeg (Lamarre 2007 a 2008). Fodd bynnag, nid

yw hyn yn gyfystyr ag atal pobl rhag dysgu'r iaith. Yn hytrach, mae'n rhan naturiol o'r broses o lunio cwricwlwm addysg sy'n sicrhau bod ysgolion cyhoeddus yn meithrin amrediad o sgiliau allweddol; gweithred gwbl dderbyniol mewn gwladwriaeth ryddfrydol-democrataidd.[16]

I grynhoi felly, yn ystod yr adran hon dadleuwyd fod y cyfyngiadau a osodwyd gan lywodraeth Quebec ar argaeledd addysg Saesneg, ar y cyfan, yn rhai teg. Un eithriad oedd i'r casgliad hwn, sef achos y Canadiaid hynny sy'n mudo i Quebec o daleithiau eraill. Eto i gyd, fel y nodwyd, nid yw'r polisi addysg bellach yn effeithio ar aelodau'r garfan yma. Dim ond mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone sydd bellach yn cael eu hatal rhag mynychu'r ysgolion Saesneg, ac mewn perthynas â'r achosion hyn, gwelwyd bod y cyfyngiadau sydd mewn grym yn rhai cwbl dderbyniol sydd ddim yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol sylfaenol.

## 8. Dyfodol y Gymuned Anglophone

At ei gilydd, mae'r gwahanol bolisïau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Quebec wedi arwain at drawsnewid sefyllfa'r Ffrangeg, gan olygu bod rhagolygon yr iaith bellach yn llawer gwell nag oeddent ddeugain mlynedd yn ôl. Ond, yn nhyb cynrychiolwyr y gymuned Anglophone, ni ddigwyddodd hyn heb sgil effeithiau. Erbyn hyn, mae nifer o'r farn fod llwyddiant cyffredinol polisïau iaith Quebec wedi arwain at roi pwysau ar gynaliadwyedd y gymuned Anglophone. Wrth gwrs, nid yw'r sawl sy'n arddel y safbwynt hwn yn awgrymu am eiliad fod y Saesneg ei hun o dan bwysau yn Quebec.

[16] Dros y blynyddoedd diwethaf codwyd rhai cwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd y drefn o ddysgu Saesneg yn ysgolion Ffrangeg Quebec (Lamarre 2007 a 2008). Yn wir, mae'n bosib iawn fod lle i wella. Fodd bynnag, cwestiwn empeiraidd yw hwn yn y pen draw. Nid yw'n gwestiwn sy'n herio dilysrwydd moesol polisi sy'n disgwyl i fewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone fynychu ysgolion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Ffrangeg.

Fodd bynnag, credir fod blynyddoedd o gynllunio o blaid y Ffrangeg wedi cyfrannu at roi pwysau sylweddol ar seiliau sefydliadol a demograffig y lleiafrif Anglophone sydd wedi bodoli yn Quebec ers bron iawn ei chychwyn.[17]

Mae amryw o sylwebwyr bellach wedi cyfeirio at y dirywiad a fu yn llewyrch nifer o sefydliadau allweddol y gymuned Anglophone (Caldwell 1994, 1998; Lamarre 2007, 2008; Bourhis 2008). Ymhlith y sefydliadau hyn ceir ysbytai, llyfrgelloedd, capeli, prifysgolion ac wrth gwrs yr ysgolion. Dyma sefydliadau sydd, yn draddodiadol, wedi darparu ar gyfer y gymuned Anglophone ac wedi cyfrannu at gynnal rhwydweithiau cymunedol pwysig (Alliance Quebec 2001: 5). Fel yr eglura Gary Caldwell (1994, 1998), o safbwynt parhad y gymuned Anglophone, y pwysicaf o'r sefydliadau hyn yw'r ysgolion cynradd ac uwchradd. Eto i gyd, ers y 1970au mae'r ysgolion hyn wedi dirywio'n arw. Ymhellach, ni ellir gwadu fod y dirywiad hwn wedi deillio, i raddau helaeth, o ganlyniad i gymalau addysg y *Charte de la langue française*. Fel y noda Patricia Lamarre:

> There is no denying the fact that Quebec's Charter has had a very important impact on the English language school system. Since the adoption of this legislation, student enrolment in English schools has declined rapidly – from over 200,000 to roughly 100,000 today (Lamarre 2007 : 116).

Nid yw'r ysgolion Saesneg yn medru dibynnu bellach ar lif cyson o fewnfudwyr er mwyn cynnal eu niferoedd. Yn hytrach, mae'r symudiad tuag at addysg Ffrangeg wedi arwain at gwymp sylweddol. O ganlyniad, fel y gwelir o'r dyfyniad uchod, ac fel y

[17] Enghraifft glir o'r safbwynt hwn yw cyflwyniad Alliance Quebec i'r arolwg o bolisïau iaith Quebec a gynhaliwyd yn 2001 (Alliance Quebec 2001). Dylid nodi yma nad yw Alliance Quebec yn bodoli mwyach. Daeth gweithgarwch y mudiad i ben yn 2005 yn dilyn problemau ariannol.

pwysleisia Caldwell (1998: 283) hefyd, mae'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgolion Saesneg wedi'u haneru ers y 1970au.[18]

Caiff y gwendid sefydliadol hwn ei ddwysáu gan y tueddiadau demograffig a welwyd ers y 1970au. I ddechrau, bu dirywiad yng ngraddfa genedigaethau'r gymuned Anglophone (Caldwell 1994: 160). Roedd hyn yn rhan o ddirywiad cyffredinol ar draws Quebec. Ond, ar ben hynny, mudodd nifer helaeth o aelodau'r gymuned Anglophone o Quebec. Caiff maint yr allfudo hwn ei grynhoi isod gan Caldwell:

> In the twenty-year period 1966 to 1986, 520,000 English mother-tongue Quebecers left Quebec, which – if one adds the 53,000 that left between 1986 and 1991 for other provinces, and an as yet unestimated international emigration in the same period – all adds up to a total of 600,000 in twenty-five years (less than a generation) or the equivalent in numbers of the entire English mother-tongue population presently in Quebec' (Caldwell 1998: 280 – 281).

Yn ogystal, mae'n werth nodi'r dyfyniad canlynol o eiddo Villancourt: 'one can calculate that although Anglophones represented 11.8 percent of the Quebec-born population in 1986, they accounted for 60.3 percent of the Quebec-born individuals residing elsewhere in Canada' (Villancourt 1992: 67). Golyga'r tueddiadau demograffig hyn fod y dasg o gynnal sefydliadau cymunedol pwysig yn arbennig o anodd, yn enwedig gan fod y mwyafrif o'r sawl sy'n mudo yn aelodau addysgedig o'r dosbarth canol; yr union bobl sydd, fel arfer, yn cyflawni rôl sifig o'r fath (Caldwell 1998: 282).

---

[18] Dylid nodi, fel y gwna Lamarre (2007) fod y dirywiad hwn wedi arafu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y ganran o blant Quebec sy'n mynychu ysgolion Saesneg wedi codi o 9.6 y cant ym 1992 i 11.2 y cant erbyn 2004. Yn ôl Lamarre, deillia'r cynnydd hwn o'r ffaith bod mwy o blant o gefndir Francophone nawr yn medru mynychu'r ysgolion Saesneg yn sgil y cynnydd a fu mewn priodasau cymysg. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd graddol a welwyd dros y degawd diwethaf wedi newid y ffaith fod yr ysgolion Saesneg nawr yn gweithredu mewn amgylchiadau tipyn yn llai ffafriol na'r rhai a wynebwyd cyn y 1970au.

Dros y blynyddoedd, mynnodd *Alliance Quebec* fod y dirywiad demograffig hwn, fel y dirywiad sefydliadol, yn cael ei yrru, yn rhannol o leiaf, gan natur rhai o bolisïau iaith Quebec. Un agwedd yn arbennig o'r polisïau iaith y cyfeiriwyd ati yn y cyswllt hwn yw'r polisïau cyflogaeth (Alliance Quebec 2001: 24). Fel y gwelwyd eisoes, cymerwyd cyfres o gamau er mwyn sefydlu'r Ffrangeg fel iaith y gweithle yn Quebec. Fodd bynnag, dadleuodd *Alliance Quebec* nad yw'r polisïau hyn yn rhai sydd wedi cael eu cyflwyno a'u gweithredu mewn modd sy'n deg i aelodau'r gymuned Anglophone. Ym 1996 dim ond 0.76 y cant o weithlu gwasanaeth sifil Quebec oedd yn aelodau o'r gymuned Anglophone. Ar yr un pryd, roedd y gymuned honno yn cwmpasu hyd at 14 y cant o boblogaeth y dalaith (Alliance Quebec 2001: 27; gweler hefyd Bourhis 2008). Honnodd *Alliance Quebec* fod y tangynrychioli hwn yn deillio o ragfarnu *de facto* o fewn y farchnad lafur yn erbyn aelodau'r gymuned Anglophone. Mynnwyd mai myth yw'r awgrym nad oes digon o aelodau'r gymuned yn ceisio am swyddi cyhoeddus. Yn hytrach dadleuwyd fod digon yn gwneud ceisiadau, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi.[19] Yn wir, aeth *Alliance Quebec* mor bell ag awgrymu bod ymgeisydd dan anfantais wrth chwilio am swydd os yw ef neu hi'n meddu ar enw Seisnig (Alliance Quebec 2001: 25).

Gwelir felly fod aelodau o gymuned Anglophone Quebec bellach yn teimlo fod y polisïau a fabwysiadwyd o blaid y Ffrangeg wedi arwain, mewn gwahanol ffyrdd, at roi cryn bwysau ar seiliau sefydliadol a demograffig eu cymuned hwy. O

[19] Yn y papur a gyflwynwyd gan *Alliance Quebec* i arolwg iaith 2001, caiff yr honiad hwn ei gefnogi gan gyfeiriad at adroddiad gan *La Commission des droits de la personne et de la jeunesse du Québéc* a oedd yn nodi mai dim ond tua 5 o bob 100 cais sy'n llwyddiannus: 'en dépit du mythe voulant qu'ils ne posent pas leur candidature, le rapport indique clairement que moins de cinq Québécois d'expression anglaise sont embauchés sur chaque centaine de candidats' (er gwaetha'r myth nad ydynt yn cynnig eu hunain fel ymgeiswyr, mae'r adroddiad yn dangos yn glir mai llai na phump Québécois o gefndir Saesneg o bob cant a gaiff eu penodi) (Alliance Quebec 2001: 8, cyfieithiad personol).

wynebu amgylchiadau o'r fath, mae nifer wedi dadlau bod dyletswydd ar lywodraeth Quebec i ymateb i unrhyw ddirywiad, gan weithredu er mwyn sicrhau dyfodol i'r gymuned Anglophone. Er enghraifft, nododd y *Conseil Catholique d'Expression Anglaise* yn ystod yr arolwg o bolisïau iaith Quebec a gynhaliwyd yn 2001:

> Un Québec qui se fixe lui-même l'objectif de respecter ses minorités devrait reconnaître la présence historique, dans toute la province, d'une communauté de langue anglaise multidimensionnelle; il devrait se préoccuper de son déclin continu et adopter des mesures pour favoriser son renouveau (Conseil Catholique d'Expression Anglaise 2001: 12).[20]

Ymhellach, tueddir i ddadlau y dylai unrhyw gymorth a estynnir i'r gymuned Anglophone gynnwys addasu ar agweddau o bolisïau iaith Quebec. Ond sut dylai rhyddfrydwyr ymateb i ddadleuon o'r fath? A oes dyletswydd foesol ar lywodraeth Quebec i sicrhau dyfodol i'r gymuned Anglophone? Ac a oes dyletswydd arni i addasu agweddau o'r polisïau iaith presennol er mwyn hybu amcan o'r fath? Caiff y cwestiynau pwysig hyn eu trafod yn ystod y paragraffau isod.

Fel y gwelwyd yn yr adran gynt wrth drafod y polisi addysg, gall cymuned Anglophone hanesyddol Quebec gael ei dehongli fel lleiafrif cenedlaethol - hynny yw estyniad ar y genedl Ganadaidd-Saesneg ei hiaith sy'n fwyafrif yng ngweddill tiriogaeth Canada (Seymour 2000). O ganlyniad i'r statws arbennig hwn, dylai llywodraeth Quebec boeni ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone. Yn sicr, byddai'n annerbyniol i'r llywodraeth wadu pob cyfrifoldeb drosti, gan fynnu bod galwadau diwylliannol ei haelodau yn meddu ar ddim mwy o bwysigrwydd na galwadau aelodau o wahanol leiafrifoedd ethnig. Eto i gyd, a derbyn bod cymuned

---

[20] Dylai Quebec sy'n gosod i'w hun y nod o barchu ei lleiafrifoedd, gydnabod, ar draws y dalaith, bresenoldeb hanesyddol cymuned Saesneg amlweddog; dylid ymboeni ynglŷn â'i dirywiad parhaus a mabwysiadu mesurau sydd â'r nod o hybu ei hadferiad (Conseil Catholique d'Expression Anglaise 2001: 12, cyfieithiad personol).

Anglophone Quebec yn meddu ar statws arbennig, a ddylid casglu bod yna ddyletswydd ar y llywodraeth i *sicrhau* ei pharhad?

Ar y cyfan, credaf fod y syniad o sicrhau goroesiad neu barhad unrhyw leiafrif diwylliannol yn broblematig, a hynny am resymau ymarferol a moesol. I ddechrau, ar y lefel ymarferol, rhaid cofio fod y dasg o geisio creu dyfodol i leiafrif o'r fath yn un anodd dros ben. Yn wir, ni fyddwn byth yn medru gwybod i sicrwydd a yw'r camau a gymerir gennym i hybu nod o'r fath yn llwyddo i warantu goroesiad grŵp am genedlaethau i ddod. O ganlyniad, teg yw holi a ydyw, mewn gwirionedd, yn ymarferol bosib i sôn am sicrhau goroesiad cymuned ddiwylliannol benodol? Mae'n siŵr y byddai goroesiad grŵp o'r fath yn go debygol pe bai mesurau'n cael eu pasio sydd, er enghraifft, yn ymrwymo pob aelod i aros o fewn tiriogaeth arbennig, neu'n ymrwymo pob aelod i fagu nifer penodol o blant. Fodd bynnag, byddai hyn wedyn yn ein harwain i dir moesol ansicr. At ei gilydd felly, gwelir fod trin a thrafod goroesiad unrhyw gymuned ddiwylliannol fel rhywbeth y gellir ac y dylid ei *sicrhau* yn arbennig o broblematig.[21] O ganlyniad, ni ddylai goroesiad y gymuned Anglophone gael ei weld fel dyletswydd sy'n rhaid i lywodraeth Quebec ei sicrhau.

Fodd bynnag, tra bod sôn am sicrhau goroesiad lleiafrif diwylliannol yn broblematig, nid oes dim o'i le ar geisio *hybu* nod o'r fath, trwy gymryd camau sy'n anelu at greu amodau cefndirol mwy ffafriol. O ganlyniad, rhaid holi i ba raddau y mae llywodraeth Quebec yn gwneud hyn mewn perthynas â'r gymuned Anglophone? Y peth cyntaf i'w nodi yn y cyswllt hwn yw nad yw'r llywodraeth wedi mynd ati'n

[21] Caiff dadleuon tebyg eu mynegi gan Réaume 1991.

fwriadol i erlyn y gymuned Anglophone. Nid yw wedi cyflwyno mesurau creulon sydd a'r nod o atal aelodau unigol rhag ymwneud â'i gilydd fel cymuned. Er enghraifft, nid yw wedi gwahardd unigolion rhag siarad Saesneg ac nid yw wedi gwahardd pobl rhag cyhoeddi cylchgronau Saesneg neu fynychu capeli neu gymdeithasau Saesneg. Yn hyn o beth, mae llywodraeth Quebec yn cydnabod hawl y gymuned Anglophone i fodoli.[22]

Eto i gyd, fel a nodwyd droeon yn ystod y traethawd hwn, mae gallu cymuned ddiwylliannol i gynnal ei hun, fel arfer, yn galw am weithredu ychydig yn fwy cadarnhaol gan lywodraeth. Mewn termau ieithyddol, bydd angen gwneud mwy na dim ond caniatáu i aelodau cymuned arddel eu hiaith gydag eraill. Yn ogystal, bydd galw am elfen o gefnogaeth sefydliadol, er enghraifft darpariaeth o addysg gyhoeddus yn iaith y gymuned ac hefyd amrediad o wasanaethau cyhoeddus pwysig er enghraifft gwasanaethau iechyd. I raddau helaeth, mae llywodraeth Quebec yn cynnig cefnogaeth gadarnhaol o'r fath i aelodau'r gymuned Anglophone. Fel y noda Joseph Carens (1995), mae'r llywodraeth bellach yn darparu amrediad o wasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth addysg sy'n estyn o'r blynyddoedd cynnar i addysg prifysgol, amrediad o wasnaethau iechyd a chymdeithasol pwysig ac hefyd cefnogaeth arinnol i theatrau, cwmniau ffilm a llyfrgelloedd. Yn ogystal, ceir rhwydwaith eang o gyfyngau Saesneg yn Quebec (Dumas 2007; Stevenson 1999). Yn wir, mae llywodraeth Quebec yn aml yn nodi fod

[22] Mae'n bosib y byddai rhai'n dewis dehongli'r cyfyngiadau a osodwyd ar iaith arwyddion cyhoeddus fel enghraifft o lywodraeth Quebec yn mynd ati'n fwriadol i erlyn y gymuned Anglophone. Fodd bynnag, byddai hyn yn annheg. Tra bod y polisi hwn yn un annerbyniol a oedd yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol, ni chafodd ei lunio gyda'r nod penodol o erlyn aelodau'r gymuned Anglophone. Yn hytrach, hybu rhagolygon y Ffrangeg oedd amcan y sawl a luniodd y polisi a sgil effaith i hynny oedd unrhyw niwed a achoswyd.

amgylchiadau'r gymuned Anglophone yn fwy ffafriol o lawer na rhai'r cymunedau Francophone hynny sy'n trigo mewn taleithiau eraill. Eto i gyd, dros y blynyddoedd diwethaf mae rhai o gynrychiolwyr y gymuned Anglophone wedi dadlau y dylai llywodraeth Quebec wneud mwy na dim ond darparu cyfleoedd i dderbyn gwahanol wasanaethau sylfaenol trwy gyfrwng y Saesneg. Ar ben hynny, mynnwyd y dylai'r llywodraeth ymateb yn gadarnhaol i'r dirywiad sefydliadol a demograffig sydd wedi tanseilio rhagolygon y gymuned Anglophone. Ymhellach, dadleuwyd y dylid gwneud hynny trwy addasu'r polisïau iaith presennol (Alliance Quebec 2001). Arweinia hyn felly at yr ail gwestiwn a nodwyd uchod; a oes dyletswydd ar y llywodraeth i addasu agweddau o'i bolisïau iaith yn wyneb gwendid y gymuned Anglophone?

Yma mae pethau'n dechrau mynd yn anodd. Nid yw'n glir pa newidiadau sylfaenol y gallai'r llywodraeth eu cyflwyno er mwyn ymateb i'r problemau sefydliadol a demograffig sy'n wynebu'r gymuned Anglophone, heb greu sefyllfa lle caiff pwysau ei roi ar y Ffrangeg unwaith eto. Fe welir hyn isod wrth ystyried dau o'r meysydd hynny lle bu galw am newid. Ym maes addysg, mae'n bosib iawn y byddai llacio ar reolau mynediad yr ysgolion Saesneg yn arwain at chwyddo niferoedd yr ysgolion hyn ac felly yn atal y dirywiad presennol. Ond, ar yr un pryd, byddai cam o'r fath yn codi'r peryg o ddychwelyd at sefyllfa lle câi'r Ffrangeg ei rhoi dan bwysau, gan fod mewnfudwyr yn mynychu ysgolion Saesneg ac yn mabwysiadu'r iaith honno'n unig wrth ymgartrefu yn Quebec. Ym maes cyflogaeth, mae'n bosib y byddai addasu ychydig ar y polisi presennol o ddatgan mai'r Ffrangeg yw iaith y gweithle, gan sicrhau mwy o gyfle i weithio'n Saesneg, yn annog mwy o aelodau ifanc y gymuned Anglophone i aros yn Quebec yn hytrach na mudo i daleithiau eraill i

chwilio am waith. Ond, byddai gwneud hynny'n camu nôl at sefyllfa lle roedd baich dwyieithrwydd yn tueddu i gael ei osod yn llwyr ar ysgwyddau'r mwyafrif Francophone. Wrth gwrs, dylai'r llywodraeth sicrhau fod polisi cyflogaeth o'r fath yn cael ei weithredu mewn modd sy'n rhoi cyfle teg i'r sawl sydd ddim yn siarad Ffrangeg fel mamiaith, er enghraifft trwy ddarparu digon o gyfle i ddysgu'r iaith ac hefyd trwy ddileu unrhyw ragfarnu ymhlith cyflogwyr. Eto i gyd, dim ond diwygio'r modd y mae'r polisi presennol yn cael ei weithredu fyddai cam o'r fath, ac nid ei addasu mewn unrhyw fodd sylfaenol.

Yn y pen draw, tra bod dyletswydd ar lywodraeth Quebec i roi ystyriaeth i sefyllfa'r lleiafrif Anglophone hanesyddol, rhaid cofio ei bod hefyd yn gwbl dderbyniol i'r llywodraeth gymryd camau i hybu rhagolygon yr iaith a'r diwylliant Ffrangeg. O ganlyniad, ni ellir casglu fod y llywodraeth yn gweithredu mewn modd annerbyniol mewn perthynas â'r gymuned Anglophone, trwy ymatal rhag addasu ei pholisïau iaith presennol. Wedi'r cyfan, nid yw'r polisïau hyn wedi arwain at erlyn aelodau'r gymuned honno na thramgwyddo rhyddfreiniau sylfaenol (ar wahân i eithriad y polisi arwyddion). Ar yr un pryd, ni ddylid diystyru dadleuon yr aelodau hynny o'r gymuned Anglophone sy'n poeni, er enghraifft, ynglŷn â dyfodol eu hysgolion. Y gwir amdani yn yr achos hwn, yw fod y ddwy ochr yn meddu ar fuddiannau pwysig. Eto i gyd, byddai mynd ati i geisio bodloni un ochr yn llwyr yn debygol o fod yn niweidiol iawn i'r ochr arall. Fel a welwyd uchod, ac fel mae amryw o sylwebwyr wedi nodi, byddai addasu'n sylweddol ar y polisïau iaith presennol, gan symud i sefyllfa lle mae'r Saesneg a'r Ffrangeg yn cael eu trin fwy neu lai'n gydradd,

yn debygol o arwain at sefyllfa lle câi'r Ffrangeg ei rhoi dan bwysau unwaith eto (Larrivée 2003).

O ganlyniad, rhaid ceisio canfod ffordd deg o gyfaddawdu rhwng gwahanol fuddiannau. A siarad yn gyffredinol, golyga hyn fod llywodraeth Quebec, ar y naill llaw, yn derbyn bod y gymuned Anglophone yn meddu ar statws arbennig ac felly bod dyletswydd arni i roi ystyriaeth i'w sefyllfa, wrth ddatblygu polisïau. Ar y llaw arall, golyga fod aelodau'r gymuned Anglophone yn derbyn eu bod yn aelodau o gymuned leiafrifol sy'n meddu ar nodweddion diwylliannol arbennig o ddylanwadol, a'i bod, felly, yn gwbl briodol i lywodraeth Quebec gloriannu rhai o'u galwadau ieithyddol ochr yn ochr â'r nod ehangach o geisio creu dyfodol i'r iaith a'r diwylliant Ffrangeg. Sylweddolaf nad yw'r casgliad hwn yn un cwbl bendant. Fodd bynnag, credaf fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod terfyn i'r hyn y gellir disgwyl ei gyflawni trwy gyfrwng trafodaeth normadol gyffredinol. Yn y pen draw, rhaid i faterion anodd fel hyn gael eu datrys trwy gyfrwng trafodaeth wleidyddol agored sy'n cael ei chynnal ar sail dealltwriaeth o bwysigrwydd buddiannau'r gwahanol gyfranogwyr.

**9. Casgliadau**

Yn ystod y bennod hon, cloriannwyd gwahanol agweddau o'r polisïau a fabwysiadwyd gan lywodraeth Quebec fel rhan o'i hymdrech i geisio codi statws y Ffrangeg. Yn benodol, holwyd a yw rhai o'r polisïau hyn wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel polisïau annerbyniol o safbwynt moesol.

Mewn perthynas â'r achos cyntaf, sef y polisi arwyddion dadleuol a oedd yn datgan mai dim ond Ffrangeg gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus, daethpwyd i'r casgliad ei fod yn annerbyniol. Gwelwyd fod polisi o'r fath yn cyfyngu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Er ei fod wedi'i fabwysiadu fel rhan o ymdrech ddilys i hybu rhagolygon y Ffrangeg, roedd yn bolisi a oedd yn amharu'n ormodol ar allu aelodau unigol o gymdeithas Quebec i ddefnyddio ieithoedd eraill. O ganlyniad, roedd Uchel Lys Canada yn gywir wrth ddatgan fod polisi o'r fath yn annerbyniol. Ar ben hynny, roedd hi'n gwbl gywir fod llywodraeth Quebec, yn y pen draw, wedi gorfod addasu'r polisi, gan fabwysiadu canllawiau mwy rhesymol a oedd yn datgan y dylai'r Ffrangeg dderbyn goruchafiaeth ar unrhyw arwydd cyhoeddus.

Yr ail achos a ystyriwyd oedd polisi addysg llywodraeth Quebec, ac yn benodol, y cyfyngiadau hynny a osodwyd ar argaeledd addysg Saesneg. Dadleuwyd fod y cyfyngiadau hyn, ar y cyfan, yn rhai teg. Un eithriad oedd i'r casgliad hwn, sef achos y Canadiaid hynny sy'n mudo i Quebec o daleithiau eraill. Eto i gyd, fel y nodwyd, nid yw'r polisi addysg bellach yn effeithio ar aelodau'r garfan yma. Dim ond mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone sydd bellach yn cael eu hatal rhag mynychu'r ysgolion Saesneg, ac mewn perthynas â'r achosion hyn, gwelwyd bod y cyfyngiadau sydd mewn grym yn rhai derbyniol sydd ddim yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol sylfaenol.

Roedd y trydydd achos a drafodwyd ychydig yn wahanol i'r ddau gyntaf. Yn hytrach na thrafod polisi penodol, ystyriwyd y drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, a'r gwyn fod effaith gyffredinol y polisïau iaith a

weithredwyd dros y blynyddoedd bellach wedi arwain at danseilio cynaliadwyedd y gymuned honno. Yn yr achos hwn, nid oedd hi'n bosib dod i gasgliad cwbl bendant, fel y gwnaed mewn perthynas â'r ddau achos arall. Ar y naill law, dadleuwyd ei bod yn dderbyniol i lywodraeth Quebec geisio dyrchafu rhagolygon y Ffrangeg, ac felly nid yw'n gweithredu mewn modd annerbyniol mewn perthynas â'r gymuned Anglophone, trwy ymatal rhag addasu ei pholisïau iaith presennol. Wedi'r cyfan, nid yw'r polisïau hyn wedi arwain at erlyn aelodau'r gymuned honno, na thramgwyddo rhyddfreiniau sylfaenol (ar wahân i eithriad posib y polisi arwyddion). Ar ben hynny, rhaid cofio y byddai unrhyw addasu sylweddol yn codi'r peryg o greu sefyllfa lle câi'r Ffrangeg ei rhoi dan bwysau unwaith eto. Ond, ar y llaw arall, nodwyd na ddylid diystyru pryderon y gymuned Anglophone. Dyma gymuned hanesyddol sydd wedi bodoli yn Quebec ers bron iawn ei chychwyn ac felly mae galwadau ei haelodau yn meddu ar statws arbennig. Mewn gwirionedd, mae hwn yn achos anodd, lle mae gwahanol fuddiannau dilys yn gwrthdaro. O ganlyniad, rwyf yn amheus ynglŷn ag i ba raddau y gall trafodaeth normadol gyffredinol, tebyg i'r un a gafwyd yma, ddod i gasgliadau pendant mewn perthynas ag achos o'r fath. Yn y pen draw, bydd datrysiad llawn i unrhyw wrthdaro ond yn deillio o drafodaeth ddemocrataidd agored sy'n canfod ffordd deg o gydbwyso gwahanol fuddiannau.

# 5. *Iaith Pawb*: Adfer y Gymraeg yng Nghymru

## 1. Cyflwyniad

O'i chymharu â'r Ffrangeg yn Quebec, nid yw sefyllfa'r Gymraeg yn ymddangos yn arbennig o addawol. Yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad diwethaf, a gynhaliwyd yn 2001, dim ond tua 20 y cant o'r boblogaeth sy'n medru siarad yr iaith (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2003a). Fodd bynnag, dros y degawdau diwethaf, cymerwyd nifer o gamau pwysig – i ddechrau gan y llywodraeth Brydeinig ganolog ac yna'n ddiweddarach gan lywodraeth ddatganoledig Cymru – er mwyn ceisio adfer ei rhagolygon. Mae'r camau hyn wedi cyffwrdd ar amrediad eang o feysydd, gan gynnwys statws cyhoeddus y Gymraeg, y cyfryngau, byd addysg a hefyd cynllunio a datblygu economaidd. Nid ydynt wedi arwain at sicrhau cydraddoldeb llawn i'r iaith ochr yn ochr â'r Saesneg, ac ni ellir dweud chwaith bod ei dyfodol yn gwbl sicr erbyn heddiw (Jenkins a Williams 2000). Fodd bynnag, nid oes modd gwadu bod sefyllfa'r Gymraeg bellach yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd ychydig dros ddeugain mlynedd yn ôl.

Fel yn achos y bennod flaenorol, amcan y bennod hon fydd ceisio cloriannu, o bersbectif rhyddfrydol, ddilysrwydd moesol rhai o'r camau hynny a gymerwyd wrth geisio cynnal ac adfer sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Ystyrir tri achos yn benodol. I ddechrau, trafodir yr arfer cynyddol o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol mewn perthynas â nifer o swyddi cyhoeddus. Dyma bolisi sydd wedi ennyn gwrthwynebiad gan ei fod, yn nhyb rhai, yn tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol megis cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail gallu a theilyngdod. Yn ail, ystyrir y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru i geisio sefydlu'r Gymraeg

fel prif iaith addysg gynradd yn yr ardaloedd hyn. Mae'r sawl sydd wedi gwrthwynebu polisïau o'r fath wedi dadlau eu bod yn annerbyniol gan eu bod yn tramgwyddo hawliau sylfaenol ym maes addysg ac yn gorfodi plant ifanc i ddysgu iaith benodol. Yn drydydd, ystyrir dilysrwydd y camau diweddar a gymerwyd i geisio dylanwadu ar arferion ieithyddol y teulu trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn wahanol i'r ddau achos arall, ni fu unrhyw wrthwynebiad chwyrn i'r polisi hwn. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yma gan ei fod yn achos sy'n codi nifer o gwestiynau normadol diddorol, yn enwedig felly i ryddfrydwyr. A siarad yn gyffredinol, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r lefel o ddylanwad sy'n briodol i unrhyw wladwriaeth geisio'i estyn dros arferion preifat ei dinasyddion. Ym mhob un o'r achosion hyn byddaf yn holi a oes unrhyw le i amau dilysrwydd y camau a gymerwyd gan gynllunwyr iaith yng Nghymru. A yw'r polisïau iaith hynny a fabwysiadwyd ganddynt wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel rhai annerbyniol o safbwynt moesol?

Fodd bynnag, cyn gellir mynd ati i gynnal trafodaeth normadol o'r fath, rhaid magu dealltwriaeth o gefndir yr achos dan sylw. O ganlyniad, dyna fydd amcan adrannau cyntaf y bennod hon. I ddechrau, ceisir egluro natur y berthynas wleidyddol, gyfreithiol a sefydliadol sydd wedi nodweddu perthynas Cymru a gwladwriaeth Prydain. Yna, eir ati i drafod natur y ffactorau hynny sydd wedi cyfrannu at ddirywiad sylweddol yr iaith Gymraeg dros y canrifoedd. Yn olaf, amlinellir rhai o'r prif gamau a gymerwyd ers y 1960au er mwyn ceisio gwrthdroi'r dirywiad hwn ac adfer rhagolygon y Gymraeg. O wneud hyn, bydd modd camu ymlaen yn hyderus yn ystod

ail hanner y bennod i drin a thrafod dilysrwydd moesol gwahanol agweddau o bolisïau iaith Cymru.

**2. Cymru o Fewn Prydain**

I raddau helaeth, caiff hanes y Gymru fodern ei nodweddu gan ei hymgorfforiad pellgyrhaeddol o fewn fframwaith gwleidyddol, cyfreithiol a sefydliadol gwladwriaeth Prydain. Yn wir, caiff natur yr ymgorfforiad hwn ei chyfleu'n effeithiol gan yr ymadrodd gweinyddol cyfarwydd, *England and Wales,* a ddefnyddir wrth gyfeirio at amrediad eang o sefydliadau a rhaglenni (May 2001). Fe'i hamlygir hefyd gan y ffaith na châi Cymru ei chydnabod fel un o 'genhedloedd Prydain' hyd nes degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tan hynny, y gred gyffredinol oedd bod Prydain ond yn uniad o dair cenedl – Lloegr, yr Alban ac Iwerddon (Morgan 1982, 1995)

Wrth gwrs, mae gwreiddiau ymgorfforiad Cymru yn ymestyn yn ôl i'r Canol Oesoedd; syrthiodd y wlad yn gynyddol o dan ddylanwad coron Lloegr yn dilyn Concwest Edward I ym 1282, a chyhoeddi Statud Rhuddlan ym 1284. Fodd bynnag, ni chafodd ei gadarnhau'n ffurfiol tan yr unfed ganrif ar bymtheg, pan basiwyd Deddfau Uno 1536 a 1542 gan lywodraeth Harri'r VIII. Yn sgil y deddfau hyn sefydlwyd lle Cymru, mewn modd cwbl ddiamwys, fel rhan o drefn wleidyddol, gyfreithiol a gweinyddol ganolog gwladwriaeth Lloegr, a dros amser, arweiniodd hyn at sugno'r elit Cymreig i grombil y drefn ddosbarth Seisnig (Davies 2007; Jenkins 1992).

Ni chafodd y trefniadau hyn eu herio mewn unrhyw fodd arwyddocaol hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bryd hynny gwelwyd yr arwyddion cyntaf o ddatblygiad mudiad cenedlaethol Cymreig (Morgan 1981). Un o sgil effeithiau'r ymchwydd hwn mewn ymwybyddiaeth genedlaethol oedd creu nifer o sefydliadau cenedlaethol – er enghraifft Prifysgol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a’r Amgueddfa Genedlaethol – a hefyd pasio nifer o fesurau penodol Gymreig yn y senedd yn San Steffan – er enghraifft Deddf Cau ar y Sul 1881, Deddf Llywodraeth Leol 1888 a Deddf Addysg 1889. Eto i gyd, er gwaetha’r enillion hyn, roedd rhannau helaeth o drefniadau gwleidyddol a chymdeithasol Cymru yn parhau’n gwbl ddiwahân o rai Lloegr (May 2001).

Gwelwyd datblygiadau pellach yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Er enghraifft, ym 1956 cafodd Caerdydd ei chydnabod yn swyddogol fel prifddinas genedlaethol. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn dechreuodd Cymru gael ei chydnabod fwyfwy fel uned weinyddol unigol, ac yn raddol, esgorodd hyn ar fframwaith sefydliadol a biwrocrataidd Cymreig (Morgan 1981). Heb os, un o’r digwyddiadau pwysicaf yn y broses hon oedd y penderfyniad i sefydlu’r Swyddfa Gymreig ym 1964. Yn wreiddiol, rôl symbolaidd, yn fwy na dim arall, a briodolwyd i’r swyddfa hon. Ond, dros amser, trosglwyddwyd iddi gyfrifoldebau gweinyddol sylweddol dros sawl agwedd o fywyd Cymru. Esgorodd hyn, yn ei dro, ar amrediad cynyddol o ddeddfau seneddol a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru, yn eu plith deddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg (1967 a 1993).

Ym 1999, camodd y broses hon o ddatganoli gweinyddol i lefel gwbl newydd gyda sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, corff etholedig a chanddo 60 o aelodau. Deilliodd hyn o bleidlais gadarnhaol gan bobl Cymru mewn refferendwm ddwy flynedd yng nghynt. Trosglwyddwyd i'r corff newydd hwn yr holl rymoedd gweinyddol a chyllidol a oedd gynt yn nwylo'r Swyddfa Gymreig, gan gynnwys rhannau helaeth o feysydd megis addysg, trafnidiaeth, iechyd a datblygu economaidd. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Alban, nid estynnwyd iddo unrhyw rymoedd deddfwriaethol na threthiannol (Taylor a Thompson 1999). Cymerwyd cam i'r cyfeiriad hwn gyda'r diwygiadau a gyflwynwyd yn sgil pasio Deddf Llywodraeth Cymru yn 2006. Yn ogystal mae'n fwriad i gynnal refferendwm ar ymestyn grymoedd y Cynulliad ymhellach ryw dro yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gallu'r corff i weithredu agenda polisi annibynnol yn parhau i ddibynnu, i raddau helaeth, ar ewyllys da llywodraeth San Steffan (Wyn Jones 2006).

Gwelir felly fod hanes y berthynas rhwng Cymru a gwladwriaeth Prydain yn un a nodweddwyd, tan yn ddiweddar iawn, gan ymgorfforiad gwleidyddol a sefydliadol pellgyrhaeddol. Yn wir, fel yr awgryma May (2001), diddorol yw cyferbynnu natur yr ymgorfforiad hwn â phrofiad mwy annibynnol yr Alban, rhywbeth a gaiff ei danlinellu wrth ystyried y gwahaniaethau sydd i'w cael rhwng trefniadau datganoli'r ddwy wlad. Fodd bynnag, o ran sefyllfa'r Gymraeg, mae rhai, er enghraifft Richard Jenkins (1991), wedi dadlau fod ymgorfforiad Cymru wedi cyfrannu at greu gwagle cymdeithasol ar ei chyfer a bod hyn, i raddau, wedi arafu ei dirywiad. Fel yr eglura Stephen May wrth drafod safbwynt Jenkins:

> ... it can be argued that *political* incorporation has actually facilitated the *cultural* distinctiveness of the Welsh – principally through the maintenance of

> their language and cultural traditions. Richard Jenkins (1991) argues, for example, that Welsh incorporation within the British state may have actually *created* the social and economic space within which the Welsh language and culture could survive. The Welsh language may have been proscribed from the civic realm from the time of the (1536) Act of Union, and may have been regarded, along with its culture, as antediluvian. However, it was not viewed as a threat to the state (May 2001: 256).

Roedd hyn yn cyferbynnu'n sylweddol â phrofiadau ieithoedd a diwylliannau Gaeleg yr Alban ac Iwerddon. O ganlyniad, awgryma May y gall gwahaniaeth hwn gyfrannu at egluro pam na fu dirywiad y Gymraeg mor syfrdanol a phellgyrhaeddol â dirywiad rhai o'r ieithoedd Celtaidd eraill. Boed hynny'n wir ai peidio, ni ellir gwadu mai dirywio'n arw wnaeth y Gymraeg hefyd yn y pen draw ac mai'r broses hon fu un o nodweddion amlycaf hanes Cymru dros y canrifoedd. Fel y mae May'n cydnabod (2001: 256), 'the Anglicisation of Wales remains the most prominent feature of the nation's history.'

### 3. Dirywiad y Gymraeg

Wrth gwrs, mae gwreiddiau dirywiad y Gymraeg yn ymestyn yn ôl dros gyfnod o ganrifoedd. Mor gynnar â'r unfed ganrif ar ddeg, yn fuan wedi'r goncwest Normanaidd, roedd ei statws yn cael ei herio gan ymlediad y Lladin a'r Ffrangeg. Yna, erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, gyda dylanwad y Saesneg ar gynnydd, dechreuodd gael ei disodli o feysydd pwysig, megis y gyfraith, lle bu gynt yn cael ei defnyddio'n gyson. Eto i gyd, ni chafodd y broses o gau'r Gymraeg allan o fywyd cyhoeddus Cymru ei chadarnhau a'i ffurfioli'n derfynol tan 1536, pan basiwyd y gyntaf o Ddeddfau Uno Harri'r VIII. Datganodd cymalau iaith y ddeddf hon mai'r Saesneg yn unig a fyddai bellach yn cael ei defnyddio fel iaith llywodraeth a'r llysoedd ac na ddylai'r un person na fedrai siarad Saesneg ddal

unrhyw swydd gyhoeddus. Yn wir, fel y nododd May (2001), ac fel y gwelir o'r dyfyniad isod, roedd y ddeddf yn gwbl ddiamwys ynglŷn â statws israddol (neu yn wir ddiffyg statws) y Gymraeg:

> ... from hensforth no personne or personnes that use the Welsshe speche or language shall have or enjoy any maner office or fees within the Realme of Englonde Wales or other the Kinges dominions upon peyn or forfaiting the same offices or fees onles he or they use and exercise the speche or language of Englisshe ('Cymal Iaith' Deddf Uno 1536, dyfynnwyd yn Davies 1993: 21).

Arweiniodd y cymal hwn at greu sefyllfa lle mai'r unig bau ffurfiol lle câi'r Gymraeg ei defnyddio – tu hwnt i rai preifat ac anffurfiol y teulu a'r gymuned leol – oedd yr eglwys.

Fodd bynnag, profodd y gallu hwn i ennill troedle fel iaith gwasanaethau crefyddol yn gwbl allweddol. Deilliodd yn bennaf o benderfyniad Elizabeth I, ym 1563, i ganiatáu i'r Beibl gael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Ar y pryd, roedd Ewrop yn cael ei rhwygo gan y gwrthdaro crefyddol a ddeilliodd o ymlediad y Diwygiad Protestannaidd. Yn y cyd-destun hwn daeth llywodraeth Prydain i'r casgliad mai pwysicach oedd sicrhau cydymffurfiaeth grefyddol nag unffurfiaeth ieithyddol ac felly gorchmynnwyd y dylai Cymry uniaith fedru mynychu gwasanaethau a gynhelid trwy gyfrwng iaith a ddeallent (Davies 1993). Ar yr olwg gyntaf, ymddengys hyn fel penderfyniad a oedd yn rhedeg yn gwbl groes i amcanion y Deddfau Uno a basiwyd ond rai degawdau ynghynt. Fodd bynnag, nid oedd y penderfyniad yn amlygu unrhyw awydd ar ran Elizabeth i gydnabod a dyrchafu statws y Gymraeg. Fel y noda May:

> The principle reason for the concession – as for the Act – had to do with facilitating integration of the Welsh into Britain. More pertinently, the authorisation was *not* an endorsement of the Welsh language but was, again, specifically assimilations in intent. The provisions for the authorisation state clearly that its purpose was that 'such as do not understand the said Language

> [Welsh] may be conferring both Tongues together, the sooner attain Knowledge of the English Tongue (May 2001: 258).

O ganlyniad, ochr yn ochr â'r gobaith o hybu heddwch crefyddol, hybu ymlediad y Saesneg ymhlith y Cymry oedd bwriad Elizabeth.

Eto i gyd, yr eironi mawr yw mai prif gyfraniad y Beibl Cymraeg – a ymddangosodd ym 1588 yn dilyn blynyddoedd o waith gan yr Esgob William Morgan – oedd atgyfnerthu sefyllfa'r iaith yn wyneb pwysau cynyddol y Saesneg. Cyfrannodd at safoni'r iaith ac fel yr eglura Janet Davies (1993) roedd yr iaith safonol hon yn cael ei chlywed gan y Cymry mewn gwasanaethau Sul ar ôl Sul. Caiff arwyddocâd y broses hon ei chrynhoi yn effeithiol gan May:

> Crucially, it allowed Welsh to remain a standardised literary language, with the *capacity* to be used in any domain (even if it was not so used). Despite the fact that it was still regarded as a low-status language, the literary standard provided by the 1588 translation prevented the language from diverging into mutually incomprehensible dialects and/or atrophying altogether' (May 2001: 258).

Yn wir, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gorchest William Morgan. Ar y pryd, y Gymraeg oedd yr unig un o ieithoedd di-wladwriaeth Ewrop i gael ei defnyddio yn y fath fodd; ffaith arall sy'n cyfrannu at egluro pam y bu hynt Gymraeg dros y canrifoedd canlynol mor wahanol i hynt ieithoedd tebyg megis y Wyddeleg a Gaeleg yr Alban (Davies 1993).

Fodd bynnag, er gwaethaf arwyddocâd y Beibl Cymraeg, nid oedd yn ddigon, ar ben ei hun, i wrthsefyll y dirywiad graddol a fu yn statws a bri'r Gymraeg. Amlygwyd y dirywiad hwn gan ymddygiad y bonedd Cymreig yn dilyn pasio'r Deddfau Uno. Golygai'r ffaith fod y Gymraeg wedi'i chau allan yn ffurfiol o fywyd

cyhoeddus bod dyrchafiad cymdeithasol y bobl hyn bellach yn dibynnu ar feistroli’r Saesneg. Dyna a wnaethant felly; i ddechrau fel iaith atodol, ac yna, maes o law, fel eu prif iaith. Esblygodd y broses hon yn raddol, gyda natur y newid ieithyddol ymhlith y bonedd yn amrywio o ardal i ardal. Fodd bynnag, erbyn tua diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd yr arfer wedi’i hen sefydlu (Davies 1993). Ond, er gwaethaf y newidiadau yn arferion ieithyddol y bonedd, parhaodd y Gymraeg i ddal ei thir fel prif iaith y mwyafrif helaeth o’r boblogaeth. Er enghraifft yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg roedd tua 90 y cant o’r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg a chanran sylweddol iawn o’r rhain yn uniaith Gymraeg (Jenkins 1992; Jenkins 1997).

I raddau helaeth, y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y cyfnod lle gwelwyd y patrwm hwn yn cael ei drawsnewid. Yn wir, pan ystyrir digwyddiadau’r ganrif hon, ymddengys fel pe bai llu o elfennau gwahanol oll wedi dod ynghyd gan gydgynllwynio i danseilio’r iaith (Jenkins 1999). Eto i gyd, ar yr wyneb, anodd fyddai credu hyn o ystyried y dystiolaeth ynglŷn â’r niferoedd o siaradwyr Cymraeg a drigai yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Ar ddechrau’r ganrif, roedd gan Gymru boblogaeth o ryw 600,000 ac roedd y trwch ohonynt yn siarad Cymraeg yn gyson, ‘a mwy na hanner miliwn ohonynt, yn ôl pob tebyg, yn Gymry uniaith’. O ganlyniad, ‘y Gymraeg oedd yn teyrnasu yn y cartref, y gweithle a’r addoldai’ ac er nad oedd yn meddu ar statws swyddogol, ‘nid oedd lle i bryderu y câi ei disodli fel prif gyfrwng cyfathrebu beunyddiol’ (Jenkins 1999: 1). Yn wir, hyd yn oed mor hwyr â 1891 – pan gynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf a oedd yn cynnwys cwestiwn penodol ynglŷn â gallu ieithyddol – roedd 910,289 o bobl yn siarad Cymraeg. Cynyddodd y ffigwr hwn

ymhellach yn ystod y degawdau canlynol, gan gyrraedd 977,366 o siaradwyr erbyn 1911.

Fodd bynnag, pan ystyrir y niferoedd hyn fel canran o'r boblogaeth yn gyffredinol, gwelir nad oedd y sefyllfa mor iach â hynny erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif. Ym 1891, roedd tua miliwn o siaradwyr Cymraeg ond yn cyfri am 54.4 y cant o'r boblogaeth. Erbyn 1901, roedd y ganran hon wedi syrthio i 49.9, ac erbyn 1911 dim ond 43.5 y cant o'r boblogaeth oedd yn siarad yr iaith. O ganlyniad, erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif dim ond lleiafrif o boblogaeth Cymru oedd yn medru siarad Cymraeg: newid syfrdanol o ystyried sut oedd pethau rai degawdau yng nghynt. O ganlyniad hyn, gellir deall pam y datganodd J. E. Southall ym 1893, 'All the while ... the nineteenth century was sharpening its knives, and gradually gathering strength, to dispute further advances' (dyfynnwyd yn H. T. Edwards 1987: 123). Ond beth a arweiniodd at y fath newid syfrdanol?

I ddechrau rhaid ystyried dylanwad y newidiadau economaidd a demograffig a arweiniodd at drawsnewid Cymru'n llwyr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y noda Geraint Jenkins, rhwng 1801 a 1911 profodd Cymru 'newid mwy sylfaenol nag a welsai ar unrhyw adeg cyn hynny' (Jenkins 1999: 1) ac nid oes unrhyw elfen o ormodiaeth yn perthyn i'r gosodiad hwn. Caiff hyn ei danlinellu dim ond trwy ystyried rhai ffigyrau moel. Rhwng 1801 a 1851 bu i boblogaeth Cymru bron a dyblu, gan godi o 601,767 i 1,188,914, cyn dyblu eto, gan gyrraedd 2,442,041 erbyn 1911 (Jenkins 1998, 1999). Law yn llaw gyda'r cynnydd hwn mewn niferoedd, gwelwyd newid sylfaenol yn nosbarthiad y boblogaeth. Dyma'r cyfnod lle gwelwyd pobl yn

dechrau gadael y wlad, gan fudo i'r trefi mawr newydd. Mentrodd nifer o Gymry tu hwnt i Glawdd Offa. Er enghraifft, erbyn 1901 roedd 180,000 ohonynt yn byw yn Llundain (Jenkins 1999). Fodd bynnag, symudiad llawer mwy arwyddocaol oedd hwnnw a welodd miloedd ar filoedd o Gymru yn mudo o siroedd gwledig y gorllewin a'r canolbarth i Faes Glo De Cymru ac, i raddau llai, i Faes Glo'r Gogledd Ddwyrain a'r ardaloedd chwarelyddol.

Yn wreiddiol, nid oedd effeithiau'r symudiad poblogaeth hwn yn arbennig o niweidiol i ragolygon yr iaith Gymraeg. Yr oll a olygai, mewn gwirionedd, oedd bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu crynhoi mewn rhannau newydd o'r wlad, siroedd megis Morgannwg a Mynwy.[1] Fodd bynnag, erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn enwedig o 1870 ymlaen, cynyddodd y ganran o boblogaeth y Gymru ddiwydiannol a oedd wedi'u geni yn Lloegr ac felly ddim yn siarad Cymraeg. Er enghraifft, erbyn 1911 roedd y ganran hon wedi codi i 16 y cant ac, yn nhyb Jenkins, nid oes dwywaith fod y mudo cynyddol hwn o Loegr wedi arwain, dros amser, at danseilio statws y Gymraeg fel prif iaith gwaith a chymdeithasu mewn rhannau helaeth o Gymru (Jenkins 1999).

Eto i gyd, nid dim ond mewn termau strwythurol o'r fath y mae egluro dirywiad syfrdanol y Gymraeg yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Rhaid hefyd ystyried y 'pwysau cymdeithasol,

[1] Yn wir, aeth Brinley Thomas (1959) mor bell â dadlau bod y broses hon o fudo mewnol wedi bod yn arbennig o llesol i ragolygon yr iaith Gymraeg. Golygodd bod 'siroedd Morgannwg a Mynwy wedi derbyn trallwysiad enfawr o Gymreictod o wythiennau cymdeithas cefn gwlad' a bod y mudwyr Cymreig, 'trwy wladychu eu gwlad eu hunain', wedi sicrhau bod profiad y Cymry yn gwbl wahanol i brofiad y Gwyddelod (Jenkins 1999: 3). Caiff agwedd Thomas ei chrynhoi yn effeithiol gan y dyfyniad canlynol, 'The unrighteous Mammon in opening up the coalfields at such a pace unwittingly gave the Welsh language a new lease of life' (Thomas 1959: 192, dyfynnwyd yn Jenkins 1998: 5).

ideolegol a seicolegol grymus a weithiai o blaid y Saesneg' (Jenkins 1998: 12). Wrth gwrs, nid oedd hwn yn bwysau cwbl newydd; ymestynnai nôl i gyfnod y Deddfau Uno a chynt. Ond, yn ystod oes Victoria, lleisiwyd dadleuon ynglŷn â goruchafiaeth gynhenid y Saesneg, ynghyd â natur israddol a chyntefig y Gymraeg, gydag arddeliad a ffyrnigrwydd nas gwelwyd o'r blaen.

Cynnydd a moderniaeth oedd themâu mawr yr oes a darluniwyd y Gymraeg fel nodwedd a oedd yn rhwystr i'r pethau hyn. Caiff y sefyllfa ei chrynhoi fel a ganlyn gan Geraint Jenkins:

> Yr oedd Cynnydd yn ganolog i syniadaeth oes Victoria ac ni ellir llai na sylwi mor fynych y defnyddid y geiriau 'buddiol', 'llesol' a 'defnyddiol' mewn llenyddiaeth Gymraeg. Credid bod unrhyw iaith na allai gystadlu'n effeithiol ym 'mrwydr bywyd' wedi ei thynghedu i ddirywio a darfod amdani. Yr oedd unigolyddiaeth *laissez-faire*, penderfyniaeth economaidd, a damcaniaeth esblygiad i gyd yn pwysleisio'r ysbryd cystadleuol, a chan fod yr ieithoedd Celtaidd a oedd ar gyrion ynysfor Iwerydd yn cael eu hystyried yn 'ddinod', yn 'annatblygedig' ac yn 'farbaraidd', yr oeddent yn amlwg yn rhwystro Cynnydd (Jenkins 1999; 7).

Yn anochel, cafodd y darlun hwn o'r Gymraeg fel nodwedd a oedd yn rhwystro cynnydd ei dderbyn a'i fewnoli gan ganran helaeth o'r boblogaeth a chyfrannodd hyn, dros amser, at y newid mewn arferion ieithyddol welwyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn wir, mae rhai wedi mynd mor bell â dadlau mai'r pwysau cymdeithasol hwn, yn fwy na dim arall, a gyfrannodd at ddirywiad syfrdanol y Gymraeg erbyn degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Er enghraifft, nododd Hywel Teifi Edwards:

> O awydd taer y Cymry i'w hystyried yn gymeradwy yng ngolwg 'the mighty necessity of civilization' y tarddodd yr agweddau at y Gymraeg a oedd ar y gorau i ganiatáu iddi le anymwthiol ym mywyd y genedl, ac a oedd ar y gwaethaf i'w bwrw ymaith, weithiau'n ddagreuol-ymddiheurol ac weithiau'n ymosodol-falch. Y mae'n wir fod y ffactorau allanol a gysylltir â holl broses diwydiannu – dyfodiad y trên, twf y boblogaeth a mewnlifiad estroniaid o 1850 ymlaen – i gyd i raddau pendant yn dylanwadu ar stad yr iaith yn Oes Aur Victoria drwy hwyluso a chyflymu moddion Seisnigeiddio. Ond ... gellid

> yn hawdd fod wedi adeiladu dyfodol diogel i'r iaith petai'r ewyllys i wneud hynny'n bod (Edwards 1987: 132 – 133).

Yn nhyb Edwards, er gwaethaf maint y newidiadau economaidd a demograffig a brofwyd yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gallasai pobl Cymru fod wedi ymgodymu â hwy, gan gynnal statws y Gymraeg mewn nifer o beuoedd cymdeithasol pwysig, pe na bai holl 'synnwyr cyffredin' y cyfnod wedi milwrio yn erbyn ymdrech o'r fath.

Amhosib yw dweud i sicrwydd a fyddai'r Cymry wedi cael mwy o lwyddiant wrth gynnal y Gymraeg pe bai syniadau dirmygus yr oes heb wreiddio mor ddwfn. Fodd bynnag, mae'n annhebyg fod y syniadau hyn wedi rhoi unrhyw hwb i ragolygon yr iaith. Ar y gorau, y cyfan a wnaethant oedd cyfrannu at ddwysau sefyllfa go anffafriol. Ymhellach, wrth drafod dylanwad y syniadau hyn, rhaid pwysleisio nad rhai a ymledodd ar hap oeddent, yn sgil prosesau anuniongyrchol. Yn hytrach, cawsant eu cyflwyno i bobl Cymru gyda sêl bendith ac awdurdod y wladwriaeth Brydeinig. Fel y nododd Geraint Jenkins, 'Yn ymhlyg yn imperialaeth ddiwylliannol y dydd yr oedd y syniad fod gan y llywodraeth gyfrifoldeb i ryddhau'r Cymru rhag yr unieithrwydd oedd yn eu llesteirio' (1999: 7).

Ni cheir enghraifft well o effaith andwyol y meddylfryd hwn na hanes Brad y Llyfrau Gleision. Dyma yw'r enw drwg-enwog a roddwyd i'r adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a luniwyd ar ran y llywodraeth ym 1847 gan dri bargyfreithiwr ifanc Seisnig. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd gan y tri yma yn cynnwys nifer o bwyntiau digon teilwng ynglŷn â natur gyfyng ac anghyson y drefn addysg a fodolai yng Nghymru ar y pryd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol yw

iddynt fynd ati i briodoli'r holl wendidau hyn i ddylanwad parhaol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn wir, mynnwyd mai nodweddion o'r fath oedd yn bennaf gyfrifol am yr holl broblemau cymdeithasol ac economaidd a oedd yn llethu rhannau o Gymru ar y pryd (Davies 1993). Caiff ysbryd yr adroddiad ei grynhoi'n effeithiol gan y dyfyniad damniol hwn:

> The Welsh language is a vast drawback on Wales and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It bars the access of improving knowledge to their minds. Because of their language the mass of the Welsh people are inferior to the English in every branch of practical knowledge and skill (dyfynnwyd yn Edwards 1987: 127).

Mae haneswyr bellach bron oll yn gytûn i'r adroddiad hwn gael effaith andwyol ar arferion ieithyddol nifer sylweddol o Gymry. Tybiwyd mai'r unig ffordd o achub cam y genedl ac o ennill parch y Saeson oedd trwy osod heibio'r Gymraeg a chofleidio'r Saesneg (Davies 1993; Jenkins 1998, 1999; Williams 1985).[2] Arweiniodd hyn, yn ei dro, at gynnig cyfiawnhad i gynnwys Deddf Addysg 1870 – dyma'r ddeddf a sefydlodd drefn addysg elfennol ar gyfer Lloegr a Chymru gan wahardd y Gymraeg rhag cael ei dysgu yn ysgolion Cymru.

At ei gilydd felly cafodd y syniadau cymdeithasol a boblogeiddiwyd yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg effaith andwyol ar hunan hyder siaradwyr Cymraeg. Fel yr eglura May:

> ... where previously Welsh monolinguliasm and de facto bilingualism had been the norm, English monolingualism was increasingly to replace them both. Many Welsh-speaking parents, for example, while continuing to speak Welsh

[2] Yn wir, mae Hywel Teifi Edwards (1987) yn gwbl ddamniol yn ei gondemniad o effaith y 'rhagfarn wenwynig' a geir rhwng cloriau'r 'Llyfrau Gleision'. Yn ei dyb ef, casgliadau'r adroddiad hwn, yn fwy na dim arall, sydd i gyfri am yr agweddau dilornus tuag at y Gymraeg a gafodd eu mabwysiadu a'u mewnoli gan nifer helaeth o Cymry dros y ganrif ddiwethaf: 'Trwy'r ganrif a hanner a ddilynodd cyhoeddi'r llyfrau Gleision ni pheidiodd cnul eu pharagraffau mwyaf iasoer â seinio yn ymwybyddiaeth y Cymry' (H. T. Edwards 1987: 127). Boed hwn yn gasgliad cwbl deg ai peidio, ni ellir gwadu i'r adroddiad gael effaith ddofn ar agweddau pobl Cymru tuag at eu hiaith.

> among themselves, stopped speaking it to their children. The result at the individual level, as for so many other minority-language speakers, was the generational loss of the language (May 2001: 260).

Yn wir, pan ystyrir natur y grymoedd economaidd, cymdeithasol ac ideolegol a oedd yn milwrio yn erbyn y Gymraeg erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni ddylai ei dirywiad pellach a chyflymach yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac yn enwedig yn ystod hanner cyntaf y ganrif honno (Williams 2000), fod yn destun syndod.[3] Mewn gwirionedd, y syndod mwyaf yw na fu'r dirywiad hwn yn fwy pellgyrhaeddol, a bod, er gwaethaf popeth, canran nid ansylweddol o bobl Cymru sy'n parhau i ddefnyddio'r iaith fel eu cyfrwng cyfathrebu dyddiol. Yn wir, yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf, a gynhaliwyd yn 2001, mae hon yn ganran sydd eto ar gynnydd. I raddau helaeth, mae hyn yn tystio i'r ymdrechion cynyddol a wnaed dros y degawdau diwethaf i geisio ailgodi statws y Gymraeg ac i ehangu ar y defnydd a wneir ohoni.[4]

## 4. Ailgodi'r Gymraeg

Fel arfer, i'r 1960au y bydd haneswyr yn troi eu golygon wrth drafod gwreiddiau'r ymdrechion hyn i adfer yr iaith. Wrth gwrs, cymerwyd amryw o gamau pwysig cyn hynny; Deddf Llysoedd 1942 er enghraifft (Davies 1994). Fodd bynnag yn ystod y 1960au y gwelwyd dyfodol y Gymraeg yn troi'n bwnc a oedd yn galw am sylw difrifol gan lywodraeth y dydd. Hybwyd y broses hon gan ddarlith radio enwog Saunders Lewis, *Tynged yr Iaith*, a draddodwyd ym 1962 a hefyd yn sgil ffurfio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mudiad ymgyrchu a wnâi ddefnydd o ddulliau

[3] Am drafodaeth o ddirywiad pellach y Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif gweler Carter 1990 a Jenkins a Williams 2000.
[4] Erbyn 2001 roedd 20.8 y cant o bobl Cymru dros dair oed (582,400 o bobl) yn dweud eu bod yn medru siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 18.7 y cant (508,100 o bobl) a ddywedodd yn 1991 eu bod yn siarad Cymraeg, a 19.0 y cant (503,500 o bobl) yn 1981 (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2003a). Am ymdriniaeth fanwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2001 gweler Aitchison a Carter 2004.

uniongyrchol a di-drais (Phillips 2000). Arweiniodd gweithgarwch cynnar y mudiad hwn at amryw o gonsesiynau pwysig, megis arwyddion ffyrdd dwyieithog, trwyddedi ceir dwyieithog a hefyd amryw o ffurflenni swyddogol eraill. Bu galw hefyd am ddeddfwriaeth iaith, er mwyn sicrhau statws swyddogol llawn i'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y ddeddf a basiwyd gan y Llywodraeth Lafur ym 1967 yn siom fawr i garedigion yr iaith; y cyfan a wnâi oedd estyn 'ddilysrwydd cyfartal' i'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, gan osgoi gosod unrhyw ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg neu alluogi pobl Cymru i fynnu gwasanaethau Cymraeg (Jenkins a Williams 2000).

Dilynwyd hyn yn ystod yr 1970au a'r 1980au gan amryw o ddatblygiadau pwysig eraill. Ym myd y cyfryngau, arweiniodd ymgyrchu penderfynol at sefydlu Radio Cymru ym 1977 ac ym 1982 sefydlwyd y sianel deledu Gymraeg, Sianel Pedwar Cymru (S4C) (Jenkins a Williams 2000). Yn ogystal, yn ystod y degawdau hyn gwelwyd y twf sylweddol yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar y lefelau cynradd ac uwchradd (Williams 2002). Ymhellach, ategwyd y datblygiadau addysgiadol hyn gan Ddeddf Addysg 1988 a arweiniodd at sefydlu'r Gymraeg fel pwnc gorfodol, boed fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn y cwricwlwm Cymreig (Jenkins a Williams 2000; Williams 2000). Eto i gyd, er bod datblygiadau o'r fath wedi cyfrannau ar godi statws y Gymraeg ac at hybu defnydd ehangach ohoni, ychydig o feddwl strategol a fodolai tu ôl iddynt. Ar y cyfan, fel yn achos Deddf Iaith 1967, ymatebion cyndyn oeddent gan lywodraeth ganolog i ymgyrchoedd penderfynol, yn hytrach nag enghreifftiau o gynllunio ieithyddol cydlynol (Phillips 2000). Yn wir, mae cyferbynnu'r datblygiadau a fu yng Nghymru yn ystod y cyfnod

hwn gyda'r cynllunio llawer mwy trefnus o blaid y Ffrangeg yn Quebec yn arbennig o ddadlennol.

I raddau helaeth, yr un oedd yr hanes yn achos y broses a arweiniodd at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ar ôl cyfnod hir o wrthod pob galw am ddeddfwriaeth o'r fath, penderfynodd y Llywodraeth Geidwadol, ym 1988, sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff anstatudol, gan roi iddo'r gwaith o fraenaru'r tir ar gyfer deddfwriaeth iaith newydd a fyddai'n disodli hen ddeddf anfoddhaol 1967 (Jenkins a Williams 2000). Pan basiwyd y ddeddf newydd, bum mlynedd yn ddiweddarach, ailsefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff statudol a gorchmynnwyd i gyrff cyhoeddus fynd ati i lunio cynlluniau iaith a fyddai'n amlinellu sut fyddent yn trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (Williams 2000). Fel yn achos Deddf 1967, roedd y ddeddf hon yn destun siom i lawer o garedigion y Gymraeg a chyfeiriwyd droeon at ei gwendidau dros y blynyddoedd. Yr amlycaf o'r rhain oedd y ffaith nad oedd y ddeddf yn estyn statws swyddogol i'r Gymraeg, ac yn sgil hynny cydraddoldeb llawn a'r Saesneg, a hefyd y ffaith nad oedd yn cyffwrdd â'r sector preifat (Davies 1994, 2000). Eto i gyd, er gwaethaf y gwendidau pwysig hyn, ni ellir gwadu fod pasio Deddf Iaith 1993 wedi bod yn garreg filltir bwysig. Ar y lefel fwyaf arwynebol, arweiniodd at godi statws cyhoeddus y Gymraeg i lefel nas gwelwyd o'r blaen. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, roedd sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel corff statudol a chanddo gyfrifoldeb penodol dros gynllunio ieithyddol, yn caniatáu i bolisi iaith yng Nghymru symud ymlaen o'r hen ysbryd adweithiol a nodweddai ei ddatblygiad yn ystod y degawdau cynt (Williams 2000).

Daeth cyfle i gymryd camau pellach i'r cyfeiriad hwnnw pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori go sylweddol, mabwysiadodd y llywodraeth ddatganoledig newydd gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, *Iaith Pawb* (Llywodraeth y Cynulliad 2003). Nid arweiniodd y cynllun hwn at unrhyw newidiadau deddfwriaethol – ffaith a barodd gryn siom i rai – ond, er gwaethaf hyn, roedd yn ddogfen arwyddocaol gan iddo nodi cam arall yn y broses o gynllunio i ddiogelu a datblygu rhagolygon y Gymraeg. Nodwyd yn y rhagarweiniad, 'Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gefnogi a hybu'r Gymraeg ... byddwn yn gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i greu'r amodau cywir lle gall yr iaith Gymraeg dyfu a blodeuo ym mhob agwedd o fywyd Cymru' (Llywodraeth y Cynulliad 2002: 2). Roedd rhai o brif amcanion y cynllun yn cynnwys datblygu mentrau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith rhieni a phlant ifanc a hefyd amrediad o fentrau cymdeithasol ac economaidd i sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny lle bu, yn draddodiadol, yn brif iaith y gymuned. Er mwyn hybu'r gwaith hwn, cynyddwyd yn sylweddol ar faint y grant cyhoeddus a ddyrannwyd i'r iaith Gymraeg.[5]

Gwelir felly fod camau pwysig wedi'u cymryd dros y degawdau diwethaf i hybu rhagolygon yr iaith Gymraeg. Mae'r camau hyn wedi cyffwrdd ar amrediad eang o feysydd, gan gynnwys statws cyhoeddus yr iaith, y cyfryngau, byd addysg a hefyd cynllunio a datblygu economaidd. Nid ydynt wedi arwain at sicrhau cydraddoldeb llawn i'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, ac ni ellir dweud chwaith bod dyfodol y Gymraeg yn gwbl sicr erbyn heddiw (Jenkins a Williams 2000). Fodd bynnag, ni ellir

[5] Wrth reswm, dim ond crynodeb eithriadol o arwynebol o gynnwys *Iaith Pawb* (2003) a geir yma. Nid yw'r gofod yn caniatáu ymdriniaeth fanwl o gryfderau a gwanediadau'r cynllun. Am drafodaeth o'r fath, gweler Williams (2004).

gwadu bod yr iaith bellach yn meddu ar le ym mywyd Cymru nad oedd yn ei mwynhau ychydig dros ddeugain mlynedd yn ôl.

Ar yr un pryd, rhaid cydnabod nad yw'r broses sydd wedi arwain at y sefyllfa hon wastad wedi bod yn un hwylus. Fel yn achos Quebec, ar wahanol adegau dros y blynyddoedd diwethaf bu polisïau neu gynlluniau ieithyddol yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o boblogaeth Cymru. Ymhellach, fel yn achos Quebec, mae'r trafodaethau cyhoeddus sydd wedi deillio o wrthwynebiadau'r carfanau hyn yn aml wedi codi nifer o gwestiynau normadol diddorol; cwestiynau ynglŷn â pha mor bell y gall gwladwriaeth rhyddfrydol-democrataidd fynd wrth geisio adfer rhagolygon iaith leiafrifol debyg i'r Gymraeg. Gan mai amcan ail ran y traethawd ymchwil hwn yw dod i gasgliadau ynglŷn â rhai o'r terfynau normadol y dylai rhyddfrydwyr eu gosod ar ymdrechion o'r fath bydd adrannau nesaf y bennod yn edrych ar rai o'r tensiynau penodol sydd wedi codi mewn perthynas â'r polisïau iaith a fabwysiadwyd yng Nghymru.

Ystyrir tri achos yn benodol. I ddechrau, trafodir yr arfer cynyddol o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol mewn perthynas â nifer o swyddi cyhoeddus. Dyma bolisi sydd wedi ennyn gwrthwynebiad gan ei fod, yn nhyb rhai, yn tramgwyddo egwyddorion megis cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail gallu a theilyngdod. Yn ail, ystyrir y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru i geisio sefydlu'r Gymraeg fel prif iaith addysg gynradd yn yr ardaloedd hyn. Mae'r sawl sydd wedi gwrthwynebu polisïau o'r fath wedi dadlau eu bod yn annerbyniol gan eu bod yn tramgwyddo hawliau sylfaenol ym maes addysg ac yn gorfodi plant ifanc i ddysgu

iaith benodol. Yn drydydd, ystyrir dilysrwydd y camau diweddar a gymerwyd i geisio dylanwadu ar arferion ieithyddol y teulu, trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn wahanol i'r ddau achos arall, ni fu unrhyw wrthwynebiad i'r polisi hwn. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yma gan ei fod yn achos sy'n codi nifer o gwestiynau normadol diddorol, yn enwedig felly i ryddfrydwyr. A siarad yn gyffredinol, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r lefel o ddylanwad sy'n briodol i unrhyw wladwriaeth geisio'i estyn dros arferion preifat ei dinasyddion. Ym mhob un o'r achosion hyn byddaf yn holi a oes unrhyw le i amau dilysrwydd y camau a gymerwyd gan gynllunwyr iaith yng Nghymru. A yw'r polisïau iaith hynny a fabwysiadwyd ganddynt wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig, ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel rhai annerbyniol o safbwynt moesol?

Fel y nodwyd yn ystod y bennod flaenorol, rhaid pwysleisio nad ceisio dod i gasgliadau ynglŷn â chryfderau a gwendidau polisïau yw'r nod. Ni fyddaf felly yn holi a fyddai mathau gwahanol o bolisïau, er enghraifft ym maes addysg neu gyflogaeth, wedi bod yn fwy llesol i ragolygon y Gymraeg. Yn hytrach, fy unig fwriad fydd ystyried i ba raddau y gall y camau hynny a gymerwyd o blaid y Gymraeg yn y meysydd dan sylw gael eu hystyried fel rhai derbyniol, sydd ddim yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol. Dyma drafodaeth ychydig yn wahanol, ac mae'n bwysig fod y darllenydd yn deall hynny wrth symud ymlaen i'r adrannau nesaf.

**5. Y Gymraeg yn y Gweithle**

Nodwyd eisoes fod pasio Deddf Iaith 1993 wedi bod yn garreg filltir bwysig o safbwynt statws y Gymraeg, gan iddi osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus

yng Nghymru i drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau (HMSO 1993; Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996). Wrth reswm, y newid mwyaf trawiadol a ddeilliodd o'r gorchymyn hwn oedd y cynnydd sylweddol a fu yn statws gweledol y Gymraeg, trwy gyfrwng amrediad eang o arwyddion a thaflenni. Serch hynny, roedd y ddeddf hefyd yn meddu ar oblygiadau pwysig i'r ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg wrth i gyrff cyhoeddus drefnu a recriwtio staff. Wedi'r cyfan, os yw corff yn bwriadu cynnig darpariaeth ystyrlon o wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd, yna mae'n hollbwysig fod hyn yn ymestyn tu hwnt i ffurflenni ac arwyddion dwyieithog. Rhaid iddo hefyd gynnwys y gallu i ymwneud yn uniongyrchol â swyddogion perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y noda May:

> The end result envisaged for each organisation is that public-service provision through Welsh should be a natural, integral part of the planning and delivery of that service. For this to occur, a sufficient number of Welsh-speaking staff is required ... This, in turn, will require the active recruitment of Welsh-speaking staff (May 2001: 264).

Felly, ar y lefel swyddogol o leiaf, gellir dadlau fod Deddf Iaith 1993 wedi arwain at sefyllfa lle roedd disgwyl i gyrff cyhoeddus roi sylw arbennig i'r gwaith o recriwtio a phenodi staff a siaradai Gymraeg.

Yn sicr, dyna yw'r awgrym wrth ddarllen y canllawiau ar gyfer llunio cynlluniau iaith a gyhoeddwyd gan Fwrdd yw Iaith Gymraeg ym 1996. Wrth drafod yr angen am staff sy'n siarad Cymraeg, noda'r canllawiau hyn, 'dylai'r sefydliad, mewn modd gwrthrychol, glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg yn sgil hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996: 37). Yna, ychydig yn ddiweddarach fe ychwanegir:

> ... dylai'r sefydliad ystyried y ffordd orau i gyflawni yr amcanion staffio a bennir ... Gall y dewis sydd ar gael gynnwys trosglwyddo staff sy'n siarad

> Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol, darparu hyfforddiant dysgu Cymraeg i staff, a recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithleoedd neu swyddi penodol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996: 37).

Dyma awgrym go glir felly fod y canllawiau swyddogol a ddeilliodd o ddeddf 1993 yn disgwyl i gyrff cyhoeddus gynllunio'n fwriadus er mwyn cyrraedd sefyllfa lle roedd nifer o swyddi allweddol yn cael eu dal gan unigolion a oedd yn meddu ar y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Eto i gyd, i ba raddau y mae gweithgarwch cyrff cyhoeddus ers 1993 wedi cyd-fynd â'r dyhead swyddogol hwn? A siarad yn gyffredinol, dros y pymtheg mlynedd diwethaf ni welwyd gweithredu tebyg i'r hyn a ragwelwyd yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ni ellir gwadu y bu cynnydd yn yr ystyriaeth a roddwyd i anghenion ieithyddol gwahanol swyddi o'i gymharu â'r sefyllfa a fodolai cynt. Bellach caiff amryw o swyddi cyhoeddus eu hysbysebu fel rhai lle caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel sgìl dymunol neu hanfodol. Fodd bynnag, tuedda hyn i ddigwydd mewn modd braidd yn *ad hoc* a bu amrywiaeth sylweddol o ran yr ymrwymiad a ddangoswyd gan wahanol gyrff. Yn sicr, bu'r mwyafrif helaeth ohonynt yn amharod iawn i wthio pethau gan lunio'r math o raglenni hyfforddiant a recriwtio pellgyrhaeddol a ddisgrifiwyd uchod.

Pam felly na fu cyrff cyhoeddus yn fwy parod i hybu newid yn y maes hwn? Un broblem y cyfeirir ato o bryd i'w gilydd gan wahanol gyrff yw'r prinder siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i lenwi rhai mathau o swyddi. I ba raddau y mae hyn yn esgus credadwy? Yn sicr, yn sgil sefyllfa'r Gymraeg fel iaith leiafrifol, ni ellir gwadu bod y gronfa o ymgeiswyr posib dipyn yn llai yn achos swyddi hynny sy'n galw am y gallu i

siarad yr iaith. Eto i gyd, anodd yw derbyn mai dyma'n unig sydd i gyfri am y diffyg symud a fu ers 1993. Nid yw hyn, ar ben ei hun, yn egluro'r diffyg sylweddol o ran brwdfrydedd a hyder a ddangoswyd gan nifer helaeth o gyrff cyhoeddus wrth geisio recriwtio staff sydd â'r gallu i wasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rheswm arall, tipyn mwy credadwy, yw'r ffaith fod yr arfer o osod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol yn parhau'n ddadleuol dros ben mewn rhai cylchoedd. Yn wir, ar sawl achlysur bu'r pwnc yn destun gwrthwynebiadau go chwyrn. Dyma yn fwy na dim arall sydd i gyfri am y ffaith fod nifer helaeth o gyrff wedi bod yn amharod i gymryd y camau hynny a ragwelwyd wrth i Fwrdd yr Iaith lunio ei ganllawiau nol ym 1996. Cafodd natur ddadleuol y pwnc ei gadarnhau mewn gwaith ymchwil o eiddo May (2000) a oedd yn trafod agweddau gwahanol garfanau tuag at y polisïau iaith a fabwysiadwyd yng Nghymru ers dechrau'r 1990au. Fel y noda May: 'In short, the idea of minority language compulsion, even within a bilingual framework, still engenders considerable opposition – particularly, with respect to employment' (May 2000: 118).

Ond beth sydd wrth wraidd y gwrthwynebiad hwn i'r broses o ddyrchafu statws y Gymraeg o fewn y gweithlu Cymreig? A siarad yn gyffredinol, mae'r sawl sy'n wrthwynebus i'r broses yn teimlo bod dynodi swyddi penodol fel rhai lle caiff y gallu i siarad Cymraeg ei ystyried fel sgìl hanfodol, yn rhoi'r sawl sydd ddim yn siarad yr iaith mewn sefyllfa gwbl annheg. Yn fwy penodol, credir fod cyflwyno ystyriaethau diwylliannol, megis iaith, i'r broses o recriwtio a phenodi staff, yn arwain at danseilio'r syniad o gyfle cyfartal ym maes cyflogaeth, trwy achosi cyrff i gamu i ffwrdd o'r egwyddor o ddosbarthu swyddi ar sail gallu a theilyngdod.

Mae rhai wedi mynd mor bell ag awgrymu mai rhagfarn hiliol yn erbyn siaradwyr Saesneg sy'n cymell cyflogwyr i anwybyddu egwyddorion o'r fath. Enghraifft arbennig o enwog oedd achos *Jones v Cyngor Sir Gwynedd* (1985). Bryd hynny, dygwyd achos tribiwnlys yn erbyn y cyngor o dan Ddeddf Cysylltiadau Hil 1974. Deilliodd hyn o'r ffaith fod dwy wraig, Phyllis Jones a Justine Doyle, yn mynnu eu bod wedi dioddef rhagfarn hiliol wrth law'r cyngor, gan iddo wrthod cynnig swyddi iddynt yn rhai o gartrefi henoed y sir ar sail y ffaith nad oeddent yn siarad Cymraeg. Yn y gwrandawiad gwreiddiol, dyfarnodd y tribiwnlys cyflogaeth o blaid y ddwy, gan gadarnhau'r cyhuddiad fod Cyngor Gwynedd wedi ymddwyn tuag atynt mewn modd hiliol trwy wrthod eu cyflogi ar sail eu gallu ieithyddol. Fodd bynnag, flwyddyn yn ddiweddarach, cafodd y dyfarniad ei wrthdroi mewn achos apêl (Davies 1994). Wrth wrthdroi'r dyfarniad gwreiddiol nododd y Barnwr Kilner Brown:

> Recognising the obvious - that the Welsh are a nation and an ethnic group - the industrial tribunal concluded that the Welsh ethnic group could and should be sub-divided into two distinct sub-groups, namely, those who were described as English-speaking Welsh and those who were described as Welsh-speaking Welsh ... So, the industrial tribunal concluded that the two ladies were discriminated against by being required to become members of the first group when they were members of the second ... the decision is wholly unreasonable ... We cannot believe that, for example, a Mrs Jones from Holyhead who speaks Welsh as well as English is to be regarded as belonging to a different racial group from her dear friend, Mrs Thomas from Colwyn Bay who speaks only English. The concept seems to us to be as artificial as the proposition that 5,000 or so spectators at Cardiff Arms Park who are fluent in Welsh are a different racial group from the 45,000 or so whose command of the Welsh tongue is limited to the rendering of the Welsh national anthem, or 'Sosban Fach'. An Englishman who dared to suggest this would be in danger of his life! (Employment Appeal Tribunal 1986: 5).

Derbyniwyd felly nad oedd dim byd hiliol ynglŷn ag ymgais Cyngor Gwynedd i sicrhau bod y bobl hynny a weithiai i adran gwasanaethau cymdeithasol y sir yn meddu ar y gallu i siarad Cymraeg. Yn wir, yn dilyn yr achos hwn gwelwyd y

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cymryd camau bwriadol i dynnu'r Gymraeg allan o'r drafodaeth ynglŷn â hiliaeth mewn meysydd megis byd gwaith.[6]

Fodd bynnag, hyd yn oed os derbynnir nad rhagfarn hiliol sy'n esgor ar y dyhead i ddynodi swyddi penodol fel rhai sy'n galw am y gallu i siarad Cymraeg, mae nifer yn dal o'r farn ei fod yn arfer sy'n meddu ar oblygiadau difrifol i'r syniad o degwch a chyfle cyfartal ym maes cyflogaeth. Un o'r bobl hynny oedd y darlledwr profiadol Vincent Kane. Daeth hyn i'r amlwg wrth iddo drafod statws cynyddol y Gymraeg ym maes cyflogaeth yn ystod rhaglen deledu a ddarlledwyd gan BBC Wales ym 1995, fel rhan o'r gyfres materion cyfoes *Kanes's Wales*.[7] Yn nhyb Kane, roedd yr ymdrechion i godi statws y Gymraeg yn y maes hwn yn prysur arwain at sefyllfa lle câi'r sawl nad oedd yn siarad yr iaith eu trin yn annheg. Bellach, nid ar sail cystadleuaeth agored a chyfartal a oedd yn gwobrwyo gallu a theilyngdod y cai nifer o swyddi eu dosbarthu, ond, yn hytrach, ar sail ystyriaethau ieithyddol artiffisial. Mynnodd fod hyn yn anfoesol – 'the morality of it should give us pause' – a hefyd ei fod yn beryglus o ran safon ac effeithiolrwydd y gweithlu Cymreig:

> ... there's an elitism built into our society that few nations in the world would tolerate. One in five can make it to the top, and the yardstick, the first

---

[6] Er gwaethaf hyn, mae ensyniadau o hiliaeth yn dal i chwarae rhan yn nadleuon rhai o'r bobl hynny sy'n wrthwynebus i'r arfer o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol ym maes cyflogaeth. Er enghraifft, ym 1998 dygwyd achos tribiwnlys, unwaith eto o dan Ddeddf Cysylltiadau Hil 1974, yn erbyn Cyngor Ynys Môn. Roedd yr achos yn aflwyddiannus, ond roedd yr amgylchiadau a arweiniodd ato yn debyg iawn i rai achos *Jones v Gwynedd*. Mynnodd Peter Boylan ei fod wedi dioddef rhagfarn hiliol wrth law Cyngor Môn, gan iddo fethu ag ennill swydd fel swyddog ieuenctid ar sail y ffaith nad oedd yn medru siarad Cymraeg (Tribunals Service 1998). Cafwyd cadarnhad pellach o wytnwch y dadleuon hyn ynglŷn â hiliaeth yng ngwaith ymchwil May, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000. Roedd canlyniadau'r ymchwil hwn yn dangos bod amheuon ynglŷn â hiliaeth yn parhau i ddylanwadu ar wrthwynebiad rhai pobl i'r arfer o drin y Gymraeg fel sgil hanfodol ym maes cyflogaeth. Fel y noda May, yn achos rhai o'r bobl a gafodd eu cyfweld ganddo, 'it was viewed as at best discriminatory and at worst racist' (May 2000: 121). Am drafodaeth fanylach ynglŷn â chyhuddiadau o hiliaeth mewn perthynas ag ymgyrchoedd iaith yng Nghymru, ac yn benodol sut mae gwahanol garfanau gwleidyddol wedi defnyddio cyhuddiadau o'r fath i danseilio ymgyrchoedd o blaid y Gymraeg, gweler Brooks 2006.

[7] Manylion llawn: Kane's Wales, Rhaglen 3, 'How we Speak', BBC Wales, Tachwedd 12 1995. Cedwir copi o'r rhaglen yn Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

> condition, is not are you any good, have you anything inspirational to offer, but can you speak Welsh. Only if you can say yes to that will your ability, your experience and your ideas be scrutinised. And since the base from which the candidates emerge is so much narrower - half a million instead of three million - the spread of talent is also so much narrower. And therefore, though I do not deny that there are able, gifted Welsh speakers in high places, the likelihood of the person appointed being anything from mediocre to useless is that much greater.[8]

Heb amheuaeth, roedd elfen sylweddol o ormodiaeth yn perthyn i'r dadleuon hyn o eiddo Kane.[9] Wedi'r cyfan, fel y nodwyd uchod, cymedrol ar y gorau fu'r newidiadau a welwyd ym maes cyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, yn groes i'r hyn a awgryma Kane, nid yw'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried fel sgìl hanfodol yn achos y mwyafrif helaeth o swyddi cyhoeddus. Yn sicr, ni cheir dim tebyg i'r math o 'elitaeth strwythurol' y cyfeiriodd ato. Fodd bynnag, hyd yn oed os gellir casglu'n go hyderus nad yw'r pwyslais ar sgiliau iaith o fewn y farchnad lafur Gymreig yn ddim byd tebyg i'r hyn a ddisgrifiwyd gan Kane, mae'r cyhuddiad sylfaenol a wneir ganddo dal yn un sy'n werth ei ystyried: a yw proses sy'n dynodi nifer cynyddol o swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgìl hanfodol yn arwain at danseilio cyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod, gan roi siaradwyr Saesneg mewn sefyllfa annheg?[10]

Mae hwn yn gwestiwn arbennig o ddiddorol yng nghyd-destun y traethawd hwn – traethawd sy'n trafod polisïau iaith o bersbectif rhyddfrydol. Fel y noda David Miller, mae cyfle cyfartal yn egwyddor ryddfrydol hollbwysig, 'The principle of

---

[8] Kane's Wales, Rhaglen 3, 'How we Speak', BBC Wales, Tachwedd 12 1995.
[9] I raddau helaeth, roedd yr ormodiaeth yma'n gweddu rôl Kane fel darlledwr pryfoclyd.
[10] Ategir perthnasedd y cwestiwn hwn gan atebion rhai o'r unigolion a gafodd eu cyfweld gan May (2000) fel rhan o brosiect ymchwil ar agweddau gwahanol garfanu tuag at y polisïau iaith a fabwysiadwyd yng Nghymru ers dechrau'r 1990au. Roedd un o'r atebion a dderbyniodd wrth drafod lle y Gymraeg ym maes gwaith yn nodi, 'A bilingual requirement for public service employment is by no means a fair system, it promotes cultural insularity, is divisive and *fails to recognise individual merit*. It is, in effect, an expression of the Welsh 'ghetto' mentality that predominates in many levels of society' (May 2000: 120, pwyslais wedi'i ychwanegu).

equality of opportunity stands at the very heart of contemporary liberalism' (Miller 2002: 45). Golyga hyn fod Miller, ynghyd ag eraill, o'r farn y dylai cymdeithas ryddfrydol fod yn un sy'n ceisio sicrhau bod pob aelod unigol yn meddu ar yr un cyfle i ddatblygu ac i gyflawni eu hamcanion. Wrth reswm, mae hon yn egwyddor arbennig o berthnasol ym maes cyflogaeth – un sy'n gwbl allweddol i ragolygon yr unigolyn (Miller 1999: 157). Yn y maes hwn ceir amrywiaeth eang o safleoedd sydd oll yn amrywio o ran eu grym, dylanwad a'u gwobrwyon ariannol. Eto i gyd, ni all pawb ddal yr un swyddi; rhaid dewis rhwng amrediad o ymgeiswyr posib. O ganlyniad, cred rhyddfrydwyr fod tegwch yn dibynnu ar sicrhau fod pawb yn medru cystadlu am wahanol safleoedd ar seiliau cyfartal. Fel y noda Miller: 'Given that there are scarce goods such as well-paid careers and places at top universities – scarce in the sense that more people want to have these goods than there are goods to go round – equality of opportunity obtains when people can compete for the goods on equal terms' (Miller 2002: 45).

Wrth gwrs, er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg o'r fath rhaid sicrhau fod pawb yn medru ymgeisio a bod neb yn cael eu hatal yn sgil rhagfarnu agored, er enghraifft ar sail dosbarth, hil, rhyw neu grefydd. O ganlyniad, mae'r egwyddor o recriwtio a phenodi ar sail gallu a theilyngdod wedi datblygu i fod yn ganolog i ddealltwriaeth rhyddfrydwyr o'r hyn sy'n cynnal tegwch a chydraddoldeb mewn meysydd megis cyflogaeth. Yn ôl yr egwyddor hon, dylai swyddi gael eu dosbarthu i'r sawl sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau gorau, a hynny mewn modd sy'n trin pawb yn ddiwahân, heb unrhyw ystyriaeth o'u cefndir cymdeithasol neu ddiwylliannol. Fel yr eglura Miller:

> According to a widely held view, when there are a number of applicants for an available job, justice demands that the job be offered to the best-qualified applicant. We express this by saying that the best-qualified applicant deserves the job or, in a slightly different formulation, that the principle involved is one of hiring by merit. This is the principle that condemns discrimination on grounds of sex, race, or religion when hiring employees as well, of course, as good old-fashioned nepotism (Miller 1999: 156).

I raddau helaeth felly, gellid dadlau mai mynegiant penodol o'r egwyddor o gyfle cyfartal yw'r arfer o benodi ar sail teilyngdod – arfer sydd wedi treiddio'n ddwfn i isymwybod cymdeithasau rhyddfrydol-democrataidd. O ganlyniad, os yw'r broses o ddynodi nifer cynyddol o swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol wir yn arwain at danseilio egwyddorion o'r fath, oni ddylai rhyddfrydwyr gasglu fod y broses yn un annerbyniol o safbwynt moesol?

Wrth gwrs, nid yw cwestiynau o'r math hwn yn rhai cwbl newydd i ryddfrydwyr. Dros y deugain mlynedd diwethaf, daeth y syniad o gynnwys ystyriaeth o gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol fel rhan o'r broses o ddosbarthu swyddi yn fwyfwy cyffredin yn sgil y twf a fu mewn rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol. Dyma bolisïau a ddatblygwyd er mwyn ceisio sicrhau lle mewn meysydd allweddol, megis addysg a'r economi, i aelodau o grwpiau gwan a gafodd, yn draddodiadol, eu hatal rhag cyfranogi'n llawn. Yn raddol, daeth yn fwyfwy amlwg nad oedd modd sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i aelodau grwpiau o'r fath dim ond trwy gyfrwng mesurau a oedd yn gwahardd rhagfarnu agored ac uniongyrchol. Er mor bwysig oedd y cam i wahardd rhagfarnu agored, dadleuwyd fod angen gwneud mwy er mwyn dadwneud effaith y rhwystrau hynny a oedd wedi ffrwyno datblygiad rhai pobl, weithiau am genedlaethau. Cafodd y teimladau hyn eu crynhoi yn effeithiol ym 1965 gan arlywydd America, Lyndon B. Johnson:

> You do not take a person who for years has been hobbled by chains and liberate him, bring him up to the starting line of a race and then say, "You're free to compete with all the others," and still justly believe that you have been completely fair ... it is not enough just to open the gates of opportunity. All our citizens must have the ability to walk through those gates (dyfynnwyd yn Cahn 2002: xii).

Yn fuan wedi'r datganiad hwn cyflwynodd Johnson orchymyn gweithredol (Gorchymyn 11246) a oedd yn galw ar gyrff ffederal i lunio rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol a fyddai'n anelu at sicrhau cyfranogiad llawnach gan ferched a grwpiau lleiafrifol eraill. Dylai hyn gynnwys 'an analysis of areas within which the contractor is deficient in the utilization of minority groups and women, and further, goals and timetables to which the contractor's good faith efforts must be directed to correct the deficiencies' (dyfynnwyd yn Cahn 2002: xii). Y gobaith oedd y byddai gweithredu rhaglenni o'r fath yn cyfrannu at ddadwneud effeithiau seicolegol a strwythurol blynyddoedd o ragfarnu, ac yn arwain at sefyllfa lle gellid sôn am gyfle cyfatal ystyrlon.

Wrth reswm, roedd y broses o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol, yn America a thu hwnt, yn un ddadleuol, yn arbennig felly i ryddfrydwyr. Trwy fabwysiadu rhaglenni o'r fath roedd cyrff yn camu i ffwrdd o'r syniad traddodiadol o benodi ar sail teilyngdod heb unrhyw ystyriaeth o gefndir cymdeithasol a diwylliannol. Yn wir, fel y noda Iris Marion Young, mae rhagfarnu cadarnhaol yn galw am roi ystyriaeth benodol i nodweddion o'r fath: 'They call for consciously and explicitly preferring members of particular groups on account of their group membership' (Young 1990: 197). O ganlyniad, nid yw'n syndod fod rhai rhyddfrydwyr wedi dewis gwrthwynebu datblygiadau o'r fath. Fel yr eglura Young:

> Those who oppose affirmative action policies usually do so on the grounds that they discriminate. For them the principle of equal treatment, a principle of non-discrimination, has absolute moral primacy. On this conception of social justice, policies that are group blind and apply the same formal rules to everyone are both necessary and sufficient for social justice. Since affirmative action policies violate this principle of equal treatment, they are wrong (Young 1990: 195).

Er hyn, mae amryw o ryddfrydwyr eraill wedi derbyn bod rhagfarnu cadarnhaol mewn meysydd megis addysg a chyflogaeth yn hanfodol er mwyn dadwneud effeithiau blynyddoedd o ragfarn strwythurol. Dadleuwyd bod mynd trwy broses o'r fath, er ei anawsterau, yn hanfodol er mwyn cyrraedd sefyllfa lle gellir sôn am gyfle cyfartal gwirioneddol. Er enghraifft, ceir dadl gref o blaid rhagfarnu cadarnhaol gan Ronald Dworkin (2002). Yn yr erthygl hon mae Dworkin yn beirniadu'r rhyddfrydwyr hynny sy'n amharod i ymgyrchu er lles cydraddoldeb ystyrlon, gan lynu yn hytrach at y syniad traddodiadol o gystadleuaeth sy'n ddall i wahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol. Mae'n datgan; 'If we must choose between a society that is in fact liberal and an illiberal society that scrupulously avoids formal racial criteria, we can hardly appeal to the ideals of liberal pluralism to prefer the latter' (Dworkin 2002: 105).[11]

Eto i gyd, i ba raddau y dylai trafodaethau rhyddfrydwyr megis Dworkin ynglŷn â rhagfarnu cadarnhaol ddylanwadu ar ein dehongliad o ddilysrwydd y

[11] Mae rhai o ladmeryddion rhyddfrydol rhagfarnu cadarnhaol yn ddigon parod i gydnabod fod gweithredu rhaglenni o'r fath yn medru arwain at gwestiynau anodd. Gweler er enghraifft Kymlicka 2001: 196 – 199 a Beauchamp 2002: 213 – 214. Ymhlith y cwestiynau a godir gan yr awduron hyn mae: Ai rhagfarnu cadarnhaol yw'r dull gorau bob tro o sicrhau tegwch i leiafrifoedd mewn meysydd megis cyflogaeth neu addysg? A yw'r polisïau a fabwysiedir wastad yn helpu'r sawl sydd wir mewn angen? A ydynt weithiau yn medru arwain at roi hwb i unigolion sydd eisoes mewn safle cymharol freintiedig? A yw aelodau un grŵp (dynion gwyn fel arfer) weithiau yn talu pris rhy uchel yn sgil gweithredu'r polisïau hyn? Mae rhain oll yn gwestiynau dilys. Fodd bynnag, cwestiynau ymarferol ydynt mewn gwirionedd – hynny yw cwestiynau ynglŷn â'r dull a'r adeg mwyaf priodol i ddefnyddio rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol, yn hytrach na chwestiynau ynglŷn â dilysrwydd yr egwyddor sylfaenol. Nid yw'r cwestiynau a godir gan Kymlicka neu Beauchamp yn arwain at wrthod y syniad o gynnig cymorth arbennig i grwpiau gwan. Yn hytrach, holi a wneir pa fath o gymorth sydd ei angen.

polisïau hynny a fabwysiadwyd o blaid y Gymraeg ym maes cyflogaeth? I ba raddau y gellir dehongli'r polisïau hyn fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol? A fyddai eu dehongli yn y fath fodd yn cynnig dull o'u dilysu yn wyneb gwrthwynebiadau tebyg i'r rhai o eiddo Kane a nodwyd uchod? Fel yr eglurwyd, amcan rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol yw sicrhau lle mewn meysydd allweddol, megis addysg a'r economi, i aelodau o grwpiau gwan a gafodd, yn draddodiadol, eu hatal rhag cyfranogi'n llawn yn sgil rhagfarn strwythurol. A yw'r rhain yn amgylchiadau a wynebwyd gan siaradwyr Cymraeg hefyd? Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn dylid nodi bod y ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n bresennol mewn meysydd gwaith allweddol, er enghraifft y gwasanaeth sifil Cymreig, yn go isel. Er enghraifft, yn 2008 dim ond tua 13 y cant o wasanaeth sifil Llywodraeth y Cynulliad sy'n meddu ar y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008). Er hynny, anodd fyddai defnyddio hyn fel sail i ddadlau fod siaradwyr Cymraeg wedi dioddef o ragfarn strwythurol ym maes cyflogaeth yn yr un modd â merched neu bobl groenddu. Wedi'r cyfan, prin yw'r achosion o bobl yn methu ag ennill swyddi ar sail y ffaith eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai modd llunio achos cryf sy'n tystio i ragfarnu strwythurol yn erbyn siaradwyr Cymraeg, a bod hyn wedi arwain at dangynrychioli sylweddol mewn meysydd allweddol o fewn yr economi, yr hyn sy'n arwyddocaol yw nad yn y termau hynny y caiff y polisïau sy'n galw am wybodaeth o'r Gymraeg eu cyflwyno na'u hamddiffyn.[12] Pan ystyrir y dadleuon o blaid y polisïau hyn, gwelir nad sicrhau cyfranogiad gan siaradwyr Cymraeg fel grŵp penodol sydd wedi dioddef

[12] Gweler er enghraifft Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996: 36 – 42; Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1999: 17.

rhagfarn ym maes cyflogaeth yw'r nod. Yn hytrach, y nod yw sicrhau gweithlu sy'n meddu ar y gallu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Nid yw union gefndir diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolion sy'n cyflawni'r swyddi hyn yn arbennig o bwysig; nid oes unrhyw bwyslais yn cael ei roi ar yr angen i gyflogi pobl sydd wedi'u geni a'u magu yn siarad Cymraeg. Yn hytrach, yr unig beth sy'n bwysig yw eu bod, ar adeg eu penodi, yn meddu ar y gallu i gyflawni eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, nid fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol o blaid siaradwyr Cymraeg y dylid cloriannu'r polisïau hyn.

Ond, os na ellir eu trin fel enghraifft o ragfarnu cadarnhaol o blaid siaradwyr Cymraeg, yna a oes modd amddiffyn polisïau o'r fath rhag cyhuddiadau o danseilio cyfle cyfartal ac o ymwrthod â'r arfer o benodi ar sail teilyngdod? Ateb lladmeryddion y polisïau hyn, wrth reswm, yw bod amddiffyniad o'r fath yn bosib, ac fel y nodwyd uchod, yr hyn sy'n arwyddocaol ynglŷn â dadleuon y garfan yma yw nad ydynt, ar y cyfan, yn defnyddio'r math o ieithwedd a chysyniadau a gysylltir, fel arfer, â dadleuon o blaid rhaglenni o ragfarnu cadarnhaol. Fel y noda Young (1990), anodd yw gwadu fod rhagfarnu cadarnhaol yn arwain at lastwreiddio ychydig ar y pwyslais traddodiadol o recriwtio a phenodi ar sail teilyngdod a dim arall. Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol ynglŷn â'r dadleuon a ddefnyddir gan y Cymry hynny sydd o blaid gosod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol, yw'r ffaith eu bod yn mynnu nad oes bwriad o gwbl ganddynt i gamu i ffwrdd o'r arfer o benodi ar sail teilyngdod. Yn hytrach, dadleuir mai'r cyfan a wneir wrth ddynodi rhai swydd fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yw ymestyn ychydig ar ystyr teilyngdod. Dadleuir fod Cymru'n gymdeithas ddwyieithog, lle dylai amrediad eang o wasanaethau fod ar gael

trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Wrth reswm, bydd cyflawni hyn mewn modd ystyrlon yn galw am weithlu sydd â'r gallu i ymwneud â'r cyhoedd trwy gyfrwng y ddwy iaith. O ganlyniad, dadleuir y dylai'r gallu i siarad Cymraeg gael ei ystyried fel sgìl cwbl allweddol mewn perthynas â nifer helaeth o swyddi. Er enghraifft, noda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei ganllawiau i gyrff cyhoeddus, 'dylent (cyrff cyhoeddus) drin sgiliau ieithyddol mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill sydd eu hangen yn y gweithle' (1996: 37). Ychwanegir ychydig yn hwyrach, 'Mae'r angen i gysylltu sgiliau ieithyddol â rhai swyddi yn adlewyrchu realiti bod yn gyflogwr sy'n amcanu at geisio cyflwyno gwasanaethau o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg' (1996: 39). Eto i gyd, a ddylai'r ymdrech hon i ymestyn ystyr teilyngdod gael ei ystyried fel cam derbyniol o safbwynt moesol? A yw'n deg i ymestyn y cysyniad i gynnwys sgiliau sydd ond ym meddiant un rhan o'r boblogaeth? Onid yw hynny yn arwain at roi'r sawl sydd ddim yn siarad Cymraeg mewn sefyllfa annheg?

Ar y cyfan, credaf fod yr ymgais hon i ymestyn ystyr teilyngdod, er mwyn dilysu'r broses o ddynodi rhai swyddi fel rhai lle dylai'r gallu i siarad Cymraeg gael ei drin fel sgìl hanfodol, yn gam cwbl dderbyniol. Wedi'r cyfan, go brin ein bod o'r farn fod cynnal cyfle cyfartal ym maes cyflogaeth yn ddibynnol ar drefnu pob swydd dan haul mewn modd lle gallwn fod yn sicr y bydd pob unigolyn yn medru cystadlu amdanynt. Fel y noda David Miller, does neb yn meddu ar yr *hawl* i gyflawni unrhyw swydd y dymuna; 'There is no such thing as a right to have a particular opportunity open to one – say, the opportunity to work in one particular job' (Miller 2002: 57). Yn hytrach, derbynnir fod gofynion penodol, ac weithiau rhai go bellgyrhaeddol, yn gysylltiedig â phob swydd. Yn wir, fel y noda Glyn Williams (1988, 1994) mae hyn

yn rhan anochel o'r broses o broffesiynoli. Ym mhob achos, bydd rhai pobl yn meddu ar y sgiliau perthnasol tra bod eraill ddim. A siarad yn gyffredinol, nid ydym yn teimlo bod y sawl sydd ar eu colled mewn achos o'r fath yn dioddef unrhyw anghyfiawnder sylfaenol, cyhyd ag y bo'r bobl hyn heb gael eu rhwystro rhag datblygu'r sgiliau perthnasol yn y lle cyntaf.[13]

Felly, mewn gwlad fel Cymru, lle caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu mewn mwy nag un iaith, mae'n gwbl briodol fod yr amrediad o sgiliau a ystyrir, wrth i gyflogwyr ddiffinio ystyr teilyngdod, yn cynnwys dimensiwn ieithyddol. Fel y noda Wilson McLeod:

> ... if public policy suggests that citizens should be able to use their autochthonous language in dealing with government, it is necessary, and justifiable, to allow government to employ a reasonable number of persons to meet those citizens' needs. Indeed, it would undermine such a policy if only a token number of employees were available, so that attempts to exercise the right to use the autochthonous language were slow, frustrating or fruitless (McLeod 1998).

Nid rhyw ychwanegiad mympwyol mo'r dimensiwn ieithyddol chwaith. Yn hytrach, mewn nifer helaeth o feysydd – ystyrier er enghraifft y gwasanaethau gofal ac iechyd – gall y gallu i siarad iaith fod yn gymhwyster allweddol sy'n galluogi'r unigolyn i gyfathrebu'n glir gan gyflawni'r swydd i safon foddhaol.[14] O ystyried hyn, dylai

---

[13] Sylweddolaf fod hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â'r graddau y mae pawb yng Nghymru yn meddu ar gyfleoedd teg i ddysgu'r Gymraeg. Dychwelaf at y pwynt pwysig yma yn y man.

[14] Yn wir, byddai'n ddigon posib i'r sawl sydd am arddel y ddadl hon ynglŷn â theilyngdod, cyflogaeth a sgiliau iaith honni nad ydynt yn argymell gwneud dim byd arbennig o newydd. Gellid dadlau fod hen hanes i'r syniad o gynnwys sgiliau ieithyddol fel rhan o'r hyn sy'n gwneud person yn gymwys i ddal swydd benodol. Wedi'r cyfan, onid yw gofynion ieithyddol *de facto* eisoes yn perthyn i *bob* swydd yng Nghymru, nid dim ond y rhai hynny sy'n galw am wybodaeth o'r Gymraeg? (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1999). Cyfeirio ydwyf wrth gwrs at y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Saesneg yn gwbl hanfodol. Anaml y ceir datganiad swyddogol sy'n nodi gofynion o'r fath wrth hysbysebu swyddi, ond serch hynny, go brin y câi rhywun ei gyflogi yng Nghymru heddiw heb feddu ar y gallu i siarad Saesneg. Felly, os yw pobl megis Vincent Kane am ddadlau fod gosod gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi penodol yn broses annheg, sy'n tanseilio cyfle cyfartal ac yn ymwrthod a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod, rhaid iddynt egluro pam fod gofynion o'r fath yn annerbyniol mewn perthynas a'r Gymraeg tra'n dderbyniol yn achos y Saesneg.

rhyddfrydwyr gydnabod nad oes dim byd annerbyniol, o safbwynt moesol, ynglŷn â'r broses o ddynodi nifer cynyddol o swyddi fel rhai lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgìl hanfodol.

Fodd bynnag, cyn bodloni ar y casgliad hwn, dylid rhoi sylw i'r effaith y gall amgylchiadau cefndirol eu cael ar allu ieithyddol gwahanol unigolion. Wrth drafod cyfle cyfartal a'r syniad o deilyngdod mewn meysydd megis cyflogaeth, mae rhyddfrydwyr yn amrywio o ran y pwyslais a roddir ar arwyddocâd amgylchiadau cefndirol gwahanol unigolion. Wrth gwrs, mae rhyddfrydwyr egalitaraidd yn tueddu i ddadlau fod ein hamgylchiadau cefndirol yn arbennig o bwysig; bod ffactorau megis y cyfoeth a etifeddir, natur yr addysg a dderbyniwyd, neu amgylchiadau teuluol yn sicr o ddylanwadu ar allu unigolion i gystadlu a llwyddo (White 2002). O ganlyniad, er mwyn sicrhau fod pawb yn meddu ar gyfle cyfartal ystyrlon, dadleuir y dylid ymdrechu i gyfyngu cymaint â phosib ar yr effaith a gaiff amgylchiadau cefndirol ar ragolygon gwahanol unigolion. Er enghraifft, yn achos addysg mae Stuart White (2002: 62) yn nodi, 'For equality of opportunity it is necessary to structure education systems so that children with the same ability and motivation – let us say the same 'potential' – have equal prospects of developing their ability, of realizing their potential.' Rwyf yn rhannu'r tybiaethau hyn o eiddo'r rhyddfrydwyr egalitaraidd. Yn wir, mae'r syniad na ddylai unigolion ddioddef yn sgil amgylchiadau cefndirol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth wedi gwreiddio'n ddwfn yn isymwybod nifer o gymdeithasau rhyddfrydol-democrataidd (er gwaetha'r ffaith nad yw'r cymdeithasau hyn wastad wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth geisio dadwneud effeithiau'r amgylchiadau hyn). Eto i gyd, beth yn union yw goblygiadau'r drafodaeth gyffredinol hon ynglŷn â

chydraddoldeb ac amgylchiadau cefndirol i'r drafodaeth bresennol ynglŷn â gofynion ieithyddol mewn maes megis cyflogaeth?

Uchod, wrth amddiffyn yr ymgais i ymestyn ystyr teilyngdod i gynnwys dimensiwn ieithyddol, dadleuwyd nad oes dim sy'n arbennig o annerbyniol ynglŷn â nodi bod rhai swyddi yn galw am sgiliau sydd ond ym meddiant rhai aelodau o'r gymdeithas. Nodwyd bod hyn, ar y cyfan, yn gam teg, cyhyd ag y bo'r sawl sydd ar eu colled heb gael eu hatal rhag datblygu'r sgiliau perthnasol. Eto i gyd, i ba raddau y gellir dadlau mai dyma yw'r sefyllfa yng Nghymru mewn perthynas â sgiliau iaith? A yw pawb sy'n cystadlu am swyddi wedi cael cyfle teg i ddysgu'r Gymraeg? Neu, a yw amgylchiadau cefndirol rhai pobl wedi'u hatal trwy wneud y dasg o ddysgu'r iaith yn un arbennig o anodd?

Ystyrier i ddechrau'r sefyllfa mewn perthynas â'r teulu. Wrth reswm, nid pawb yng Nghymru sydd wedi'u magu mewn teuluoedd lle caiff y Gymraeg ei defnyddio a'i chlywed. Felly, nid yw'r bobl hyn yn cael y cyfle i ddysgu'r iaith yn naturiol fel y gwna'r sawl sy'n cael eu magu mewn teuluoedd lle caiff y Gymraeg ei siarad. O ganlyniad, ar sail magwraeth – un o'r ffactorau cefndirol hynny a drafodir gan ryddfrydwyr – gellid dadlau fod rhai pobl yn meddu ar fantais dros eraill o ran y cyfle sydd ganddynt i ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n bosib na fyddai'r fantais yma'n meddu ar unrhyw arwyddocâd, pe bai'r drefn addysg – un arall o'r ffactorau cefndirol a gyfeirir ato – yn cyfrannu at unioni'r sefyllfa.

Nid oes gwadu y bu newidiadau sylweddol i natur ieithyddol y drefn addysg yng Nghymru dros y trigain mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd twf aruthrol, ar y lefel cynradd ac uwchradd, yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg a dwyieithog (Williams 2002). Yn ogystal, ers pasio Deddf Addysg 1988, cafodd y Gymraeg ei dysgu fel pwnc penodol hyd yn oed yn yr ysgolion hynny sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad, nid oes amheuaeth fod y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg wedi ehangu'n sylweddol. Yn wir, caiff hyn ei bwysleisio gan y ffaith fod cymaint o blant o gartrefi di-Gymraeg nawr yn derbyn addysg Gymraeg. O ystyried hyn, i ba raddau y gall y Cymry hynny sy'n cyrraedd y farchnad lafur heb fedru siarad yr iaith ddadlau eu bod dan anfantais pan fo rhai swyddi yn galw'n benodol am y gallu hwnnw?

Yn y cyswllt hwn, mae'n werth nodi pwynt diddorol a wnaed gan David Miller (2002). Wrth drafod y dehongliad rhyddfrydol o gyfle cyfartal, mynnodd Miller na all unigolion honni eu bod yn dioddef o annhegwch a diffyg cyfle os yw'r anawsterau sy'n eu llethu yn deillio, nid o amgylchiadau cefndirol anffafriol, ond yn hytrach o benderfyniadau cynt o'u heiddo:

> ... a person's opportunities have to be judged at some suitably chosen starting point, since each decision that is made to avail oneself of an opportunity, or not to do so, is likely to affect the opportunity set at a later point. For example, a person who decides to leave school at sixteen cannot later complain that she was denied the opportunity to go to university, if by staying on at school she could have achieved that goal ... The liberal ideal, then, is that *initial* opportunity sets should be equal, not necessarily opportunity sets at some later time when choices have already been made (Miller 2002: 47, pwyslais yn y gwreiddiol).

Felly, o drosi'r ddadl hon i faes cyflogaeth, gwelir na allaf ddadlau fod fy nghyfleoedd yn cael eu cyfyngu mewn modd annheg, os yw'r ffaith nad wyf yn meddu ar set o

sgiliau allweddol – ieithyddol, cyfrifiadurol ayb – ac felly'n methu ymgeisio am swyddi sy'n fy niddori, yn deillio o ddim mwy na methiant ar fy rhan i fanteisio ar gyfleoedd i'w datblygu.[15] Ond, a ellid defnyddio'r ddadl hon mewn perthynas â'r sawl sydd ddim yn siarad Cymraeg? A ellid casglu nad oes ganddynt sail i gwyno gan fod gan bawb gyfle digonol i ddysgu'r iaith bellach yn sgil y datblygiadau sylweddol a fu ym maes addysg.

Ar y cyfan, ni fyddai hynny'n gwbl deg. I ddechrau, rhaid cofio nad ni ein hunain, ond ein rhieni, sydd fel arfer yn dewis natur yr addysg a dderbyniwn. O ganlyniad, pan fo plentyn o gefndir di-Gymraeg yn digwydd mynychu ysgol Saesneg, ac felly'n colli'r cyfle i ddysgu'r Gymraeg yn rhugl, nid ef fel unigolyn sydd wedi dewis hynny ac felly ni ellir dweud yn bendant ei fod wedi gwrthod y cyfle. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, er y bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth o addysg Gymraeg, erys bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth honno. Er enghraifft, clywir yn bur fynych nad yw'r ddarpariaeth a gynigir gan amryw o awdurdodau lleol yn cyfateb i'r galw amdano (Rhieni Dros Addysg Gymraeg 2007: 2 – 3). O ganlyniad, anodd fyddai dadlau fod pob plentyn yng Nghymru yn meddu ar gyfle teg i ddysgu'r Gymraeg ac i ddatblygu eu gafael ohono i lefel a fyddai'n caniatáu iddynt ei defnyddio yn y gweithle. At ei gilydd felly, mae'n amheus a ellid casglu fod dadl Miller ynglŷn â gwrthod cyfleoedd yn sefyll yn y cyswllt hwn. Ond beth felly yw goblygiadau casgliad o'r fath? A yw'n golygu bod rhaid derbyn bod yr holl syniad o osod gofynion ieithyddol ym maes cyflogaeth yn annerbyniol?

[15] Wrth gwrs, er mwyn i'r ddadl hon sefyll, rhaid i'r cyfleoedd hynny i ddatblygu gwahanol sgiliau fod yn rhai realistig.

Nid yw'r problemau a drafodwyd uchod ynglŷn ag effaith amgylchiadau cefndirol ar sgiliau iaith unigolion yn golygu bod yn rhaid casglu fod gofynion ieithyddol ym maes cyflogaeth, o'u hanfod, yn annerbyniol. Fel y dadleuwyd eisoes, mewn gwlad fel Cymru, lle amcanir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn mwy nag un iaith, mae'n gwbl briodol fod yr amrediad o sgiliau a ystyrir yn berthnasol yn achos rhai swyddi yn cynnwys dimensiwn ieithyddol. Nid yw hyn yn tanseilio'r syniad o gyflogi ar sail teilyngdod. Yn hytrach, y cyfan y mae cyflogwyr yn ei wneud yw estyn ychydig ar ystyr teilyngdod.

Fodd bynnag, wrth gymryd cam o'r fath mewn maes pwysig megis cyflogaeth, rhaid sicrhau fod y cyfle i ddatblygu'r sgiliau perthnasol yn cael eu dosbarthu mewn modd sydd mor deg a phosib. Hynny yw, tra bod y broses o ddynodi swyddi penodol fel rhai sy'n galw am y gallu i siarad Cymraeg yn dderbyniol, ni ddylai ddigwydd mewn cyd-destun lle gall rhai ennill mantais, tra bo eraill yn wynebu rhwystrau, yn sgil amgylchiadau cefndirol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Wedi'r cyfan, fel y dadleua nifer o ryddfrydwyr, ni ddylai cyfleoedd bywyd gwahanol unigolyn gael eu cyfyngu gan amgylchiadau o'r fath. Yn achos y Gymraeg fe welwyd ei bod yn anochel y bydd magwraeth rhai pobl yn rhoi mantais iddynt dros eraill, gan na fydd pawb yn cael eu magu mewn cartref lle caiff y Gymraeg ei defnyddio. O ystyried hyn, mae'n hollbwysig, o safbwynt cyfiawnder, fod y drefn addysg, yn arbennig, yn cyfrannu at unioni'r fantais hon. Yr awgrym, ar hyn o bryd, yw nad yw hynny'n digwydd mewn modd effeithiol iawn. I raddau helaeth, tra bo'r amrediad o swyddi lle gelwir am wybodaeth o'r Gymraeg yn parhau'n gymharol gyfyng, nid yw effaith y gwendid hwn mor ddifrifol â hynny. Fodd bynnag, os bydd ymgais rywdro yn y dyfodol i ehangu ar

hyn, gan ddyfnhau lle'r Gymraeg yn y gweithle, yna dylid edrych o ddifri ar y sefyllfa.[16] Wrth reswm, nid oes lle yma i fanylu ar beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol. Fodd bynnag, yn y termau mwyaf cyffredinol, rhagwelaf y dylai arwain at gymryd camau breision sydd â'r nod o ddarparu cyfle real i bob plentyn i feistroli'r Gymraeg yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol.

**6. Addysg yn Nyfed**

O ystyried casgliadau'r adran uchod, mae'n briodol taw i faes addysg y mae'r drafodaeth yn troi nawr. Dros y blynyddoedd, dyma faes lle gwelwyd rhai o'r datblygiadau mwyaf pellgyrhaeddol ac arwyddocaol o safbwynt dyfodol yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi taw nid yr un math o heriadau a wynebwyd ar draws Cymru wrth geisio diogelu a datblygu lle'r Gymraeg fel iaith addysg. I raddau helaeth, roedd y gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu'r amgylchiadau ieithyddol amrywiol a geir mewn gwahanol rannau o'r wlad. Wrth gwrs, mae rhannau helaeth o Gymru wedi Seisnigeiddio'n arw – er enghraifft ardaloedd ôl-ddiwydiannol a phoblog y de ac arfordir y gogledd – a'r her a wynebwyd gan lunwyr polisi mewn ardaloedd o'r fath oedd sut gellid sicrhau lle teilwng i addysg Gymraeg mewn ardal lle bu cynt yn absennol. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o Gymru – yn bennaf hen siroedd Dyfed a Gwynedd – roedd yr her a wynebwyd ychydig yn wahanol. Y cwestiwn a geisiwyd ei ateb gan lunwyr polisi yn yr ardaloedd hyn oedd: sut, mewn ardaloedd sy'n draddodiadol wedi bod yn rhai Cymraeg eu hiaith, y mae cynnal a datblygu trefn addysg sy'n gweithredu'n bennaf trwy'r iaith honno, tra bo'r ardaloedd dan sylw yn prysur dod o dan ddylanwad y Saesneg?

[16] Yr awgrym yw fod hwn yn faes lle mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dymuno gweld datblygiadau pellach. Gweler er enghraifft Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008.

Yr ail o'r heriadau hyn a drafodir yn ystod yr adran hon. Mae hanes yr ymgyrchu a arweiniodd at ddatblygiad syfrdanol addysg Gymraeg ar draws rhannau helaeth o ardaloedd Seisnigedig Cymru wedi derbyn cryn sylw dros y blynyddoedd.[17] Yn wir, mae hyn yn ddigon priodol. Wedi'r cyfan, gellid dadlau mai datblygiad yr ysgolion hyn yw un o ryfeddodau hanes diweddar Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r heriadau penodol a wynebwyd wrth geisio cynnal a datblygu lle'r Gymraeg yn nhrefniadau addysgiadol siroedd y gorllewin wedi cael eu trafod i'r un graddau.[18] Eto i gyd, nid y diffyg sylw cymharol a roddwyd i'r achos yw'r unig reswm dros ei drafod yma. Ar ben hynny – ac yn arwyddocaol o safbwynt y traethawd hwn – mae'r drafodaeth ynglŷn â pholisïau addysg siroedd megis Dyfed a Gwynedd hefyd yn un sy'n codi amryw o gwestiynau normadol diddorol. Mae rhain yn gwestiynau sy'n cyffwrdd ar faterion megis hawl awdurdodau addysg lleol neu genedlaethol i fynnu bod plant yn dysgu ieithoedd penodol, a hefyd dadleuon ynglŷn â'r hawl i dderbyn addysg mewn iaith benodol. Ond, cyn mynd ati i fanylu ar natur y cwestiynau normadol hyn, rhaid dweud ychydig ynglŷn â chefndir yr achos dan sylw. Yn benodol, sut y datblygodd lle'r Gymraeg ym maes addysg yn bwnc mor bwysig a dadleuol yn yr ardaloedd hyn?

Hyd at y 1960au, ceid rhwydwaith o ysgolion cynradd a oedd yn gweithredu'n naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws rhannau helaeth o orllewin Cymru. Nid oedd unrhyw bolisi ffurfiol yn cydnabod hyn. Yn hytrach, roedd yr arfer yn deillio'n naturiol o natur ieithyddol yr ardaloedd. Wedi'r cyfan, fel y gwelir wrth edrych ar

---

[17] Gweler, er enghraifft, nifer helaeth o'r penodau yn Williams 2002. Gweler hefyd Jones a Williams 2000.

[18] Ceir rhai trafodaethau perthnasol. Mewn perthynas â Dyfed gweler Phillips 2002. Yn achos Gwynedd gweler Humphries 2002 a Morris 2000.

ganlyniadau Cyfrifiad 1961, yn ystod y cyfnod hwn roedd siaradwyr Cymraeg yn parhau i ffurfio mwyafrif ar draws talpiau sylweddol o'r gorllewin a'r gogledd orllewin (Aitchison a Carter 1994 a 2000). Cymdeithasau gwledig oedd rhain ar y cyfan, a'r natur wledig hon oedd un o'r ffactorau a olygodd na fu i'r ardaloedd yma brofi'r un math o Seisnigeiddio a welwyd mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, yn ystod y 1960au cafodd nifer o'r cymdeithasau gwledig hyn eu blas cyntaf ar broses o symud poblogaeth a arweiniodd at newidiadau diwylliannol a chymdeithasol dwfn (Dafis 2005). Wrth reswm, roedd hon yn broses a oedd yn meddu ar oblygiadau ieithyddol arwyddocaol. Golygai fod nifer sylweddol o deuluoedd di-Gymraeg yn ymgartrefu mewn ardaloedd a oedd, tan hynny, wedi gweithredu'n naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Arweiniodd hyn at roi pwysau sylweddol ar amrediad o rwydweithiau cymdeithasol ac yn enwedig ar natur ieithyddol yr ysgolion lleol. Yn absenoldeb unrhyw bolisi ffurfiol a oedd yn nodi statws addysgol y Gymraeg, roedd peryg y byddai'r don o fewnfudo yn arwain at Seisnigeiddio nifer o'r ysgolion hyn drwy'r drws cefn (Dafis 2005).

Un ardal lle roedd hon yn broblem arbennig o amlwg oedd Ceredigion. Yn ôl John Phillips (2002) – ar y pryd, dirprwy gyfarwyddwr addysg y sir – hyd y 1960au roedd y mwyafrif helaeth o ysgolion bach Ceredigion yn Gymraeg eu hiaith. Ond, yn sgil y newidiadau ieithyddol a ddeilliodd o symudiad poblogaeth y cyfnod, daeth y drefn hon o dan bwysau cynyddol. Wrth i drigolion y sir ddod yn fwyfwy ymwybodol o oblygiadau'r newidiadau hyn, cynyddodd y galw ar y cyngor lleol i fabwysiadu polisi iaith ffurfiol a fyddai'n diogelu lle'r Gymraeg yn narpariaeth addysg y sir, ac yn

enwedig felly ar y lefel cynradd.[19] Yn sgil y galw hwn, ym 1968 mabwysiadwyd polisi iaith ffurfiol gan bwyllgor addysg Cyngor Ceredigion. Yn ôl y polisi hwn, roedd y cyngor 'wedi datgan yn bendant o blaid polisi dwyieithog yn yr ysgolion'. Golygai hyn mai'r nod oedd sicrhau bod 'pob plentyn yn meistroli'r Gymraeg a'r Saesneg hyd eithaf eu gallu erbyn gadael yr ysgol gynradd' (Cyngor Sir Ceredigion 1968). Fodd bynnag, nid oedd pawb o blaid y newidiadau hyn. O ganlyniad, mewn ymateb i fabwysiadu'r polisi, sefydlwyd y *Language Freedom Movement* gan griw o ardal Aberystwyth. Eu bwriad oedd gwrthwynebu'r 'polisi gormesol' a fyddai'n mynnu bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno i bob plentyn cynradd yn y sir (Phillips 2002: 280). Yn eu tyb hwy nid oedd arfer o'r fath yn dderbyniol. Arweiniodd hyn at gyfnod o ddadlau go ffyrnig. Eto i gyd, ni pharodd hyn yn hir iawn ac felly tawelu wnaeth y gwrthwynebiad i bolisi addysg Ceredigion.[20]

Ar ddechrau'r 1990au, profwyd ton arall dipyn mwy ffyrnig ac estynedig o wrthwynebiad i'r arfer o drin y Gymraeg fel prif iaith addysg yn nifer o ysgolion y gorllewin. Erbyn hynny, roedd Ceredigion wedi'i huno gyda siroedd Caerfyrddin a Phenfro gan sefydlu sir newydd, sef Dyfed.[21] Ers ei sefydlu ym 1974, roedd Dyfed wedi bod yn gweithredu polisi lled-debyg i'r hyn a fodolai cynt yng Ngheredigion. Yr unig eithriad i'r polisi hwn oedd y rhan ddeheuol Seisnigedig o Sir Benfro. Fel yr eglura Phillips:

---

[19] Cyflwynwyd galwadau o'r fath gan Undeb Cymru Fydd a Chymdeithas Rieni Ceredigion. Ceir manylion ynglŷn â galwadau'r mudiadau hyn yn archif Cynog Dafis, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gweler yn enwedig Ffeil 6. Gweler hefyd Dafis 2005: 122 – 124.

[20] Yn nhyb Phillips (2002), tynnwyd sylw aelodau'r *Language Freedom Movement* gan achosion eraill, er enghraifft y ddadl ynglŷn â sefydlu ysgolion uwchradd dwyieithog yn y sir. Mae hwn yn faes arall sy'n galw am fwy o sylw, ond nid oes lle i'w drafod yma.

[21] Deilliodd y newid hwn o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Arweiniodd y ddeddf hon at ddiddymu'r tri ar ddeg o awdurdodau sirol a fu mewn bodolaeth ers 1888, a sefydlu wyth o awdurdodau sirol newydd: Dyfed, Gwynedd, Clwyd, Powys. Gwent, De Morgannwg, Morgannwg Ganol a Gorllewin Morgannwg.

> Gyda diflaniad Ceredigion yn 1974, yr oedd gofyn creu polisi iaith ar gyfer Dyfed a oedd yn uniad o'r tair sir yn y gorllewin. Yr oedd agwedd sir Gaerfyrddin tuag at yr iaith rywfaint yn wahanol i'r hyn a fodolai yng Ngheredigion, ac fe fyddai'n rhaid ystyried y sefyllfa yn y rhan Saesneg o sir Benfro. Byddai'n anodd, felly, llunio polisi iaith cyfansawdd a fyddai'n dderbyniol ym mhob rhan o'r sir newydd. Ond heb fawr o drafferth llwyddwyd i gael gan y pwyllgor Addysg dderbyn polisi iaith Ceredigion fel un ar gyfer Dyfed. Bu'n rhaid eithrio gwaelod sir Benfro o ofynion y polisi, ond ar yr un pryd byddai'r Gymraeg yn cael ei chynnig i'r ysgolion yno a phob cefnogaeth yn cael ei chynnig i'r rhai fyddai'n dymuno ei dysgu (W. J. Phillips 2002: 281).

Eto i gyd, erbyn diwedd yr wythdegau roedd galw am ddiwygio'r polisi hwn gan ddarparu canllawiau cliriach ynglŷn â natur ieithyddol ysgolion y sir.

Deilliai'r angen i ddiwygio'r polisi o'r ffaith fod yr 1980au wedi bod yn gyfnod arall o fewnfudo trwm i orllewin Cymru (Day 1989), ac roedd hyn, unwaith eto, yn rhoi pwysau sylweddol ar allu ysgolion yr ardal i gynnal lle'r Gymraeg yn eu darpariaeth. Pwysleisiwyd yr effaith ddifrifol a gai mewnfudo'r cyfnod hwn ar gymeriad ieithyddol gwahanol ardaloedd mewn adroddiad a gyhoeddwyd tua canol yr 1980au gan Gyngor Sir Gwynedd:

> Mae'r mewnfudiad presennol yn digwydd ar y fath raddfa a chyda'r fath gyflymder fel na all y cymunedau lleol ymdopi ag ef a chymathu'r mewnfudwyr i'w cymdeithas. O ganlyniad mae perygl gwirioneddol y collir yn llwyr o fewn cenhedlaeth yr hyn a fu'n esblygu am dros 15 canrif (dyfynnwyd yn Osmond 1992: 2).

Fodd bynnag, fel y noda John Ellis a William Raybould, effeithiodd mudo'r cyfnod hwn ar boblogaeth Dyfed yn fwy nag un sir arall. Er enghraifft, rhwng 1985 a 1989 symudodd dros bymtheg mil yn fwy o bobl i mewn i'r sir nag a symudodd allan. Ymhellach, nodwyd mai o 'ardaloedd llewyrchus De-ddwyrain Lloegr' y deuai'r rhan helaethaf o'r mewnfudwyr; tua 31 y cant o'r cyfanswm yn ystod 1989/90 (Ellis a Raybould 1992: 91 – 93).

Bu galw am weithredu mewn sawl maes polisi – tai, cynllunio a datblygu economaidd – er mwyn ceisio ffrwyno'r newidiadau ieithyddol syfrdanol a oedd yn deillio o'r don newydd hon o fewnfudo. Eto i gyd, roedd hi'n anochel y byddai llawer o'r sylw yn cael ei roi, unwaith yn rhagor, i gyfraniad posib y drefn addysg. Yn sicr, dyna a ddigwyddodd yn Nyfed, wrth i'r cyngor sir fabwysiadu polisi newydd a oedd yn categoreiddio ysgolion cynradd yn ôl natur ieithyddol eu dalgylchoedd. Golygai'r drefn hon y ceid tri math o ysgol gynradd. Roedd yr ysgolion 'Categori A' yn gwasanaethu ardaloedd lle bu'r Gymraeg, yn draddodiadol, yn brif gyfrwng cyfathrebu ac roedd yr holl ddysgu a wnaed yn yr ysgolion hyn, heblaw am wersi Saesneg, yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr ysgolion 'Categori B' yn gwasanaethu ardaloedd lle bo'r Gymraeg a'r Saesneg yn agos o ran eu statws ac o ganlyniad byddai tua hanner y gwersi yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bo'r gweddill yn Saesneg. Yn olaf ceid yr ysgolion 'Categori C'. Byddai'r ysgolion hyn yn gwasanaethu ardaloedd mwy Seisnigedig. O ganlyniad, y Saesneg fyddai prif gyfrwng yr addysg, gyda'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith ar ffurf pwnc penodol. (Edwards 1993: 263). Mabwysiadwyd y polisi hwn gan Gyngor Sir Dyfed ym 1989 a dynodwyd y mwyafrif helaeth o ysgolion y sir yn rhai Categori A. Er enghraifft, ym 1990 roedd 200 allan o'r 340 ysgol gynradd drwy'r sir yn perthyn i'r categori hwn (Jenkins a Jones 1999: 402). O gynnal sefyllfa o'r fath, y gobaith oedd y byddai'r mwyafrif helaeth o blant y sir yn gadael yr ysgol gynradd gan fedru'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl ac y byddai hyn yn cyfrannu rhywfaint at gynnal lle'r Gymraeg ym mywyd y sir.

Eto i gyd, fel yn achos polisi Ceredigion ar ddiwedd y 1960au, esgorodd y polisi newydd hwn o eiddo Dyfed ar wrthwynebiad chwyrn ymhlith rai o drigolion y sir. Crisialwyd y gwrthwynebiad hwn gan ymgyrch un mudiad bach ond llafar, *Education First*.[22] Heb amheuaeth roedd elfen sylweddol o ormodiaeth yn perthyn i ddadleuon y mudiad hwn, ac yn enwedig felly eu codwr hwyl ffyddlon, yr Aelod Seneddol Llafur, Dr Alan Williams o Gaerfyrddin. Eto i gyd, ar ôl gosod o'r neilltu y cyhuddiadau hurt o 'ffasgiaeth' neu 'Staliniaeth' a daflwyd at y Cyngor Sir, gellir crynhoi tair o ddadleuon pendant a oedd yn tueddu i nodweddu datganiadau cyhoeddus y mudiad. I ddechrau, honnwyd ei bod hi'n annerbyniol i orfodi plant y sir i ddysgu Cymraeg. Yn ail, tueddwyd i ddadlau ei bod hi'n annerbyniol disgwyl i blant o deuluoedd Saesneg i fynychu ysgolion Categori A, gan fod y garfan hon yn meddu ar *hawl* i gael eu dysgu mewn ysgolion Saesneg. Yn olaf, dadleuwyd bod disgwyl i blant o deuluoedd Saesneg i fynychu ysgolion a weithredai'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg yn niweidiol – yn addysgiadol ac yn seicolegol – gan fod y plant yn gorfod defnyddio iaith estron yn yr ysgol.[23] Gwelir felly fod yr ymdrechion a fu ers y 1960au i geisio cynnal y Gymraeg fel prif iaith addysg gynradd mewn rhannau helaeth o orllewin a gogledd-orllewin Cymru wedi profi'n ddadleuol iawn mewn rhai cylchoedd.[24] Ond, i ba raddau roedd unrhyw sail i wrthwynebiadau tebyg i'r rhai uchod o eiddo *Education First*?

---

[22] Ychydig iawn o ddeunydd eilaidd a geir yn trafod y gweithgarwch y mudiad hwn. Am grynodeb defnyddiol, ond byr dros ben, gweler Jenkins a Jones 1999: 402. Yn ôl Jenkins a Jones, dim ond tua chant o aelodau oedd gan *Education First*.

[23] Cafodd y dadleuon hyn o eiddo *Education First* eu crynhoi trwy edrych ar erthyglau a ymddangosodd yn y *Western Mail*, y *Carmarthen Journal* a'r *Cambrian News* rhwng Ebrill a Rhagfyr 1990. Am grynodeb defnyddiol o'r erthyglau hyn, gweler archif Jill Hutt, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffeil 10.

[24] Canolbwyntiwyd ar y sefyllfa yn Nyfed yma, ond bu tensiynau tebyg yng Ngwynedd hefyd wrth i'r awdurdod lleol yno ddatblygu a gweithredu polisïau tebyg yn ei hysgolion cynradd. Er enghraifft yng Ngwynedd yn ystod y 1970au ffurfiwyd y mudiad *Parents For Optional Welsh* (Phillips 2000).

Cymerer i ddechrau'r ddadl ynglŷn â gorfodi plant i ddysgu Cymraeg tra'u bod yn yr ysgol gynradd. Fel y nodwyd, erbyn dechrau'r 1990au roedd pob plentyn a fynychai ysgol gynradd yn Nyfed yn gorfod dysgu Cymraeg mewn rhyw fodd neu'i gilydd, boed hynny yn sgil y ffaith fod yr iaith yn brif gyfrwng dysgu, fel yn yr ysgolion Categori A, neu gan ei bod yn cael ei dysgu fel pwnc unigol, fel yn yr ysgolion Categori C. At ei gilydd felly, nid oedd modd i unrhyw blentyn a oedd yn derbyn ei addysg gynradd yn Nyfed osgoi'r Gymraeg yn llwyr.[25] Ond, i ba raddau y dylai polisi o'r fath gael ei ddehongli fel un derbyniol? Onid yw, fel y mynnodd *Education First*, yn ffurf ar orfodaeth annerbyniol?

Rhyddfrydwr sydd wedi awgrymu ei bod yn annerbyniol i drin iaith leiafrifol fel y Gymraeg fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm addysg yw Brian Barry (2001). Mae Barry wedi dadlau hyn o safbwynt symudoledd cymdeithasol. Mynna ei bod yn niweidiol i fynnu bod plant yn gorfod cael eu cyflwyno i'r iaith, gan fod hyn yn gwastraffu amser a allai gael ei ddefnyddio'n dysgu sgiliau eraill, ac yn enwedig ieithoedd eraill ehangach eu defnydd. Dylid nodi nad yw Barry'n dadlau y dylid atal pob ffurf ar addysg Gymraeg yn enw symudoledd cymdeithasol. Ymddengys fel pe bai'n derbyn ei bod yn gwbl ddilys i'r iaith chwarae rhan bwysig yn addysg y sawl sydd wedi'u magu mewn teuluoedd lle caiff ei siarad. Eto i gyd, mae'n amheus iawn o werth gorfodi *pob* plentyn i dderbyn rhyw fath o gyflwyniad i'r iaith:

> ... it has to be recognized that the great majority of people in Wales do not speak Welsh at home, and for them learning Welsh in school from scratch is in direct competition for time with learning a major foreign language. It is therefore scarcely surprising that compulsory instruction in Welsh in schools

[25] Yn wir, yn dilyn pasio Deddf Addysg 1988 roedd hyn yn wir yn achos bron pob plentyn trwy Gymru, gan fod y ddeddf honno wedi sefydlu'r Gymraeg fel un o bynciau craidd y cwricwlwm Cymreig. O ganlyniad, gellid darllen dadleuon y paragraffau canlynol fel ystyriaeth o ddilysrwydd y polisi hwnnw hefyd.

> has aroused opposition from English-speaking parents (Barry 2001: 105 – 106).

Mae'r ddadl a ddefnyddir gan Barry yma yn adleisio un tebyg o eiddo Claus Offe (1998), a nododd, 'the opportunity costs that are involved in studying a regional language are often equivalent to the non-acquisition of a foreign language that may be of greater practical use' (Offe 1998, dyfynnwyd yn Barry 2001: 106). Ond a yw dadleuon o'r fath yn dal dŵr? A yw polisi sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r Gymraeg yn debygol o gael effaith ddifrifol ar symudoledd cymdeithasol?

I ddechrau, rhaid holi pam mae Barry yn awgrymu mai dim ond achosi niwed i symudoledd cymdeithasol y sawl sydd ddim eisoes yn siarad Cymraeg a wna polisi sy'n gwneud yr iaith yn rhan hanfodol o addysg pob plentyn? Wedi'r cyfan, os yw treulio amser yn dysgu'r iaith yn niweidiol i ragolygon y di-Gymraeg, trwy eu hatal rhag dysgu ieithoedd eraill, onid yw'r un peth yn wir yn achos y sawl sydd eisoes yn ei siarad fel mamiaith. Nid yw'r garfan hon yn gorfod ymdrechu i ddysgu'r iaith yn llythrennol, ond eto byddant yn treulio amser yn gwella eu gafael ohoni trwy ddysgu mwy am ei gramadeg a hefyd wrth astudio ei llenyddiaeth. Onid yw hyn hefyd yn amser a allai gael ei ddefnyddio i ddysgu iaith arall ehangach ei defnydd, a fydd, yn nhyb Barry, yn hybu symudoledd cymdeithasol?

Yn ffodus, nid oes angen poeni'n ormodol ynglŷn â'r cwestiwn hwn, oblegid gellir datgan yn gwbl hyderus nad yw'r polisi'n effeithio ar symudoledd cymdeithasol neb. Cofier mai cael eu haddysgu yng Nghymru y mae'r bobl yma. O ystyried hyn, gellir dadlau fod cael eu cyflwyno i'r Gymraeg yn debygol o hybu eu symudoledd

cymdeithasol mewn modd tipyn mwy diriaethol nag y byddai dysgu iaith arall megis Ffrangeg, Sbaeneg neu Almaeneg. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio'r ffaith fod y polisi addysg hwn o eiddo Cyngor Sir Dyfed wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno mewn cyfnod pan oedd statws cyhoeddus y Gymraeg ar gynnydd. Fel y dadleua Stephen May, 'being able to speak Welsh within Wales (whether as a first- or second-language speaker) is surely more immediately useful than speaking another language, particularly if Welsh is already established in the public domain' (May 2003: 137).

Wrth gwrs, pe bai polisi sy'n trin y Gymraeg fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm addysg yn arwain at gyfyngu'n sylweddol ar gyfleoedd plant i ddysgu Saesneg, yna mae'n siŵr y byddai modd llunio dadl dipyn mwy credadwy ynglŷn â'r effaith posib ar symudoledd cymdeithasol, ac yn sgil hynny, dilysrwydd cyffredinol y polisi. Boed yn gam neu'n gymwys, mae'r Saesneg, ers cenedlaethau, wedi bod yn rhan ganolog o fywyd economaidd a chymdeithasol Cymru. Nid yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, ni ellir gwadu y byddai creu sefyllfa lle bo plant yn ei chael hi'n anodd dysgu'r iaith yn cyfyngu'n sylweddol ar y cyfleoedd hynny sy'n agored iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r broblem hon yn codi. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod yr amser a roddwyd i gyflwyno'r Gymraeg yn ysgolion cynradd Dyfed – boed hynny mewn ysgolion Categori A, B neu C – wedi arwain at atal y disgyblion rhag meistroli'r Saesneg. O ganlyniad, mae'n anodd gweld beth yn union sy'n annerbyniol ynglŷn ag ymgais Dyfed i geisio sicrhau bod holl blant y sir yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg, o leiaf mewn rhyw fodd, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Yn wir, fel y gwelwyd yn yr adran flaenorol (Y Gymraeg yn y Gweithle)

mater tipyn pwysicach, o ystyried y cynnydd a fu yn statws y Gymraeg yn y gweithle, yw'r diffyg cyfle sydd ar gael mewn rhai rhannau o Gymru i feistroli'r iaith. [26]

Eto i gyd, mae'n ddigon posib na fyddai nifer o aelodau *Education First* wedi dewis dadlau bod polisi a oedd yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn o leiaf elfen o gyflwyniad i'r Gymraeg yn annerbyniol. Wedi'r cyfan, yr ysgolion Categori A oedd prif wrthrych eu llid. I raddau helaeth, nid y ffaith fod yn rhaid i bawb ddysgu elfen o Gymraeg tra'u bod yn yr ysgol gynradd oedd wir yn eu gwylltio, ond yn hytrach, y modd yr oedd polisi Dyfed o gategoreiddio ysgolion yn ôl ardaloedd yn golygu bod rhai plant yn gorfod dysgu Cymraeg mewn ysgolion a oedd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng yr iaith honno. Nid oedd yr opsiwn o fynychu ysgolion Saesneg ac o ddysgu ychydig o Gymraeg (hynny yw fel pwnc unigol) yn agored i'r garfan hon. Felly, tra bod modd casglu'n ddigon hyderus nad oes dim byd annerbyniol ynglŷn â pholisi sy'n sicrhau bod holl blant Dyfed yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg mewn rhyw fodd neu'i gilydd, a yw hefyd yn bosib casglu ei bod yn dderbyniol i fynnu, mewn rhai rhannau o'r sir, bod y cyflwyniad hwnnw yn digwydd mewn ysgolion lle

[26] Ochr yn ochr â'r ddadl ynglŷn â symudoledd cymdeithasol, efallai y byddai rhai yn dewis gwrthwynebu'r arfer o drin y Gymraeg fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm ar sail tegwch. Hynny yw, hyd yn oed os nad yw'r arfer yn arbennig o niweidiol o safbwynt symudoledd cymdeithasol, nid yw'n *deg* fod y plant hynny sydd ddim yn dymuno derbyn gwersi Cymraeg, yn gorfod gwneud hynny beth bynnag. Oni ddylai pawb feddu ar y rhyddid i ddewis pa ieithoedd i ddysgu? Mynegwyd dadl debyg i hon gan rai o'r bobl hynny, megis David Davis, yr Aelod Seneddol o Fynwy, sy'n gwrthwynebu'r arfer a sefydlwyd gan ddeddf Addysg 1988 o ddysgu Cymraeg fel pwnc hanfodol yn y cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n glir i mi sut gellid dadlau fod y polisi yn un sy'n arbennig o annheg. Ystyrier, mae'n anochel y bydd y mwyafrif o wladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd yn llunio rhyw fath o gwricwlwm addysg. Ymhellach, mae'n anochel y bydd y cwricwlwm hwn yn cynnwys rhai elfennau gorfodol – yn aml y math o sgiliau a ystyrir fel rhai hanfodol ar gyfer bywyd yn y gymuned dan sylw. Ar y cyfan, nid oes dim sy'n arbennig o ormesol ynglŷn â gorfodaeth o'r fath, ar yr amod nad yw'n arwain at danseilio unrhyw fuddiannau sylfaenol. Nawr, yn achos yr arfer o drin y Gymraeg fel elfen hanfodol, gwelwyd nad yw hyn yn wir – nid yw, er enghraifft yn tanseilio symudoledd cymdeithasol unrhyw ddisgyblion. O ganlyniad, anodd fyddai casglu fod yr arfer yn un annheg. Mae'n bosib na fydd cwricwlwm o'r fath at ddant pawb, ond nid yw'r ffaith nad yw rhywun yn arbennig o hoff o drefniant penodol yn cynnig digon o sail i ddadlau fod y trefniant hwnnw yn annheg. Yn wir, rai blynyddoedd yn ôl roedd astudio technoleg (gwaith coed, tecstilau ayb) yn rhan hanfodol o'r cwrs TGAU. Nid oedd hyn yn bolisi poblogaidd ymhlith nifer helaeth o ddisgyblion. Eto i gyd, go brin y gallai'r disgyblion hyn ddadlau eu bod yn dioddef unrhyw annhegwch neu anghyfiawnder difrifol.

câi'r iaith ei defnyddio fel y prif gyfrwng addysgol a chymdeithasol? Yntau, a oedd gan deuluoedd Saesneg sail i ddadlau bod ganddynt *hawl* i ddanfon eu plant i ysgolion a oedd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng yr iaith honno?

Yn sicr roedd aelodau *Education First* yn credu ym modolaeth hawl o'r fath. Fel y nododd y *Western Mail* wrth drafod ymgyrch y mudiad ym mis Hydref 1990:

> Under the policy, most schools in the traditional Welsh-speaking rural areas of Dyfed have been classified as Category A – with Welsh as the main medium of instruction for under-sevens. But Education First claims *that English-speaking children have a right to be taught in their mother tongue*.[27]

Ond sut dylid ymateb i'r ddadl hon? A oes sail i ddadlau bod y siaradwyr Saesneg hynny sydd, dros y blynyddoedd, wedi gorfod mynychu ysgolion Categori A, mewn gwirionedd yn meddu ar hawl i fynychu ysgolion Saesneg? Wrth gloriannu, dylid cofio nad polisi a luniwyd gan garfan elit, anghynrychioladol oedd yr un a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Dyfed, ond yn hytrach ffrwyth cyd-drafod a chyfaddawdu democrataidd. O ganlyniad, nid ar chwarae bach y gellid mynd ati i wrthdroi casgliadau'r drafodaeth honno, gan gydnabod bod gan blant o deuluoedd Saesneg hawl sylfaenol i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion Saesneg. Fel y gwelwyd mewn penodau cynt (gweler Pennod 3 yn enwedig), er mwyn dilysu cam o'r fath byddai angen dangos bod y plant hynny yn meddu ar fuddiannau ieithyddol neu addysgiadol sydd mor sylfaenol ac arwyddocaol, fel bod angen eu gwarantu beth bynnag fo casgliadau democrataidd y mwyafrif. Neu, o eirio'r mater mewn termau ychydig yn wahanol, byddai angen dangos fod atal y plant hyn rhag mynychu ysgolion Saesneg yn peri niwed mor ddifrifol fel na ellid gadael i'r mater gael ei

[27] 'Legal test on Welsh teaching', *Western Mail*, 10.10.90, pwyslais wedi'i ychwanegu.

ddatrys trwy gyfrwng ein trefniadau democrataidd cyffredin. Ond, a oedd buddiannau o'r fath yn y fantol yn yr achos hwn?

O ystyried y dyfyniad uchod o'r *Western Mail*, gellir casglu mai'r ffactor a oedd, yn nhyb *Education First*, yn tanlinellu pwysigrwydd addysg Saesneg i blant o deuluoedd Saesneg oedd y ffaith mai'r iaith honno, yn syml, oedd eu mamiaith. Heb os, ni ellir gwadu fod mamiaith person yn nodwedd arbennig o bwysig ac arwyddocaol. Fodd bynnag, a ellir dadlau ei bod yn nodwedd sydd mor bwysig fel bod rhaid sicrhau bod pawb yn medru derbyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno; hynny yw, a oes y fath beth a hawl foesol sylfaenol i dderbyn addysg yn ein mamiaith? Wrth gwrs, gwelwyd eisoes, wrth drafod gwrthwynebiadau mewnfudwyr i bolisïau addysg Quebec, nad oes y fath beth a hawl sylfaenol i dderbyn addysg yn yr iaith o'ch dewis (gweler Pennod 4, Adran 7). Ond a yw pethau'n wahanol pan mai iaith yr addysg a ddeisyfir yw ein mamiaith?

Clywir datganiadau ynglŷn â'r hawl i addysg mewn mamiaith yn nifer o'r gwledydd hynny lle bo polisi iaith, ac yn enwedig polisi iaith ym maes addysg, yn bwnc llosg. Er enghraifft, mynegwyd dadleuon tebyg gan siaradwyr Sbaeneg yng Nghatalonia pan aethpwyd ati i sefydlu'r Gatalaneg fel prif iaith addysg y rhanbarth (Costa 2000). Eto i gyd, dadl lac yw hon mewn gwirionedd. Fel y dadleuodd amryw o'r athronwyr sydd wedi trafod polisi iaith o bersbectif normadol, mae'n anodd gweld sut gall safbwynt o'r fath fod yn un credadwy. Yn wir, byddai'n gwbl anymarferol i fabwysiadu'r gred fod pawb yn meddu ar hawl foesol sylfaenol i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng eu mamiaith. Byddai'n golygu, er enghraifft, bod gan Gymro'r hawl i

fynnu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn unrhyw ran o'r byd; senario cwbl anymarferol. Fel y nododd Kymlicka:

> ... I don't think that any plausible account of human rights in relation to language will say that there is a basic universal human right to have instruction in one's mother tongue – that it has to be a the language of schooling. I don't think that there is a plausible argument that could be made that it's a universal human right (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 2).

Mynegwyd syniadau tebyg gan Costa hefyd: 'most scholars agree that a human right to obtain instruction *in* the pupil's mother tongue does not exist ... liberalism imposes no obligation to enact such a right' (2000: 426, pwyslais yn y gwreiddiol). O ganlyniad, er mwyn esgor ar hawl i dderbyn addysg trwy gyfrwng iaith benodol rhaid gwneud mwy na dim ond nodi mai'r iaith dan sylw yw eich mamiaith. Mae'n rhaid wrth ddimensiwn cyd-destunol hefyd, er enghraifft cefndir hanesyddol neu gyswllt tiriogaethol.[28] Felly, os mai'r cyfan a wnâi aelodau *Education First* oedd mynnu y dylai eu plant fedru mynychu ysgolion Saesneg gan mai dyna, yn syml, oedd eu mamiaith, yna ni ellir casglu bod unrhyw sail i'w dadl.

Fodd bynnag, efallai bod arwyddocâd y Saesneg i'r teuluoedd hyn – ac felly'r angen i'w plant dderbyn addysg trwy gyfrwng yr iaith honno – wedi'i seilio ar fwy na'r ffaith mai dyna, yn syml, oedd eu mamiaith. I nifer o siaradwyr Saesneg sy'n trigo yng Nghymru, mae'n bosib fod arwyddocâd yr iaith hefyd yn deillio o ffactorau cyd-destunol megis y dimensiwn hanesyddol a demograffig sy'n nodweddu perthynas y Saesneg â'r wlad. I'r bobl hyn, nid unrhyw iaith mo'r Saesneg, ond yn hytrach, iaith

[28] Mae'n bosib, er ddim yn gwbl sicr, y gellid llunio achos sy'n dadlau bod gan bobl hawl sylfaenol i *ddysgu* eu mamiaith. Mae hwn yn safbwynt a amddiffynnwyd gan Tove Skutnabb-Kangas a Robert Phillipson (1995). Eto i gyd, nid oedd yr hawl hon yn cael ei thramgwyddo mewn unrhyw fodd gan bolisi Dyfed, gan fod pawb yn gadael yr ysgol yn siarad Saesneg hefyd. Fodd bynnag, un peth yw meddu ar yr hawl i ddysgu ein mamiaith, mae datgan bod gan bobl yr hawl i gael eu haddysgu trwy gyfrwng yr iaith honno yn wahanol.

sy'n meddu ar berthynas bwysig â thiriogaeth Cymru, ac felly, iaith sy'n chwarae rhan bwysig yn eu dehongliad o'u hunaniaeth genedlaethol. Wrth gyflwyno'r ddadl yn y termau hyn, gellid mynnu bod galw am addysg Saesneg yng Nghymru yn gwbl wahanol i alw am addysg Ffrangeg, Sbaeneg neu Fandarin. Dylid nodi na lwyddodd *Education First* i roi mynegiant huawdl i ddadl o'r fath a oedd yn ystyried arwyddocâd y cyswllt rhwng y Saesneg a dehongliad rhai Cymry o'u hunaniaeth genedlaethol. I raddau helaeth, roedd gwrthwynebiadau'r mudiad i bolisi addysg Dyfed yn llawer rhy amrwd i ganiatáu hynny. Fodd bynnag, roedd hwn yn llwybr y gellid fod wedi'i ddilyn. O ganlyniad, ystyrir yma i ba raddau y byddai gwneud hynny wedi esgor ar ddadl gryfach o blaid hawl y siaradwyr Saesneg hynny a drigai yng Nghymru i dderbyn addysg Saesneg.

Yn sicr, wrth drafod gwrthdaro ieithyddol yng Nghymru, rhaid derbyn nad unrhyw iaith mo'r Saesneg. Wedi'r cyfan, mae'n famiaith i fwyafrif helaeth o'r boblogaeth ac mae ei rôl ym mywyd cyhoeddus y wlad yn ymestyn nôl dros ganrifoedd. Wrth gwrs, gellid dadlau'n hir ynglŷn â thegwch a dilysrwydd y broses a arweiniodd at fodolaeth sefyllfa o'r fath. Ar ben hynny, gellid defnyddio cysyniadau megis 'priod iaith' er mwyn dadlau nad yw statws y Saesneg yn medru cyfateb yn llwyr i un y Gymraeg (Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2001, 2005). Ond, er gwaethaf hyn, anodd fyddai gwadu bod y Saesneg yn meddu ar gyswllt arbennig â Chymru, un sy'n ei osod ar wahân i bob iaith arall a siaredir yma. Fodd bynnag, a ddylai ffactorau cefndirol o'r fath ychwanegu hygrededd i ddadl carfan megis *Education First* ynglŷn â'r hawl i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg?

Wrth drafod hyn, mae'n rhaid ystyried a ddylai galwadau pob siaradwr Saesneg am addysg yn yr iaith honno feddu ar yr un grym moesol. Hynny yw, a fyddai'n rhaid trin galwadau'r sawl a oedd wedi mudo o Loegr yn yr un modd a'r sawl a oedd wedi'u geni a'u magu yng Nghymru ond ddim yn digwydd siarad Cymraeg? Mae hwn yn gwestiwn pwysig, yn enwedig o ystyried bod mewnfudo wedi bod yn gefndir pwysig i ddatblygiad polisïau addysg Dyfed. Yn achos y sawl sy'n mudo o Loegr, mae'n anodd gweld ar ba sail y gallent hwy hawlio bod ganddynt hawl sylfaenol i dderbyn addysg Saesneg ac felly eu bod yn dioddef annhegwch pan fo awdurdod addysg lleol, megis Dyfed, yn disgwyl iddynt fynychu ysgolion cynradd sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi'r cyfan *dewis* symud i Gymru a wnaethant; *dewis* symud i ardal lle ceir trefniadau addysgiadol gwahanol i'r hyn a geir yn Lloegr. O ganlyniad, mae'n anodd gweld ar ba sail y dylent fedru mynnu, fel mater o hawl, eu bod yn cael mynychu'r un math o ysgolion ag y gwnaethant cyn symud i Gymru.[29]

O ganlyniad, gellir diystyru gwrthwynebiadau'r mewnfudwyr. Yn wir, mae hyn yn arwyddocaol, gan mai pobl a symudodd i fyw i Ddyfed o Loegr yn ystod yr 1980au oedd rhai o brif wrthwynebwyr y polisi addysg (Jenkins a Jones 1999: 402). Ond, beth am y Cymry di-Gymraeg hynny a drigai yn Nyfed? Ar y cyfan, roedd y garfan hon yn fwy bodlon gyda'r polisi addysg. Eto i gyd, mae'r angen i ystyried eu sefyllfa yn dal. Pe byddai rhai ohonynt yn digwydd gwrthwynebu'r polisi, gan fynnu

[29] Yn wahanol i'r Canadiaid hynny o daleithiau megis Alberta neu British Columbia sy'n symud i Quebec, ni ellir dadlau bod y garfan yma, trwy fudo, yn ymuno â lleiafrif cenedlaethol arbennig. Ar ben hynny, yn wahanol i achos y sawl sy'n mudo i wledydd gorllewinol o rannau o'r trydydd byd, gellir datgan yn go hyderus mai mater o ddewis oedd y penderfyniad i symud i Gymru. Wedi'r cyfan, roedd effaith mewnfudo ar sefyllfa'r farchnad dai mewn ardaloedd megis Dyfed a Gwynedd yn awgrymu'n gryf mai pobl ag adnoddau economaidd uwch na'r boblogaeth leol oedd yn symud (Ellis a Raybould 1992).

bod y Saesneg yn meddu ar arwyddocâd pwysig iddynt, a allent hawlio, yn wahanol i fewnfudwyr o Loegr, bod ganddynt hawl i ddanfon eu plant i ysgolion Saesneg?

Yn sicr, rhaid cydnabod fod galwadau'r garfan hon yn rhai sy'n haeddu mwy o ystyriaeth na rhai'r sawl a oedd wedi mudo i Gymru. Eto i gyd, a ydynt yn alwadau sy'n ddigon cryf i esgor ar *hawl* – hynny yw, i ddyfynnu Dworkin (1977), offeryn a ddylai 'drympio'r' casgliadau y daethpwyd iddynt trwy gyfrwng y drafodaeth ddemocrataidd, gan sicrhau bod plant o deuluoedd Saesneg yn medru mynychu ysgolion Saesneg doed a ddel. A fyddai'r budd a gai ei warchod trwy gydnabod hawl o'r fath yn un digon pwysig i ddilysu gwneud hyn? Neu, o eirio'r cwestiwn mewn termau ychydig yn wahanol, a fyddai'r plant dan sylw yn dioddef unrhyw niwed annerbyniol trwy gael eu hatal rhag mynychu ysgolion Saesneg?

Yn syml, na fyddent. Ni fyddai mynychu ysgolion a oedd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi niwed o unrhyw fath i'r plant hyn. Cymerer i ddechrau arwyddocâd posib y Saesneg iddynt fel Cymry o gefndir di-Gymraeg. Ni fyddai mynychu ysgolion Categori A yn arwain at wadu na dibrisio'r arwyddocâd hwn mewn unrhyw fodd. Fel y nodwyd eisoes, ni fyddai mynychu ysgolion o'r fath yn atal neb rhag dysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn gwbl rugl. Yn wir, cai'r gallu hwn ei feithrin yn drylwyr yn yr ysgol, ochr yn ochr â'r broses o ddysgu Cymraeg. Ymhellach, rhaid cofio y byddai'r sawl a fynychai'r ysgolion Categori A yn gwbl rydd i ddefnyddio'r Saesneg ym mhob agwedd arall o'u bywyd bob dydd. Byddai ganddynt amrediad eang o gyfryngau Saesneg i'w diddanu. Ar ben hynny, fyddai dim rhwystr yn eu hatal rhag derbyn pob gwasanaeth cyhoeddus

neu breifat arall trwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad, ni fyddai hunaniaeth y plant hyn fel Cymry sy'n dod yn wreiddiol o gefndir di-Gymraeg yn cael ei wadu neu ei danseilio mewn unrhyw fodd.[30] Yn ogystal, yn groes i honiadau *Education First*, ni fyddai lles addysgiadol plant o gefndir di-Gymraeg yn cael ei niweidio trwy fynychu ysgolion a oedd yn gweithredu drwy'r iaith honno. I'r gwrthwyneb yn llwyr, fel y mae llu o astudiaethau o faes addysg a dwyieithrwydd yn dangos, mae addysg sy'n hybu dwyieithrwydd atodol (additive) – hynny yw y math o addysg a brofwyd gan y plant di-Gymraeg hynny a fynychai ysgolion Categori A yn Nyfed – yn un sy'n aml yn esgor ar gyrhaeddiad academaidd tipyn uwch na'r cyffredin (Baker 2001; May 2001: 196 n4; Romaine 1995).[31]

At ei gilydd felly, gellir casglu nad oedd dim byd annerbyniol, o safbwynt moesol, ynglŷn â'r polisi addysg a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Dyfed. Yn groes i honiadau *Education First*, nid oedd y polisi hwn yn haeddu cael ei ddisgrifio fel un 'gorthrymol' a oedd yn tramgwyddo egwyddorion pwysig. Yn y lle cyntaf, gwelwyd

[30] Dylid nodi na fyddai'r ddadl hon yn gweithio pe bai rhywun am geisio'i throi ar ei phen gan ddadlau mewn cyd destun arall na ellir mynnu addysg Gymraeg fel mater o hawl. Yn wahanol i'r sawl sy'n dymuno derbyn addysg Saesneg yng Nghymru, byddai atal y sawl sy'n dymuno derbyn addysg Gymraeg rhag gwneud hynny yn esgor ar niwed arwyddocaol. Heb fedru derbyn addysg Gymraeg neu ddwyieithog, mae'n annhebygol y byddai plentyn yn medru magu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gwbl rugl, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gweler y disgrifiad o ddwyieithrwydd tynnol (subtractive) yn nodyn 31 isod.

[31] Noder mai'r model atodol (additive) o addysg ddwyieithog a amddiffynnir yma ac nid y model tynnol (subtractive). Mae'r cyntaf yn cyfeirio at sefyllfa lle mae'r plentyn yn ychwanegu ail iaith i'w arfogaeth tra bo'i afael ar ei famiaith yn cael ei chynnal a'i chadarnhau gan safle sicr yr iaith honno yn y teulu a'r gymuned ehangach. Yn ogystal â phlant di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yng Nghymru, mae plant o deuluoedd Saesneg sy'n mynychu ysgolion Ffrangeg mewn gwahanol rannau o Canada yn syrthio i'r categori hwn. Mae'r ail fodel, sef dwyieithrwydd tynnol, yn esgor ar sefyllfa lle bydd y plentyn yn dysgu ail iaith fwyafrifol tra'n colli ei afael ar ei famiaith yn sgil safle israddol yr iaith honno yn y gymuned yn gyffredinol. Dyma yw profiad nifer o siaradwyr Sbaeneg mewn sawl rhan o'r Unol Daleithiau. Tra bo'r cyntaf yn fodel sy'n esgor ar gyrhaeddiad addysgiadol uwch mae'r ail yn medru arwain at ddiffyg hyder ac ymddieithrio cymdeithasol ac felly'n cyfrannu at ddal plant yn ôl (gweler er enghraifft Baker 2001; Romaine 1995: 244 – 246). Yn arwyddocaol, fel rhan o'r drafodaeth gyhoeddus ynglŷn ag ymgyrch *Education First*, cyhoeddwyd erthygl yn y *Western Mail* gan Robert Powell o'r *National Foundation for Education Research in England and Wales* a oedd yn egluro'r gwahaniaeth pwysig sy'n bodoli rhwng y ddau fodel yma o addysg ddwyieithog. Gweler 'Commentary: Searching in vain for second-language lags', *Western Mail* 30.10.1990.

nad oedd dim byd o'i le ar yr arfer o orfodi pob plentyn a fynychai ysgol gynradd yn Nyfed i gael eu cyflwyno mewn rhyw fodd i'r Gymraeg. Nid oedd arfer o'r fath yn arwain at danseilio symudoledd cymdeithasol y plant. Ymhellach nid oedd yn enghraifft o orfodaeth annheg. Yn hytrach roedd yn gam cwbl resymol ar ran awdurdod addysg a oedd yn gwasanaethu cymunedau lle roedd nifer helaeth o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, ac efallai'n bwysicach o safbwynt ymgyrch *Education First*, gwelwyd nad oedd dim byd annerbyniol ynglŷn â bodolaeth yr ysgolion Categori A, a'r ffaith fod disgwyl, mewn rhai ardaloedd, i bob plentyn fynychu ysgolion a oedd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd nad oedd polisi o'r fath yn achosi unrhyw niwed, nac yn tramgwyddo unrhyw fuddiannau pwysig ymhlith y sawl a fyddai wedi ffafrio cael mynychu ysgolion Saesneg. O ganlyniad, mae'n anodd gweld ar ba sail y dylai'r garfan hon fedru mynnu, fel mater o hawl, y dylent gael mynychu ysgolion o'r fath.

### 7. Hybu Trosglwyddiad Iaith o Fewn y Teulu

Ers amser bu cynllunwyr iaith yn gytun bod gallu grŵp i drosglwyddo'i iaith o un genhedlaeth o'r teulu i'r llall yn cyfrannu mewn modd allweddol i'r broses o gynnal yr iaith honno. Fel yr eglura Kathryn Jones a Delyth Morris:

> Research evidence in the field of language shift and minority-language revitalization demonstrates that the survival or demise of most minority languages crucially depends upon the extent to which the language is 'transmitted' from one generation to the next. The role of the home and family is commonly acknowledged as being central to the 'intergenerational transmission' of minority languages and so to their maintenance and vitality as languages of wider social interaction (Jones a Morris 2007: 52 – 53).

Un o brif ladmeryddion y safbwynt hwn yw'r cymdeithasegydd iaith Joshua Fishman (1991, 2001). Yn nhyb Fishman, sefydlogrwydd y broses o drosglwyddo iaith o un

genhedlaeth o'r teulu i'r llall yw'r prif bwnc y dylai llunwyr polisi ei ystyried wrth fynd ati i geisio cynnal a datblygu rhagolygon iaith benodol. Tra bod ffactorau 'uwch' megis y farchnad lafur, y cyfryngau a'r byd addysg yn sicr yn chwarae'u rhan, mynna mai dim ond dylanwad eilradd sydd ganddynt ar sefydlogrwydd tymor hir iaith a'i gallu sylfaenol i oroesi o genhedlaeth i genhedlaeth (Fishman, 1991). Wrth reswm, bydd absenoldeb iaith leiafrifol o'r peuoedd 'uwch' yma yn effeithio ar ei statws a'i phroffil gweledol, a hefyd ar y defnydd ohoni o fewn y peuoedd hynny. Ymhellach, bydd adferiad cyflawn yr iaith yn galw am ystyried ei lle mewn peuoedd o'r fath. Fodd bynnag, yn nhyb Fishman, cyn gellir mynd ati i wneud hynny, rhaid sicrhau bod statws yr iaith o fewn y teulu wedi'i ddiogelu. Heb wneud hynny, bydd yr holl broses o geisio adfer yr iaith wedi'i gosod ar seiliau cwbl simsan. Dyma sy'n arwain Fishman i ddatgan, 'the centrality of this constellation [h.y. sffer preifat y teulu a chyfeillion agos] must be recognized ... rather than being undercut or upstaged by the more dramatic and modern arenas and media of sociocultural life' (Fishman, 1991: 95).

Ymddengys fel pe bai cynllunwyr iaith yng Nghymru wedi derbyn y neges hon o eiddo Fishman, gan fod ymdrechion i annog mwy o rieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant wedi derbyn sylw cynyddol, dros y deg mlynedd diwethaf, mewn rhaglenni polisi o eiddo Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth y Cynulliad (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003: 39). Wrth gwrs, bu caredigion yr iaith Gymraeg yn ymwybodol ers peth amser o anallu neu amharodrwydd ymhlith nifer o rieni Cymraeg eu hiaith i drosglwyddo'r iaith i'w plant, a bod hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ei sefyllfa bregus. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad swyddogol o hyd a lled y broblem yn

dilyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 1991. Fel yr eglura Elaine Davies, roedd y canlyniadau hyn yn arbennig o ddadlennol:

> Of the 22.8 per cent of families where one or both parents were Welsh speakers, and so had the potential to reproduce the language in the next generation, it was found that only in 16.5 per cent of the families did transmission occur. As a result the Welsh language was being lost in roughly a quarter of households where either one or both parents had the capacity to pass it on (Davies 2005: 12).

Cafwyd cadarnhad pellach o'r broblem yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r cyfrifiad nesaf yn 2001. Er bod y cyfrifiad hwn yn nodi cynnydd graddol yn y nifer o bobl a oedd yn medru siarad Cymraeg, roedd hefyd yn dangos bod lle mawr i bryderu ynglŷn â faint o deuluoedd oedd yn llwyddo i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, yn enwedig felly yn achos y teuluoedd hynny lle mai dim ond un rhiant oedd yn medru'r Gymraeg. Fel y noda Viv Edwards a Lynda Pritchard Newcombe:

> An initial and tentative analysis of the 2001 Census suggests that only 81.9 per cent of children where both parents spoke Welsh can speak the language; in two adult households, where only one of the adults is Welsh-speaking, the figure falls to 39.8 per cent (Edwards a Pritchard Newcombe 2005: 138).[32]

At ei gilydd felly, cadarnhaodd canlyniadau'r ddau gyfrifiad diwethaf bod nifer helaeth o blant yn colli'r cyfle i ddysgu'r Gymraeg o ganlyniad i'r ffaith nad oedd yr iaith yn cael ei throsglwyddo'n naturiol o fewn y teulu. Wrth reswm, roedd sefyllfa o'r fath yn milwrio yn erbyn ymdrechion i gynnal a datblygu'r Gymraeg, ac o ganlyniad, nid yw'n syndod fod cynllunwyr iaith o Gymru wedi rhoi cryn sylw i'r mater dros y blynyddoedd diwethaf.

---

[32] Dylid nodi mai cyfeirio at y canrannau ymhlith plant 3 i 4 oed a wna Edwards a Pritchard Newcombe yn y dyfyniad uchod. Pe byddem yn ymestyn y categori i gynnwys plant o 3 i 15 oed, byddai'r ganran yn codi i 91.3 y cant yn achos plant o deuluoedd lle ceir dau riant sy'n siarad Cymraeg ac i 61.3 y cant yn achos y plant hynny sydd wedi'u magu mewn teuluoedd lle ceir un rhiant sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag mae ffocws yr awduron ar y categori mwy cyfyng yn gwbl briodol. Fel y noda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, mae'r cynnydd a welir wrth ymestyn yr oedran i'w ddisgwyl, oherwydd 'gellir disgwyl y bydd llawer o blant yn dod i siarad Cymraeg ar ôl iddynt gychwyn yn yr ysgol'. O ganlyniad, 'er mwyn tynnu casgliadau am brosesau trosglwyddo iaith *ar yr aelwyd*, mae'n well canolbwyntio ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer plant 3 i 4 oed' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2003: 3, pwyslais yn y gwreiddiol).

Prif ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg fu sefydlu'r cynllun 'Twf: Magu Plant yn Ddwyieithog'. Dechreuodd y fenter hon fel cynllun peilot yn Sir Gaerfyrddin ym 1999, pan gyflogwyd swyddog prosiect er mwyn sefydlu cyswllt gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd lleol, gyda'r bwriad o geisio creu trefn lle byddai'r bobl hyn yn trosglwyddo gwybodaeth i rieni newydd ynglŷn â manteision magu plant yn ddwyieithog. Arweiniodd hyn at sefydlu mentrau tebyg yn siroedd Conwy a Dinbych yn 2001. Yna, yn 2002, lansiwyd Twf yn swyddogol fel corff a fyddai'n ceisio dylanwadu ar arferion ieithyddol rhieni ym mhob rhan o Gymru. (Davies 2005; Edwards a Pritchard Newcombe 2005; Irvine *et al* 2008).[33] Yn ôl Davies, gall prif amcanion y corff newydd hwn gael eu crynhoi fel a ganlyn:

> Raise awareness amongst parents and prospective parents of the advantages of bilingualism. Bring this message into the mainstream practice of midwives and health visitors and, most importantly, influence the linguistic choice and behaviour of the project's target group, namely mixed language families (Davies 2005: 12).

Ond sut yn union aethpwyd ati i gyrchu'r amcanion hyn?

Ers ei sefydlu, mae Twf wedi defnyddio cyfuniad o ddulliau er mwyn ceisio lledu'r neges o werth dysgu Cymraeg ac o fod yn ddwyieithog ymhlith rhieni newydd. I ddechrau, datblygwyd ymhellach ar y cydweithio cynnar gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Erbyn hyn, sefydlwyd trefn lle bo bydwragedd, fel rhan o'r broses o gynghori a chynorthwyo darpar rieni, yn codi cwestiynau ynglŷn â dewisiadau ieithyddol: A yw'r rhiant wedi ystyried cyflwyno'r Gymraeg i'w plant, boed hynny eu hunain, neu trwy gyfrwng y drefn addysg? Ochr yn ochr â hyn, bydd bydwragedd yn darparu pecynnau gwybodaeth sy'n cynnwys taflenni sy'n sôn am y manteision sy'n

[33] Ers y cychwyn mae Twf wedi'i reoli a'i ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ond ers 2001 mae Cwmni Iaith, cwmni cynllunio ieithyddol, wedi bod yn rhedeg y gwaith maes. Gweler www.iaith.eu/twf.php.

gysylltiedig â dysgu Cymraeg ac o fod yn ddwyieithog. Ymhellach, o bryd i'w gilydd bydd y bydwragedd yn gwahodd rhai o swyddogion prosiect Twf i wneud cyflwyniadau gerbron y dosbarthiadau geni. Yno bydd cyfle i drafod unrhyw amheuon sydd gan rieni a hefyd cyfle i egluro pa fath o gefnogaeth addysgiadol a chymdeithasol sydd ar gael i'r rhieni hynny sydd am sicrhau bod eu plant yn meistroli'r Gymraeg (Edwards a Pritchard Newcombe 2005).

Cymerwyd camau hefyd i geisio sicrhau bod y cyflwyniad hwn gan fydwragedd yn cael ei ategu'n hwyrach gan yr ymwelwyr iechyd sy'n cyfarfod y rheini yn fuan wedi genedigaeth eu plant. Fel yr eglura Edwards a Pritchard Newcombe, mae cyfraniad y bobl hyn yn arbennig o bwysig:

> The work of health visitors, who take over from midwives soon after birth, is even more relevant to the project; child development is central to their interests and language development is a topic which parents are often keen to discuss' (Edwards a Pritchard Newcombe 2005: 140).

O ganlyniad, mae Twf wedi mynd ati i annog ymwelwyr iechyd i drafod materion ieithyddol megis dwyieithrwydd a dysgu Cymraeg gyda rhieni yn ystod yr asesiad wyth mis a hefyd ar adegau eraill os yw'r cyfle'n codi. Y nod, yn y pen draw, yw sicrhau bod dealltwriaeth o ddwyieithrwydd a'i oblygiadau yn ennill ei le fel rhan hanfodol o hyfforddiant bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. I'r perwyl hwn, mae Twf wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am arolygu'r cyrsiau hyfforddi perthnasol (Edwards a Pritchard Newcombe 2005).

I raddau helaeth, y cydweithio hwn gyda'r sector iechyd fu prif waith Twf hyd yn hyn (Edwards a Pritchard Newcombe 2005). Fodd bynnag, ochr yn ochr â gwaith o'r fath, mae'r corff hefyd wedi chwilio am ffyrdd o hybu ei neges graidd trwy

gydweithio gyda chyrff addysgiadol neu ieithyddol eraill. Er enghraifft, caiff llenyddiaeth sy'n hysbysu rhieni o fanteision dwyieithrwydd ei ddosbarthu'n eang trwy gyfrwng llyfrgelloedd a hefyd cyrff megis y Swyddfa Gwybodaeth Plant. Yn ogystal, sefydlwyd partneriaethau rhwng Twf â chyrff megis y Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Mentrau Iaith.

Gwelir felly fod Twf yn gynllun ieithyddol newydd a chymharol arloesol sydd wedi datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, pam mae hwn yn achos sy'n briodol i'w ystyried yng nghyd-destun y traethawd hwn? Wedi'r cyfan, yn wahanol i'r achosion eraill a drafodwyd yn ystod y bennod hon, nid yw gweithgaredd Twf wedi ennyn unrhyw wrthwynebiad chwyrn o du rhai rhannau o'r boblogaeth. O ganlyniad, gellid dadlau nad oes unrhyw densiynau mawr wedi dod i'r amlwg sy'n galw ymdriniaeth ofalus o bersbectif normadol. Fodd bynnag, pan ystyrir natur y gwaith a wneir gan swyddogion Twf, fe welir fod hwn yn achos sy'n codi amryw o gwestiynau normadol diddorol. A siarad yn gyffredinol, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r lefel o ddylanwad sy'n briodol i unrhyw wladwriaeth geisio'i estyn dros arferion preifat ei dinasyddion: Ydy'r broses o drosglwyddo iaith o fewn y teulu yn faes y dylai'r wladwriaeth ymhél ag ef? I ba raddau y mae'n briodol i'r wladwriaeth geisio dylanwadu ar arferion ieithyddol preifat ei dinasyddion? A yw gweithgarwch o'r fath yn debygol o arwain at ddyrchafu ffordd benodol o fyw, gan danseilio rhyddid pob dinesydd i lunio'u gwerthoedd a'u dyheadau eu hunain? Mae'r rhain oll yn gwestiynau y byddai rhyddfrydwyr yn eu hystyried yn bwysig dros ben. O ganlyniad, fe'u hystyrir yn ystod y paragraffau isod, gyda'r bwriad o ddod i gasgliadau ynglŷn â dilysrwydd y gwaith a wneir gan swyddogion Twf.

Wrth gwrs, mae'n bur hysbys bod rhyddfrydwyr, yn draddodiadol, wedi rhoi pwyslais mawr ar y sffêr preifat, ac yn benodol, yr angen i'r wladwriaeth ymatal rhag ceisio ffrwyno neu reoli ymddygiad unigolion yn y sffêr hwn.[34] Yn arwyddocaol, mae'r pwyslais traddodiadol hwn ar y sffêr preifat yn cael ei amlygu hefyd yn y modd y mae rhyddfrydwyr yn ymdrin â materion ieithyddol. Er enghraifft, mae'r rhyddfrydwyr hynny sydd wedi trafod materion ieithyddol wedi tueddu i estyn cefnogaeth gref i'r egwyddor y dylai unigolion fod yn rhydd i ymwneud yn breifat gyda theulu a chyfeillion ym mha bynnag iaith y dymunant, ac na ddylai'r wladwriaeth geisio rheoleiddio ein harferion ieithyddol mewn peuoedd preifat o'r fath. Er enghraifft, nododd Green, '[people] are entitled to use in private life whichever language they choose' (1987: 660). Ategir hyn gan Laitin a Reich (2003: 96), sy'n cyfeirio at ymdrechion Franco i wahardd y defnydd preifat o'r Gatalaneg neu ymdrechion lled-ddiweddar llywodraeth Twrci i wahardd dinasyddion rhag siarad Cwrdeg. Yn nhyb y rhyddfrydwyr hyn, roedd polisïau o'r fath yn gwbl annerbyniol ac yn tramgwyddo rhyddfreiniau sylfaenol.

O ganlyniad, pe bai llywodraeth yn mynd ati i geisio newid arferion ieithyddol teuluoedd trwy gyfrwng mesurau sy'n cyfyngu ar y rhyddid preifat hwn, neu'n wir yn ei ddileu, yna gellid casglu'n gwbl hyderus y byddai rhyddfrydwyr yn lleisio'u

[34] Wrth sôn yma am y sffêr preifat, cyfeirio ydwyf yn bennaf at y rhan anffurfiol a chymdeithasol o fywyd unigolion; hynny yw, ein hymwneud dyddiol â chyfeillion neu aelodau o'n teulu. Nid wyf yn ymestyn y term i gwmpasu meysydd eraill sydd hefyd yn tueddu i gael eu labeli fel rhai preifat, er enghraifft y rhannau hynny o'r economi sydd mewn perchnogaeth breifat. Wedi'r cyfan, dros y blynyddoedd nid yw rhyddfrydwyr wedi bod mor amharod i reoleiddio ein hymddygiad yn y meysydd hyn. Er enghraifft, yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd rhyddfrydwyr cymdeithasol yn llafar iawn eu cefnogaeth i fesurau a fyddai'n gorfodi perchnogion ffatrïoedd i wella amgylchiadau eu gweithwyr. Wrth gwrs, mae rhai rhyddfrydwyr – neo-ryddfrydwyr yn bennaf – wedi gwrthod ymyrraeth o'r fath, gan fynnu bod y wladwriaeth yn cadw draw o bob maes preifat. Fodd bynnag, ar y cyfan, wrth sôn am bwysigrwydd sylfaenol y sffêr preifat, a'r angen i'r wladwriaeth ymatal rhag ymyrryd yn y sffêr hwnnw, cyfeirio at y rhannau anffurfiol o'n bywyd a wna'r mwyafrif o ryddfrydwyr.

gwrthwynebiad. Golyga hyn felly y byddai mesurau tebyg i'r canlynol yn gwbl annerbyniol: deddfau sy'n gwneud methiant i drosglwyddo'r iaith yn drosedd, neu ymdrechion i fonitro a chlustfeinio ar arferion ieithyddol gwahanol deuluoedd. Eto i gyd, go brin y byddai unrhyw lywodraeth ryddfrydol-democrataidd yn dewis defnyddio mesurau mor orfodol er mwyn ceisio dylanwadu ar arferion ieithyddol preifat ei dinasyddion. Pe bai llywodraeth ryddfrydol yn dewis ymhél â'r maes, mae'n llawer mwy tebygol y byddai'n gochel rhag gorfodaeth agored, gan ffafrio, yn hytrach, y math o anogaeth a ddefnyddir gan swyddogion Twf. Ond, a fyddai dilyn y trywydd hwn yn fwy derbyniol?

Y peth cyntaf i'w nodi yw nad yw defnyddio anogaeth, fel y gwna Twf, yn arwain at gyfyngu ar ryddid rhieni a phlant i ddefnyddio pa bynnag iaith a ddymunant mewn peuoedd preifat. Mae perffaith hawl ganddynt i anwybyddu unrhyw negeseuon a gyflwynir iddynt ynglŷn â gwerth dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mae bodolaeth negeseuon o'r fath yn golygu bod y wladwriaeth yn cymryd camau pendant i geisio annog pobl i ddilyn trywydd ieithyddol penodol. Er enghraifft, mae *Iaith Pawb*, cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg yn nodi; 'Mae'n *fantais enfawr* os gall plant ifanc ddysgu siarad Cymraeg yn naturiol o fewn y teulu' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003: 39, pwyslais wedi'i ychwanegu). Felly, er gwaetha'r ffaith nad oes yma unrhyw orfodaeth agored, a yw'r anogaeth a ddefnyddir yn cyfri fel ymyrraeth annerbyniol ym mywyd preifat dinasyddion?

Pe bai gwrthwynebiad o'r fath yn cael ei fynegi, yna credaf y byddai'n rhaid ymateb trwy wrthod yr awgrym bod y wladwriaeth, mewn gwirionedd, yn *ymyrryd*.

Yn hytrach, yr hyn sy'n digwydd yw bod y wladwriaeth yn darparu gwybodaeth gefndirol, gan adael rhieni i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Yn sicr, dyna yw barn Elaine Davies:

> Twf has consistently adopted the principle of sharing with parents robust information which then *empowers them to make informed choices and decisions*. Words such as persuasion and influence, although often used to describe the process of Twf's work with parents, have no place in the team's professional rationale. *Parental self-determination is paramount* ... The aim is to inspire without being evangelical, sharing information and yet creating space to listen to parents' questions and worries' (Davies 2005: 13, pwyslais wedi'i ychwanegu).

Yn wir, mae'r arfer hwn o ddarparu gwybodaeth gefndirol i rieni newydd eisoes wedi'i sefydlu mewn perthynas ag amrediad o faterion eraill sy'n ymwneud a datblygiad plant. Ystyrier, er enghraifft, y wybodaeth a ddarperir ar faterion megis diet neu weithgaredd corfforol. Nid oes neb, mewn difri, yn awgrymu bod darparu gwybodaeth o'r fath yn arwain at ymyrraeth anfoesol ym mywyd preifat dinasyddion. O ganlyniad, pam dylai gwybodaeth ynglŷn â datblygiad ieithyddol plant gael ei thrin yn wahanol? Yn wir, mewn cymdeithas lle caiff dwy iaith eu defnyddio mewn amrediad o feysydd cyhoeddus, a lle bo sgiliau ieithyddol yn prysur ennill eu lle fel ystyriaeth bwysig ym maes cyflogaeth, onid yw goblygiadau dwyieithrwydd yn bwnc cwbl briodol i'w drafod? [35]

Yn ogystal, yn achos ieithoedd cenhedloedd lleiafrifol, rhaid cofio fod yna ddimensiwn hanesyddol sy'n ychwanegu dilysrwydd i'r broses hon o ddarparu

[35] Dylid nodi fod ambell i ymwelydd iechyd wedi cwestiynu'r graddau y dylid disgwyl iddynt hwy ysgwyddo'r baich o drosglwyddo neges Twf ynglŷn â manteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog (Edwards a Pritchard Newcombe 2005). Eu dadl oedd eu bod eisoes yn dal nifer o gyfrifoldebau eraill ac felly nad oedd yn briodol disgwyl iddynt chwarae rôl fel ymgynghorwyr ieithyddol hefyd. Boed y gwyn yma'n un teg ai peidio, nid yw'n fater sydd angen ei ystyried yma. Codi cwestiwn ymarferol a wna ynglŷn â'r dull gorau o gyflwyno neges Twf. Nid yw'n arwain at gwestiynau dilysrwydd sylfaenol y fenter.

gwybodaeth ieithyddol. Fel y nodwyd eisoes (Pennod 3), yn bur aml bydd unrhyw ymdrech i hybu rhagolygon ieithoedd o'r fath yn cychwyn wedi cyfnod estynedig lle cawsant eu cau allan o fywyd cyhoeddus heb feddu ar unrhyw statws mewn meysydd pwysig megis llywodraeth a'r economi. Yn aml, bydd hyn yn arwain at ddarlunio'r iaith fel un israddol a chymharol ddi-werth, a dros amser, bydd y darlun hwn yn cael ei dderbyn a'i fewnoli, bron yn ddiarwybod, gan nifer helaeth o'i siaradwyr. Dyma broses a ddisgrifiwyd gan Pierre Bourdieu (1991) fel 'trais symbolaidd', ac fel y gwelwyd wrth drafod dirywiad y Gymraeg ar ddechrau'r bennod hon, gall 'trais' o'r fath gyfrannu at danseilio nifer o'r prosesau hynny sy'n helpu i gynnal grŵp ieithyddol, yn arbennig felly'r broses o drosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth o'r teulu i'r llall.[36] Nawr, os ydym yn derbyn (fel a wnaed ym Mhennod 3) ei bod yn gwbl ddilys i genedl leiafrifol gymryd camau i adfer ei hiaith draddodiadol pan fo cefnogaeth ddemocrataidd i'r syniad hwnnw, onid yw'n rhesymol disgwyl y bydd hynny'n cynnwys herio delweddau annheg ac anghyfiawn o'r iaith a gafodd eu derbyn a'u mewnoli gan y boblogaeth dros y degawdau neu'r canrifoedd cynt? Fel y noda Kymlicka:

> ... it's often the case that minority languages have been historically stigmatized and associated in people's minds with backwardness and poverty ... now it's absolutely appropriate for governments to challenge that and to provide information which counterbalances that view and that discusses the advantages of a language with the open expectation that such action may change people's preferences (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 2).

Wrth gwrs, tra'n amddiffyn yr egwyddor sy'n sail i waith corff fel Twf, rhaid cydnabod y gall union natur y dadleuon a ddefnyddir ynglŷn â gwerth dysgu Cymraeg

[36] Am drafodaeth bellach o syniadau Bourdieu gweler Thompson 1991 a Jenkins 2002. Ceir hefyd trafodaeth ddefnyddiol ynglŷn â pherthnasedd y syniad o drais symbolaidd i sefyllfa ieithoedd lleiafrifol yn May 2001: 153 – 156 yn enwedig.

a gwerth dwyieithrwydd amrywio'n sylweddol. O ganlyniad, rhaid holi a fyddai defnyddio rhai mathau o ddadleuon yn annerbyniol o safbwynt rhyddfrydol?

Cyfeiria Kymlicka (2007b: Cyfweliad 2) at ddwy ddadl benodol y dylai rhyddfrydwyr eu diystyru'n llwyr. I ddechrau, cyfeiria at ddadleuon sy'n pledio goruchafiaeth gynhenid un iaith dros bob iaith arall ('the intrinsic value argument'); hynny yw, dadleuon sy'n mynnu y dylid sicrhau fod plant yn dysgu'r Gymraeg, gan fod yr iaith, o'i hanfod, yn well iaith i'w dysgu na'r Saesneg. Yn ail, cyfeiria at ddadleuon sy'n codi cwestiynau ynglŷn â gwir hunaniaeth unigolion ('the authenticity argument'); hynny yw, dadleuon sy'n mynnu y dylid sicrhau fod plant yn dysgu Cymraeg, gan na all person gael ei ystyried fel Cymro go iawn os nad yw'n siarad Cymraeg (Kymlicka 2007b: Cyfweliad 2). Dyma ddadleuon sy'n annog pobl i wneud llawer mwy na dim ond mabwysiadu iaith, maent hefyd yn pwyso arnynt i fabwysiadu set o ddaliadau diwylliannol penodol. Yn nhyb Kymlicka, byddai cyflwyno dadleuon o'r fath i rieni fel rhesymau dros drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn gwbl annerbyniol o safbwynt rhyddfrydol. Yn y lle cyntaf, fel y dadleua Kymlicka mewn mannau eraill (gweler er enghraifft Kymlicka 2002), ni all rhyddfrydwyr gymeradwyo polisïau ieithyddol neu ddiwylliannol sy'n seiliedig ar gred yng ngoruchafiaeth sylfaenol un iaith neu ddiwylliant penodol. Ymhellach, byddai annog pobl i gredu bod rhaid meddu ar set benodol o rinweddau diwylliannol cyn gall unigolyn gael ei gyfri'n aelod llawn o'r grŵp yn mynd yn gwbl groes i ethos agored a chynhwysol rhyddfrydiaeth ddiwylliannol (Kymlicka 2007a).

Fodd bynnag, mae gorolwg o ddeunyddiau Twf, ynghyd â deunyddiau eraill o eiddo Bwrdd yr Iaith Gymraeg (gweler yn enwedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2003b), yn dangos yn glir nad yw dadleuon o'r fath yn cael eu defnyddio.[37] Yn hytrach, mae'r wybodaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar ffactorau megis y modd y gall siarad mwy nag un iaith hybu datblygiad cymdeithasol, addysgiadol ac economaidd plentyn; hynny yw, mae'r pwyslais yn cael ei roi gyfleoedd a sgiliau. Ni cheir unrhyw ymgais i geisio siapio daliadau diwylliannol unigolion, gan eu hannog i fabwysiadu dehongliad penodol o'r hyn a olyga i fod yn ddinesydd Cymreig. At ei gilydd felly, gellir casglu'n ddigon hyderus nad yw gweithgaredd cynllun Twf yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol.

### 8. Casgliadau

Yn ystod y bennod hon, cloriannwyd dilysrwydd moesol rhai agweddau o'r polisïau iaith a fabwysiadwyd yng Nghymru, gan wahanol lefelau o lywodraeth, fel rhan o'r ymdrech i ddiogelu ac adfer sefyllfa'r iaith Gymraeg. Yn benodol, holwyd a yw rhai o'r polisïau hyn wedi tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol pwysig ac felly'n haeddu cael eu dehongli fel polisïau annerbyniol o safbwynt moesol?

Trafodwyd tri o achosion: i ddechrau, yr arfer o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol ym maes cyflogaeth; yn ail, polisïau sy'n sefydlu'r Gymraeg fel prif iaith addysg gynradd mewn rhai rhannau o Gymru; ac yn drydydd, yr ymdrechion diweddar i ddylanwadu ar arferion ieithyddol preifat, trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Ym mhob un o'r achosion hyn daethpwyd i'r

---

[37] I ddarllen crynodeb o'r deunyddiau hysbysebu a ddefnyddir gan Twf gweler www.twfcymru.com.

casgliad nad oedd llunwyr polisi yng Nghymru wedi tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol pwysig, a bod y polisïau a fabwysiadwyd yn gwbl dderbyniol. Yr unig fater a nodwyd fel un a oedd yn galw am sylw pellach, oedd argaeledd addysg Gymraeg pe bai camau'n cael eu cymryd i ehangu ar yr arfer o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol ym maes cyflogaeth. Pe bai hynny'n digwydd, nodwyd y byddai angen sicrhau bod y ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn datblygu hefyd, er mwyn sicrhau nad oedd cyfleoedd economaidd rhai pobl yn cael eu tanseilio'n ormodol yn sgil amgylchiadau cefndirol a oedd tu hwnt i'w rheolaeth. Fodd bynnag, pwynt i'w ystyried ymhellach oedd hwn, yn hytrach nag ergyd sylfaenol i ddilysrwydd sylfaenol yr ymdrech i ddyrchafu statws y Gymraeg ym maes cyflogaeth. At ei gilydd felly, gellir datgan yn gwbl hyderus fod y polisïau ieithyddol hynny a gloriannwyd yn ystod y bennod hon yn cydymffurfio'n llwyr ag egwyddorion rhyddfrydol cyfoes.

# 6. Casgliadau

Amcan y traethawd hwn fu ystyried sut gall egwyddorion rhyddfrydol gyfrannu at oleuo ein dealltwriaeth o foesoldeb y broses o adfer ieithoedd lleiafrifol. Aethpwyd ati i ystyried y mater hwn trwy osod dau gwestiwn ymchwil penodol; y cyntaf yn ymwneud â statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith, a'r ail yn ymdrin â natur y camau ymarferol a gymerir wrth geisio gwireddu'r nod hwnnw:

1. Sut dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol y nod cyffredinol o adfer iaith?

2. I ba raddau mae rhai o'r camau ymarferol a gymerir wrth geisio gwireddu'r nod o adfer gwahanol ieithoedd lleiafrifol, yn arwain at dramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol?

Rhannwyd y traethawd yn ddwy ran, ac fe drafodwyd y cyntaf o'r cwestiynau hyn yn ystod y rhan gyntaf, a'r ail gwestiwn yn ystod yr ail ran. Isod crynhoir y prif gasgliadau y daethpwyd iddynt yn ystod y trafodaethau hyn.

### Rhan 1 – Statws Moesol Adferiad Iaith

Yn ystod rhan gyntaf y traethawd ceisiwyd cloriannu sut dylai rhyddfrydwyr gysyniadoli statws moesol y nod o adfer iaith. Yn benodol, ystyriwyd a ddylent ei ddehongli fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder. Teimlwyd fod hwn yn fater a oedd yn haeddu cael ei drafod yn fanwl, gan fod tuedd ymhlith lladmeryddion nifer o ieithoedd lleiafrifol i ddehongli adferiad mewn termau moesol o'r fath. A siarad yn gyffredinol, cred y bobl hyn fod eu hieithoedd wedi dirywio yn dilyn cyfnod estynedig o anghyfiawnder, ac yn sgil hynny, caiff y dasg o'u hadfer ei gweld fel

mater o gyfiawnder diamheuol. Fodd bynnag, ychydig o ystyriaeth a roddwyd, hyd yn hyn, i oblygiadau safbwynt o'r fath. O ganlyniad, roedd angen mynd ati i'w gloriannu'n fanwl, gan ystyried yn ofalus os ydyw'n safbwynt y gellir ei gymeradwyo o safbwynt rhyddfrydiaeth.

Dechreuwyd ar y gwaith ym Mhennod 2, trwy ddehongli'r honiad fod adferiad iaith yn hanfodol o safbwynt cyfiawnder yn y termau mwyaf pellgyrhaeddol posib. Golygai hynny gymryd bod ymdrechu i hybu adferiad yn hanfodol ym mhob sefyllfa lle bo iaith yn digwydd dirywio; hynny yw, mai'r unig ymateb priodol a chyfiawn i achos o ddirywiad iaith yw i gymryd camau brys i geisio atal a gwrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Aethpwyd ati i ystyried y graddau y gall rhyddfrydwyr gymeradwyo safbwynt absoliwt o'r fath trwy holi, i ddechrau, a yw dirywiad iaith yn broses sy'n medru esgor ar ganlyniadau niweidiol. Gwelwyd bod hyn yn bosib, trwy drafod dwy ddadl bwysig sy'n tystio i'r hyn y gellid ei golli wrth i iaith ddirywio; y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol y byd a hefyd y ddadl sy'n tystio i bwysigrwydd y cyswllt rhwng iaith a hunaniaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd, un peth yw derbyn bod gweithred neu broses yn meddu ar oblygiadau anodd neu niweidiol, peth arall yw derbyn bod y goblygiadau hynny mor niweidiol fel y dylid ymrwymo i atal a gwrthdroi'r weithred neu'r broses dan sylw ym mhob sefyllfa. Mae hyn yn golygu gosod y dasg ar wastad moesol arbennig o uchel, ac yn ystod adran olaf y bennod gwelwyd na ellid cyfiawnhau cymryd cam o'r fath yn achos ymdrechion i atal a gwrthdroi dirywiad iaith. Yn bennaf, roedd hyn yn deillio o'r ffaith na ellid dehongli'r

niwed a gysylltir â dirywiad iaith fel un cwbl ddifrifol a dinistriol i les ein bywydau, a hefyd nad yw'r niwed yn un sy'n hollgyffredinol o ran ei arwyddocâd moesol. O ganlyniad, casglwyd na ellir llunio dadl sy'n caniatáu i ryddfrydwyr drin y dasg o geisio atal a gwrthdroi dirywiad iaith fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder ym mhob sefyllfa dan haul.

Fodd bynnag, arweiniodd y casgliad hwn at gwestiwn newydd. Tra na ellir trin adferiad iaith fel gofyniad moesol sylfaenol y dylid ei warantu ym mhob achos, a ellir dadlau ei fod yn weithred y mae cyfiawnder yn galw arnom i'w sicrhau mewn rhai amgylchiadau penodol, er enghraifft yn achos cenhedloedd lleiafrifol? Dyma a drafodwyd ym Mhennod 3. Dechreuwyd trwy ystyried syniadau rhai o'r athronwyr rhyddfrydol a oedd eisoes wedi rhoi sylw i'r broses o adfer iaith: David Laitin a Rob Reich (2003) a hefyd Will Kymlicka (2007b). Wrth drafod, gwelwyd fod yr athronwyr hyn yn credu fod y dehongliad absoliwt o statws moesol adferiad iaith yn ddi-sail. Ond ar ben hynny, ac yn bwysicach, gwelwyd bod y safbwynt mwy cyfyngedig, sy'n trin adferiad fel mater o gyfiawnder mewn rhai amgylchiadau penodol, hefyd yn cael ei ddehongli ganddynt fel un arbennig o broblematig. Nid yw'r athronwyr hyn yn awgrymu am eiliad fod unrhyw beth sy'n sylfaenol annerbyniol, o safbwynt rhyddfrydol, ynglŷn ag ymdrechu i adfer sefyllfa iaith benodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn barod i drin adferiad fel mater o gyfiawnder. Deillia hyn o'r ffaith y byddai cymryd cam o'r fath yn golygu trin adferiad fel amcan sy'n medru cael ei osod uwchlaw'r broses ddemocrataidd, a thrwy hynny, cael ei gyrchu beth bynnag fo barn aelodau'r genedl.

Dadl Laitin a Reich a Kymlicka yw y byddai'n fwy priodol i drin adferiad iaith fel gweithred dderbyniol; un o'r amrediad eang o bethau sy'n gwbl briodol i lywodraethau rhyddfrydol geisio'u cyflawni, pan fo hynny'n adlewyrchu casgliadau a ddaethpwyd iddynt yn sgil trafodaethau democrataidd agored a theg, ond eto, nid rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cynnal cyfiawnder. Yn ystod Pennod 3, ystyriwyd a oedd modd i ryddfrydwyr fynd tu hwnt i'r safbwynt 'derbyniol' hwn. Gwnaed hynny trwy dynnu sylw at rai o'r gwendidau sy'n perthyn i ddadleuon Laitin a Reich a Kymlicka, ac yna ystyried a oedd unrhyw un o'r gwendidau hyn yn cynnig sail i fedru camu ymlaen a dadlau fod adferiad iaith, mewn rhai amgylchiadau penodol, yn dasg y dylid, wedi'r cyfan, ei ddehongli fel mater o gyfiawnder.

Casglwyd mai'r gwendid a oedd yn codi'r cwestiynau mwyaf sylfaenol ynglŷn â thegwch y safbwynt 'derbyniol', ac felly'n agor cil y drws i'r posibilrwydd o ddweud ychydig yn fwy ar y mater, oedd y diffyg sylw a roddwyd i effeithiau anghyfiawnder hanesyddol. Roedd hwn yn wendid pwysig, gan mai holl hanfod y safbwynt derbyniol oedd y gred fod ein trefniadau democrataidd cyffredin yn gyfrwng cwbl briodol i ddod i benderfyniadau ynglŷn â chyfeiriad polisi iaith. Dyma gyfrwng a fyddai, yn nhyb lladmeryddion y safbwynt derbyniol, yn caniatáu i holl aelodau'r genedl roi mynegiant i'w dyheadau ieithyddol amrywiol, a hynny mewn amgylchiadau agored a theg.

Eto i gyd, pa mor deg, mewn gwirionedd, fydd unrhyw drafodaeth ddemocrataidd sy'n digwydd yn dilyn cyfnod hir o annhegwch ac anghyfiawnder? Yn sicr, mae hwn yn gwestiwn dilys i'w godi yn achos trafodaethau ynglŷn â chyfeiriad

polisi iaith. Fel y nodwyd droeon yn ystod y traethawd hwn, gall cyfnod hir o anghyfiawnder gael dylanwad dwfn ar arferion a hefyd ar agweddau ieithyddol gwahanol bobl. Gall olygu bod llawer iawn o bobl yn colli'r gallu i siarad iaith benodol, ond hefyd, gall arwain at fewnoli agweddau dilornus tuag ati, nid yn unig ymhlith y sawl sydd ddim yn ei siarad bellach, ond hefyd ymhlith nifer o siaradwyr mamiaith. Felly, pan fo trafodaethau ynglŷn â chyfeiriad polisi iaith yn debygol o gael eu cynnal mewn amgylchiadau o'r fath, fel sy'n bosib iawn yn achos nifer o genhedloedd lleiafrifol, gellir codi cwestiynau digon dilys ynglŷn â thegwch y trafodaethau hynny. O ganlyniad, oni ddylai adferiad gael ei ddehongli fel mater o gyfiawnder, a thrwy hynny cael ei osod uwchlaw'r broses ddemocrataidd, o leiaf yn y sefyllfaoedd hynny lle gellir dadlau fod amgylchiadau anghyfiawn wedi cyfrannu at ddirywiad yr iaith?

Er mor arwyddocaol oedd y diffyg ystyriaeth a roddwyd i effeithiau anghyfiawnder hanesyddol, rhaid oedd casglu nad oedd gwendid o'r fath yn cynnig digon o sail i gamu ymlaen a dadlau fod adferiad iaith, wedi'r cyfan, yn dasg y dylid ei dehongli fel mater o gyfiawnder. Fel y noda Laitin a Reich (2003), tra bod dirywiad ieithoedd nifer o genhedloedd lleiafrifol wedi deillio o anghyfiawnder o ryw fath, dylid gochel rhag cymryd yn ganiataol y bydd pawb yn dymuno gweld yr ieithoedd hyn yn cael eu hadfer. Wrth gwrs, gellid dadlau fod y sawl sy'n mynegi amheuon o'r fath ond yn amlygu effeithiau blynyddoedd o ddiffyg cydnabyddiaeth; hynny yw bod pobl wedi'u cyflyru i feddwl am iaith draddodiadol y genedl mewn modd dilornus. Serch hynny, un peth yw cydnabod y posibilrwydd real o ganfod sefyllfa o'r fath, peth

arall yw dadlau fod hynny'n rhoi sail i gamu ymlaen i ddadlau fod cyfiawnder felly yn galw arnom i anwybyddu'r amheuon hyn, gan sicrhau adferiad yr iaith doed a ddel.

Yn nhyb rhyddfrydwyr, byddai cymryd cam o'r fath yn ein harwain i dir moesol ansicr. Trwy sefydlu cyswllt pendant rhwng cyfiawnder ac adferiad, yr hyn a wneir, yn y pen draw, yw creu sefyllfa lle caiff dyletswyddau sylweddol eu gosod ar aelodau'r genedl; beth bynnag fo barn y bobl hyn ynglŷn â'r iaith mae *dyletswydd* arnynt i'w hadfer, gan fod hynny'n fater o gyfiawnder. Byddai aelodau'r genedl felly yn cael eu clymu i un llwybr diwylliannol penodol, a'r iaith yn cael ei thrin fel rhyw fath o wrthrych oesol sy'n medru gosod gofynion sylweddol ar bob un ohonynt. Byddai cam o'r fath – cam sy'n golygu trin aelodau'r genedl fel dim mwy na chyfrwng i hybu nod – yn gwbl annerbyniol i ryddfrydwyr.

Gwelwyd felly fod problemau moesol yn gysylltiedig gyda dadl sy'n trin adferiad iaith fel mater hanfodol o safbwynt cyfiawnder, hyd yn oed pan fo'r ddadl honno yn cael ei chymhwyso i sefyllfaoedd penodol, megis cenhedloedd lleiafrifol. O ganlyniad, yr ateb i'r cwestiwn sylfaenol a osodwyd ar gyfer rhan gyntaf y traethawd hwn yw mai fel gweithred dderbyniol, ac nid un hanfodol o safbwynt cyfiawnder, y dylai rhyddfrydwyr ddehongli adferiad iaith.

Ni ddylai hyn olygu bod modd diystyru'r sylwadau a wnaed ynglŷn ag effeithiau anghyfiawnder hanesyddol ar degwch unrhyw drafodaethau democrataidd a gynhelir mewn perthynas â dyfodol gwahanol ieithoedd. Mae rhain yn bwyntiau difrifol sy'n galw am sylw pellach. Fodd bynnag, fel y nodwyd wrth gloi Pennod 3,

nid yw ymdrin yn effeithiol gyda phroblemau cefndirol megis amgylchiadau hanesyddol, sydd o'u hanfod yn mynd i amrywio o ran natur a difrifoldeb o achos i achos, yn dasg y gellir ei gyflawni wrth drafod o bersbectif egwyddorion rhyddfrydol cyffredinol. I raddau helaeth, mae ymdriniaeth o broblemau cefndirol o'r fath yn mynd a ni tu hwnt i faes defnyddioldeb yr egwyddorion hyn. I ymdrin yn effeithiol â'r cwestiynau sy'n codi mewn achosion o'r fath, bydd angen camu o'r tir egwyddorol cyffredinol a haniaethol, gan ddisgyn i'r lefel benodol a diriaethol. Bydd angen ystyried cefndir achosion penodol, gan edrych ar natur y gorthrwm ieithyddol a brofwyd dros y blynyddoedd a'r modd y mae hyn wedi effeithio ar unrhyw drafodaeth a gynhelir ynglŷn â dyfodol gwahanol ieithoedd. Wrth wneud hynny, byddai egwyddorion rhyddfrydol yn sicr o effeithio ar ein casgliadau ynglŷn â statws moesol adferiad iaith, ond byddai cyd-destun penodol yr achosion hefyd yn ffactor bwysig.

**Rhan 2 – Camau Ymarferol a Chyfyngiadau Normadol**

Felly, yn ystod rhan gyntaf y traethawd, gwelwyd mai fel amcan derbyniol ac nid fel rhywbeth hanfodol o safbwynt cyfiawnder y dylai rhyddfrydwyr ddehongli statws moesol adferiad iaith. Eto i gyd, nid oedd y drafodaeth hon yn dweud dim wrthym ynglŷn â pha fath o gamau ymarferol y cred rhyddfrydwyr sy'n dderbyniol neu'n briodol i'w cymryd wrth gyrchu nod o'r fath. Yn wir, yr un fyddai'r sefyllfa beth bynnag fyddai'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ystod Rhan 1. Deillia hyn o'r ffaith fod y drafodaeth ynglŷn â dilysrwydd gwahanol gamau polisi ymarferol yn ymdrin â phwnc adferiad iaith o bersbectif ychydig yn wahanol.

Boed adferiad iaith yn cael ei drin gan ryddfrydwyr fel amcan derbyniol, neu fel rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt cyfiawnder, yr hyn sy'n sicr yw na fyddent yn fodlon derbyn bod hynny'n agor y drws i bob math posib o gamau polisi ymarferol. Ond beth am rai o'r polisïau adferol sydd ar waith ar hyn o bryd mewn gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd? Ydy rhain yn mynd yn rhy bell ac yn tramgwyddo ar egwyddorion rhyddfrydol pwysig? Yn sicr, mewn nifer o wahanol wledydd ar draws y byd mae gwahanol bolisïau iaith wedi bod yn sail i gryn anniddigrwydd ymhlith rhai rhannau o'r boblogaeth. Ar ben hynny, yn bur aml mae gwrthwynebiadau'r bobl hyn wedi cynnwys ensyniadau ynglŷn â'r modd y mae gwahanol bolisïau yn tramgwyddo egwyddorion normadol megis rhyddid, cyfiawnder a chydraddoldeb. Ond, a oes unrhyw sail i wrthwynebiadau o'r fath? A yw rhai o'r camau ymarferol a gymerir gan genhedloedd lleiafrifol, wrth geisio gwireddu'r nod o adfer eu hieithoedd traddodiadol, wir yn tramgwyddo egwyddorion pwysig ac felly yn annerbyniol o bersbectif rhyddfrydol? Dyna a drafodwyd yn ystod ail ran y traethawd, ac fe wnaed hynny trwy gloriannu trawstoriad o bolisïau iaith a fabwysiadwyd mewn dau leoliad penodol: Quebec (Pennod 4) a Chymru (Pennod 5). Isod, nodir pa gasgliadau y daethpwyd iddynt mewn perthynas â'r gwahanol bolisïau a drafodwyd, ac yna eir ati i amlinellu pa gasgliadau cyffredinol y gellir eu crynhoi o drafodaeth Rhan 2.

*Quebec*

Yn ystod y bennod ar Quebec trafodwyd tri o achosion gwahanol: i ddechrau, y polisi arwyddion dadleuol a oedd yn datgan mai dim ond y Ffrangeg gâi ymddangos ar arwyddion cyhoeddus; yn ail, y polisi addysg, ac yn benodol y cyfyngiadau a

osodwyd ar argaeledd addysg Saesneg; ac yn drydydd, y drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, a'r gwyn fod effaith gyffredinol y polisïau iaith a weithredwyd dros y blynyddoedd wedi arwain at danseilio cynaliadwyedd y gymuned honno.

Mewn perthynas â'r achos cyntaf, sef y polisi arwyddion dadleuol, daethpwyd i'r casgliad ei fod yn annerbyniol. Gwelwyd fod polisi o'r fath yn cyfyngu'n ormodol ar ryddid mynegiant. Er ei fod wedi'i fabwysiadu fel rhan o ymdrech ddilys i hybu rhagolygon y Ffrangeg, roedd yn bolisi a oedd yn amharu'n ormodol ar allu aelodau unigol o gymdeithas Quebec i ddefnyddio ieithoedd eraill. O ganlyniad, roedd Uchel Lys Canada yn gywir wrth ddatgan fod polisi o'r fath yn annerbyniol. Yn ogystal, roedd hi'n bwysig, o safbwynt cyfiawnder, fod llywodraeth Quebec, yn y pen draw, wedi addasu'r polisi, gan fabwysiadu canllawiau mwy rhesymol a oedd yn datgan y dylai'r Ffrangeg dderbyn goruchafiaeth ar unrhyw arwydd cyhoeddus. Wrth wneud hynny, roedd y llywodraeth yn ail-lunio'r polisi mewn modd a oedd yn gydnaws ag egwyddorion rhyddfrydol.

Yn achos y polisi addysg, dadleuwyd fod y cyfyngiadau a osodwyd ar argaeledd addysg Saesneg, ar y cyfan, yn rhai teg. Un eithriad oedd i'r casgliad hwn, sef achos y Canadiaid hynny sy'n mudo i Quebec o daleithiau eraill. Eto i gyd, fel y nodwyd, nid yw'r polisi addysg bellach yn effeithio ar aelodau'r garfan yma. Dim ond mewnfudwyr ac aelodau o'r gymuned Francophone sydd bellach yn cael eu hatal rhag mynychu'r ysgolion Saesneg, ac mewn perthynas â'r achosion hyn, gwelwyd bod y

cyfyngiadau sydd mewn grym yn rhai cwbl dderbyniol sydd ddim yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol sylfaenol.

Wrth ystyried y trydydd achos, sef drafodaeth gyfoes ynglŷn â dyfodol y gymuned Anglophone yn Quebec, nid oedd hi'n bosib dod i gasgliad cwbl bendant. Ar y naill law, dadleuwyd ei bod yn gwbl dderbyniol i lywodraeth Quebec geisio dyrchafu rhagolygon y Ffrangeg, ac felly nid yw'n gweithredu mewn modd annerbyniol mewn perthynas â'r gymuned Anglophone, trwy ymatal rhag addasu ei pholisïau iaith presennol. Wedi'r cyfan, nid yw'r polisïau hyn wedi arwain at erlyn aelodau'r gymuned honno, na thramgwyddo rhyddfreiniau sylfaenol (ar wahân i eithriad posib y polisi arwyddion). Ar ben hynny, rhaid cofio y byddai unrhyw addasu sylweddol yn codi'r perygl o greu sefyllfa lle câi'r Ffrangeg ei rhoi dan bwysau unwaith eto. Ond, ar y llaw arall, nodwyd na ddylid diystyru pryderon y gymuned Anglophone. Dyma gymuned hanesyddol sydd wedi bodoli yn Quebec ers bron iawn ei chychwyn ac felly mae galwadau ei haelodau yn meddu ar statws arbennig. Mewn gwirionedd, mae hwn yn achos anodd, lle mae gwahanol fuddiannau dilys yn gwrthdaro. O ganlyniad, rwyf yn amheus ynglŷn ag i ba raddau y gall trafodaeth normadol ddod i gasgliadau pendant mewn perthynas ag achos o'r fath. Yn y pendraw bydd datrysiad llawn i unrhyw wrthdaro ond yn deillio o drafodaeth ddemocrataidd agored sy'n canfod ffordd deg o gydbwyso gwahanol fuddiannau.

*Cymru*

Tri o achosion a drafodwyd yn ystod y bennod ar Gymru hefyd: i ddechrau, yr arfer o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol ym maes cyflogaeth; yn ail, polisïau sy'n sefydlu'r

Gymraeg fel prif iaith addysg gynradd mewn rhai rhannau o Gymru; ac yn drydydd, yr ymdrechion diweddar i ddylanwadu ar arferion ieithyddol preifat, trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

Yn achos y drafodaeth ynglŷn â statws y Gymraeg ym maes cyflogaeth, gwelwyd fod y camau a gymerwyd gan wahanol gyrff dros y deg i ugain mlynedd diwethaf yn rhai cwbl dderbyniol. Nid yw'r arfer o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol yn mewn perthynas â rhai swyddi wedi arwain at danseilio'r pwyslais rhyddfrydol ar gyfle cyfartal a'r arfer o benodi ar sail teilyngdod. Yn hytrach, yr hyn a welwyd yw bod ymestyn y dehongliad o deilyngdod i gynnwys dimensiwn ieithyddol yn gam cwbl resymol a phriodol mewn gwlad fel Cymru lle caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu mewn mwy nag un iaith. Yr unig fater a nodwyd a oedd yn galw am sylw pellach, oedd argaeledd addysg Gymraeg pe bai camau'n cael eu cymryd i ehangu ar yr arfer o drin y Gymraeg fel sgìl hanfodol ym maes cyflogaeth. Pe bai hynny'n digwydd, nodwyd y byddai angen sicrhau bod y ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn datblygu hefyd, er mwyn sicrhau nad oedd cyfleoedd economaidd rhai pobl yn cael eu tanseilio'n ormodol yn sgil amgylchiadau cefndirol di-Gymraeg a oedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Fodd bynnag, pwynt i'w ystyried ymhellach oedd hwn, yn hytrach nag ergyd sylfaenol i ddilysrwydd sylfaenol yr ymdrech i ddyrchafu statws y Gymraeg ym maes cyflogaeth.

Derbyniol hefyd oedd y polisïau addysg hynny a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Dyfed yn ystod yr 1980au. Yn groes i honiadau *Education First*, nid oedd y polisi hwn yn haeddu cael ei ddisgrifio fel un 'gorthrymol' a oedd yn tramgwyddo

egwyddorion pwysig. Yn y lle cyntaf, gwelwyd nad oedd dim byd o'i le ar yr arfer o orfodi pob plentyn a fynychai ysgol gynradd yn Nyfed i gael eu cyflwyno mewn rhyw fodd i'r Gymraeg. Nid oedd arfer o'r fath yn arwain at danseilio symudoledd cymdeithasol y plant. Gwelwyd hefyd nad oedd dim byd annerbyniol ynglŷn â bodolaeth yr ysgolion Categori A, a'r ffaith fod disgwyl, mewn rhai ardaloedd, i bob plentyn fynychu ysgolion a oedd yn gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd polisi o'r fath yn achosi unrhyw niwed, nac yn tramgwyddo unrhyw fuddiannau pwysig ymhlith y sawl a fyddai wedi ffafrio cael mynychu ysgolion Saesneg ac felly nid oedd unrhyw sail i'r gwrthwynebiadau a godwyd.

Yn olaf, gwelwyd nad oes angen i ryddfrydwyr boeni ynglŷn â'r ymdrechion a wnaed yn ddiweddar i ddylanwadu ar arferion ieithyddol preifat, trwy annog rhieni newydd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. I ddechrau, gwelwyd nad yw gweithgarwch corff fel Twf yn effeithio mewn unrhyw fodd ar ryddid unigolion i ddewis pa iaith a ddefnyddir ganddynt mewn cyd-destunau preifat. Ar ben hynny, gwelwyd nad yw'r math o ddadleuon a ddefnyddir er mwyn ceisio darbwyllo pobl o werth dysgu Cymraeg yn rhai y byddai rhyddfrydwyr yn eu hystyried yn annerbyniol. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan Twf yn canolbwyntio ar ffactorau megis y modd y gall siarad mwy nag un iaith hybu datblygiad cymdeithasol, addysgiadol ac economaidd plentyn; hynny yw, mae'r pwyslais yn cael ei roi ar gyfleoedd a sgiliau. Ni cheir unrhyw ymgais i geisio siapio daliadau diwylliannol unigolion, gan eu hannog i fabwysiadu dehongliad penodol o'r hyn a olyga i fod yn ddinesydd Cymreig. At ei gilydd felly, gellir casglu'n ddigon hyderus nad yw gweithgaredd cynllun Twf yn tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol pwysig.

*Quebec a Chymru: Casgliadau Cyffredinol*

Yn dilyn y trafodaethau manwl hyn o bolisïau iaith Quebec a Chymru, a ellir crynhoi unrhyw gasgliadau cyffredinol ynglŷn â dilysrwydd yr arferion polisi a ddatblygwyd mewn cymdeithasau rhyddfrydol-democrataidd er mwyn ceisio adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol? Wrth gwrs, ni ellir dweud i sicrwydd bod pob un cam polisi adferol a gymerwyd dros y blynyddoedd diwethaf, neu sy'n debygol o gael ei gymryd rywbryd yn y dyfodol, yn mynd i fod yn gwbl dderbyniol, gan osgoi tramgwyddo unrhyw egwyddorion rhyddfrydol. Byddai hynny'n gwbl amhosib. I ddechrau, fel y gwelwyd droeon yn ystod penodau Rhan 2, mae'n ddigon posib i bolisïau adferol gael eu fframio mewn modd sy'n digwydd camu dros drothwy'r hyn a ystyrir yn dderbyniol. Ymhellach, gwelwyd nad posibiliad yn unig mo hyn. Ar rai adegau penodol mae polisïau adferol *wedi* mynd yn rhy bell ac *wedi* tramgwyddo egwyddorion rhyddfrydol. Gwelwyd hyn wrth drafod ymdrech llywodraeth Quebec i gyfyngu ar iaith arwyddion cyhoeddus; polisi a oedd yn cyfyngu mewn modd annerbyniol ar ryddid mynegiant. Eto i gyd, er gwaethaf achosion unigol o'r fath, pan ystyrir y sampl o bolisïau a drafodwyd yn ei gyfanrwydd, gwelir bod y darlun yn un arbennig o gadarnhaol. Ar y cyfan, gellir datgan bod tystiolaeth y traethawd hwn yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth arferion polisi a ddatblygwyd mewn cymdeithasau rhyddfrydol-democrataidd, wrth geisio adfer sefyllfa gwahanol ieithoedd lleiafrifol, yn tueddu i gydorwedd yn gyfforddus gydag egwyddorion rhyddfrydol.[1]

[1] Fel a eglurwyd yn ystod y Cyflwyniad, nid oedd hi'n bosib sicrhau bod pob enghraifft bosib o bolisi iaith sy'n ceisio cynnal ac adfer sefyllfa iaith leiafrifol yn cael ei thrafod yn ystod y traethawd hwn. O ganlyniad, rhaid oedd canolbwyntio ar drawstoriad o enghreifftiau. Un pwnc na dderbyniodd sylw digonol yn sgil hyn oedd effaith mudo ar gymunedau ieithyddol lleiafrifol, ac yn benodol, natur y camau y gall gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd eu cymryd wrth ymdrin ag effeithiau ieithyddol y broses honno. Cyffyrddwyd ar y pwnc yn ystod y gwahanol drafodaethau ar bolisi addysg. Fodd bynnag mae llawer mwy i'w ddweud ar y mater. Wrth drafod mudo yng nghyd-destun polisïau addysg, yr hyn a wneir, mewn gwirionedd, yw trafod beth all y wladwriaeth ei wneud i gefnogi iaith benodol ar ôl i bobl symud. Fodd bynnag, trwy drafod mudo yng nghyd-destun meysydd polisi eraill, er

* * * * * * * * * * * * * *

Gwelwyd uchod beth yw'r casgliadau y daethpwyd iddynt wrth drafod y ddau gwestiwn ymchwil sylfaenol a osodwyd ar ddechrau'r traethawd. Fodd bynnag, wrth gloi, priodol fyddai ceisio camu tu hwnt i'r casgliadau penodol hyn, gan fyfyrio ynglŷn â'r traethawd yn ei gyfanrwydd. Pa gasgliadau cyffredinol y gellir eu crynhoi o drafodaethau'r penodau blaenorol a'u cynnig i'r sawl sy'n ymddiddori mewn meysydd megis athroniaeth wleidyddol neu bolisi iaith? Nodir isod dri phwynt pwysig.

I ddechrau, gellir dadlau fod y traethawd yn cadarnhau'r dybiaeth a nodwyd yn y cyflwyniad, sef bod myfyrio normadol ynglŷn â pholisi iaith, ac ynglŷn ag adferiad iaith yn benodol, yn debygol o gyfrannu at gyfoethogi'r gwaith a wneir mewn nifer o feysydd ieithyddol mwy traddodiadol, er enghraifft cymdeithaseg iaith a chynllunio iaith. Ar y cyfan, bu trafodaethau normadol yn absennol o'r gwaith a gyhoeddwyd yn y meysydd traddodiadol hyn. Yn hytrach, tueddwyd i ganolbwyntio ar faterion empeiraidd ac ymarferol: Pa ffactorau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar statws gwahanol ieithoedd? Pa fath o bolisïau sy'n debygol o newid y statws hwn? Sut dylid penderfynu pa bolisïau i'w blaenoriaethu? Wrth gwrs, mae ymdrin â chwestiynau o'r fath yn hollbwysig. Fodd bynnag, fel a welwyd yn ystod y traethawd hwn, mae unrhyw ymgais i geisio dylanwadu ar statws gwahanol ieithoedd

---

enghraifft tai a chynllunio, gellir ystyried i ba raddau y mae rhyddfrydwyr yn barod i ganiatáu i'r wladwriaeth gymryd camau i ffrwyno gallu pobl i symud yn y lle cyntaf. Mae hwn yn bwnc pwysig, yn enwedig yng nghyd-destun polisi iaith yng Nghymru, ac am hynny fy mwriad yw mynd ati i'w drafod ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

yn sicr o godi nifer o gwestiynau normadol hefyd: Pa ieithoedd y dylid eu cefnogi? Pa nod y dylem anelu ato wrth gynnig y gefnogaeth hon? Beth yw statws moesol y nod a osodir, hanfodol o safbwynt cyfiawnder yntau derbyniol? Pa gamau ymarferol sy'n dderbyniol i'w cymryd wrth gyrchu'r nod hwn? Nid yw rhain yn gwestiynau y gall y sawl sy'n ymddiddori ym maes polisi iaith eu hanwybyddu. Yn wir, wrth i'r broses o gynnig cefnogaeth i wahanol ieithoedd lleiafrifol ddod yn fwyfwy cyffredin, mae'n debygol y bydd cwestiynau o'r fath yn dod yn fwyfwy perthnasol. O ganlyniad, mae'n hollbwysig fod y drafodaeth normadol ynglŷn â pholisi iaith yn parhau ac yn derbyn sylw manwl, nid yn unig ymhlith athronwyr gwleidyddol, ond hefyd yn y meysydd ieithyddol mwy traddodiadol. Mawr obeithiaf fod y traethawd hwn yn cyfrannu at y broses o ddatblygu'r drafodaeth honno.

Ar ben hynny, ar sail y gwaith a wnaed wrth lunio'r traethawd hwn, gellir dadlau y byddai myfyrio normadol pellach ynglŷn â pholisi iaith yn cyfrannu mewn ffordd bwysig at ddatblygu'r drafodaeth athronyddol gyfoes ynglŷn ag amlddiwylliannedd. Deillia hyn o'r ffaith fod polisi iaith yn faes sy'n cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddysgu mwy ynglŷn â'r terfynau hynny na ddylai rhyddfrydwyr eu croesi wrth geisio cynnig cefnogaeth ymarferol i wahanol grwpiau diwylliannol lleiafrifol. Fel a welwyd yn ystod y traethawd hwn, mae'r broses o ddatblygu a gweithredu polisïau iaith, ac yn arbennig felly'r polisïau hynny sy'n ceisio adfer rhagolygon iaith leiafrifol, yn un sy'n tueddu i amlygu tensiynau egwyddorol mewn modd arbennig o glir, efallai yn fwy nag unrhyw faes diwylliannol arall. Wedi'r cyfan, mae adfer iaith yn broses sy'n aml yn arwain at osod gofynion sylweddol ar nifer o bobl, gan gynnwys pobl sydd efallai ddim yn siarad yr iaith dan sylw, neu sydd

ddim yn dymuno ei gweld yn cael ei hadfer. Yn aml, bydd hyn yn arwain at densiynau sylweddol ac at ddadlau ynglŷn ag egwyddorion creiddiol megis rhyddid a chydraddoldeb. Wrth gwrs, trwy astudio'r tensiynau hyn yn ofalus, fel a wnaed yn ystod y traethawd hwn, gellir dysgu llawer ynglŷn â beth yn union yw hyd a lled y camau hynny y gall gwladwriaethau rhyddfrydol-democrataidd eu cymryd wrth gefnogi ieithoedd gwan. Ond ar ben hynny, mae'n bosib fod y gwersi a ddysgir trwy gyfrwng trafodaeth o'r fath ynglŷn â pholisi iaith yn rhai y gellir eu trosglwyddo a'u cymhwyso, maes o law, i drafodaethau eraill sy'n ymdrin â nodweddion gwahanol megis crefydd, rhyw neu hil.

Eto i gyd, ochr yn ochr â'r ddau bwynt uchod ynglŷn â phwysigrwydd polisi iaith fel pwnc a drafodir o bersbectif normadol, mae ystyriaeth gyffredinol o gynnwys y traethawd hwn hefyd yn ein galluogi i wneud rhai sylwadau pwysig ynglŷn â natur rhyddfrydiaeth gyfoes. Fel a nodwyd yn ystod y Cyflwyniad, tua ugain mlynedd yn ôl byddai llawer o bobl wedi mynegi cryn amheuaeth ynglŷn â'r graddau y gellid ymdrin yn ystyrlon â phwnc megis polisi iaith o bersbectif rhyddfrydol. Bryd hynny, tybiwyd mai syniadaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y berthynas rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth yw rhyddfrydiaeth, ac felly ei fod yn ddiystyriol o bwysigrwydd ymlyniadau ehangach megis iaith a diwylliant. Canlyniad hyn oedd argyhoeddi nifer o athronwyr bod yr amser wedi dod i ymwrthod â rhyddfrydiaeth. Tybiwyd mai dim ond trwy fabwysiadu fframwaith newydd – fframwaith mwy cymunedol ei natur – y gellid ymateb yn ystyrlon a theg i'r gwahanol gwestiynau diwylliannol a oedd yn prysur ennill lle mwyfwy pwysig ar yr agenda gwleidyddol.

Fodd bynnag, fel sy'n bur hysbys erbyn hyn, daeth carfan newydd o athronwyr – pobl megis Will Kymlicka, Joseph Raz a Yeal Tamir – i'r casgliad mai cam gwag fyddai ymwrthod yn llwyr â rhyddfrydiaeth, gan gofleidio'r safbwynt cymunedol. Yn nhyb yr athronwyr hyn, roedd hi'n gwbl bosib goresgyn y gwendidau sylfaenol a oedd yn tueddu i nodweddu'r modd y byddai rhyddfrydwyr yn ymdrin â gwahanol gwestiynau diwylliannol, a hynny o fewn terfynau rhyddfrydol. Dadleuwyd fod rhyddfrydiaeth, er gwaethaf popeth, yn syniadaeth a oedd yn medru cyfiawnhau estyn cydnabyddiaeth neu gefnogaeth arbennig i wahanol grwpiau diwylliannol. Ymhellach, mynnwyd nad cefnogaeth ymylol yn unig fyddai hwn, ond cefnogaeth a oedd, mewn rhai achosion, yn medru bod yn arbennig o bellgyrhaeddol. Yn y pen draw, arweiniodd gwaith yr athronwyr uchod – carfan y cyfeirir atynt weithiau fel rhyddfrydwyr diwylliannol – at newid sylfaenol yn y modd y cai gwahanol gwestiynau diwylliannol eu cloriannu gan athronwyr gwleidyddol. Bellach, gwelwyd nad oedd yn rhaid ymwrthod ag egwyddorion rhyddfrydol pwysig, megis rhyddid unigol a chydraddoldeb, cyn gellid cyfrannu'n ystyrlon at y drafodaeth honno.

I raddau helaeth, gellid dehongli'r traethawd yma fel darn o waith sy'n cadarnhau cywirdeb y symudiad hwn. Trwy edrych yn fanwl ar y broses o adfer iaith, cafwyd cadarnhad pellach fod rhyddfrydiaeth gyfoes yn syniadaeth sy'n medru cymeradwyo ymdrechion i gefnogi gwahanol grwpiau diwylliannol. Ar ben hynny, ac efallai'n bwysicach, gwelwyd fod y gefnogaeth honno yn medru estyn i nifer o fesurau pellgyrhaeddol. Mae hwn yn gasgliad arbennig o bwysig, sy'n meddu ar berthnasedd ar y lefel athronyddol ac ar y lefel ymarferol. I ddechrau, mae'n gasgliad sy'n haeddu derbyn sylw gan athronwyr gwleidyddol cyfoes, gan ei fod, fel a nodwyd,

yn cynnig cadarnhad pellach o dybiaethau'r sawl a barhaodd i arddel rhyddfrydiaeth pan oedd y syniadaeth yn cael ei cholbio ar sail ei diffygion diwylliannol a chymunedol. Fodd bynnag, mae hefyd yn gasgliad a ddylai gael ei dreulio'n ofalus gan ymarferwyr gwleidyddol, ac yn benodol rhai o'r bobl hynny sy'n gweithredu fel lladmeryddion ar ran gwahanol ieithoedd lleiafrifol. A siarad yn gyffredinol, bu tuedd ymhlith rhai o'r bobl hyn i gyflwyno eu dadleuon mewn modd sy'n diystyru perthnasedd rhyddfrydiaeth. Yn sicr, fe amlygwyd hyn droeon yn ystod y drafodaeth ieithyddol yng Nghymru. Dyma drafodaeth sy'n draddodiadol wedi rhoi pwyslais mawr ar rôl y gymuned. Nid yw hynny yn ei hun yn beth drwg. Eto i gyd, ar adegau, mae'r awydd hwn i ddyrchafu rôl y gymuned wedi arwain at ddadleuon sy'n awgrymu y dylid bod yn amheus o syniadau rhyddfrydol eu natur, gan nad yw syniadau o'r fath – gyda'u pwyslais unigolyddol – yn gyfrwng i ddiogelu ac adfer ffenomenon gymdeithasol fel iaith. Eto i gyd, fel a welwyd yn ystod y traethawd hwn, cred gyfeiliornus yw hon. Y gwir amdani yw bod rhyddfrydiaeth yn syniadaeth sy'n meddu ar yr adnoddau deallusol i ddilysu sawl agwedd o'r broses o adfer iaith leiafrifol.

Yn wir, wrth edrych i'r dyfodol, mae'n hollbwysig fod y drafodaeth normadol ynglŷn ag adferiad iaith yn parhau i gael ei datblygu o fewn terfynau rhyddfrydol. Wedi'r cyfan, dyma syniadaeth sy'n cynnig sail i rai o'n gwerthoedd a'n rhyddfreiniau mwyaf sylfaenol, ac yn sgil hynny, yn cynrychioli rhai pethau sy'n rhy bwysig i ymwrthod â hwy.

# Llyfryddiaeth


Addis, A. (1992). ‘Individualism, Communitarianism and the Rights of Ethnic Minorities’, *Notre Dame Law Review*, 67/3: 615 – 676.

Aitchison , J. a Carter, H. (1994). *A Geography of the Welsh Language 1961 – 1991* (Cardiff: University of Wales Press).

Aitchison, J. a Carter, H. (2000). *Language, Economy and Society: The Changing Fortunes of the Welsh Language in the Twentieth Century* (Cardiff: University of Wales Press).

Aitchison, J. a Carter, H. (2004). *Spreading the Word: The Welsh Language 2001* (Talybont: Y Lolfa).

Alliance Quebec (1982). *For a Future Together / Vers l’avenir ensemble* (Montreal: Alliance Quebec).

Alliance Quebec (1984). *A Policy for the English-speaking community of Quebec* (Montreal: Alliance Quebec).

Alliance Quebec (2001). ‘La communauté d’expression anglaise du Québéc’. Papur a gyflwynwyd i’r Commission des États généraux sur la situation et l’avenir de la langue française au Québec.

d’Anglejan, A. (1984). ‘Language Planning in Quebec: An Historical Overview and Future Trends’, yn Bourhis, R. Y. (gol.), *Conflict and Language Planning in Quebec* (Clevedon: Multilingual Matters), 29 – 52.

Archard, D. (2002). ‘Children, Multiculturalism and Education’, yn Archard, D. a Macleod, C. M. (gol.), *The Moral and Political Status of Children* (Oxford: Oxford University Press).

Avineri, S. a De-Shalit, A. (gol.) (1992). *Communitarianism and Individualism* (Oxford: Oxford University Press).

Baker, C. (2001). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism* (Clevedon: Multilingual Matters).

Barbaud, P. (1998). ‘French in Quebec’, yn Edwards, J. (gol.), *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press), 177 – 201.

Bauböck, R. (1995). *Transnational Citizenship: Membership and Rights in International Migration* (Aldershot: Edward Elgar).

Bauböck, R. (2001). 'Cultural Citizenship, Minority Rights and Self-Government', yn Aleinikoff, A. a Klusmeyer, D. (goln), *Citizenship Today: Global Perspectives and Practices* (Washington: Carnegie Endowment for International Peace), 319 – 348.

Barry, B. (2001). *Culture and Equality* (Cambridge: Polity Press).

Beauchamp, T. L. (2002). 'In Favour of Affirmative Action', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), 209 – 223.

Bell, D. A. (1993). *Communitarianism and its Critics* (Oxford: Oxford University Press).

Benhabib, S. (2002). *The Claims of Culture: Equality and Diversity in a Global Era* (Princeton: Princeton University Press).

Bergmann, B. R. (2002). 'In Defense of Affirmative Action', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), 145 – 151.

Blackaby, D a Drinkwater, S. (1997). 'Welsh-Speakers and the Labour Market', *Contemporary Wales*, 9: 158 – 170.

Blake, M. (2003). 'Language Death and Liberal Politics', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 210 – 229.

Boran, I. (2003). 'Global Linguistic Diversity, Public Goods and the Principle of Fairness', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 189 – 209.

Bouchard, P. (2002). 'La langue du Travail: Une Situation qui Progresse, Mais Toujours Teintée d'une Certaine Précarité', yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L'aménagement linguistique au Québec: 25 ans d'application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 85 – 104.

Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (2002). 'Introduction: La Charte de la langue française. Bilan, Enjeux et Perspectives', yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L'aménagement linguistique au Québec: 25 ans d'application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 9 – 16.

Bourdieu, P. (1991). *Language and Symbolic Power* (Cambridge: Polity Press).

Bourgeois, D. (2006). *The Canadian Bilingual Districts: From Cornerstone to Tombstone* (Montreal: McGill-Queens University Press).

Bourhis, R. Y. (1984). 'Introduction: Language Policies in Multilingual Settings', yn

Bourhis, R. Y. (gol.), *Conflict and Language Planning in Quebec* (Clevedon: Multilingual Matters), 1 – 28.

Bourhis, R. Y. (1994). 'Introduction and Overview of Language Events in Canada', *International Journal of the Sociology of Language*, 105/106: 5 – 36.

Bourhis, R. Y. (2001). 'Reversing Language Shift in Quebec', yn Fishman, J. A. (gol.), *Can Threatened Languages be Saved?* (Clevedon: Multilingual Matters), 101 – 141.

Bourhis, R. Y. (2008). 'The English-Speaking Communities of Quebec: Vitality, Multiple Identities and Linguicism', yn Bourhis, R. Y. (gol.), *The Vitality of the English-Speaking Communities of Quebec: From Community Decline to Revival* (Montreal: CEETUM, Université de Montréal), 127 – 164.

Bourhis, R. Y. a Landry, R. (2002). 'La Loi 101 et l'Aménagement du Paysage Linguistique au Québec', yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L'aménagement linguistique au Québec: 25 ans d'application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 107 – 131.

Brooks, S. (2006). 'The Idioms of Race: The 'Racist Nationalist' in Wales as Bogeyman', yn Chapman, R. (gol.), *Idiom of Dissent* (Llandysul: Gwasg Gomer), 139 – 165.

Buchanan, A. (1989). 'Assessing the Communitarian Critique of Liberalism', *Ethics*, 99/4: 852 – 882.

Burtt, S. (2003). 'The Proper Scope of Parental Authority: Why We Don't Owe Children an 'Open Future', yn Macedo, S. a Young, I. M. (goln), *Child, Family and State* (New York: New York University Press).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996). *Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu Paratoi a'u Cymeradwyo yn Unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003). *Trosglwyddo'r Iaith o Fewn y Teulu: Dadansoddiad Ystadegol*
http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/index.aspx?categoryid=26 **(**Cyrchwyd 23.9.08).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003). *Magu Plant yn Ddwyieithog: Cyngor i Rieni* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2003). *Datblygu Dwyieithrwydd Mewn Plant: Cyngor ar Gyfer Gweithwyr Proffesiynol* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008). *Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog: Dogfen Ymgynghorol* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Cahn, S. M. (2002). 'Introduction', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), xi – xiv.

Caldwell, G. (1984). 'Anglo-Quebec: Demographic Realities and Options for the Future', yn Bourhis, R. Y. (gol.), *Conflict and Language Planning in Quebec* (Clevedon: Multilingual Matters), 205 – 221.

Caldwell, G. (1994). 'English Quebec: Demographic and Cultural Reproduction', *International Journal of the Sociology of Language*, 105/106: 153 – 179.

Caldwell, G. (1998). 'English Quebec', yn Edwards, J. (gol.), *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press), 273 – 292.

Caldwell, G. (2002). 'La Charte de la langue française: Vue par les Anglophones', yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L'aménagement linguistique au Québec: 25 ans d'application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 27 – 34.

Caldwell, G. a Waddell, E. (goln) (1982). *The English of Quebec: From Majority to Minority Status* (Québec: Institut québécois de recherché sur la culture).

Calvet, J. (1998). *Language Wars and Linguistic Politics* (Oxford: Oxford University Press).

Cardinal, L. (1999). 'Linguistic Rights, Minority Rights and National Rights: Some Clarifications', *Inroads*, 8: 77 – 85.

Carens, J. H. (1995). 'Immigration, Political Community, and the Transformation of Identity: Quebec's Immigration Policies in Critical Perspective', yn Carens, J. H. (gol.), *Is Quebec Nationalism Just? Perspectives From Anglophone Canada* (Montreal: McGill-Queen's University Press), 20 – 81.

Carens, J. H. (2000). *Culture, Citizenship and Community: A Contextual Exploration of Justice as Evenhandedness* (Oxford: Oxford University Press).

Carter, H. (1990). 'Dirywiad yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Cof Cenedl V: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer), 147 – 176.

Chevrier, M. (1997). *Laws and Language in Québec: The Principles and Means of Québec's Language Policy* (Gouvernement du Quebec: Ministère des Relations Internationals).

Chevrier, M. (2003). ‘A Language Policy for a Langaue in Exile’, yn Larrivée, P. (gol.), *Linguistic Conflict and Language Laws: Understanding the Quebec Case* (London: Palgrave Macmillan), 118 – 161.

Clifford, D. (1985). ‘Gwynedd vs CRE’, *Planet*, 52: 123 – 126.

Cochran, D. C. (1999). *The Color of Freedom: Race and Contemporary American Liberalism* (Albany: SUNY Press).

Cloe, P. (2000). *Philosophies of Exclusion: Liberal Political Theory and Immigration* (Edinburgh: Edinburgh University Press).

Coleman, W. (1982). ‘From Bill 22 to Bill 101: The Politics of Language Under the P.Q.’, *Canadian Journal of Political Science*, 14/3: 459 – 485.

Coleman, W. (1984). *The Independence Movement in Quebec 1945 – 1980* (Toronto: University of Toronto Press).

Communication Québec (1979). *Dialogue entre le Gouvernement du Québec et des représentants des communautés ethniques et de la communauté anglophone des Cantons d’Est* (Québec: Communication Québec).

Connolly, W. (1991). *Identity / Difference: Democratic Negotiations of Political Paradox* (Ithica, NY: Cornell University Press).

Connolly, W. (1995). *The Ethos of Pluralization* (Minneapolis: University of Minnesota Press).

Connolly, W. (1996). ‘Pluralism, Multiculturalism and the Nation-State: Rethinking the Connections’, *Journal of Political Ideologies* 1/1: 53 – 73.

Conseil Catholique d’Expression Anglaise (2001). ‘Mémoire Présenté à la Commission des États Généraux sur la situation et l’Avenir de la Langue Française au Québec’. Papur a gyflwynwyd i’r Commission des États généraux sur la situation et l’avenir de la langue française au Québec.

Cooper, R. L. (1989). *Language Planning and Social Change* (Cambridge: Cambridge University Press).

Corbeil, J. C. (2007). *L’Embarras des langues: Origine, conception et évolution de la politique linguistique québécoise* (Montréal: Québéc Amerique).

Costa, J. (2003). ‘Catalan Linguistic Policy: Liberal or Illiberal?’, *Nations and Nationalism*, 9/3: 413 – 432.

Côté, M. (1992). ‘Language and Public Policy’, yn Richards, John (gol.), *Survival: Official Language Rights in Canada* (Toronto: C.D. Howe Institute), 3 – 8.

Coulmas, F. (gol.) (1997). *The Handbook of Sociolinguistics* (Oxford: Blackwell).

Coulombe, P. A. (1995). *Language Rights and French Canada* (New York: Peter Lang Publishing).

Cranston, M. (1973). *What are Human Rights?* (London: The Bodley Head).

Crystal, D. (2000). *Language Death* (Cambridge: Cambridge University Press).

Cyngor Sir Ceredigion (1968). *Datganiad ar Bolisi Iaith, Pwyllgor Addysg Ceredigion, Hydref 1968*.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1999). *Dwyieithrwydd Gweithredol* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2001). *Deddf Iaith Newydd i'r Ganrif Newydd* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (2005). *Deddf Iaith Newydd i'r Gymraeg: Dyma'r Cyfle!* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Dafis, C. (1979). *Cymdeithaseg Iaith a'r Gymraeg* (Llandysul: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg).

Dafis, C. (2005). *Mab y Pregethwr: Hunangofiant Cyngog Dafis* (Talybont: Y Lolfa).

Davies, E. (2005). 'Welsh in the Family', *Agenda*, Summer 2005: 12 – 14.

Davies, G. P. (1994). 'Yr Iaith Gymraeg a Deddfwriaeth', yn Williams, Rh. H., Williams, H. a Davies, E. (goln), *Gwaith Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 41-73.

Davies, G. P. (2000). 'Statws Cyfreithiol yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif', yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 207 – 238.

Davies, Janet (1999). *The Welsh Language* (Cardiff: University of Wales Press).

Davies , John (2007). *Hanes Cymru* (Llundain: Allen Lane).

Day, G. (1989). 'A Million on the Move? Population Change and Rural Wales', *Contemporary Wales*, 3: 137 – 159.

De Schutter, H. (2007). 'Language Policy and Political Philosophy', *Language Problems and Language Planning*, 31/1: 1 – 23.

De Vires, J. (1984). 'Factors Affecting the Survival of Linguistic Minorities', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 5/3-4: 207 – 216.

Dickinson, J. a Young, B. (2003). *A Short History of Quebec* (Montreal: McGill-Queens University Press).

Dion, S. (1992). 'Explaining Québec Nationalism', yn Weaver, R. K. (gol.), *The Collapse of Canada* (Washington: Brookings Institution).

Dumas, G. (2007). 'Quebec's Language Policy: Perceptions and Realities', yn Williams, C. H. (gol.), *Language and Governance* (Cardiff: University of Wales Press).

Dworkin, R. (1977). *Taking Rights Seriously* (London: Duckworth).

Dworkin, R. (1978). 'Liberalism', yn Hampshire, S. (gol.), *Public and Private Morality,* (Cambridge: Cambridge University Press) 113 – 143.

Dworkin, R. (1992). 'Liberal Community', yn Avineri, S. a De-Shalit, A. (goln), *Communitarianism and Individualism* (Oxford: Oxford University Press), 205 – 223.

Dworkin, R. (2002). 'Bakke's Case: Are Quotas Unfair?', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), 103 – 112.

Eastman, C. (1983). *Language Planning: An Introduction* (San Fransisco: Chandler and Sharp).

Eastman, C. (1984). 'Language, Ethnic Identity and Change', yn Edwards, J. (gol.), *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism* (London: Academic Press), 259 – 276.

Edwards, G. (1993). 'Education and Welsh Language Planning', *Language, Culture and Curriculum*, 6/3: 257 – 273.

Edwards, H. T. (1987). 'Y Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Cof Cenedl II: Ysgrifau ar Hanes Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer), 119 – 151.

Edwards, J. (1984). 'Language, Diversity and Identity', yn Edwards, J. (gol.), *Linguistic Minorities, Policies and Pluralism* (London: Academic Press), 277 – 310.

Edwards, J. (1985). *Language Society and Identity* (Oxford: Blackwell Publishers).

Edwards, J. (gol.) (1998). *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press).

Edwards, V. a Pritchard Newcombe, L. (2005). 'Language Transmission in the Family in Wales: An Example of Innovative Language Planning', *Language Problems and Language Planning*, 29/2: 135 – 150.

Employment Appeal Tribunal (1986). *Gwynedd County Council v Jones*. EAT 554/85.

Equality Party (2001). ‘Equality Party Brief’. Papur a gyflwynwyd i’r Commission des États généraux sur la situation et l’avenir de la langue française au Québec.

Fishman, J. A. (1972). *The Sociology of Language: An Interdisciplinary Social Science Approach to Language in Society* (Rowley, Massachusetts: Newbry House).

Fishman, J. A. (gol.) (1985). *The Rise and Fall of the Ethnic Revival: Perspectives on Language and Ethnicity* (Mouton: New York).

Fishman, J. A. (1991). *Reversing Language Shift: Theoretical and Empirical Foundations of Assistance to Threatened Languages* (Clevedon: Multilingual Matters).

Fishman, J. A. (1992). ‘Status and Corpus Planning in Conjunction with Efforts on Behalf of Reversing Language Shift’, yn Hughes, M. (gol.), *The Challenge of Diversity* (Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth), 37 – 54.

Fishman, J. A. (gol.) (2001). *Can Threatened Languages be Saved?* (Clevedon: Multilingual Matters).

Foucher, P. (2008). ‘Legal Status of Anglophone Communities in Quebec: Options and Some Recommendations’, yn Bourhis, R. Y. (gol.), *The Vitality of the English-Speaking Communities of Quebec: From Community Decline to Revival* (Montreal: CEETUM, Université de Montréal), 19 – 34.

Fraser, G. (1984). *René Lévesque and the Parti Québécois in Power* (Toronto: Macmillan Canada).

Fraser, G. (2006). *Sorry, I Don’t Speak French: Confronting the Canadian Crisis That Won’t Go Away* (Toronto: McClelland & Stewart).

Fraser, N. (1995). ‘From Redistribution to Recognition? Dilemmas of Justice in a ‘Post-Socialist’ Age’, *New Left Review*, 212: 68 – 93.

Gardner, N., Puigdevall i Serralvo, M. a Williams, C. H (2000). ‘Language Revitalization in a Comparative Context: Ireland, the Basque Country and Catalonia’, yn Williams, C. H. (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 311 – 361.

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Williams, E. a Deuchar, M. (2007). *Trosglwyddiad Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Gellner, E. (1964). *Thought and Change* (London: Weidenfeld and Nicholson).

Gellner, E. (1983). *Nations and Nationalism* (Oxford: Blackwell Publishers).

Gibbins, R. a Laforest, G. (gol.) (1998). *Beyond the Impasse: Toward Reconciliation* (Montreal: Institute for Research on Public Policy).

Glazer, N. (1995). 'Individual Rights Against Group Rights', yn Kymlicka, W. (gol.), *The Rights of Minority Cultures* (Oxford: Oxford University Press).

Government of Canada (1967). *Royal Commission of Bilingualism and Biculturalism, Vol 1. General Introduction: The Official Languages* (Ottawa: Queens Printer).

Government of Canada (1969). *Royal Commission of Bilingualism and Biculturalism, Vol 3. The Work World* (Ottawa: Queens Printer).

Le Gouvernement du Québec (1972). *Report of the Commission of Inquiry on the Position of the French Language and Language Rights in Quebec* (Gendron Commission). (Québec: Editeur officiel du Québec).

Le Gouvernement du Québec (1977a). *Quebec's Policy on the French Language* (Québec: Éditeur Officiel du Québec).

Le Gouvernement du Québec, (1977b). *La politique québécoise de la langue française* (Québec: Editeur officiel du Québec).

Le Gouvernement du Québec, (1977c) *La Chartre de la langue français*. (Quebec: Editeur officiel du Québec).

Le Gouvernement du Québec, (2001). *Le français, une langue pour tout le monde* (Québec: Commission des États généraux sur la situation et l'avenir de la langue française au Québec).

Le Gouvernement du Québec, (2003). *Vivre en français au Québec* (Montreal: Office de la langue française).

Gray, J. (1989). *Liberalisms: Essays in Political Philosophy* (London: Routledge).

Green, L. (1987). 'Are Language Rights Fundamental?', *Osgoode Hall Law Journal*, 25: 639 – 669.

Grenoble, L. a Whaley, L. (2006). *Saving Languages: An Introduction to Language Revitalization* (Cambridge: Cambridge University Press).

Gutman, A. (1985). 'Communitarian Critics of Liberalism', *Philosophy and Public Affairs*, 14/3: 308 – 322.

Gutmann, A. (gol.) (1992). *Multiculturalism and the Politics of Recognition* (Princeton: Princeton University Press).

Hale, K. (1998). 'On Endangered Languages and the Importance of Linguistic Diversity', yn Grenoble, L. A. a Whaley, L. J. (goln), *Endangered Languages:*

*Current Issues and Future Trends* (Cambridge: Cambridge University Press), 192 – 216.

Hamers, J. F. a Hummel, K. M. (1994). 'The Francophones of Quebec: Language Policies and Language Use', *International Journal of the Sociology of Language*, 105/106: 127 – 152.

HMSO (1993). *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (London: HMSO).

Humphreys, G. E. (2002). 'Polisi Iaith Gwynedd 1983 – 1994', yn Williams, I. W. (gol.), *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939 – 2000* (Talybont: Y Lolfa), 265 – 270.

International Commission on Intervention and State Sovereignty (2001) *The Responsibility to Protect: Report of the International Commission on Intervention and State Sovereignty* (Ottowa: International Development Research Centre).

Ivison, D, Sansers, W. a Patton, P (goln) (2000). *Political Theory and the Rights of Indigenous Peoples* (Cambridge: Cambridge University Press).

Irvine, F., Roberts, G., Spencer, Ll., Jones, P. a Tranter, S. (2008). *Twf ac ymlaen: Asesiad Effaith a'r Ffordd Ymlaen* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg).

Jackson, J. D. (1982). 'The Language Question in Quebec: On Collective and Individual Rights', yn Caldwell, G. a Waddell, E. (gol.), *The English of Quebec: From Majority to Minority Status* (Québec: Institut québécois de recherché sur la culture), 363 – 377.

Jedwab, J. (2008). 'How Shall We Define Thee? Determining Who is an English-Speaking Quebecer and Assessing its Demographic Vitality', yn Bourhis, R. Y. (gol.), *The Vitality of the English-Speaking Communities of Quebec: From Community Decline to Revival* (Montreal: CEETUM, Université de Montréal), 1 – 18.

Jenkins, G. H. (1998). 'Rhagymadrodd', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Iaith Carreg fy Aelwyd: Iaith a Chymuned yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 1 – 20.

Jenkins, G. H. (1999). 'Cymru, Cymry a'r Gymraeg: Rhagymadrodd', yn Jenkins, G. H. (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801 – 1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 1 – 34.

Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (2000). 'Hynt yr Iaith Gymraeg 1900 – 2000: Rhagymadrodd', yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *'Eu Hiaith a Gadwant'? Y Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 1 – 26.

Jenkins, G. a Jones, T. (goln) (1999). *Llyfr y Ganrif* (Talybont: Y Lolfa).

Jenkins, P. (1992). *A History of Modern Wales 1536 – 1990* (London: Longman).

Jenkins, R. (1991). ‘Violence, language and politics: Nationalism in Northern Ireland and Wales’, *North Atlantic Studies*, 3: 31 – 40.

Jenkins, R. (2002). *Pierre Bourdieu* (London : Routledge).

Johnston, D. M. (1989). ‘Native Rights as Collective Rights: A Question of Group Self-Preservation’, *Canadian Journal of Law and Jurisprudence*, 2/1: 19 – 34.

Jones, G. E. a Williams, C. H. (2000). ‘Reactive Policy and Piecemeal Planning: Welsh-medium Education in Cardiff’, yn Williams, C. H. (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 138 – 172.

Jones, J. R. (1967). *A Raid i’r Iaith Ein Gwahanu?* (Gwasg Gomer: Llandysul).

Jones, J. R. (1978). *A Raid i’r Iaith Ein Gwahanu?* (Y Lolfa: Talybont).

Jones, K. a Morris, D. (2007). ‘Welsh-Language Socialization in the Family’, *Contemporary Wales*, 20: 52 – 70.

Kaplan, R. (1994). ‘Language Policy and Planning: Fundamental Issues’, *Annual Review of Applied Linguistics*, 14: 3 – 19.

Kaplan, R. a Baldauf, R. (1997). *Language Planning: From Practice to Theory* (Clevedon: Multilingual Matters).

Keating, M. (1998). ‘Nationalism, Nation-building and Language Policy in Quebec and Catalonia’, yn Haupt, H. G. a Miller, M. G. (goln), *Regional and National Identities in Europe in the XIXth and XXth Centuries* (London: Kluwer Law), 465 – 494.

Keating, M. (2001). *Nations Against the State: The New Politics of Nationalism in Quebec, Catalonia and Scotland* (Basingstoke : Palgrave Macmillan).

Kelly, P. (2002). ‘Introduction: Between Culture and Equality’, yn Kelly, P. (gol.), *Multiculturalism Reconsidered* (Cambridge: Polity Press), 1 – 17.

Krauss, M. (1992). ‘The World’s Languages in Crisis’, *Language*, 68/1: 4 – 10.

Kukathas, C. (1992). ‘Are There Any Cultural Rights’, *Political Theory*, 20/1: 105 – 139.

Kukathas, C. a Pettit, P. (1990). *Rawls: A Theory of Justice and its Critics* (Cambridge: Cambridge University Press).

Kymlicka, W. (1989) *Liberalism, Community and Culture* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. (1992). 'The Rights of Minority Cultures: A Reply to Kukathas', *Political Theory*, 20/1: 140 – 146.

Kymlicka, W. (1995a). *Multicultural Citizenship: A Liberal Theory of Minority Rights* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. (1995b). 'Introduction', yn Kymlicka, W. (gol.), *The Rights of Minority Cultures* (Oxford: Oxford University Press), 1 – 27.

Kymlicka, W. (1998). 'Multinational Federalism in Canada: Rethinking the Partnership', yn Gibbins, R. a Laforest G. (gol.), *Beyond the Impasse: Toward Reconciliation* (Montreal: Institute for Research on Public Policy), 15 – 50.

Kymlicka, W. (2001a). *Politics in the Vernacular: Nationalism, Multiculturalism, and Citizenship* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. (2001b). 'Western Political Theory and Ethnic Relations in Eastern Europe', yn Kymlicka, W a Opalski, M (goln), *Can Liberal Pluralism be Exported? Western Political Theory and Ethnic Relations in Eastern Europe* (Oxford: Oxford University Press), 13 – 105.

Kymlicka, W. (2002). *Contemporary Political Philosophy* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. (2007a). *Multicultural Odysseys: Navigating the New International Politics of Diversity* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. (2007b). Cyfres o dri cyfweliad a gynhaliwyd gan yr ymchwilydd tra'n ymweld â phrifysgol Queens, Ontario fel ysgolhaig gwadd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2007.

Kymlicka, W. (2007c). 'Language Policies, National Identities and Liberal-Democratic Norms', yn Williams, C. H. (gol.), *Language and Governance* (Cardiff: University of Wales Press) 505 – 515.

Kymlicka, W. (2008). Cyfathrebiad personol, e-bost dyddiedig Hydref 27.

Kymlicka, W. a Patten, A. (goln) (2003). *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press).

Kymlicka, W. and Grin, F. (2003). 'Assessing the Politics of Diversity in Transition Countries', yn Daftary, F. a Grin, F. (goln), *Nation Building and Language Politics in Transition Countries* (Budapest: Reform Initiative), 1 – 29.

Lamarre, P. (2007). 'Anglo-Quebec Today: Looking at Community and Schooling Issues', *International Journal of the Sociology of Language*, 185: 109 – 132.

Lamarre, P. (2008). ‘English Education in Quebec: Issues and Challenges’, yn Bourhis, R. Y. (gol.), *The Vitality of the English-Speaking Communities of Quebec: From Community Decline to Revival* (Montreal: CEETUM, Université de Montréal), 63 – 86.

Laponce, J. (1987). *Languages and Their Territories* (Cyfieithiad Anthony Martin-Sperry) (Toronto: University of Toronto Press).

Laporte, P. E. (1984). Status Language Planning in Quebec: An Evaluation’, yn Bourhis, R. Y. (gol.), *Conflict and Language Planning in Quebec* (Clevedon: Multilingual Matters), 53 – 80.

Larrivée, P. (2003). ‘Anglophones and Allophones in Quebec’, yn Larrivée, P. (gol.), *Linguistic Conflict and Language Laws: Understanding the Quebec Case* (London: Palgrave Macmillan), 163 – 187.

Laitin, D. a Reich, R. (2003). ‘A Liberal Democratic Approach to Language Justice’, yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 80 – 104.

Laurin, Camille (1978). ‘Charte de la lange Française / French Language Charter’, *Canadian Review of Sociology and Anthropology*, 15: 115 – 127.

Levine, M. V. (1990). *The Reconquest of Montreal: Language Policy and Social Change in a Bilingual City* (Philadelphia: Temple University Press).

Levy, J. T. (2003). ‘Language Rights, Literacy and the Modern State’, yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 230 – 250.

Lorrain, R. (1966). *La mort de mon joual* (Montreal: Éditions du jour).

Lyon, J. (1991). ‘Patterns of Parental Language Use in Wales’, *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 12/3: 165 – 181.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyfer Cymru Ddwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a’r Cynllun Iaith Gymraeg 2007 – 08* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

MacIntyre, A. (1981). *After Virtue: A Study in Moral Theory* (London: Duckworth).

Mackey, W. F. (1998). ‘The Foundations’, yn Edwards, J. (gol.), *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press), 13 – 35.

MacMillan, C. M. (1983). ‘Language Rights, Human Rights and Bill 101’, *Queens Quarterly*, 90/2: 343 – 361.

MacMillan, C. M. (1998). *The Practice of Language Rights in Canada* (Toronto: University of Toronto Press).

MacMillan, C. M. (2003). 'Federal Language Policy in Canada and the Quebec Challenge' yn Larrivée, P. (gol.), *Linguistic Conflict and Language Laws: Understanding the Quebec Case* (London: Palgrave Macmillan), 87 – 117.

Mallea, J. R. (gol.) (1977). *Quebec's Language Policies: Background and Response* (Quebec: Les presses de L'Université Laval).

Margalit, A. a Raz, J. (1990). 'National Self-Determination', *Journal of Philosophy,* 87/9: 439 – 461.

Maurais, J. (gol.) (1996). *Quebec's Aboriginal Languages: History, Planning and Development* (Clevedon: Multilingual Matters).

May, S. (2000). 'Accommodating and Resisting Minority Language Policy: The Case of Wales', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism,* 3/2: 101 – 128.

May, S. (2001). *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language* (New York: Longman).

May, S. (2003). 'Misconceiving Minority Language Rights: Implications for Liberal Political Thought', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 123 – 152.

McAndrew, M. (2002). 'La Loi 101 en Milieu Scolaire: Impacts et Résultats', yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L'aménagement linguistique au Québec: 25 ans d'application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 69 – 82.

McDonald, M. (1991). 'Should Communities Have Rights? Reflections on Liberal Individualism', *Canadian Journal of Law and Jurisprudence,* 4/2: 217 – 237.

McLeod, W. (1998). 'Autochthonous Language Communities and the Race Relations Act', *Web Journal of Current Legal Issues,*
http://webjcli.ncl.ac.uk/1998/issue1/mcleoad.html
(Cyrchwyd 9.7.08).

McRae, K. (1998). 'Official Bilingualism: From the 1960s to the 1990s' yn Edwards, J (gol.), *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press), 61 – 83.

McRoberts, K. (1979). 'Internal Colonialism: The Case of Quebec', *Ethnic and Racial Studies,* 2/3: 293 – 318.

McRoberts, K. (1998). ‘Linguistic Minorities in a Canada-Quebec Partnership’ yn Gibbins, R. a Laforest, G. (goln), *Beyond the Impasse: Toward Reconciliation* (Montreal: Institute for Research on Public Policy), 187 – 214.

Miller, D. (1995). *On Nationality* (Oxford: Oxford University Press).

Miller, D. (1999). *Principles of Social Justice* (Cambridge, Massachusetts: Harvard University Press).

Miller, D. (2002). ‘Liberalism, Equal Opportunities and Cultural Commitments’, yn Kelly, P. (gol.), *Multiculturalism Reconsidered* (Cambridge: Polity Press), 45 – 61.

Morgan, K. O. (1981). *Rebirth of a Nation: Wales 1880 – 1980* (Oxford: Clarendon Press).

Morgan, K. O. (1995). *Modern Wales: Politics, Places and People* (Cardiff: University of Wales Press).

Morris, D. (2000). ‘Yr Iaith Gymraeg a Chynllunio Awdurdod Lleol yn Ngwynedd 1974 – 1995’, yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *Eu Hiaith a Gadwant? Yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 557 – 580.

Mougeon, R. (1998). ‘French Outside New Brunswick and Quebec’, yn Edwards, J. (gol.), *Language in Canada* (Cambridge: Cambridge University Press), 226 – 251.

Mouvement National des Qébécois et Québécoise (2001). ‘Le Français, Langue Nationale d’un Québec Pluraliste et Démocratique’. Papur a gyflwynwyd i’r Commission des États généraux sur la situation et l’avenir de la langue française au Québec.

Mulhall, S. a Swift, A. (1996). *Liberals and Communitarians*, (Oxford: Blackwell).

Naverson, J. (1991). ‘Collective Rights?’, *Canadian Journal of Law and Jurisprudence*, 4/2: 329 – 345.

Nelde, P., Strubell, M. a Williams, G. (1996). *Euromosaic: The Production and Reproduction of the Minority Language Groups in the European Union* (Luxembourg: Office for Official Publications of the European Communities).

Nettle, D. a Romaine, S. (2000). *Vanishing Voices: The Extinction of the World’s Languages* (Oxford: Oxford University Press).

Oakes, L. (2004). ‘French: a Language for Everyone in Quebec?’, *Nations and Nationalism*, 10/4: 539 – 558.

Oakes, L. a Warren, J. (goln) (2007). *Language, Citizenship and Identity in Quebec* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).

Offe, C. (1998). '"Homogeneity" and Constitutional Democracy: Coping with Identity Conflicts Through Group Rights', *Journal of Political Philosophy,* 6: 131 – 141.

O'Keefe, M. (2001). *Francophone Minorities: Assimilation and Community Vitality* (Ottawa: Department of Canadian Heritage).

Oliver, M. (1993). 'The Impact of the Royal Commission of Bilingualism and Biculturalism on Constitutional Thought and Practice', *International Journal of Canadian Studies*, 7-8: 315 – 332.

Osmond, J. (1992). 'Miliwn yn Mudo', yn Dafis, Ll. (gol.), *Yr Ieithoedd Llai: Cymathu Newydd-Ddyfodiaid* (Talybont: Y Lolfa), 1 – 7.

Parekh, B. (1997). 'Dilemmas of a Multicultural Theory of Citizenship', *Constellations*, 4/1: 54 – 62.

Parekh, B. (2000). *Rethinking Multiculturalism: Cultural Diversity and Political Theory* (London: Macmillan).

Patten, A. (2001). 'Political Theory and Language Policy', *Political Theory*, 29/5: 683 – 707.

Patten, A. (2003a). 'Liberal Neutrality and Language Policy', *Philosophy and Public Affairs,* 31/4: 356 – 386.

Patten (2003b). 'What Kind of Bilingualism?', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln.), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 296 – 321.

Patten, A. a Kymlicka, W. (2003). 'Introduction: Language Rights and Political Theory: Context Issues and Approaches', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 1 – 51.

Paulston, C., Chen, P. a Connerty, M. (1993). 'Language Regenesis: A Conceptual Overview of Language Revival, Revitalization and Reversal', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 14/4: 275 – 286.

Paulston, C. B. a Tucker, G. R. (goln) (2003). *Sociolinguistics: The Essential Readings* (Blackwell: Oxford).

Phillips, D. (2000). 'Hanes Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 1962 – 1998', yn Jenkins, G. H. a Williams, M. A. (goln), *Eu Hiaith a Gadwant? Yr Iaith Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 445 – 471.

Phillips, W. J. (2002). 'Addysg Gymraeg yn Nyfed', yn Williams, I. W. (gol.), *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939 – 2000* (Talybont: Y Lolfa), 280 – 289.
Pinto, M. (2007). 'On the Intrinsic Value of Arabic in Israel – Challenging Kymlicka on Language Rights', *Canadian Journal of Law and Jurisprudence,* 20/1: 1 – 30.

Porter, J. (1975). ‘Ethnic Pluralism in a Canadian Perspective’, yn Glazer, N. a Moynihan, D. (goln), *Ethnicity: Theory and Experience* (Cambridge, Mass: Harvard University Press), 267 – 304.

Rawls, J. (1971). *A Theory of Justice* (Oxford: Oxford University Press).

Rawls, J. (1993). *Political Liberalism* (New York: Columbia University Press).

Raz, J. (1986). *The Morality of Freedom* (Oxford University Press).

Raz, J. (1994). ‘Multiculturalism: A Liberal Perspective’, *Dissent*, Winter: 67 – 79.

Réaume, D. (1991). ‘The Constitutional Protection of Language: Security or Survival?’, yn Schneiderman, D. (gol.), *Language and the State: The Law and Politics of Identity* (Cowansville: Éditions Yvon Blais), 37 – 57.

Réaume, D. (2000). ‘Official-Language Rights: Intrinsic Value and Protection of Difference’, yn Kymlicka, W. a Norman, W. (goln), *Citizenship in Diverse Societies* (Oxford: Oxford University Press), 245 – 272.

Ricento, T. (2006). ‘Language Policy: Theory and Practice – An Introduction’, yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method* (Oxford: Blackwell), 10 – 23.

Richards, John (gol.) (1992). *Survival: Official Language Rights in Canada* (Toronto: C.D. Howe Institute).

Rocher, G. (2002). ‘Les dilemmes identitaires à l’origine de l’engendrement de la Charte de la langue française’, yn Bouchard, P. a Bourhis, R. Y. (goln), *L’aménagement linguistique au Québec: 25 ans d’application de la Charte de la langue français* (Québec: Office québécois de la langue françasie; Publications du Québec), 17 – 24.

Rubio-Marín, R. (2003a). ‘Language Rights: Exploring the Competing Rationales’, yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 52 – 79.

Rubio-Marín, R. (2003b). ‘Exploring the Boundries of Language Rights: Insiders, Newcomers and Natives’, yn Macedo, S. ac Buchanan, A. (goln), *Secession and Self-Determination* (New York: New York University Press), 136 – 173.

Romaine, S. (1995). *Bilingualism* (Oxford: Blackwell).

Rosenblum, N. (gol.) (2000). *Obligations of Citizenship and Demands of Faith: Religious Accommodation in Pluralist Democracies* (Princeton: Princeton University Press).

Rosenfield, M. (1991). *Affirmative Action and Justice: A Philosophical and Constitutional Inquiry* (New Haven: Yale University Press).

Rudin, R. (1985). *The Forgotten Quebecers: A History of English-Speaking Quebec 1759 – 1980* (Québec: Institut québécois de recherché sur la culture).

Rhieni Dros Addysg Gymraeg (2007). *Maniffesto ar Gyfer Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007* (Casnewydd: RHAG).

Sandel, M. (1982). *Liberalism and the Limits of Justice* (Cambridge: Cambridge University Press).

Sandel, M. (1984). 'The Procedural Republic and the Unencumbered Self', *Political Theory*, 12/1: 81 – 96.

Schmidt, R. (2006). 'Political Theory and Language Policy', yn Ricento, T. (gol.), *An Introduction to Language Policy: Theory and Method* (Oxford: Blackwell), 95 – 110.

Scowen, R. (1991). *A Different Vision: The English in Quebec in the 1990s* (Ontario: Maxwell Macmillan Canada).

Seymour, M. (2000). 'Quebec and Canada at the Crossroads: A Nation Within a Nation', *Nations and Nationalism*, 6/2: 227 – 255.

Seymour, M. (2001). 'An Inclusive Nation that Does Not Deny its Origins', yn Venne, M. (gol.), *Vive Quebec! New Thinking and New Approaches to the Quebec Nation* (Cyfieithiad Chodos, R. a Blair, L.) (Toronto: James Lorimer & Company), 146 – 154.

Skutnabb-Kangas, T. (2000). *Linguistic Genocide in Education or Worldwide Diversity and Human Rights?* (Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum Publishers).

Skutnabb-Kangas, T. a Phillipson, R. (goln) (1995). *Linguistic Human Rights: Overcoming Linguistic Discrimination* (New York: de Gruyter).

Smith, A. (1992). 'National Identity and the Idea of European Unity', *International Affairs,* 68/1: 55 – 76.

Spencer, V. (2008). 'Language, History and the Nation: An Historical Approach to Evaluating Language and Cultural Claims', *Nations and Nationalism*, 14/2: 241 – 259.

Spinner, J. (1994). *The Boundaries of Citizenship: Race, Ethnicity and Nationality in the Liberal State* (Baltimore: Johns Hopkins University Press).

Stein, M. (1977). 'Bill 22 and the Non-Francophone Population in Quebec', yn Mallea, J. R. (gol.), *Quebec's Language Policies: Background and Response* (Quebec: Les presses de L'Université Laval), 243 – 265.

Stefanescu A. a Georgeault, P. (goln) (2005). *Le français au Québec: les nouveaux défis* (Montreal: Conseil supérieur de la langue française).

Stevenson, G. (1999). *Community Besieged: The Anglophone Minority and the Politics of Quebec* (Montreal: McGill-Queens University Press).

Supreme Court of Canada (1984). *Attorney General of Quebec v Quebec Protestant School Boards*.

Supreme Court of Canada (1988a). *Ford v Attorney General of Quebec*.

Supreme Court of Canada, (1988b). *Forget v Attorney General of Quebec*.

Supreme Court of Canada, (2005). *Gosselin v Attorney General of Quebec*.

Tamir, Y. (1993). *Liberal Nationalism* (Princeton: Princeton University Press).

Taylor, B. a Thompson, K (goln) (1999). *Scotland and Wales: Nations Again?* (Cardiff: University of Wales Press).

Taylor, C. (1985a). *Philosophy and the Human Sciences: Philosophical Papers* (Cambridge: Cambridge University Press).

Taylor, C. (1985b). 'Alternative Futures: Legitimacy, Identity and Alienation in Late Twentieth Century Canada', yn Cairns, A. a Williams, C. (goln), *Constitutionalism, Citizenship and Society in Canada* (Toronto: University of Toronto Press), 183 – 229.

Taylor, C. (1992). 'The Politics of Recognition', yn Gutmann, A. (gol.), *Multiculturalism and the Politics of Recognition* (Princeton: Princeton University Press), 25 – 73.

Taylor, D. M. a Dubé-Simard, L. (1984). 'Language Planning and Intergroup Relations: Anglophone and Francophone Attitudes Toward the Charter of the French Language', yn Bourhis, R. Y. (gol.), *Conflict and Language Planning in Quebec* (Clevedon: Multilingual Matters), 148 – 174.

Thériault, J. Y. (2007). 'Ethnolinguistic Minorities and National Integration in Canada', *International Journal of the Sociology of Language*, 185: 255 – 263.

Thomas, B. (1959). 'Wales and the Atlantic Economy', *Scottish Journal of Political Economy*, 6/3: 169 – 192.

Thomas, B. (gol.) (1962). *The Welsh Economy: Studies in Expansion* (Cardiff: University of Wales Press).

Thomas, N. (1971). *The Welsh Extremist* (Y Lolfa: Talybont).

Thomas, P. W. a Mathias, J. (goln) (2000). *Developing Minority Languages* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Thompson J. (1991). 'Editor's Introduction', yn Bourdieu, P. *Language and Symbolic Power* (Cambridge : Polity Press), 1 – 31.

Thompson, J. J. (2002). 'Preferential Hiring', yn Cahn, S. M. (gol.), *The Affirmative Action Debate* (London: Routledge), 35 – 50.

Torres, J. (1984). 'Problems of Linguistic Normalization in the Països Catalans: From the Congress of Catalan Culture to the Present Day', *International Journal of the Sociology of Language*, 47: 59 – 63.

Tribunals Service: Employment (1998). *Boylan v Isle of Anglesey County Council*. Case No: 2900883/97.

Tully, J. (1995). *Strange Multiplicity: Constitutionalism in the Age of Diversity* (Cambridge: Cambridge University Press).

Vaillancourt, F. (1992). 'English and Anglophones in Quebec: An Economic Perspective', yn Richards, John (gol.), *Survival: Official Language Rights in Canada* (Toronto: C.D. Howe Institute), 63 – 94.

Van Dyke, V. (1977). 'The Individual, the State and Ethnic Communities in Political Theory', *World Politics*, 29: 343 – 369.

Van Dyke, V. (1982). 'Collective Rights and Moral Rights: Problems in Liberal-Democratic Thought', *Journal of Politics*, 44: 21 – 40.

Waldron, J. (1995). 'Minority Cultures and the Cosmopolitan Alternative', yn Kymlicka, W. (gol.), *The Rights of Minority Cultures* (Oxford: Oxford University Press), 93 – 121.

Walzer, M. (1983). *Spheres of Justice: A Defence of Pluralism and Equality* (Oxford: Blackwell Press).

Walzer, M. (1989). 'The Communitarian Critique of Liberalism', *Political Theory*, 18/1: 6 – 23.

Wardhaugh, R. (2000). *An Introduction to Sociolinguistics* (Oxford: Blackwell).

Watson, W. G. (1992). 'A Comment', yn Richards, J. (gol.), *Survival: Official Language Rights in Canada* (Toronto: C.D. Howe Institute), 95 – 103.

Watson, W. G. (1992). 'Separation and the English of Quebec', yn Richards, J. (gol.), *Survival: Official Language Rights in Canada* (Toronto: C.D. Howe Institute), 104 – 128.

Weinstein, B. (1983). *The Civic Tongue: Political Consequences of Language Choices* (New York: Longman).

Weinstock, D. (2003). 'The Antinomy of Language Policy', yn Kymlicka, W. a Patten, A. (goln), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), 250 – 270.

White, S. (2007). *Equality* (Cambridge: Polity Press).

Williams, C. H. (1992). 'Cymathu Mewnfudwyr: Bygythiad Cudd neu Ddatblygiad i'w Groesawu?', yn Dafis, Ll. (gol.), *Yr Ieithoedd Llai: Cymathu Newydd-Ddyfodiaid* (Talybont: Y Lolfa), 8 – 27.

Williams, C. H. (1994) *Called Unto Liberty* (Clevedon: Multilingual Matters).

Williams, C. H. (1999). 'Governance and the Language', *Contemporary Wales*, 12: 130 – 154.

Williams, C. H. (2000). 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn Williams, C. H. (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 1 – 47.

Williams, C. H. (2004). '*Iaith Pawb*: The Doctrine of Plenary Inclusion', *Contemporary Wales*, 17: 1 – 27.

Williams, G. (1988). 'Discourse on Language and Ethnicity', yn Coupland, N. (gol.), *Styles of Discourse* (London: Croom Helm), 254 – 292.

Williams, G. (1994). 'Discourse on 'Nation' and 'Race': A Response to Denney et al', *Contemporary Wales*, 6: 87 – 103.

Williams, G. a Morris, D. (2000). *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, G. A. (1985). *When Was Wales?* (London: Penguin).

Williams, I. W. (gol.) (2002). *Gorau Arf: Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939 – 2000* (Talybont: Y Lolfa).

Wyn Jones, R. (2006). 'Barn ar Gymru: Dadansoddi'r Ddeddf', *Barn*, Tachwedd 2006: 9 – 12.

Woehrling, J. (2005). 'L'Evolution du carde juridique et conceptuel de la legislation linguistique du Québec', yn Stefanescu A. a Georgeault, P. (goln), *Le français au Québec: les nouveaux défis* (Montreal: Conseil supérieur de la langue française), 253 – 356.

Young, I. M. (1990). *Jusice and the Politics of Difference* (Princeton University Press, Princeton).

Young, I. M. (1993). 'Together in Difference: Transforming the Logic of Group Political Conflict', yn Squires, J. (gol.), *Principled Positions: Postmodernism and the Rediscovery of Value* (London: Lawrence and Wishart), 121 – 150.

Young, I. M. (1997). 'A Multicultural Continuum: A Critique of Will Kymlicka's Ethnic-National Dichotomy', *Constellations*, 4/1: 48 – 53.